# Wylfa Newydd

# Adroddiad ar yr Effaith Leol

Pennod 9: Y Gymraeg a'i Diwylliant

**Rhagfyr 2018**

Cyf PINS:  EN010007

Mae'r dudalen hon i fod yn wag

# 1.0 Y Gymraeg a'i Diwylliant

## 1.1 Trosolwg o'r Effeithiau

1.1.1 Mae Ynys Môn yn lle arbennig ac unigryw iawn, ac mae'r Gymraeg a'i diwylliant yn rhan annatod o hunaniaeth yr ynys. Mae'r Gymraeg, ei diwylliant a'i threftadaeth yn hollbwysig yma. Gall dros dri chwarter plant Ynys Môn a dros hanner yr oedolion sy'n byw ar yr ynys siarad Cymraeg. Mae Ynys Môn yn parhau i fod yn un o gadarnleoedd y Gymraeg. Mae'r Gymraeg yn rhan naturiol o fywyd bob dydd, cydlyniant cymunedol a llesiant ar yr ynys. Mae'r iaith Gymraeg a'i Diwylliant yn edau aur, yn plethu hanes a threftadaeth gyda theimlad cryf o berthyn, cymuned, cydlyniant cymunedol a llesiant. Felly, mae diogelu a gwella'r iaith yn flaenoriaeth bwysig iawn.

1.1.2 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn pennu'r nod o greu Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, a lle mae cymdeithas yn hyrwyddo diwylliant, treftadaeth a'r iaith Gymraeg. Mae cynaliadwyedd y Gymraeg yn dibynnu ar wella cymunedau Cymraeg drwy ddarparu digon o gyfleoedd addysgol, diwylliannol a chymdeithasol i ddefnyddio'r iaith bob dydd. Daw'r cyfleoedd hyn drwy ddulliau ffurfiol fel y system addysg a dosbarthiadau iaith i ddysgwyr, a dulliau anffurfiol fel cymdeithasau, sefydliadau a chlybiau.[1]

1.1.3 Mae pwysigrwydd cynnal a meithrin cymunedau sydd â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg hefyd yn flaenoriaeth yn strategaeth Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru, *Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr.* "*Mae hyn yn bwysig am sawl rheswm. Yn y cymunedau hyn y ceir y canrannau uwch o siaradwyr Cymraeg sy'n disgrifio'u hunain fel siaradwyr rhugl, ac yma y ceir y canrannau uwch o siaradwyr sy'n defnyddio'r Gymraeg amlaf*".[2]

1.1.4 Ni all CSYM orbwysleisio pa mor bwysig yw'r Gymraeg a'i diwylliant i Ynys Môn. Mae CSYM yn gofyn am i'r Gymraeg a'i Diwylliant gael eu trin fel thema hollgynhwysfawr ac edau aur sy'n sail i ystyriaethau o ran effeithiau a mesurau lliniaru ar gyfer pob agwedd ar brosiect Wylfa Newydd. Mae'r rhain yn cynnwys (ymhlith eraill) sgiliau dysgu gydol oes, cyfleoedd am swyddi, tai, twristiaeth, iechyd a llesiant, cynhwysiant cymdeithasol, seilwaith cymdeithasol a chymuned. Mae effaith y prosiect yn bellgyrhaeddol o ran y Gymraeg a'i diwylliant. Felly, mae'n hanfodol bod Horizon yn dangos ymrwymiad ystyrlon, cadarn ac ymarferol tuag at gefnogi a gwella'r Iaith Gymraeg a'i Diwylliant drwy gydol cyfnod y prosiect, o'r cam adeiladu i'r cam gweithredu a'r cam datgomisiynu.

1.1.5 Felly, mae CSYM yn disgwyl mai dyma ddylai prif nod a man cychwyn y polisi a'r mesurau lliniaru fod yng nghyswllt Prosiect Wylfa Newydd, fel cyflogwr a gweithle: Sicrhau

[1] Fforwm Strategol Iaith Ynys Môn: Strategaeth Iaith Gymraeg 2016-2021, tudalen 9, (cyrchwyd 15 Medi 2019 (Dolen)

[2] Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr, tudalen 61. (Dolen)

a) bod y datblygiad yn cael effaith gadarnhaol, yn hytrach nag effaith niweidiol ar “gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg” yn lleol; ac
b) nad yw’r iaith Gymraeg yn cael ei “thrin yn ddim llai ffafriol na’r Saesneg” o fewn y sefydliad a’i weithrediadau.

1.1.6 Mae’n realistig disgwyl y bydd cyfran uchel o weithwyr sy’n siarad Cymraeg yn cael eu cyflogi fel aelodau o weithlu Horizon. Yn wir, mae CSYM yn credu y gall Horizon helpu CSYM i gynyddu nifer a chyfran y siaradwyr Cymraeg ar Ynys Môn, a chyfrannu at darged Llywodraeth Cymru o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 os:

a) bydd yn rhoi cynlluniau cadarn ar waith i recriwtio gweithwyr sy’n siarad Cymraeg, ac
b) yn datblygu sgiliau iaith Gymraeg ei holl weithlu.

**1.1.7 Effeithiau cadarnhaol Prosiect Wylfa Newydd ar y Gymraeg a’i diwylliant:**

a) Gallai creu nifer sylweddol o swyddi lleol lle mae sgiliau iaith Gymraeg yn ofynnol yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu arwain at waith i siaradwyr Cymraeg lleol, yn arbennig pobl ifanc, gan eu hannog i barhau i fyw ar Ynys Môn;
b) Gallai denu siaradwyr Cymraeg a’u teuluoedd sydd wedi symud i ffwrdd, gyda’r swyddi sy’n cael eu cynnig gan Wylfa Newydd a phrosiectau eraill sydd ar y gorwel, arwain at gynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg. Gallai hyn newid y proffil demograffig, sy’n bwysig ar gyfer y tymor hwy;
c) Byddai’n bosibl sicrhau bod y Gymraeg a’i diwylliant yn fwy cynaliadwy ar Ynys Môn pe byddai modd gwyrdroi’r gostyngiad sydd wedi bod ym mhoblogaeth oed gweithio siaradwyr Cymraeg Ynys Môn ers 2008.

**1.1.8 Effeithiau niwtral Prosiect Wylfa Newydd ar y Gymraeg a’i diwylliant:**

a) Ystyrir bod y cynnydd a ragwelir yn nifer y disgyblion ysgolion uwchradd yn ystod y cam adeiladu yn niwtral, oherwydd mae digon o le i ddisgyblion yn y sector ysgolion uwchradd ar hyn o bryd;
b) Fodd bynnag, mae lle mewn ysgolion yn fater ar wahân i’r gallu i ddarparu gwasanaeth trochi iaith a chymorth Saesneg fel Iaith Ychwanegol y gallai fod eu hangen ar y disgyblion hyn.

**1.1.9 Effeithiau negyddol Prosiect Wylfa Newydd ar y Gymraeg a’i diwylliant:**

a) Mae effeithiau negyddol sylweddol posibl ar y Gymraeg a’i diwylliant, pe byddai’r mewnlif o weithwyr dros dro yn llethu’r cymunedau lleol lle byddent yn byw ac yn ymweld â nhw, gan gael effeithiau niweidiol ar ddefnyddio’r Gymraeg fel iaith gyntaf o ddydd i ddydd, cydlyniant cymunedol, y galw am wasanaethau a chyfleusterau, ysgolion, traffig a chludiant, ac ati;
b) Dyna pam mae angen y gyfres o fesurau ataliol a lliniaru sydd wedi’u hamlinellu yn y Bennod hon ac mewn penodau eraill o’r Adroddiad ar yr Effaith Leol, sy’n dangos natur ‘edau aur’ y Gymraeg, y cyfeirir ati ym mharagraff 1.1.4 uchod;

c) Mae'r ddarpariaeth bresennol cyfrwng Cymraeg cyn ysgol a chymorth Saesneg fel Iaith Ychwanegol a throchi iaith y sectorau cynradd ac uwchradd yn llawn yn barod, ac nid yw'n debygol y byddant yn gallu ymdopi â rhagor o blant dibynnol gweithwyr HNP;
d) Oherwydd y diffyg sicrwydd o ran nifer, oed, cefndir iaith (a ydynt yn siarad ieithoedd eraill heblaw am Gymraeg neu Saesneg), anghenion dysgu ychwanegol, lleoliad preswylio a chofrestru mewn ysgolion, mae CSYM yn gofyn i Horizon ddarparu cyllid i baratoi ar gyfer y sefyllfa waethaf cyn y cam adeiladu;
e) Nid yw'r posibilrwydd o ddadleoli llafur siaradwyr Cymraeg mewn rolau gwasanaeth cyhoeddus wedi cael ei gydnabod ddigon, a gallai hynny arwain at ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus presennol yn cael anawsterau'n parhau i ddarparu gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd.
f) Gallai cynigion gwan HNP ar gyfer monitro effaith Wylfa Newydd ar y Gymraeg a'i diwylliant olygu nad yw'r ymrwymiadau o ran lliniaru a gwella yn ddigonol er mwyn diogelu'r Gymraeg a'i diwylliant;
g) Er mwyn osgoi'r effaith negyddol hon, bydd angen gweithdrefnau i fonitro a gwerthuso bob blwyddyn yn ystod pob un o dri cham y prosiect;
h) Hefyd, bydd angen rhoi Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant ar waith a'r cynlluniau gweithredu blynyddol, drwy gydol y cyfnodau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu.

## 2.0 Y Cyd-destun

2.1.1 Mae Ynys Môn yn lle arbennig ac unigryw iawn, ac mae'r Gymraeg a'i diwylliant yn rhan annatod o hunaniaeth yr ynys. Mae'r iaith Gymraeg a'i Diwylliant yn edau aur, yn plethu hanes a threftadaeth gyda theimlad cryf o berthyn, cymuned, cydlyniant cymunedol a llesiant.

2.1.2 Yng Nghymru, mae gan Ynys Môn rôl hanfodol yn cynnal hyfywedd y Gymraeg. Ystyrir Ynys Môn yn un o gadarnleoedd y Gymraeg, oherwydd mai dyma'r awdurdod lleol gyda'r ganran ail uchaf o siaradwyr Cymraeg[3]. Er hynny, mae hyfywedd y Gymraeg ar Ynys Môn yn fregus. Mae ffigurau Cyfrifiad 2011 yn dangos gostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg ar yr ynys o 38,893 (60.1%) yn 2001 i 38,568 (57.2%) yn 2011. Yn yr un modd, mae'r arolygon ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg, *'Defnydd y Gymraeg yng Nghymru'*[4] yn nodi bod canran y siaradwyr Cymraeg ar Ynys Môn sy'n defnyddio'r iaith bob dydd wedi gostwng 10% yn ystod y cyfnod 2004 – 2015 (87% (n=31,500) yn 2004-6 i 77% (n=29, 500) yn 2013-15)[5].

2.1.3 Mae atal a gwrthdroi'r gostyngiad hwn yn un o nodau strategol CSYM a'i bartneriaid. "*Ein gweledigaeth ar gyfer Cyfrifiad 2021 yw gweld cynnydd yn y nifer sy'n siarad y Gymraeg a bod y ganran yn codi i o leiaf 60.1% fel ag yr oedd yn 2001."* [6] Yn benodol, y canlyniad a ddymunir ar gyfer Ynys Môn yn Strategaeth Iaith Gymraeg 2016-2021 yw "*cynnal y wardiau lle mae 70% o'r*

[3] Fforwm Strategol Iaith Ynys Môn: Strategaeth Iaith Gymraeg 2016-2021, tudalen 9. (Dolen)
[4] Arolwg defnydd iaith (Dolen)
[5] Mae rhagor o fanylion ar broffil iaith Gymraeg Ynys Môn ar gael yn Atodiad 9A a 9B : Adroddiad Proffil Ieithyddol Ynys Môn
[6] Fforwm Strategol Iaith Ynys Môn: Strategaeth Iaith Gymraeg 2016-2021, tudalen 5. (Dolen)

*boblogaeth sy'n siarad Cymraeg a chynyddu canrannau gweddill y wardiau eraill.*".[7] Dyma ddau o ddangosyddion y strategaeth: "*cynnydd yn y wardiau sydd â dros 70% yn siarad Cymraeg*" a "*chynnydd yn y wardiau sydd â dros 50% yn siarad Cymraeg*"[8].

2.1.4 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn pennu'r nod o greu Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, a lle mae cymdeithas yn hyrwyddo diwylliant, treftadaeth a'r iaith Gymraeg. Mae cynaliadwyedd y Gymraeg yn dibynnu ar wella cymunedau Cymraeg drwy ddarparu digon o gyfleoedd addysgol, diwylliannol a chymdeithasol i ddefnyddio'r iaith bob dydd. Daw'r cyfleoedd hyn drwy ddulliau ffurfiol fel y system addysg a dosbarthiadau iaith i ddysgwyr, a dulliau anffurfiol fel cymdeithasau, sefydliadau a chlybiau.[9]

2.1.5 Mae pwysigrwydd cynnal a meithrin cymunedau sydd â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg hefyd yn flaenoriaeth yn strategaeth Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru, *Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr.* "*Mae hyn yn bwysig am sawl rheswm. Yn y cymunedau hyn y ceir y canrannau uwch o siaradwyr Cymraeg sy'n disgrifio'u hunain fel siaradwyr rhugl, ac yma y ceir y canrannau uwch o siaradwyr sy'n defnyddio'r Gymraeg amlaf*".[10]

2.1.6 Ni all CSYM orbwysleisio pa mor bwysig yw'r Gymraeg a'i diwylliant i Ynys Môn. Mae CSYM yn gofyn am i'r Gymraeg a'i Diwylliant gael eu trin fel thema hollgynhwysfawr ac edau aur sy'n sail ar gyfer ystyried effeithiau a mesurau lliniaru ar gyfer pob agwedd ar brosiect Wylfa Newydd. Mae'r rhain yn cynnwys (ymhlith eraill) sgiliau dysgu gydol oes, cyfleoedd am swyddi, tai, twristiaeth, iechyd a llesiant, cynhwysiant cymdeithasol, seilwaith cymdeithasol a chymuned. Mae effaith y prosiect yn bellgyrhaeddol o ran y Gymraeg a'i diwylliant. Felly, mae'n hanfodol bod Horizon yn dangos ymrwymiad ystyrlon, cadarn ac ymarferol tuag at gefnogi a gwella'r Iaith Gymraeg a'i Diwylliant drwy gydol cyfnod y prosiect, o'r cam adeiladu i'r cam gweithredu a'r cam datgomisiynu.

## 3.0 Crynodeb o Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg Horizon

3.1 Mae'r adran hon yn cyflwyno rhannau allweddol o asesiad Horizon o effaith Prosiect Wylfa Newydd ar y Gymraeg a'i diwylliant, fel sydd wedi'i grynhoi ar dudalennau 6 i 13 yr AEIG**[11]**. Mae Tabl 1 yn cynnwys trosolwg o asesiad Horizon o'r effaith.

## 3.2 Effeithiau'r Prosiect Cyfan (Cyfrol B / Cydran 1)

### 3.2.1 Nodweddion y boblogaeth

[7] Fforwm Strategol Iaith Ynys Môn: Strategaeth Iaith Gymraeg 2016-2021, tudalen 28. (Dolen)
[8] Fforwm Strategol Iaith Ynys Môn: Strategaeth Iaith Gymraeg 2016-2021, tudalen 28. (Dolen)
[9] Fforwm Strategol Iaith Ynys Môn: Strategaeth Iaith Gymraeg 2016-2021, tudalen 9. (Dolen)
[10] Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr, tudalen 61. (Dolen)
[11] Cyfeirnod Llyfrgell Archwiliadau APP-[432]

3.2.1.1 *Byddai disgwyl i'r cyfleoedd cyflogaeth a fydd yn cael eu cynnig yn ystod y camau adeiladu a gweithredu leihau patrymau'r gorffennol sef pobl ifanc a phobl oed gweithio yn symud... gan arwain at **effaith fanteisiol ganolig** ar y Gymraeg a'i diwylliant.*

3.2.1.2 *Byddai cynnydd yn y boblogaeth yn ystod y cam adeiladu yn cael **effaith niweidiol sylweddol** ar y cydbwysedd o siaradwyr Cymraeg a phobl ddi-Gymraeg ym mhrif ardal yr astudiaeth. Byddai disgwyl i lefel yr effaith fod yn uwch yng ngogledd Ynys Môn, yn arbennig yn wardiau Llanbadrig a Mechell.*

3.2.1.3 *Byddai cael hyd at 4,000 o weithwyr adeiladu yn byw yng Nghampws y Safle yn arwain at **effeithiau niweidiol sylweddol** posibl ar amlygrwydd y Gymraeg a'r defnydd a wneir ohoni yn y cymunedau ger Ardal Datblygu Wylfa Newydd.*

3.2.1.4 *Byddai presenoldeb hyd at 3,000 o weithwyr mewn cymunedau ledled prif ardal yr astudiaeth yn arwain at **effeithiau niweidiol sylweddol** posibl ar amlygrwydd y Gymraeg a'r defnydd a wneir ohoni mewn nifer o gymunedau, yn arbennig yn y wardiau yng ngogledd Môn.*

3.2.1.5 *Efallai na fydd gweithwyr adeiladu di-Gymraeg a'u teuluoedd sy'n symud i'r ardal yn llwyr werthfawrogi nac yn deall diwylliant a thraddodiadau unigryw y Gymraeg ym mhrif ardal yr astudiaeth (**effaith niweidiol ganolig**), a allai arwain at wrthdaro a thensiynau cymdeithasol (**effaith niweidiol fach iawn**).*

### 3.2.2 Cyflogaeth, sgiliau ac addysg

3.2.2.1 *Disgwylir y bydd y cyfleoedd cyflogaeth sylweddol a fydd yn cael eu cynnig yn ystod y cam adeiladu yn arwain at ostyngiad yn nifer y bobl ifanc sy'n gadael prif ardal yr astudiaeth, gan arwain at **effaith fanteisiol ganolig** ar y Gymraeg a'i diwylliant.*

3.2.2.2 *Byddai Prosiect Wylfa Newydd yn creu cyfleoedd sylweddol am brentisiaethau, o ystyried maint a hyd Prosiect Wylfa Newydd. Byddai'r cyfleoedd gwaith parhaol o ansawdd uchel a fyddai'n cael eu cynnig yn ystod y cam gweithredu yn arwain at effaith **fanteisiol ganolig***

### 3.2.3 Buddsoddi a gwario yn yr economi leol

3.2.3.1 *Byddai'r Prosiect yn arwain at fanteision mawr i fusnesau lleol, gan gynnwys yn y sector twristiaeth, yn arbennig yn ystod y cam adeiladu. Byddai'n cael effaith **fanteisiol ganolig** yn gyffredinol.*

### 3.2.4 Busnesau lleol

3.2.4.1 *Mae disgwyl y byddai'r cam adeiladu arwain at fanteision mawr i fusnesau lleol gan gynnwys y sector twristiaid, ac y byddai'n cael **effaith fanteisiol ganolig yn gyffredinol** ar fusnesau lleol, gan gynnwys busnesau Cymraeg eu hiaith.*

### 3.2.5 Prisiau tai

3.2.5.1 *Byddai cynnydd ym mhris llety'n effeithio ar allu'r boblogaeth leol, gan gynnwys siaradwyr Cymraeg, i ddal ati i fyw yn lleol, gan arwain at effaith **niweidiol ganolig** ar y Gymraeg a'i diwylliant yn gyffredinol.*

**3.2.6 Cyflenwad seilwaith ac addysg**

3.2.6.1 *Disgwylir y byddai cyflwyno plant gweithwyr adeiladu i ysgolion cyfrwng Cymraeg lleol yn newid y cydbwysedd o ran siaradwyr Cymraeg a'r bobl ddi-Gymraeg, gan arwain at effaith **niweidiol ganolig** yn gyffredinol.*

3.2.6.2 *Mae effaith **niweidiol fach iawn** wedi'i nodi'n gyffredinol ar amlygrwydd y Gymraeg a'r defnydd a wneir ohoni ymysg plant oed cynradd ac uwchradd ym mhrif ardal yr astudiaeth.*

**3.2.7 Gwasanaethau cymunedol a lleol**

3.2.7.1 *Byddai mwy o alw am gyfleusterau cymunedol yn ystod y camau adeiladu a gweithredu yn fanteisiol o ran diogelu'r gwasanaethau a'r cyfleusterau lleol sy'n cael eu darparu, fel swyddfeydd post, banciau a thafarndai ar gyfer y boblogaeth leol, er mai effaith **fanteisiol fach iawn** fyddai hyn. Mae diogelu gwasanaethau o'r fath sy'n cael eu darparu hefyd yn cyfrannu at gymunedau cynaliadwy lle mae'r Gymraeg a'i diwylliant yn rhan o wead cymdeithasol y cymunedau.*

3.2.7.2 *O ran yr effeithiau ar ddarparu cyfleusterau gofal iechyd, byddai disgwyl effaith **niwtral** ar y gwasanaethau gofal iechyd sy'n cael eu darparu a'r rhai sy'n cael eu darparu ar gyfer y boblogaeth ym mhrif ardal yr astudiaeth (gan gynnwys siaradwyr Cymraeg).*

**3.2.8 Agweddau cymdeithasol a diwylliannol**

3.2.8.1 *Byddai'r cyfleoedd cyflogaeth sy'n cael eu cynnig i'r boblogaeth leol yn ystod y cam adeiladu yn cyfrannu at gadw pobl ifanc. Fodd bynnag, disgwylir y byddai cyflwyno gweithwyr adeiladu di-Gymraeg a'u teuluoedd i grwpiau ieuenctid/gwirfoddol/cymunedol cyfrwng Cymraeg yn gwanhau'r defnydd a wneir o'r Gymraeg yn y grwpiau hynny, gan arwain at effaith **niweidiol fach iawn** yn gyffredinol yn ystod y cam adeiladu.*

3.2.8.2 *Gallai cyflwyno gweithwyr adeiladu di-Gymraeg a'u teuluoedd i gymunedau effeithio'n niweidiol ar amlygrwydd y Gymraeg yn y cymunedau a'r defnydd a wneir ohoni, yn arbennig yn ystod y cam adeiladu. Mae posibilrwydd y bydd nifer y gweithwyr adeiladu na fyddent yn byw gartref y disgwylir iddynt symud i brif ardal yr astudiaeth gyda'u teuluoedd yn ystod y cam adeiladu, yn gwanhau diwylliant a thraddodiadau presennol y Gymraeg, yn ogystal â'r defnydd a wneir o'r Gymraeg yn y gymuned, gan arwain at effaith **niweidiol ganolig** yn gyffredinol.*

**3.2.9 Amwynder amgylcheddol**

3.2.9.1 *Mae disgwyl i effeithiau amgylcheddol posibl ar lefel prosiect cyfan yn ystod*

*y cam adeiladu ddigwydd yn bennaf oherwydd sŵn a dirgryndod. Nodir effaith **niweidiol fach** yn gyffredinol ar y Gymraeg. Yn ystod y cam gweithredu, nodir effaith **fach iawn** yn gyffredinol.*

### 3.3 Ardal Datblygu Wylfa Newydd (Cyfrol C / Cydran 2)

#### 3.3.1 Nodweddion y boblogaeth

3.3.1.1 *Effaith **niwtral** ar y Gymraeg, ac eithrio yng nghyswllt allfudo lle mae disgwyl effaith **niweidiol fach** yn ystod y cam adeiladu ac effaith **niweidiol fach iawn** yn ystod y cam gweithredu.*

#### 3.3.2 Amwynder amgylcheddol

3.3.2.1 *Petai pobl yn gadael yr ardal o ganlyniad i ddirywiad yn ansawdd yr amwynder amgylcheddol, byddai hyn yn cael effaith niweidiol ar y Gymraeg yn yr Ardal Dylanwad Leol, yn arbennig yn wardiau Llanbadrig a Mechell, gan arwain at effaith **niweidiol fach** yn gyffredinol.*

3.3.2.2 *Ni ddisgwylir y bydd effaith sylweddol ar y Gymraeg a'i diwylliant yn ystod y cam adeiladu (effaith **niweidiol fach iawn** yn gyffredinol).*

#### 3.3.3 Cyflenwad seilwaith ac addysg

3.3.3.1 *Felly, nodir effaith **fanteisiol fach iawn** yn gyffredinol ar y Gymraeg yn ystod y camau adeiladu a gweithredu.*

#### 3.3.4 Busnesau lleol

3.3.4.1 *Mae disgwyl i bresenoldeb y gweithwyr adeiladu yn Ardal Datblygu Wylfa Newydd, gan gynnwys y rheini sy’n aros yng Nghampws y Safle, arwain at wario ychwanegol mewn busnesau lleol yn yr Ardal Dylanwad Leol, a fyddai’n effaith **fanteisiol fach iawn**.*

3.3.4.2 *Fodd bynnag, cydnabyddir ei bod hi’n bosibl y bydd rhai busnesau twristiaeth yn gweld rhai effeithiau niweidiol. Disgwylir i weithredu’r Orsaf Bŵer arwain at wariant ychwanegol i fusnesau yn yr Ardal Dylanwad Leol, a fyddai o fudd i’r busnesau lleol hyn (effaith **fanteisiol fach iawn**).*

#### 3.3.5 Agweddau cymdeithasol a diwylliannol

3.3.5.1 *Gall y mewnlifiad o weithwyr adeiladu na fyddent yn byw gartref i gymunedau sy'n agos at Ardal Datblygu Wylfa Newydd arwain at rywfaint o wrthdaro/tensiynau cymdeithasol rhwng trigolion Ardal Dylanwad Leol Ardal Datblygu Wylfa Newydd a’r gweithwyr na fyddent yn byw gartref, sy’n cael ei nodi fel effaith **niweidiol fach iawn** yn gyffredinol.*

3.3.5.2 *Nodir effaith **niweidiol fach** ar draddodiadau a diwylliant y Gymraeg yn ystod y cam adeiladu.*

**3.4 Y Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer (hynny yw, Canolfan Rheoli Argyfwng Amgen, Labordy Arolygon Amgylcheddol a Garej Offer Argyfwng Symudol) (Cyfrol D / Cydran 3)**

3.4.1.1 Effaith **niwtral** gyffredinol ar y boblogaeth yn ystod camau adeiladu a gweithredu cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer oherwydd bod effeithiau ar y boblogaeth yn cael eu hasesu o dan effeithiau'r prosiect cyfan.

3.4.1.2 Byddai disgwyl i waith adeiladu'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer arwain at effeithiau **niweidiol bach iawn** ar amwynder amgylcheddol cymunedau'r Ardal Dylanwad Leol o ganlyniad i newidiadau yn ansawdd yr aer, sŵn a dirgryndod.

3.2.1.3 Byddai disgwyl i'r effeithiau uniongyrchol ar fusnesau yn yr Ardal Dylanwad Leol yn sgil gwariant ychwanegol fod yn fach (effaith **fanteisiol fach iawn**).

**3.5 Parcio a Theithio (Cyfrol E / Cydran 4)**

3.5.1.1 *Effaith **niwtral** gyffredinol ar y boblogaeth yn ystod camau adeiladu a gweithredu'r cyfleuster Parcio a Theithio oherwydd eu bod yn cael eu hasesu o dan effeithiau'r prosiect cyfan.*

3.5.1.2 *Byddai disgwyl i bresenoldeb y gweithwyr adeiladu a gweithredu sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r cyfleuster Parcio a Theithio arwain at fwy o wariant mewn gwasanaethau a busnesau lleol fel y siop a'r swyddfa bost a'r dafarn. Nid oes disgwyl i'r cynnydd hwn yn y galw am wasanaethau fod yn sylweddol; fodd bynnag, byddai'n arwain at **effaith fanteisiol** drwy gyfrannu at eu diogelu yn yr Ardal Dylanwad Leol (effaith fanteisiol fach iawn).*

3.5.1.3 *Byddai hyn yn cyfrannu at gynnal economi wledig gydol cam gweithredu'r cyfleuster Parcio a Theithio (chwe blynedd), ac felly byddai **o fudd** i boblogaeth yr Ardal Dylanwad Leol, gan gynnwys siaradwyr Cymraeg.*

**3.6 Newidiadau i Briffordd yr A5025 (Cyfrol F / Cydran 5)**

3.6.1.1 *Effaith **niwtral** gyffredinol ar y boblogaeth yn ystod camau adeiladu a gweithredu'r Newidiadau i Briffordd yr A5025 oherwydd eu bod yn cael eu hasesu o dan effeithiau'r prosiect cyfan.*

3.6.1.2 *Wrth ystyried effaith y Newidiadau i Briffordd yr A5025 yn gyffredinol, nodir effaith **niweidiol fach iawn yn gyffredinol**.*

**3.7 Canolfan Logisteg (Cyfrol G / Cydran 6)**

*3.7.1.1 Effaith **niwtral** gyffredinol ar y boblogaeth yn ystod gwaith adeiladu a gweithredu'r Ganolfan Logisteg oherwydd eu bod yn cael eu hasesu o dan effeithiau'r prosiect cyfan.*

*3.7.1.2 Oherwydd y nifer fach o weithwyr adeiladu mae disgwyl iddynt fod yn gysylltiedig â'r Logisteg, byddai disgwyl i'r effeithiau uniongyrchol ar*

*fusnesau yn yr Ardal Dylanwad Leol yn sgil gwariant ychwanegol fod yn fach (effaith **fanteisiol fach iawn**).*

### 3.8 Effeithiau Cronnus (Cyfrol H / Cydran 7)

*3.8.1.1 Wrth ystyried effaith gyffredinol adeiladu a gweithredu Prosiect Wylfa Newydd o ran effeithiau'r prosiect cyfan, nodir effaith **fanteisiol fach iawn**.*

*3.8.1.2 Wrth ddefnyddio'r system sgorio (gweler Dogfen 8.21, Tabl H-3), nodir sgôr mynegai sylfaen cyffredinol ar gyfer pob datblygiad unigol fel a ganlyn:*

*a) Effeithiau'r prosiect cyfan: effaith **fanteisiol fach iawn**;*
*b) Ardal Datblygu Wylfa Newydd: effaith **niweidiol fach iawn**;*
*c) Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer: effaith **niwtral**;*
*d) Parcio a Theithio: effaith **niwtral**;*
*e) Newidiadau i Briffordd yr A5025 effaith **niwtral**;*
*f) Canolfan Logisteg: effaith **niwtral**.*

| Tabl 1: Crynodeb o Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg Horizon[12] | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **CYDRAN 1 - EFFEITHIAU'R PROSIECT CYFAN (CYFROL B)** | | | *"effaith **fanteisiol fach iawn**"* | | |
| | **Effaith fanteisiol sylweddol** | **Effaith fanteisiol fach** | **Niwtral / Effeithiau manteisiol/niweidiol bach iawn** | **Effaith niweidiol fach** | **Effaith niweidiol sylweddol** |
| **Nodweddion y Boblogaeth** | | | | | |
| Gostyngiad yn nifer y bobl ifanc a'r bobl oed gweithio yn symud allan o'r ardal | | √ | | | |
| Effaith cynnydd yn y boblogaeth yn ystod y cam adeiladu ar brif ardal yr astudiaeth | | | | | √ |
| Effaith Campws y Safle ar Ardal Datblygu Wylfa Newydd o ganlyniad i gynnydd yn y boblogaeth yn ystod y cam adeiladu | | | | | |
| Effaith gweithwyr nad ydynt yn byw ar y Campws ar brif ardal yr astudiaeth yn ystod y cam adeiladu | | | | | √ |
| Diffyg dealltwriaeth gweithwyr a'u teuluoedd o ddiwylliant a thraddodiadau'r Gymraeg | | | | √ | |
| Yn arwain at densiynau cymdeithasol a gwrthdaro | | | √ | | |
| **Cyflogaeth, sgiliau ac addysg** | | | | | |
| Cyfleoedd sylweddol am brentisiaethau | √ | | | | |
| **Buddsoddi a gwario yn yr economi leol** | | | | | |

[12] Cyfeirnod Llyfrgell Archwiliadau APP-[432]

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Effaith ar fusnesau lleol, gan gynnwys twristiaeth | | √ | | | |
| Effaith ar fusnesau dan berchnogaeth siaradwyr Cymraeg | | √ | | | |
| **Prisiau tai** | | | | | |
| Effaith ar allu'r boblogaeth leol, gan gynnwys siaradwyr Cymraeg, i barhau i fyw yn lleol | | | | √ | |
| **Cyflenwad seilwaith ac addysg** | | | | | |
| Cyflwyno plant gweithwyr adeiladu i ysgolion cyfrwng Cymraeg lleol | | | | √ | |
| Effaith ar amlygrwydd y Gymraeg a'r defnydd a wneir ohoni ar blant oed ysgol prif ardal yr astudiaeth | | | √ | | |
| **Gwasanaethau cymunedol a lleol** | | | | | |
| Effaith mwy o alw yn ystod y camau adeiladu a gweithredu | | | √ | | |
| Effaith ar gyfleusterau gofal iechyd | | | √ | | |
| **Agweddau cymdeithasol a diwylliannol** | | | | | |
| Effaith gweithwyr adeiladu di-Gymraeg ar grwpiau cymunedol/gwirfoddol/ieuenctid cyfrwng Cymraeg | | | √ | | |
| Effaith gweithwyr adeiladu di-Gymraeg a'u teuluoedd ar amlygrwydd cymunedau Cymraeg a'r defnydd a wneir ohonynt ym mhrif ardal yr astudiaeth | | | | √ | |
| **Amwynder Amgylcheddol** | | | | | |
| Effaith sŵn a dirgryndod ar y Gymraeg | | | √ | | |

| **CYDRAN 2 ARDAL DATBLYGU WYLFA NEWYDD (CYFROL C)** | *"effaith **niweidiol fach iawn**"* | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Nodweddion y Boblogaeth** | | | | | |
| Gostyngiad yn nifer y bobl ifanc a'r bobl oedran gweithio yn symud allan o'r ardal | | | √ | | |
| **Cyflenwad seilwaith ac addysg** | | | | | |
| Cyflwyno plant gweithwyr adeiladu i ysgolion cyfrwng Cymraeg lleol | | | √ | | |
| **Buddsoddi a gwario yn yr economi leol** | | | | | |
| Effaith ar fusnesau lleol, gan gynnwys twristiaeth | | | √ | | |
| **Agweddau cymdeithasol a diwylliannol** | | | | | |
| Effaith gweithwyr adeiladu di-Gymraeg ar grwpiau cymunedol/gwirfoddol/ieuenctid cyfrwng Cymraeg / Effaith | | | √ | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| gweithwyr adeiladu di-Gymraeg a'u teuluoedd ar amlygrwydd cymunedau Cymraeg a'r defnydd a wneir ohonynt ym mhrif ardal yr astudiaeth | | | | | |
| **Amwynder Amgylcheddol** | | | | | |
| Effaith sŵn a dirgryndod ar y Gymraeg / Effaith ar amlygrwydd y Gymraeg a'r defnydd a wneir ohoni ar blant oed ysgol prif ardal yr astudiaeth | | | √ | | |

| **CYDRAN 3 Y Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer (hynny yw, Canolfan Rheoli Argyfwng Amgen, Labordy Arolygon Amgylcheddol a Garej Offer Argyfwng Symudol) CYFROL D** | *"effaith **niwtral**"* | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Nodweddion y Boblogaeth** | | | | | |
| Effaith ar Boblogaeth | | | √ | | |
| **Buddsoddi a gwario yn yr economi leol** | | | | | |
| Effaith ar fusnesau lleol, gan gynnwys twristiaeth | | | √ | | |
| **Amwynder Amgylcheddol** | | | | | |
| Effaith sŵn a dirgryndod ar y Gymraeg / Effaith ar amlygrwydd y Gymraeg a'r defnydd a wneir ohoni ar blant oed ysgol prif ardal yr astudiaeth | | | √ | | |

| **CYDRAN 4 PARCIO A THEITHIO (CYFROL E)** | *"effaith **niwtral**"* | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Nodweddion y Boblogaeth** | | | | | |
| Effaith ar Boblogaeth | | | √ | | |
| **Buddsoddi a gwario yn yr economi leol** | | | | | |
| Effaith ar fusnesau lleol, gan gynnwys twristiaeth | | | √ | | |

| **CYDRAN 5 NEWIDIADAU I BRIFFORDD YR A5025 (CYFROL F)** | *"effaith **niwtral**"* | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Nodweddion y Boblogaeth** | | | | | |
| Effaith ar Boblogaeth | | | √ | | |
| **Effaith Gyffredinol** | | | | | |
| Effaith Gyffredinol | | | √ | | |

| **CYDRAN 6 CANOLFAN LOGISTEG (CYFROL G)** | *"effaith **niwtral**"* | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Effaith Gyffredinol** | | | | | |
| Effaith Gyffredinol | | | √ | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **CYDRAN 7 EFFEITHIAU CRONNUS (CYFROL H)** | | | *“effaith **fanteisiol fach iawn**”* | | | |
| **Effaith Gyffredinol** | | | | | | |
| Effaith Gyffredinol | | | √ | | | |

## 4.0 Ymateb CSYM i AEIG Horizon

4.1 Cyflwynir sylwadau ar bwyntiau egwyddor eang ynghylch AEIG Horizon yn yr adran hon, a nodir nifer o wendidau. Nodir ambell bwynt ynghylch sut gellid rhoi sylw i'r gwendidau hyn. Yn adran 6 y bennod hon, nodir y camau y dylid eu cymryd i osgoi, lleihau, lliniaru neu wneud iawn am effeithiau niweidiol.

### 4.2 Y Fethodoleg a ddefnyddiwyd ar gyfer yr AEIG

4.2.1 'Cynllunio a'r Iaith Gymraeg: Y Ffordd Ymlaen' (2005)[13] yw'r fethodoleg y mae Horizon wedi'i defnyddio wrth gynnal Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg ar gyfer prosiect Wylfa Newydd. Dyma'r fethodoleg AEIG y mae'r rhan fwyaf o aseswyr yn y maes cynllunio wedi bod yn ei defnyddio, gan gynnwys awdurdodau lleol, ers 2005. Mae cyfyngiadau i'r fethodoleg hon, ac mae'r asesiadau o'r effeithiau tebygol yn parhau i fod yn weddol oddrychol. Mae CSYM yn bryderus nad yw rhai o'r asesiadau yn yr AEIG yn ddigon cadarn.

4.2.2 Mae CSYM yn cydnabod, ac yn derbyn bod y fethodoleg yn unol â'r canllawiau sydd wedi cael eu mabwysiadu yng Nghanllawiau Cynllunio Atodol CSYM ar y Gymraeg (2007).[14]

4.2.3 Fodd bynnag, mae CSYM yn nodi, yn ei sylwadau ar yr AEIG a gynhaliwyd ar gyfer y CDLlC fod *"...cynnal asesiadau iaith yn faes sy'n destun trafodaeth ac yn arbenigedd sy'n dal i gael ei ddatblygu... Dylid nodi hefyd bod methodoleg yr Asesiad o'r Effaith ar Iaith yn broses oddrychol sydd â'r nod o ganfod yr effeithiau posibl a allai ddeillio o gynnig neu bolisi.*"

4.2.4 Felly, mae neilltuo gwerthoedd i effeithiau tebygol yn oddrychol, ac mae modd herio hynny. **Mae Horizon wedi dewis asesu'r effaith ar y Gymraeg a'i diwylliant yng nghyswllt prif ardal yr astudiaeth a'r Ardal Teithio i'r Gwaith Bob Dydd (Adeiladu) yn bennaf. Mae'r dull gweithredu hwn yn arwain at leihau'r effaith y mae'r prosiect yn debygol o'i chael ar gymunedau penodol ar Ynys Môn. Yn benodol, mae'r tebygolrwydd y bydd yr effaith negyddol ar y cymunedau sydd agosaf at Wylfa Newydd, fel Tregele, Llanfechell, Cemaes, Amlwch, Llanfachraeth, Llanfaethlu, Carreglefn a Rhosybol yn wardiau Llanbadrig, Mechell, Porth Amlwch, Amlwch Wledig a Llanfaethlu yn debygol o fod yn fwy na'r hyn sydd wedi'i nodi gan AEIG Horizon.**

### 4.3 Nodweddion y Boblogaeth

4.3.1 Mae'n debyg mai effaith fwyaf Prosiect Wylfa Newydd ar ardal y Prosiect o ran y Gymraeg a'i diwylliant fydd y gweithlu a fydd ei angen i adeiladu, gweithredu a datgomisiynu Prosiect Wylfa Newydd. Yn benodol, effaith debygol y nifer o weithwyr adeiladu na fyddent yn byw gartref (a'u dibynyddion) yn symud i'r Ynys, eu dosbarthiad daearyddol a'u hymgysylltiad â'r gymuned leol sy'n peri

[13] Cynllunio a'r Iaith Gymraeg: Y Ffordd Ymlaen (2005) (Dolen)
[14] CSYM (2007) Canllawiau Cynllunio Atodol, Cynllunio a'r Iaith Gymraeg (Dolen)

pryder. Mae hyn yn digwydd o ganlyniad i gynyddu crynodiadau o weithwyr mewn wardiau, gan ostwng canran y siaradwyr Cymraeg sy'n byw yn y wardiau hynny.

4.3.2 Mae CSYM yn derbyn ffigurau 'sefyllfa waethaf bosibl at ddibenion asesu' Horizon, sef y bydd cyfanswm nifer y gweithwyr yn ystod cyfnod prysuraf y cam adeiladu yn 9,000. Mae Horizon yn nodi mai dim ond 1260 o swyddi fydd yn cael eu llenwi gan drigolion Ynys Môn, a bod disgwyl i 6,560 o'r 7,000 o weithwyr adeiladu na fyddent yn byw gartref fyw ar Ynys Môn, yn arbennig yng ngogledd a gorllewin yr ynys.[15]

4.3.3 Nid yw'r AEIG yn datgan, nac yn cyflwyno tystiolaeth, ynghylch dosbarthiad daearyddol tebygol y teuluoedd na fyddent yn byw gartref, nac yn benodol, faint o'r 505 o bartneriaid a dibynyddion sy'n symud i brif ardal yr astudiaeth fydd yn byw ar Ynys Môn yn ystod y cam adeiladu. Mae ffigur sy'n nes at ben uchaf y sefyllfa yn cynrychioli lefel o fewnfudo o'r tu allan i'r ynys a fydd yn cael effaith llawer mwy sylweddol nag un sydd â ffigur ymylol.

4.3.4 Mae Horizon yn cydnabod arwyddocâd y trothwyon o dros 70% a dros 50% o siaradwyr Cymraeg wrth adlewyrchu hyd a lled allweddol hyfywedd ieithyddol ardal ddaearyddol. Yn 2011 roedd wyth ward ar Ynys Môn gyda dros 70% o siaradwyr Cymraeg[16] a 21 ward gyda dros 50% o siaradwyr Cymraeg[17]. Mae AEIG Horizon yn rhagweld y bydd canran y siaradwyr Cymraeg yn wardiau Bryngwran (Gorllewin Ynys Môn) a Gwyngyll (De Ynys Môn) yn disgyn o dan y trothwy 70% yn Ynys Môn o ganlyniad i fwy o fewnfudo. Yn ôl Cyfrifiad 2011, roedd 71.2% (n=1311) o gyfanswm poblogaeth Bryngwran (n=1841) yn siaradwyr Cymraeg ac roedd 70.5% (n=1093) o gyfanswm poblogaeth Gwyngyll (n=1,550) yn siarad Cymraeg. Yn ôl Horizon, byddai cynnydd o 1.8% yn y boblogaeth a gostyngiad o 1.3% yng nghanran y siaradwyr Cymraeg ym Mryngwran. Byddai Gwyngyll yn gweld cynnydd o 1.3% yn y boblogaeth a gostyngiad o 0.9% yng nghanran y siaradwyr Cymraeg.[18]

4.3.5 Dyma'r pedair ward lle byddai canran y siaradwyr Cymraeg yn gostwng o dan y trothwy 50%: Llanbadrig (Gorllewin Ynys Môn), Llanfair-yn-Neubwll (Gorllewin Ynys Môn), Moelfre (Gogledd Ynys Môn) a Pharc a'r Mynydd (Gorllewin Ynys Môn). Yn ôl Cyfrifiad 2011 roedd 52.4% (n=690) o gyfanswm poblogaeth Llanbadrig (n=1317) yn siaradwyr Cymraeg; roedd 50.5% (n=1369) o gyfanswm poblogaeth (n=2764) Llanfair-yn-Neubwll yn siarad Cymraeg; roedd 52.3% (n=554) o boblogaeth Moelfre (n=1059) yn siarad Cymraeg ac roedd 50.4% (n=563) o gyfanswm poblogaeth Parc a'r Mynydd (n=1117) yn siarad Cymraeg. O ganlyniad, mae AEIG Horizon yn rhagweld y bydd Llanbadrig yn gweld cynnydd o 17% yn y boblogaeth a gostyngiad o 7.9% yn nifer y siaradwyr Cymraeg; bydd Llanfair-yn-Neubwll yn gweld cynnydd o 2.7% yn y boblogaeth a gostyngiad o 1.4% yn y siaradwyr Cymraeg; bydd Moelfre yn gweld cynnydd o 15.5% yn y boblogaeth a gostyngiad o 7.1% yn y siaradwyr

[15] Cyfeirnod Llyfrgell Archwiliadau APP-[432], para. B.4.2.1.
[16] Cyngar (80.8%); Tudur (80.7%); Cefni (80.5%); Llanfihangel Ysgeifiog (75.8%); Bodffordd (73.3%); Braint (73.2%); Bryngwran (71.2%) a Gwyngyll (70.5%).

[17] Fforwm Strategol Iaith Ynys Môn: Strategaeth Iaith Gymraeg 2016-2021, tudalen 9. (Dolen)
[18] Cyfeirnod Llyfrgell Archwiliadau APP-[432], para. 4.81

Cymraeg a bydd Parc a'r Mynydd yn gweld cynnydd o 1.8% yn y boblogaeth a gostyngiad o 0.9% yn y siaradwyr Cymraeg.

4.3.6 Nodir bod Horizon wedi defnyddio'r **model disgyrchiant** i ragweld ble mae gweithwyr sy'n mewnfudo i'r ardal a'u teuluoedd yn debygol o chwilio am lety, a dyma ddefnyddiwyd i ddadansoddi'r wardiau y bydd mewnfudo yn effeithio arnynt.

4.3.7 Mae CSYM yn nodi asesiad Horizon y byddai cynnydd yn y boblogaeth yn ystod y cam adeiladu yn debygol o gael effaith niweidiol sylweddol ar y cydbwysedd o siaradwyr Cymraeg a phobl ddi-Gymraeg ym mhrif ardal yr astudiaeth. Byddai disgwyl i lefel yr effaith fod yn uwch yng ngogledd Ynys Môn.

4.3.8 Yn benodol, wardiau Llanbadrig (roedd 52.4% n=690 o gyfanswm y boblogaeth (n=1317) yn siaradwyr Cymraeg yn 2011 yn ôl y Cyfrifiad) a Mechell (roedd 68.6% n=1030 o gyfanswm y boblogaeth (n=1502) yn siaradwyr Cymraeg).[19],[20] Nodir hefyd y byddai 'cael hyd at 4,000 o weithwyr adeiladu yn byw yng Nghampws y Safle yn debygol o gael effeithiau niweidiol sylweddol posibl ar amlygrwydd y Gymraeg a'r defnydd a wneir ohoni yn y cymunedau ger Ardal Datblygu Wylfa Newydd, gan gynnwys Tregele, Cemaes, Amlwch, Llanfachraeth a Llanfaethlu.[21] Byddai amlygrwydd y Gymraeg a'i diwylliant a'r defnydd ohonynt yn wardiau Llanbadrig (fel uchod), Mechell (fel uchod) a Llanfaethlu (roedd 64.4% (n=1025) o gyfanswm poblogaeth y ward (n=1592) yn siarad Cymraeg yn 2011)[22] hefyd yn debyg o weld effaith niweidiol oherwydd presenoldeb gweithwyr adeiladu sy'n cael llety ar Gampws y Safle.[23]

4.3.9 Byddai presenoldeb hyd at 3,000 o weithwyr mewn cymunedau ledled prif ardal yr astudiaeth yn arwain at effeithiau niweidiol sylweddol posibl ar amlygrwydd y Gymraeg a'r defnydd a wneir ohoni mewn nifer o gymunedau, yn arbennig yn y wardiau yng ngogledd Môn, fel Llanbadrig (fel uchod), Llanfaethlu (fel uchod), Mechell (fel uchod) a Moelfre (roedd 52.3% n=554 o gyfanswm y boblogaeth o n=1059 yn siarad Cymraeg yn 2011)[24] yn ogystal â ward Llanbedrgoch (43.9% n=654 (cyfanswm y boblogaeth n=1490) o siaradwyr Cymraeg yn 2011)[25] yn ne Ynys Môn. Yn y cymunedau yn y wardiau hyn y byddai gweithwyr adeiladu na fyddent yn byw gartref yn aros gyda'u teuluoedd.[26]

4.3.10 Mae'n dal i fod yn bosibl y bydd patrymau mewnfudo nad ydynt wedi'u nodi gan y model disgyrchiant yn effeithio'n niweidiol ar wardiau ychwanegol. Fodd bynnag, mae CSYM yn arbennig o bryderus am yr effaith ar y wardiau sydd wedi'u nodi uchod. Yn unol â'i Strategaeth Iaith Gymraeg 2016-2021, mae CSYM yn disgwyl i Horizon wneud pob ymdrech i osgoi achosi i unrhyw ward ar Ynys Môn ddisgyn o dan gyfrannau siaradwyr Cymraeg cyfrifiad 2011. Yn ogystal â diogelu'r wardiau gyda'r trothwyon dros 70% a 50%, mae CSYM

[19] Cyfeirnod Llyfrgell Archwiliadau APP-[432], tud. 6
[20] NOMIS: Cyfrifiad 2011: Proffil Cymraeg, awdurdodau unedol Cymru (KS208WA). (Dolen)
[21] Cyfeirnod Llyfrgell Archwiliadau APP-[432], tud. 7

[22] NOMIS: Cyfrifiad 2011: Proffil Cymraeg, awdurdodau unedol Cymru (KS208WA). (Dolen)
[23] Cyfeirnod Llyfrgell Archwiliadau APP-[432], tudalen 7.
[24] NOMIS: Cyfrifiad 2011: Proffil Cymraeg, awdurdodau unedol Cymru (KS208WA). (Dolen)
[25] NOMIS: Cyfrifiad 2011: Proffil Cymraeg, awdurdodau unedol Cymru (KS208WA). (Dolen)
[26] Cyfeirnod Llyfrgell Archwiliadau APP-[432], tud. 7

hefyd yn disgwyl i Horizon osgoi achosi unrhyw ostyngiad yng nghyfran y siaradwyr Cymraeg yn y wardiau lle mae canrannau is o siaradwyr Cymraeg a lle mae CSYM wedi buddsoddi'n helaeth mewn cynnal a meithrin y defnydd o Gymraeg.

4.3.11 Ar hyn o bryd, mae Horizon yn cyfrifo y bydd 220 o blant oed ysgol yn symud i brif ardal yr astudiaeth yn ystod cam adeiladu prosiect Wylfa Newydd. Mae CSYM wedi mynegi amheuon difrifol am y fethodoleg y defnyddiodd Horizon i gyfrifo nifer y dibynyddion a fydd yn dod gyda'r gweithwyr sy'n symud i Ynys Môn. Mae'r fethodoleg a ddefnyddiwyd yn rhagweld mai dim ond 3% o weithwyr sy'n symud i'r ardal fydd yn dod â'u teuluoedd gyda nhw. Nid yw CSYM yn derbyn bod y ffigurau'n rhesymol. Mae ffigurau CSYM yn amcangyfrif y bydd 500-510 o blant dibynnol yn ystod y cam adeiladu.

**4.3.12 Darlun bras yn unig a geir yn y Model Disgyrchiant a ddefnyddiwyd i ragweld yr ardaloedd lle byddai gweithwyr Horizon yn debygol o fyw. Mae'n dal i fod yn bosibl y bydd patrymau mewnfudo nad ydynt wedi'u nodi gan y model disgyrchiant yn effeithio'n niweidiol ar wardiau ychwanegol. Mae gofyn i Horizon ddarparu tybiaethau sy'n fwy clir a chadarn ynghylch ble byddai teuluoedd na fyddent yn byw gartref yn debygol o fyw. Os nad yw hyn yn bosibl, bydd gofyn cael cyllid gwrthsefyll priodol i ymateb i'r effeithiau sy'n anhysbys ar hyn o bryd, os bydd angen.**

## 4.4 Lleihau Allfudo

4.4.1 Mae gofyn cael cynllun Swyddi a Sgiliau llawer gwell i annog a hwyluso preswylwyr lleol i wella eu sgiliau'n briodol a lleihau nifer y bobl ifanc sy'n allfudo, yn arbennig yn y tymor byr i ganolig. Dylid blaenoriaethu hyn, yn ogystal â denu pobl leol a'u teuluoedd yn ôl i'r Ynys drwy gynnig cyfleoedd gwaith da yn Wylfa Newydd, er mwyn diogelu'r Gymraeg a'i diwylliant. Hefyd, mae angen monitro a lliniaru effaith y nifer helaeth o siaradwyr di-Gymraeg a fydd yn mewnfudo i Ynys Môn ar amrywiaeth o sefydliadau, gan gynnwys gweithgareddau ieuenctid ac i deuluoedd yn y gymuned, ledled Ynys Môn, ac yn arbennig yng ngogledd yr Ynys.

### 4.4.2 Y Cam Gweithredu

4.4.2.1 Yn ystod y cam gweithredu, rhagwelir y bydd 85% (740) o weithlu'r cam gweithredu a'u 63 o bartneriaid a dibynyddion yn byw ar Ynys Môn.[27] Yn ei lythyr at Horizon ar 24ain Awst 2018,[28] gofynnodd CSYM am eglurhad ar unwaith ynghylch cyfansoddiad aelwydydd y gweithwyr na fyddent yn byw gartref, ac yn benodol, am nifer y gweithwyr y rhagdybir fyddai'n dod â phartneriaid a dibynyddion gyda nhw. Ni chafwyd yr wybodaeth hon.

4.4.2.2 Nid oes manylion ynghylch union nifer y gweithwyr dros dro ychwanegol hyn yn ystod y cam gweithredu, ble byddent yn byw nac i ba raddau y byddai disgwyl y byddent yn dod o boblogaeth leol Ynys Môn ai peidio. Nid oes

[27] Cyfeirnod Llyfrgell Archwiliadau APP-[432], para. B.3.28.
[28] Gweler Atodiad 9C Llythyr CSYM at Horizon 24 Awst 2018 'Cyfansoddiad Aelwydydd Gweithwyr Na Fyddent yn Byw Gartref (Nifer y Partneriaid a'r Dibynyddion)'

unrhyw eglurhad o gwbl ynghylch sut mae disgwyl i'r gweithlu gael ei ddosbarthu y tu hwnt i'r 4,000 o weithwyr a fydd wedi'u lleoli ar Gampws y Safle.

### 4.4.3 Y Cam Datgomisiynu

4.4.3.1 Nid oes dadansoddiad ynghylch effaith y gweithlu datgomisiynu a'u dibynyddion wedi cael ei ddarparu[29]. Mae'r diffyg eglurder hwn yn annerbyniol.

## 4.5 Seilwaith ac Addysg

4.5.1 Mae angen cydnabod effaith dibynyddion gweithlu Wylfa Newydd Horizon ar gymeriad ieithyddol ysgolion ymhellach. Mae amcangyfrif Horizon o 220 o ddibynyddion oed ysgol yn ystod y cam adeiladu yn rhy geidwadol. Mae CSYM yn rhagweld y bydd 500 – 510 o blant dibynnol yn ystod y cyfnod hwn. Rhoddir sylw i hyn o dan Gwestiwn 13 yr asesiad (adrannau B.4.359 – B.4.401). Fel sy'n cael ei grynhoi yn adran B.4.395, nodir bod yr effaith gyffredinol yn ystod y cam **adeiladu**, gan ddefnyddio'r pwysoliad a ddefnyddiwyd yn yr AEIG yn debygol o gael "*effaith niweidiol ganolig yn gyffredinol (gyda sgôr o -0.7*)". Fel sy'n cael ei grynhoi yn adran B.4.401, nodir bod yr effaith gyffredinol yn ystod y cam **gweithredu**, gan ddefnyddio'r pwysoliad a ddefnyddiwyd yn yr AEIG yn debygol o gael "*effaith niweidiol fach iawn yn gyffredinol (gyda sgôr o -0.1*)".

4.5.2 Nid yw nifer ac oed y plant dibynnol, oed ysgol yn hysbys ar hyn o bryd, ac nid ydym yn gwybod beth fydd eu dosbarthiad daearyddol tebygol chwaith. Felly, mae hefyd yn bosibl, er y bydd yr effaith debygol ar brif ardal yr astudiaeth yn gyffredinol yn llai niweidiol, mae'n debygol y bydd rhagor o effeithiau sylweddol mewn rhai mannau, yn arbennig ar Ynys Môn. Yn dibynnu ar ba ysgolion sy'n derbyn plant ychwanegol a nifer y plant ychwanegol ym mhob ysgol, bydd angen mesurau lliniaru a gwella i osgoi effaith niweidiol ar ddefnydd o'r Gymraeg yn yr ysgol. Mae'n debygol y bydd angen diogelu diwylliant a thraddodiadau Cymraeg yn well er mwyn osgoi 'gwanhau' defnyddio'r Gymraeg, diwylliant a thraddodiadau Cymraeg ym mhrif ardal yr astudiaeth, ac ar yr Ynys yn arbennig. Mae angen mesurau ar CSYM hefyd a fydd yn diogelu ac yn gwella'r Gymraeg er mwyn bodloni ei dargedau polisi i gynyddu nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg ar yr Ynys.

## 4.6 Traddodiad a Diwylliant y Gymraeg

4.6.1 Mae CSYM yn credu, ar sail hyd y cyfnod adeiladu, y bydd Prosiect Wylfa Newydd yn cael effaith ac yn gwanhau'r Gymraeg, ei diwylliant a'i thraddodiadau ym mhrif ardal yr astudiaeth oherwydd y mewnlif helaeth o weithwyr di-Gymraeg na fyddent yn byw gartref. Mae AEIG Horizon yn cydnabod y bydd hyn yn cael effaith ganolig gyffredinol ar draws prif ardal yr astudiaeth. Fodd bynnag, gallai'r effaith niweidiol ar ardaloedd lleol unigol ar

[29] Mae Cyfeirnod Llyfrgell Archwiliadau APP-[432], para. B.3.36 yn nodi "fodd bynnag, mae modd cael syniad o'r newidiadau posibl mewn gweithlu drwy edrych ar brosiectau tebyg fel hen orsafoedd pŵer Magnox yn Nhrawsfynydd yng Ngwynedd, yn ogystal â'r Orsaf Bŵer Bresennol yn Nhrwyn Wylfa", ac nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei darparu.

Ynys Môn yn arbennig ac mewn ardaloedd penodol yn y rhanbarth ehangach lle mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio gan ganran sylweddol o'r boblogaeth bob dydd, fod yn llawer mwy.

### 4.7 Gwasanaethau Cymunedol a Lleol

4.7.1 Fel mae Horizon yn casglu, mae'n debygol na fydd y cynnydd yn y boblogaeth yn sgil Wylfa Newydd yn cael effaith negyddol ar rai gwasanaethau lleol sy'n cael eu darparu, ee banciau, swyddfeydd post a llyfrgelloedd. Fodd bynnag, mae'r galw ar wasanaethau eraill, fel addysg a gofal plant cyn ysgol, er enghraifft, yn debygol o arwain at alw na fydd y ddarpariaeth bresennol yn gallu ei ddiwallu. Gallai gael effaith negyddol ar ddefnydd o'r Gymraeg mewn dosbarthiadau cymunedol, sefydliadau, digwyddiadau a mathau eraill o weithgareddau cymunedol mewn rhai lleoliadau, felly bydd angen strategaethau lliniaru penodol er mwyn lleihau'r effaith. Byddai mesurau lliniaru i oresgyn yr effaith ar wasanaethau a gweithgareddau cymunedol lleol yn cynnwys ariannu Gwasanaethau Iaith Cymunedol cadarn (i'w ddatblygu gyda rhanddeiliaid), paratoi deunyddiau hyfforddi i helpu i integreiddio gweithwyr sy'n mewnfudo, ehangu cwmpas y Gwasanaeth Cyfieithu Cymunedol, a chefnogi'r gwasanaethau blynyddoedd cynnar (cyn ysgol) sy'n cael eu darparu.

### 4.8 Y Gymraeg yn y Gweithle

4.8.1 Er ein bod yn cydnabod nad yw Horizon yn ddarostyngedig i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn statudol, mae CSYM yn awyddus i sicrhau bod Prosiect Wylfa Newydd yn gweithredu'n unol â nodau ac amcanion deddfwriaeth bresennol y Gymraeg[30] yn unol â'r arferion gorau y mae sefydliadau o faint a statws tebyg wedi'u mabwysiadu, gan gydymffurfio â'r Nodau Llesiant.

4.8.2 **Felly, mae CSYM yn disgwyl mai dyma ddylai prif nod a man cychwyn y polisi a'r mesurau lliniaru fod yng nghyswllt Prosiect Wylfa Newydd, fel cyflogwr a gweithle: Sicrhau**

**a) bod y datblygiad yn cael effaith gadarnhaol, yn hytrach nag effaith niweidiol ar "gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg" yn lleol; ac**
**b) nad yw'r iaith Gymraeg yn cael ei "thrin yn ddim llai ffafriol na'r Saesneg" o fewn y sefydliad a'i weithrediadau.**

4.8.3 Mae CSYM yn cydnabod mai Saesneg fydd y brif iaith ar gyfer rhai agweddau penodol o'r gweithredu, am resymau sy'n ymwneud â diogelwch a thrwydded y safle niwclear. Er hynny, gellir disgwyl i agweddau eraill y gwaith gweithredu roi statws cyfartal i'r Gymraeg a'r Saesneg.

4.8.4 Bydd "cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg" mewn sefyllfaoedd cymdeithasol yn y gwaith ac yn y cymunedau ble bydd y gweithlu'n byw yn dibynnu ar sawl ffactor allweddol, a bydd gofyn rhoi sylw manwl i'r rhain ym Mholisi Iaith Gymraeg Corfforaethol Horizon ac yn ei Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant, gan gynnwys y canlynol:

[30] Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. (Dolen)

a) proffil ieithyddol y gweithlu (anhysbys ar hyn o bryd);
b) dosbarthiad y gweithlu yn y cymunedau lleol (wedi'i ragfynegi yn ôl y model disgyrchiant ar hyn o bryd, ond nid oes gwybodaeth fwy manwl);
c) effaith yr uchod ar gyfran y siaradwyr Cymraeg a rhai di-Gymraeg mewn ysgolion, cymunedau a chyfarfodydd grwpiau cymunedol (anhysbys ar hyn o bryd);
d) rheoli disgwyliadau gweithwyr sy'n mewnfudo o gefndiroedd diwylliannol mwyafrifol (Saesneg/iaith fwyafrif arall) a lefelau ymwybyddiaeth isel o'r Gymraeg a'i diwylliant (nid yw'r mater hwn wedi cael sylw yn AEIG Horizon hyd yma);
e) Arfarniad realistig o'r gyfradd caffael iaith Gymraeg a ragwelir ymhlith gweithwyr sy'n mewnfudo a'u teuluoedd (nid yw'r mater hwn wedi cael sylw yn AEIG Horizon hyd yma);
f) i ba raddau y mae'r defnydd arferol o Gymraeg yn cael ei sefydlu a'i gefnogi gan reolwyr mewn sefyllfaoedd yn y gweithle (anhysbys ar hyn o bryd, ac yn dibynnu ar Bolisi Iaith Gymraeg Corfforaethol Horizon a sut bydd yn cael ei roi ar waith).

4.8.5 Fel y nodir uchod, nid yw Prosiect Wylfa Newydd yn dod o fewn cylch gwaith Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Rheoliadau Safonau'r Gymraeg sydd wedi'u llunio o dan y Mesur. Felly, mae gweithgareddau Horizon y tu hwnt i gylch gwaith statudol Comisiynydd y Gymraeg. Fodd bynnag, mae dros 600 o sefydliadau, elusennau a busnesau wedi defnyddio holiadur ar-lein y Comisiynydd i lunio Cynllun Hybu'r Gymraeg[31] neu wedi datblygu Polisi Iaith Gymraeg o'u gwirfodd, sydd wedi'i gymeradwyo gan Gomisiynydd y Gymraeg. Hyd yma, mae dros 40 o elusennau a microfusnesau, busnesau bach, canolig a mawr yn y sector preifat wedi cwblhau a mabwysiadu cytundebau gwirfoddol â Chomisiynydd y Gymraeg. Mae trefniadau o'r fath yn arbennig o briodol i sefydliadau proffil uchel fel Is-adran Gwasanaethau Allgymorth Dau Dŷ'r Senedd, Llundain neu sefydliadau y bydd eu gweithgareddau'n cael effaith sylweddol ar gymunedau lleol fel Horizon.

**4.8.6 O ganlyniad i'r effaith y rhagwelir y bydd prosiect Wylfa Newydd yn ei chael ar hyfywedd y Gymraeg yn lleol, mae CSYM o'r farn gref y dylai Horizon ddilyn arferion gorau sydd wedi'u sefydlu wrth ddatblygu gweithlu dwyieithog. Ychydig iawn o gyfeiriadau at fesurau monitro ac adrodd cadarn sydd ar gael yn y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant ar hyn o bryd. Byddai cytundeb gwirfoddol gyda Chomisiynydd y Gymraeg i fabwysiadu trefniadau monitro ac adrodd blynyddol yn briodol. Byddai gofyn am sylwadau Comisiynydd y Gymraeg ynghylch mesurau Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant a Pholisi Iaith Gymraeg Horizon a gofyn i'r Comisiynydd eu cymeradwyo yn gam cyntaf cadarnhaol.**

4.8.7 Er mai ychydig o ddylanwad sydd gan Horizon dros i ba raddau y gellir annog ei weithlu i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg yn y gymuned, gall Horizon gael

[31] Cynllun Hybu'r Gymraeg Comisiynydd y Gymraeg, ar y wefan: (Dolen)

dylanwad uniongyrchol ar agwedd ac ymddygiad y gweithlu o ran yr Iaith Gymraeg a'i diwylliant yn y gweithle. Gall Horizon fynd ati i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei defnyddio yn y gweithle a hwyluso'r broses i weithwyr nad ydynt yn siarad Cymraeg ddysgu'r iaith. Fel hyn, gall Horizon gyfrannu at darged Llywodraeth Cymru, sef cael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

**4.8.8 Mae CSYM yn gofyn am i'r Strategaeth Rheoli'r Gweithlu gynnwys manylion cynhwysfawr am yr egwyddorion y bydd Horizon a'i bartneriaid yn eu dilyn i reoli'r gweithlu, gan leihau effeithiau posibl gweithlu dros dro sylweddol ar y cymunedau lleol hyn.**

4.8.9 Yna, bydd angen rhoi'r egwyddorion hyn ar waith drwy gyfrwng y Cod Ymddygiad yn ystod y cam adeiladu. Byddai CSYM wedi disgwyl gweld Cod Ymddygiad drafft erbyn y cam hwn. Nid oes modd asesu effeithiau'r prosiect yn llawn os nad yw CSYM yn deall dull gweithredu Horizon yn llwyr o ran sut mae am fonitro a rheoli ei weithlu.

## 5.0 Safbwynt Polisi CSYM yng nghyswllt y Gymraeg a'i Diwylliant

5.1 Drwy sicrhau bod unrhyw ddatblygiad newydd perthnasol yn ystyried unrhyw effaith bosibl ar allu'r boblogaeth leol i ddefnyddio'r Gymraeg, mae gan y system cynllunio defnydd tir gyfraniad cydnabyddedig i'w wneud i lesiant y Gymraeg a'i diwylliant ar yr Ynys.

5.2 Mae'r meini prawf canlynol o'r Polisïau yng Nghynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd a fabwysiadwyd (Gorffennaf 2017) yn arbennig o berthnasol:

a) *Maen Prawf 5, Polisi PS 9 Wylfa Newydd a datblygiad perthynol*, sy'n nodi bod disgwyl na fydd gofynion llety gweithwyr adeiladu (rhagwelir y bydd 75% ohonynt yn dod o'r tu allan i'r ardal (hynny yw, 7,000 o weithwyr)), yn arwain at effeithiau economaidd, cymdeithasol nac ieithyddol niweidiol.
b) *Maen Prawf 10, Polisi PS 9 Wylfa Newydd a datblygiad perthynol*, sy'n nodi bod disgwyl i Horizon ystyried capasiti cyfleusterau cymunedol lleol. Er nad yw hyn wedi'i gynnwys fel enghraifft yng ngeiriad y Polisi, mae'r cyfleusterau hyn yn cynnwys capasiti ysgolion lleol, canolfannau trochi iaith a chyfleusterau lleol sy'n darparu cyrsiau Cymraeg i oedolion er mwyn delio â'r galw ychwanegol o ganlyniad i Wylfa Newydd.
c) *Maen Prawf 11, Polisi PS 9 Wylfa Newydd a datblygiad perthynol*, sy'n nodi bod disgwyl y bydd y Prosiect yn cynnwys mesurau priodol ar gyfer hybu cydlyniant cymunedol.

5.3 Mae *GP 14 Canllawiau Cynllunio Atodol Wylfa Newydd sydd wedi'u mabwysiadu (Mai 2018)* yn arbennig o berthnasol hefyd. Mae'n cyflwyno'r disgwyliadau o ran y mesurau yr ystyrir sy'n addas i liniaru effeithiau niweidiol a chryfhau effeithiau cadarnhaol.

5.4 Mae asesiad CSYM o'r effeithiau lleol posibl yn dynodi y gallai'r Prosiect arwain at amrywiaeth o effeithiau (niweidiol a chadarnhaol) ar gymunedau ac arwain at alw ychwanegol ar gyfleusterau cymunedol presennol, sy'n feysydd pwysig er

mwyn cynnal a gwella’r Gymraeg a’i diwylliant ar yr Ynys. Mae’r rhain yn wahanol i’r rhai y mae Horizon wedi’u nodi. Heb strategaethau lliniaru a monitro cadarn, o safbwynt y Gymraeg a’i diwylliant, mae CSYM yn parhau i bryderu na fydd y profion Polisi uchod yn cael eu bodloni.

5.5 Ar sail hyn, mae gofynion *maen prawf 10, Polisi PS 9* a gofynion *Polisi PS 2 Isadeiledd a chyfraniadau gan ddatblygwyr* a *Pholisi ISA 1 Darpariaeth isadeiledd* yn arbennig o berthnasol hefyd. Ar yr amod bod y profion statudol yn cael eu bodloni, disgwylir cyfraniadau i sicrhau gwelliannau o ran yr isadeiledd, y cyfleusterau a’r gwasanaethau (a allai gynnwys uwchraddio'r cyfleusterau presennol) er mwyn lliniaru’r effeithiau.

5.6 Pan fydd asesiad o ddatblygiad yn canfod effeithiau posibl (cadarnhaol neu negyddol) disgwylir y bydd ymgeisydd yn ystyried a fyddai modd gwella effaith gadarnhaol ac a fyddai modd rheoli effaith negyddol i lefel dderbyniol. Gellid cynnwys y mesurau gwella neu liniaru hyn yn y gwaith datblygu neu eu sicrhau drwy gyfraniadau (yn amodol ar brofion statudol). Mae’r dull gweithredu hwn yn gydnaws â *maen prawf 4, Polisi PS 5 Datblygu cynaliadwy*, a’r disgwyliadau a nodir ym *Mholisi PS 1 Yr Iaith Gymraeg a’r Diwylliant Cymreig*. Mae’r cyntaf yn ceisio sicrhau bod datblygiadau’n cyd-fynd ag egwyddorion datblygu cynaliadwy, sy’n cynnwys cefnogi a hybu defnyddio'r iaith Gymraeg. Mae’r ail, yn nodi o dan faen prawf 4, bod disgwyl y dylid gwrthod cynigion a fyddai’n achosi niwed sylweddol i gymeriad a chydbwysedd ieithyddol cymuned na ellir ei osgoi neu ei liniaru’n briodol drwy fecanweithiau cynllunio priodol.

5.7 Nid yw CSYM yn credu bod y mesurau sydd wedi’u cynnwys yn y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a’i Diwylliant yn ddigon cadarn i wella a lliniaru’r effeithiau a nodwyd.

a) Mae *maen prawf 16, Polisi PS 9 Wylfa Newydd a datblygiad perthynol* yn arbennig o berthnasol hefyd. Mae’n berthnasol o safbwynt y Gymraeg a'i diwylliant oherwydd byddai CSYM yn disgwyl gweld trothwyon cadarn ar gyfer adrodd a monitro dosbarthiad gofodol gweithwyr er mwyn lleihau effeithiau posibl gweithlu dros dro sylweddol ar ddefnyddio’r Gymraeg yn y cymunedau lleol ar yr Ynys. Mae angen i drothwyon yn y fframwaith monitro fod yn ddigon cadarn er mwyn canfod tueddiadau yn ddigon cynnar, a allai arwain at batrymau o ran ymddygiad pe byddent yn cael eu gadael, ac unwaith y byddai’r rhain wedi’u sefydlu, byddai’n anodd gwrthwneud hynny. Mae gofynion *maen prawf 3, Polisi PS 10 Wylfa Newydd: llety arddull campws ar gyfer gweithwyr adeiladu*, yn arbennig o berthnasol hefyd, yng nghyd-destun monitro a mynd ati i fynd i’r afael ag effeithiau ychwanegol neu wahaniaethau i’r tybiaethau sy’n sail i achos Horizon. Gallai’r gwahaniaethau ddeillio o nifer o ffactorau, ee cynnydd yn nifer y gweithwyr, gwahaniaeth o ran o ble daw y gweithwyr, oedi o ran darparu'r isadeiledd, neu ddim yn gallu cyflogi’n lleol.

5.8 Fel sy’n cael ei ddisgrifio yn y bennod hon o’r Adroddiad ar yr Effaith Leol ac mewn penodau eraill, nid yw CSYM wedi’i argyhoeddi bod y fframwaith monitro’n ddigon cadarn.

## 6.0 Bylchau yn yr wybodaeth

### 6.1 Llety

6.1.1 Yn ei lythyr at Horizon ar 24ain Awst 2018,[32] gofynnodd CSYM am eglurhad ar unwaith ynghylch cyfansoddiad aelwydydd y gweithwyr na fyddent yn byw gartref, ac yn benodol, am nifer y gweithwyr y tybir fyddai'n dod â phartneriaid a dibynyddion gyda nhw.

6.1.2 Nid oes dadansoddiad ynghylch effaith y gweithlu datgomisiynu a'u dibynyddion wedi cael ei ddarparu[33].

### 6.2 Capasiti Ysgolion a Chymeriad Ieithyddol Ysgolion

6.2.1 Mae CSYM yn gwerthfawrogi nad yw union niferoedd y dibynyddion yn hysbys ar hyn o bryd, na pha bryd y byddant yn cyrraedd na ble byddant yn byw. Fodd bynnag, bydd CSYM angen data ynghylch niferoedd, oed, cefndir ieithyddol, man preswylio a dewis lleoliad addysg bwriadedig y dibynyddion a fydd yn symud i Ynys Môn gyda gweithwyr Horizon, er mwyn sicrhau bod yr awdurdod addysg a'r ysgolion yn gallu gwneud cynlluniau digonol ar gyfer derbyn niferoedd ychwanegol mewn ysgolion.

6.2.2 Mae disgwyl y bydd yr asesiad mwy manwl hwn o effaith bosibl y dibynyddion ar gymeriad ieithyddol yr ysgolion yn cynnwys y tair elfen ganlynol:

a) dadansoddi data ar gapasiti ysgolion cynradd ac uwchradd yng Ngogledd Ynys Môn, De Ynys Môn, Gorllewin Ynys Môn a'r Ardal Dylanwad Leol yn ystod y camau adeiladu a gweithredu;
b) modelu gwahanol sefyllfaoedd o gael cynnydd yn nifer y disgyblion ysgol er mwyn helpu i bennu lefel bosibl yr effaith ar glystyrau ysgolion a chymunedau penodol ar yr ynys;
c) tystiolaeth ansoddol gan ysgolion am effaith rhagor o ddisgyblion di-Gymraeg ar adnoddau, yn arbennig disgyblion sy'n cyrraedd yn hwyr ac o wahanol oed a gwahanol gefndiroedd diwylliannol ac ieithyddol.

6.2.3 Mae CSYM wedi cynnal gwaith proffilio iaith cychwynnol ar gyfer poblogaethau ysgolion cynradd ac uwchradd ym mhob ysgol ar Ynys Môn gan ddefnyddio data CYBLD 2018. Mae'r data'n nodi gallu ieithyddol disgyblion ym mhob ysgol gynradd (Atodiad 1, Map 11) a phob ysgol uwchradd (Atodiad 1, Mapiau 18 ac 19). Mae modd defnyddio'r data hwn i helpu i ganfod yr ysgolion hynny y bydd plant ychwanegol gweithlu Horizon yn cael yr effaith fwyaf arnynt a helpu CSYM a Horizon i dargedu cymorth ychwanegol a monitro pa mor effeithiol yw'r cymorth sydd ar gael.

[32] Gweler Atodiad 9C Llythyr CSYM at Horizon 24 Awst 2018 'Cyfansoddiad Aelwydydd Gweithwyr Na Fyddent yn Byw Gartref (Nifer y Partneriaid a'r Dibynyddion)'

[33] Cyfeirnod Llyfrgell Archwiliadau APP-[432], para. B.3.36 "fodd bynnag, mae modd cael syniad o'r newidiadau posibl mewn gweithlu drwy edrych ar brosiectau tebyg fel hen orsafoedd pŵer Magnox yn Nhrawsfynydd yng Ngwynedd, yn ogystal â'r Orsaf Bŵer Bresennol yn Nhrwyn Wylfa", ac nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei darparu.

## 6.3 Addysg a Chyflogaeth sy’n gysylltiedig â’r Iaith Gymraeg

6.3.1 Nid yw’r data a gyflwynir yn yr AEIG a’r Adroddiad Gwaelodlin yn asesu effaith Prosiect Wylfa Newydd ar atal siaradwyr Cymraeg rhag allfudo yn ddigonol. Fel y nodir yn llythyr CSYM at Horizon ar 27ain Medi 2018[34], mae angen rhagor o wybodaeth yn strategaeth Swyddi a Sgiliau Horizon. Yn ystod y cam adeiladu, dim ond 1260 o’r 9000 o swyddi posibl yn ystod y cyfnod prysuraf y mae Horizon yn disgwyl y bydd preswylwyr Ynys Môn yn eu llenwi. Felly, nid yw’n glir i ba raddau y bydd y prosiect yn helpu i leihau nifer y bobl ifanc sy’n allfudo, yn arbennig yn y tymor byr i ganolig. Hefyd, nid yw’n glir sut disgwylir y byddai cynnydd o 6% mewn cyflogaeth ar Ynys Môn o ganlyniad uniongyrchol i gam adeiladu Prosiect Wylfa Newydd.[35] Nid oes unrhyw dystiolaeth i gefnogi’r honiad hwn wedi’i chynnwys yn yr AEIG nac yn Adroddiad Gwaelodlin yr Asesiad o’r Effaith ar yr Iaith Gymraeg. Cyflwynir data ar lefel y cymwysterau sydd gan siaradwyr Cymraeg Ynys Môn[36] ond nid yn ôl pwnc na maes. Yn yr un modd, ni roddir syniad ynghylch lefelau'r cymwysterau sydd eu hangen ar gyfer Prosiect Wylfa Newydd. Daw CSYM i’r casgliad nad yw’r data a gyflwynir yn ddigon i fesur effaith Prosiect Wylfa Newydd ar atal siaradwyr Cymraeg rhag symud allan oherwydd diffyg cyfleoedd gwaith.

## 6.4 Traddodiad a Diwylliant y Gymraeg

6.4.1 Mae’r AEIG yn nodi y bydd ‘lefel yr effaith’ yn dibynnu’n bennaf ar ba mor fodlon yw’r gweithiwr na fyddent yn byw gartref i integreiddio’n ddiwylliannol ac yn ieithyddol. Nid oes data nac astudiaethau cymharu’n cael eu darparu i ddangos pa mor debygol yw hyn o ddigwydd pan fydd siaradwyr iaith fwyafrifol yn symud i ardaloedd iaith leiafrifol yn y tymor byr. Hyd yma, mae profiad Cymru yn dangos bod hyn yn annhebygol iawn.

6.4.2 Nid yw’r data gwaelodlin yn yr AEIG a’r Adroddiad Gwaelodlin yn cyflwyno proffil manwl, ar lefel cymunedol, o’r ystod o ddefnydd a wneir o’r Gymraeg ar hyn o bryd mewn rhwydweithiau cymunedol allweddol, gweithgareddau cymunedol a grwpiau gwirfoddol / cymunedol.

6.4.3 Mae gwaith proffilio iaith gymunedol cynnar CSYM (Atodiad 1) ar gyfer gallu iaith Gymraeg arweinwyr a chyfranogwyr grwpiau cymunedol, yn ogystal â data am iaith gweithgareddau grŵp, yn dechrau rhoi darlun ar lefel ward ble mae’r grwpiau hyn yn cyfarfod, gan nodi i ba raddau mae eu gweithgareddau’n cael eu cynnal yn Gymraeg, yn ddwyieithog neu’n Saesneg. Dyma ddata hanfodol, a bydd gofyn ychwanegu at hyn, er mwyn cael gwaelodlin ystyrlon ar gyfer defnydd cymunedol cyn Wylfa Newydd, gan dargedu mesurau lliniaru a gwella a dull o fonitro effaith drwy gydol oes prosiect Wylfa Newydd.

---

[34] Gweler Atodiad 9D Llythyr CSYM at Horizon 30 Tachwedd 2017 Ynghylch Adolygu Dogfennau’r DCO Drafft (Adran 7 – Addysg a Sgiliau)

[35] Cyfeirnod Llyfrgell Archwiliadau APP-[432], para B4.1.101

[36] Cyfeirnod Llyfrgell Archwiliadau APP-[432], Tabl D-24 (Atodiad A7-1, tudalen 157).

## 6.5 Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd

6.5.1 Mae'r dystiolaeth waelodlin a ddarparwyd gan Horizon wedi'i chyfyngu i restr dila o grwpiau cymunedol dethol ger pob un o safleoedd cydrannau prosiect Wylfa Newydd. Mae hyn yn annigonol. Ni ddylai'r dystiolaeth waelodlin a ddefnyddir fel sail ac i fonitro effaith fod wedi'i chyfyngu i'r safleoedd hyn. Dylai hefyd gynnwys y cymunedau hynny ble mae disgwyl i weithwyr sy'n mewnfudo a'u teuluoedd fyw. Hefyd, mae angen proffil mwy manwl o'r grwpiau gwirfoddol / gweithgaredd / cymunedol er mwyn cynnwys amrywiaeth ehangach o weithgareddau a grwpiau lleol sydd wedi'u hanelu at wahanol grwpiau oed; proffilio nifer ac oed pobl ifanc / teuluoedd ac unigolion eraill sy'n dod i weithgareddau cymunedol a phroffiliau defnydd iaith presennol y grwpiau hyn. Fel y nodwyd yn y paragraff blaenorol, mae CSYM wedi cwblhau gwaith proffilio grwpiau cymunedol cychwynnol (Atodiad 1) ond mae angen cael proffil llawn o'r grwpiau cymunedol, fel sydd wedi'i ddisgrifio, o hyd. Ar ôl adolygu'r proffil manwl hwn, byddai angen cytuno ar feini prawf i ddiffinio lefelau 'cadarn' a 'risg' o ran y defnydd o'r Gymraeg mewn grwpiau gwirfoddol / gweithgaredd / ieuenctid lleol ar hyn o bryd a defnyddio hynny ar y cyd â phroffil a data mewnfudo i fodelu sefyllfaoedd o risg posibl.

## 3.2.6.6 Grwpiau cymunedol a gwasanaethau lleol

6.6.1 Nid yw'r data gwaelodlin yn yr AEIG a'r Adroddiad Gwaelodlin yn cyflwyno proffil manwl, ar lefel cymunedol, o'r ystod o ddefnydd a wneir o'r Gymraeg ar hyn o bryd mewn rhwydweithiau cymunedol allweddol, gweithgareddau cymunedol a grwpiau gwirfoddol / cymunedol a gwasanaethau lleol. Byddai'n hanfodol paratoi proffil ieithyddol cadarn o holl gymunedau Ynys Môn, yn ogystal â phrif ardal yr astudiaeth, sy'n nodi'n fanwl yr amrywiaeth a natur y mentrau cymunedol sy'n gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog er mwyn cael darlun clir o'r sefyllfa fel y mae ar hyn o bryd. Byddai hyn yn helpu i lunio dadansoddiad manwl iawn o'r data gwaelodlin presennol a chynorthwyo gyda'r dasg o asesu pa newidiadau ieithyddol fydd neu a allai ddigwydd dros amser, ac a fydd angen cymryd rhagor o gamau adfer i liniaru a gwella defnyddio'r Gymraeg ar lefel gymunedol. Mae data proffil iaith gymunedol cychwynnol CSYM (Atodiad 1) yn dechrau ar y broses honno.

## 6.7 Y Gymraeg yn y Gweithle

6.7.1 Bydd "cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg" mewn sefyllfaoedd cymdeithasol yn y gwaith ac yn y cymunedau ble bydd y gweithlu'n byw yn dibynnu ar sawl ffactor allweddol, a bydd gofyn rhoi sylw manwl i'r rhain ym Mholisi Iaith Gymraeg Corfforaethol Horizon ac yn ei Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant, gan gynnwys y canlynol:

a) proffil ieithyddol y gweithlu (anhysbys ar hyn o bryd);
b) dosbarthiad y gweithlu yn y cymunedau lleol (wedi'i ragfynegi yn ôl y model disgyrchiant ar hyn o bryd, ond nid oes gwybodaeth fwy manwl);
c) effaith yr uchod ar gyfran y siaradwyr Cymraeg a rhai di-Gymraeg mewn ysgolion, cymunedau a chyfarfodydd grwpiau cymunedol (anhysbys ar hyn o bryd);

d) rheoli disgwyliadau gweithwyr sy'n mewnfudo o gefndiroedd diwylliannol mwyafrifol (Saesneg/iaith fwyafrif arall) a lefelau ymwybyddiaeth isel o'r Gymraeg a'i diwylliant (nid yw'r mater hwn wedi cael sylw yn AEIG Horizon hyd yma);
e) arfarniad realistig o'r gyfradd caffael iaith Gymraeg a ragwelir ymhlith gweithwyr sy'n mewnfudo a'u teuluoedd (nid yw'r mater hwn wedi cael sylw yn AEIG Horizon hyd yma);
f) i ba raddau y mae'r defnydd arferol o Gymraeg yn cael ei sefydlu a'i gefnogi gan reolwyr mewn sefyllfaoedd yn y gweithle (anhysbys ar hyn o bryd, ac yn dibynnu ar Bolisi Iaith Gymraeg Corfforaethol Horizon a sut bydd yn cael ei roi ar waith).

**Gofynion a Rhwymedigaethau'r DCO**

6.8.1 Mae CSYM yn cydnabod ymrwymiad ac ymgysylltiad presennol Horizon yn cefnogi'r Gymraeg fel 'Edau Aur' drwy'r holl agweddau ar ei brosiect. Fodd bynnag, nid yw'r DCO yn adlewyrchu hyn yn ddigonol, ac nid yw'r dogfennau'n cynnwys digon o fanylion nac yn sicrhau'r ymrwymiad hwn. Yn benodol, nid yw'r Strategaeth Rheoli Llety Gweithwyr na'r Strategaeth Rheoli Gweithwyr yn cynnwys trothwyon cadarn ar gyfer monitro ac adrodd ar ddosbarthiad gofodol gweithwyr er mwyn lleihau effeithiau posibl nifer fawr o weithwyr dros dro sy'n symud i'r ardal, nad ydynt yn debygol o fod yn siarad Cymraeg, ar y defnydd o'r Gymraeg mewn cymunedau lleol.

6.8.2 Mae'r adran hon yn cyflwyno pob un o'r mesurau lliniaru a gwella sydd yn Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant Horizon, yn ôl pedair thema'r strategaeth:

a) **Y Gweithlu (Mesurau 1 – 13)**
b) **Plant, pobl ifanc a theuluoedd (mesurau 14 - 17)**
c) **Gwasanaethau cymunedol a lleol (Mesurau 18 – 21)**
d) **Atebolrwydd (Mesurau 21 – 24)**

6.8.3 Yna, asesir pob mesur yn ei dro i weld pa mor ddigonol yw'r camau a ddylai fod yn ofynnol i osgoi, lleihau, lliniaru neu wneud iawn am effeithiau niweidiol. Pan fydd CSYM yn credu bod mesurau'n annigonol, bydd gwelliannau i wneud y mesurau'n dderbyniol yn cael eu darparu.

## 6.9 Y Gweithlu

### 6.9.1 Penodi Cydlynydd yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant

#### 6.9.1.1 Mesur gwella arfaethedig Horizon yn y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant:

a) ***Mesur 1*** *(Cyfeirnod y Cais: 8.14):* ***Bydd Horizon yn penodi Cydlynydd yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant i ganolbwyntio ar ddatblygu a gweithredu mesurau lliniaru a gwella yng nghyswllt yr iaith Gymraeg a'i diwylliant yn ystod cyfnodau adeiladu a gweithredu'r Prosiect (yn arwain: Horizon*).**

6.9.12 *Byddai hyn [y cylch gwaith] yn cynnwys goruchwylio'r broses o ddatblygu fframwaith cymhwysedd sgiliau iaith Gymraeg Horizon ac adnoddau ar gyfer asesu gofynion sgiliau iaith Gymraeg ar gyfer swyddi (gweler mesur 8) (Cyfeirnod y Cais: 8.14) mewn partneriaeth â thîm Adnoddau Dynol Horizon. Bydd y rôl hefyd yn cynnwys cysylltu â Grŵp Llandrillo Menai a Phrifysgol Bangor i ddatblygu'r rhaglen dysgu Cymraeg a hyfforddiant ar ymwybyddiaeth (gweler mesur 12) (Cyfeirnod y Cais: 8.14) ar gyfer y gweithlu, yn ogystal â goruchwylio'r system fentora fewnol. Byddai Cydlynydd yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant yn cysylltu â phartneriaid allanol allweddol fel y Ganolfan Genedlaethol Dysgu Cymraeg, Comisiynydd y Gymraeg a Llywodraeth Cymru er mwyn cael cyngor a manteisio ar yr adnoddau y mae'r partneriaid hyn yn eu datblygu hefyd.*

### 6.9.1.3 Ymateb CSYM i Fesur 1 y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant

6.9.1.4 Mae CSYM yn croesawu'r ffaith fod Horizon wedi penodi Cydlynydd yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant, a fydd yn gweithio dan gyfarwyddyd Pennaeth Datblygu Strategol (Cymru) Horizon ac yn gyfrifol am faterion sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg yng nghyswllt Prosiect Wylfa Newydd. Er mwyn i'r polisi a'r mesurau lliniaru fod yn effeithiol, mae gofyn i ddatblygiad mor fawr â Wylfa Newydd gymryd perchnogaeth ehangach o'r Gymraeg ar draws y sefydliad. Bydd angen i reolwyr ac arweinwyr canol ymrwymo i hyn, ac mae disgwyl y byddai'r Uwch Grŵp Rheoli sy'n atebol am gyflawni Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant a Pholisi Iaith Gymraeg Corfforaethol Horizon (Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant, Mesur 21) yn gyfrifol am roi'r mesurau amrywiol ar waith a'u monitro, gan rannu arferion da, casglu data a monitro cynnydd er mwyn adrodd ar gynnydd i Gomisiynydd y Gymraeg ar ddiwedd pob blwyddyn. Mae pob cyflogwr mawr yn y sector cyhoeddus yn gweithredu fel hyn - gan gynnwys Awdurdodau Lleol, Awdurdodau'r Heddlu, Ymddiriedolaethau Iechyd, Gwasanaethau Tân ac Achub, Prifysgolion, Cymdeithasau Tai, ac ati. Gallai mabwysiadu'r dull penodol hwn o wneud hyn fod yn ysgogiad i Horizon symud ymlaen â'r ymrwymiadau y mae wedi'u nodi yng nghyswllt y Gymraeg.

6.9.1.5 Mae'n bwysig pennu statws a chylch gwaith ar gyfer y swydd arfaethedig, Cydlynydd yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant. Bydd deiliad y swydd yn gyfrifol am hybu'r agenda ieithyddol mewn modd cadarn, gan weithio mewn ffordd sy'n ennyn cefnogaeth a hyder staff ar bob lefel, gan gynnwys uwch reolwyr. Mae astudiaethau wedi dangos bod polisïau iaith yn fwyaf effeithiol pan roddir proffil uchel ac awdurdod iddynt mewn sefydliad. Mae'n debygol y byddai swyddog y Gymraeg heb fawr awdurdod a gyda phroffil isel yn hierarchaeth sefydliad, o dan anfantais pan fyddai angen herio'r swyddogion uwch - ee ynghylch gofynion ieithyddol swyddi, neu'r angen i gydymffurfio ag ymrwymiadau polisi. O ganlyniad, mae CSYM yn pwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod gan Gydlynydd yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant y dylanwad i allu rhoi arferion iaith Gymraeg cadarn ar waith yn Horizon.

6.9.1.6 Mae CSYM yn credu y bydd angen Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg

a sesiwn gynefino bwrpasol ar gyfer Cydlynydd yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant, er mwyn sicrhau bod y Polisi'n cael ei gyflwyno a'i roi ar waith yn effeithiol.

6.9.1.7 Hefyd, bydd gofyn i Bennaeth Datblygu Strategol (Cymru) Horizon gael Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg er mwyn rheoli Polisi Iaith Gymraeg y sefydliad yn effeithiol, yn ogystal â rôl Cydlynydd yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant.

### 6.9.2 Asesu'r sgiliau iaith Gymraeg sy'n ofynnol ar gyfer swyddi

#### 6.9.2.1 Mesur gwella arfaethedig Horizon:

a) ***Mesur 2 (Cyfeirnod y Cais: 8.14): Bydd Horizon yn asesu'r sgiliau iaith Gymraeg sy'n ofynnol ar gyfer swyddi wrth ddatblygu proffiliau swyddi adeiladu a gweithredu yn Wylfa Newydd. Bydd yr asesiad hwn yn seiliedig ar fframwaith cymwyseddau ac adnoddau asesu sgiliau iaith Gymraeg a fydd yn cael eu datblygu gan Horizon. Bydd lefel y sgiliau iaith Gymraeg sydd eu hangen ar gyfer pob swydd yn cael ei chofnodi yn rhan o'r broses recriwtio ac yn cael ei chynnwys ym mhroffil y swydd (yn arwain: Horizon)***

6.9.2.2 *Mae rhoi'r mesur hwn ar waith yn tybio y câi hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a'i diwylliant ei ddarparu i 30-40 rheolwr recriwtio i gychwyn. Byddai angen hyfforddiant mwy penodol yn dilyn hyn i wneud yn siŵr bod gan reolwyr recriwtio'r sgiliau ar gyfer asesu anghenion sgiliau iaith Gymraeg swyddi. Mae'n bosibl y gallai Cydlynydd yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant ddarparu'r math hwn o hyfforddiant (gweler mesur 1) (Cyfeirnod y Cais: 8.14). Mae'n bosibl y byddai angen cynnwys sefydliadau hyfforddi allanol neu sicrhau bod y tîm Adnoddau Dynol yn cynnwys unigolion sydd â phrofiad o asesu anghenion sgiliau iaith Gymraeg swyddi.*

#### 6.9.2.3 Ymateb CSYM i Fesur 2 y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant

6.9.2.4 Mae CSYM yn credu y byddai'r mesur lliniaru hwn yn fwy effeithiol petai'n cynnwys datganiad i'r perwyl y byddai angen sgiliau iaith Gymraeg (gwahanol lefelau) ar draws pob graddfa, gan gynnwys Uwch Reolwyr a Rheolwyr Canol yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu. Caiff hyn ei gydnabod fel arfer gorau: bod pob gweithiwr mewn sefydliad yn gallu Cymraeg Lefel 1 cwrteisi sylfaenol.[37] Hefyd, byddai'n realistig disgwyl i holl staff Horizon ddilyn cwrs ar-lein 10 awr y Ganolfan Genedlaethol Dysgu Cymraeg, Croeso Cymraeg Gwaith[38]

6.9.2.5 Byddai cwmpas y mesurau lliniaru'n cael ei gryfhau hefyd drwy ychwanegu "...nid yn unig ar gyfer sefyllfaoedd cydgysylltu'r Gwasanaeth, ond hefyd i feithrin amgylchedd gweithio dwyieithog a defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle yn unol ag arferion gorau."

[37] Mae hyn yn ofynnol ar gyfer holl staff Heddlu Gogledd Cymru, er enghraifft.
[38] Gweler Atodiad 9E Defnyddio'r Gymraeg yn Fewnol yn y Gweithle, Adroddiad Terfynol, Tachwedd 2010

6.9.2.6 Mae darparu Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a hyfforddiant ynghylch gweithdrefnau Recriwtio yng nghyswllt y polisi hwn yn feysydd hyfforddi hynod o arbenigol ac efallai y bydd angen i asiantaethau allanol eu cynnal, yn hytrach na Chydlynydd y Gymraeg a'i Diwylliant.

6.9.2.7 Mae CSYM yn cytuno ei bod yn briodol bod Horizon yn defnyddio fframwaith cymhwysedd iaith ac adnodd asesu i asesu'r sgiliau iaith Gymraeg sy'n ofynnol ar gyfer pob swydd a gaiff ei chreu ar gyfer Wylfa Newydd. Mae hyn yn unol ag arfer da wrth roi Polisi Iaith Gymraeg yn y gweithle ar waith. Ar ben hynny:

a) **Dylai Horizon roi Strategaeth Sgiliau Iaith Gymraeg ar waith yn unol ag arferion gorau sefydliadau sydd â Strategaethau Iaith Gymraeg.** Mae Strategaeth Sgiliau Iaith Gymraeg yn galluogi cyflogwr i wneud y canlynol:

i. Penderfynu pa lefel o gymhwysedd iaith sy'n ofynnol ar gyfer y pedair agwedd ar y sgiliau iaith (dealltwriaeth, siarad, darllen ac ysgrifennu) mewn adrannau, timau a swyddi penodol er mwyn galluogi'r sefydliad i gyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol ac yn effeithlon.
ii. Canfod sgiliau iaith y gweithlu
iii. Canfod y bylchau mewn sgiliau iaith Gymraeg a'u cau drwy wneud y canlynol:
    i. penodi unigolion cymwysedig i swyddi gwag
    ii. aildrefnu swyddi er mwyn adleoli unigolion cymwysedig mewn timau penodol; a
    iii. hyfforddi gweithwyr presennol, a gwella eu sgiliau iaith a'u cymwyseddau.

6.9.2.8 Maes Mesur 2 Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant Horizon yn cynrychioli cam 1 yn y rhestr uchod. Mae paragraff 4.2.27 Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant o ran Mesur 9 yn nodi y bydd Horizon yn 'cadw cofnod ffurfiol o sgiliau iaith Gymraeg staff a bydd yn monitro cynnydd staff sydd mewn swyddi lle mae gofyn cael sgiliau iaith Gymraeg a mynd ar hyfforddiant'. Mae hyn yn cyfateb i gam 2, uchod. Ar hyn o bryd, nid yw'r Strategaeth yn cynnwys ymrwymiad penodol i adolygu camau 1 a 2 yn barhaus, drwy gydol yr holl gamau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu. Byddai cyfeiriad penodol at gam 3 uchod hefyd yn cryfhau'r strategaeth. Rhoi tri cham Strategaeth Sgiliau Iaith Gymraeg ar waith yn gadarn fyddai'n lliniaru unrhyw fethiant i recriwtio nifer digonol o siaradwyr Cymraeg.

a) **Dylai Horizon gynnal archwiliad blynyddol o'r Sgiliau Iaith sy'n ofynnol fel rhan o'i Strategaeth Sgiliau Iaith Gymraeg. Dylai'r broses flynyddol o werthuso sgiliau Iaith Gymraeg gweithwyr gael ei chynnwys mewn prosesau gwerthuso perfformiad blynyddol staff, yn unol ag arferion gorau.** Mae'r argymhelliad hwn yn mynd y tu hwnt i'r mater confensiynol o dargedau ac allbynnau sydd wedi'u cynnwys mewn strategaethau iaith sefydliadau mawr, ac mae'n ymwneud llawer mwy â chanlyniadau. Mae hyn yn mesur gwir ymddygiad elfennau'r gweithlu, yn

hytrach na'r ymddygiad enwol. Mae adolygu hyn fel rhan o arfarnu perfformiad staff bob blwyddyn yn galluogi staff Horizon i allu defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle fwyfwy.

6.9.2.9 Mae hyn yn arwyddocaol am dri rheswm (trafodir y rhain yn fwy manwl yn adrannau'r Iaith Gymraeg yn yr Adroddiad ar yr Effaith Leol):

a) Yn gyntaf, mae'n adlewyrchu ymrwymiad Horizon i ddefnyddio'r Gymraeg yn weithredol fel sgil annatod ar gyfer rhai gweithwyr penodol.
b) Yn ail, mae'n darparu cronfa ddata a fframwaith cadarn er mwyn parhau i wella'r cyrsiau hyfforddi sydd ar gael, er mwyn annog gwella sgiliau a thwf yn hytrach na chaniatáu dirywiad graddol, unwaith y mae'r brwdfrydedd cychwynnol wedi pylu.
c) Yn drydydd, mae'n atgyfnerthu'r berthynas rhwng y gweithlu ac elfennau allweddol y gymdeithas gyfagos, fel gweithgareddau cymunedol, ysgolion lleol, gwasanaethau cyhoeddus ac adloniant, gan ei fod yn galluogi i rai o'r gweithwyr gymryd rhan yn y gymuned a chyfrannu at gyfoethogi'r gymuned. Mae'r gofyn i archwilio sgiliau iaith yn rheolaidd yn arfer sydd wedi'i sefydlu gan sefydliadau sy'n rhoi strategaeth gweithle dwyieithog ar waith.

6.9.2.10 Mae rhoi strategaeth Sgiliau Iaith Gymraeg ar waith, gydag ymrwymiad i ddarparu hyfforddiant sgiliau iaith Gymraeg, yn ffordd o gryfhau capasiti iaith Gymraeg gweithlu, ac mae'n bosibl na fyddai hynny'n bodloni bwriadau Horizon a disgwyliadau CSYM/y cyhoedd yn llwyr ar ôl recriwtio i ddechrau. Yn ei hanfod, byddai creu siaradwyr Cymraeg newydd yn y gweithlu yn lleddfu rhywfaint ar yr effaith negyddol y byddai gweithlu Horizon yn ei chael fel arall ar gyfran y siaradwyr Cymraeg ar Ynys Môn yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu.

6.9.2.11 Bydd llawer o lwyddiant Polisi Iaith Gymraeg Horizon yn dibynnu ar berchnogaeth Timau Adnoddau Dynol ar y mesurau a'r gweithdrefnau Recriwtio, Hyfforddi a Datblygu Staff sy'n angenrheidiol ar gyfer rhoi hyn ar waith, yn unol â chanllawiau statudol yr Iaith Gymraeg. Dylid ffurfioli perthynas Horizon â Chomisiynydd y Gymraeg ar sail wirfoddol, yn unol â'r trefniadau arferion gorau sydd wedi'u sefydlu gan sefydliadau eraill nad ydynt wedi'u cynnwys yn ffurfiol o fewn cwmpas Mesur y Gymraeg 2011.

### 6.9.3 Paneli cyfweld

#### 6.9.3.1 Mesur gwella arfaethedig Horizon yn y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant:

**Mesur 3** (Cyfeirnod y Cais: 8.14): ***Bydd Horizon yn sicrhau bod aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar y paneli cyfweld ar gyfer swyddi lle mae gofyn i'r ymgeiswyr feddu ar sgiliau iaith Gymraeg fel bod modd asesu sgiliau iaith yr ymgeisydd yn iawn (yn arwain: Horizon)***.

6.9.3.2 *Mae'r rhan fwyaf o staff Wylfa Newydd Horizon yn siaradwyr Cymraeg, a bydd penodi Cydlynydd yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant yn cynyddu'r capasiti hwn ymhellach. Nododd Rhanddeiliaid y Gymraeg y bydd angen cael staff â sgiliau*

*iaith Gymraeg er mwyn gallu asesu cymhwysedd iaith Gymraeg ymgeiswyr yn ystod cyfweliadau. Gellid cefnogi'r mesur hwn ymhellach drwy gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n rhan o dîm Adnoddau Dynol canolog Horizon. Yn y gorffennol, mae Horizon wedi dod â staff allanol sy'n siarad Cymraeg i eistedd ar baneli cyfweld pan nad oes digon o siaradwyr Cymraeg ar gael yn fewnol.*

**6.9.3.3 Ymateb CSYM i Fesur 3 y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant**

6.9.3.4 Mae CSYM yn ansicr ynghylch a yw honiad Horizon fod y rhan fwyaf o staff Wylfa Newydd yn siaradwyr Cymraeg yn gywir. Mae'n hollbwysig fod y rhan fwyaf o staff Swyddfa Safle Wylfa yn siarad Cymraeg a bod y swyddi pwysig fel staff Adnoddau Dynol yn meddu ar y sgiliau Cymraeg uwch sy'n angenrheidiol ar gyfer delio â phob agwedd ar eu swyddi drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hefyd yn bwysig bod holl staff pencadlys Horizon yng Nghaerloyw yn dilyn Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith fel rhan o'u hyfforddiant cynefino, a bod unigolion mewn swyddi penodol sy'n gofyn am gadw mewn cysylltiad agos â staff safle Wylfa Newydd yn cael eu hannog i ddatblygu eu gallu i siarad Cymraeg.

6.9.3.5 Mae CSYM yn credu y byddai darpariaeth i gynnig dewis iaith ar gyfer cyfweliadau - yn unol â'r canllawiau arferion gorau, wedi'i chynnwys mewn Strategaeth Iaith Gymraeg y byddai Horizon wedi'i mabwysiadu ar gyfer y gweithlu, sy'n cyd-fynd ag arferion gorau. Yn ddelfrydol, dylai paneli gynnwys mwy nag un siaradwr Cymraeg, a ddylai gael gwybodaeth fanwl am eu rôl o ran asesu sgiliau yn y cyfweliad. Bydd cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn adran Adnoddau Dynol Horizon yn hanfodol er mwyn rhoi'r mesur lliniaru hwn ar waith.

**6.9.4 Gwybodaeth am gyfleoedd gyrfa yn Wylfa Newydd**

**6.9.4.1 Mesur gwella arfaethedig Horizon yn y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant:**

a) **Mesur 4** (*Cyfeirnod y Cais: 8.14):* ***Bydd Horizon yn dosbarthu gwybodaeth am gyfleoedd gyrfa yn Wylfa Newydd i gymunedau a phobl ifanc yn rheolaidd, gan gynnwys Proffiliau Swyddi a 'Mapiau Llwybrau Gyrfa' dwyieithog Wylfa Newydd. Bydd Horizon yn datblygu gweithgareddau ac adnoddau model rôl er mwyn hybu ymwybyddiaeth o gyfleoedd gyrfa yn y gymuned. Bydd staff Horizon sy'n siarad Cymraeg (gan gynnwys dysgwyr) a chyflenwyr lleol yn ymwneud â'r adnoddau a'r gweithgareddau 'model rôl' hyn ac yn arwain arnynt, fel fideos o astudiaethau achos, deunyddiau ysgrifenedig, cyflwyniadau mewn ysgolion (yn arwain: Horizon).***

6.9.4.2 *Mae gan Horizon wefan ddwyieithog... ac mae wedi datblygu adran ohoni yn benodol ar gyfer pobl ifanc (www.horizonnuclearpower.com/dyfodol). Mae'n cynnwys cyfres o adnoddau addysgol dwyieithog (Mapiau Llwybrau Gyrfa) sy'n ceisio hyrwyddo ymwybyddiaeth o lwybrau gyrfa a chyfleoedd swyddi ar*

*y Prosiect, yn ogystal â chynyddu faint o bobl sy'n astudio pynciau STEM yn lleol.*

6.9.4.3 *Mae Horizon yn bwriadu datblygu Mapiau Llwybrau Gyrfa fel adnodd rhyngweithiol a fyddai'n caniatáu i bobl ifanc gofnodi pa bynciau y maent yn eu hastudio ar hyn o bryd er mwyn cael gweld pa gyfleoedd swyddi perthnasol sydd ar gael yn Wylfa Newydd. Bydd Horizon yn cynnwys y datganiad cyffredinol ar y gwerth a roddir ar sgiliau iaith Gymraeg (Gweler mesur 9) (Cyfeirnod y Cais: 8.14) mewn gwybodaeth am gyfleoedd gwaith yn Wylfa Newydd. Mae Horizon wedi datblygu chwe 'Map Llwybrau Gyrfa' sy'n amlinellu'r mathau o rolau a fydd ar gael yn Wylfa Newydd. Mae Horizon hefyd wedi datblygu chwe phroffil swydd sy'n cael eu defnyddio'n rheolaidd mewn digwyddiadau, ac mae'r cwmni'n ystyried eu datblygu ymhellach yn glipiau fideo sy'n cynnwys staff, graddedigion a phrentisiaid yn siarad am eu swyddi a'u profiadau o weithio yn Wylfa Newydd.*

6.9.4.4 *Mae Horizon yn gweithio mewn partneriaeth â Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, Gyrfa Cymru a chyflogwyr allweddol eraill ledled Gogledd Cymru fel rhan o'r gwaith o hyrwyddo cyfleoedd i bobl leol. Maent yn datblygu deunyddiau model rôl a allai helpu i annog pobl leol i ystyried gyrfa yn Wylfa Newydd. Bydd y deunyddiau hyn yn cael eu datblygu yn 2018, ac mae'n bosibl y byddant yn cynnwys clipiau fideo o brentisiaid Horizon, drwy gyfrwng sianel YouTube Horizon.*

6.9.4.5 *Mae Horizon yn datblygu Rhaglen Llysgennad STEM a fydd yn cael ei chyflwyno yn 2018. Bydd y rhaglen o weithgareddau i fodelau rôl yn cynnwys staff Wylfa Newydd - yn cynnwys cyn-ddisgyblion ysgolion Ynys Môn, siaradwyr Cymraeg, dysgwyr Cymraeg a phobl ifanc ar eu cynlluniau graddedig a phrentisiaeth. Fel rhan o hyn, mae'r cwmni'n gobeithio datblygu clipiau fideo yn cynnwys enghreifftiau o arferion da o ran technegau cyfweld gyda staff y Prosiect, graddedigion, staff lleol a phrentisiaid o bosibl hefyd.*

**6.9.4.6 Ymateb CSYM i Fesur 4 y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant**

**6.9.4.7 Mae CSYM yn gofyn am gael cynllun Swyddi a Sgiliau llawer gwell i annog a hwyluso preswylwyr lleol i wella eu sgiliau'n briodol a lleihau nifer y bobl ifanc sy'n allfudo, yn arbennig yn y tymor byr i ganolig.** Dylid blaenoriaethu hyn, yn ogystal â denu pobl leol a'u teuluoedd yn ôl i'r Ynys drwy gynnig cyfleoedd gwaith da yn Wylfa Newydd, er mwyn diogelu'r Gymraeg a'i diwylliant.

6.9.4.8 Ni roddir pwyslais penodol ar werth y Gymraeg yn y swyddi hyn nac ar gyfer pynciau STEM yn ehangach. **Rhaid gwneud iawn am yr esgeulustod hwn**. Os bydd Prosiect Wylfa Newydd am gael effaith gadarnhaol ar allu siaradwyr Cymraeg ifanc i gael gwaith gyda Horizon (naill ai'n uniongyrchol neu fel contractwr), bydd angen rhoi pwyslais sylweddol ar y gwahanol gynlluniau sydd wedi'u nodi uchod (gan gynnwys llunio Mapiau Llwybrau Gyrfa a Phroffiliau Swyddi) a chyfraniad staff a chontractwyr at wahanol weithgareddau model rôl. Unwaith eto, mae angen sicrhau bod y modelau

rôl hyn yn effeithiol, hynny yw, siaradwyr Cymraeg sy’n gweithio mewn amrywiol swyddi, ac yn ddelfrydol, y rhai hynny sy’n defnyddio’r Gymraeg wrth eu gwaith. Dylai siaradwyr Cymraeg fod yn amlwg yn y clipiau fideo a nodwyd. Hefyd, awgrymir y dylai’r wybodaeth am yrfaoedd bwysleisio’r cyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg yn y gwaith, cyfleoedd i weithwyr ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg ymhellach a’r ‘gwerth ychwanegol’ o ddefnyddio’r Gymraeg. Byddai hyn yn cyd-fynd â Safon y Gymraeg sy’n ymwneud â Hybu’r Gymraeg a Strategaeth Hybu'r Gymraeg cyfatebol yr awdurdod lleol.

6.9.4.9 Ni wneir unrhyw ddarpariaeth i gefnogi recriwtio siaradwyr Cymraeg (dim pobl leol o anghenraid) i swyddi tra arbenigol sy’n gofyn am gymwysterau israddedig a gradd. Felly, yn ogystal â’r cynllun prentisiaeth, **mae CSYM yn gofyn i Horizon dalu am Raglen Noddi Myfyrwyr a’i rhoi ar waith ar gyfer myfyrwyr isradd a gradd mewn meysydd astudio arbenigol sy’n ymwneud â’r diwydiant niwclear**. Mae cynlluniau o’r fath wedi cael eu rhoi ar waith yn llwyddiannus mewn meysydd eraill (er enghraifft, gwyddor yr amgylchedd[39]) lle’r oedd asiantaethau wedi cael anawsterau recriwtio siaradwyr Cymraeg i swyddi arbenigol yn flaenorol.

### 6.9.5 Recriwtio siaradwyr Cymraeg

#### 6.9.5.1 Mesur lliniaru arfaethedig Horizon yn y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a’i Diwylliant:

a) **Mesur 5** (*Cyfeirnod y Cais: 8.14): **Fel rhan o’i strategaeth recriwtio, bydd Horizon yn sicrhau bod yr holl gyfleoedd swyddi sydd ar gael yn cael eu hysbysebu drwy sianeli recriwtio sy'n targedu cynulleidfa sy'n siarad Cymraeg. Bydd hyn yn cynnwys Gwasanaeth Cyflogaeth a Sgiliau Wylfa Newydd, yn ogystal â phartneriaid eraill lleol a chenedlaethol sy’n ymgysylltu â chynulleidfa sy’n siarad Cymraeg. Bydd pob swydd yn cael ei hysbysebu yn Gymraeg ac yn Saesneg (yn arwain: Horizon***)**

6.9.5.2 *Fel rhan o’i strategaethau recriwtio ehangach, bydd Horizon yn hysbysebu swyddi drwy sianeli recriwtio, gan gynnwys y rhai hynny sy’n targedu cynulleidfa sy’n siarad Cymraeg yn bennaf... Y cam cyntaf i Horizon fydd nodi rhestr o gyfryngau recriwtio a fyddai’n galluogi Horizon i dargedu siaradwyr Cymraeg orau ym mhrif ardal yr astudiaeth a thu hwnt. Gallai hyn fod yn rhan o rôl Cydlynydd yr Iaith Gymraeg a’i Diwylliant (gweler Mesur 1)*

6.9.5.3 *Ar y cyd â’r tîm Adnoddau Dynol. Bydd Horizon hefyd yn hysbysebu swyddi drwy’r gwasanaeth broceriaeth lleol (Gwasanaeth Sgiliau a Chyflogaeth Wylfa Newydd) sy’n cael ei sefydlu gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, Grŵp Llandrillo-Menai, Cyngor Sir Ynys Môn, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, Llywodraeth Cymru a Horizon.*

[39] Er enghraifft, Cynlluniau Noddi Myfyrwyr Cyfoeth Naturiol Cymru/Cyngor Cefn Gwlad Cymru

6.9.5.4 *Fel cam cyntaf, bydd Horizon hefyd yn dosbarthu cyfleoedd swyddi drwy sefydliadau sy'n ymgysylltu â chynulleidfa sy'n siarad Cymraeg (ee awdurdodau lleol, sefydliadau ieuenctid, sefydliadau diwylliannol). ...Ar ôl hyn, bydd Horizon yn datblygu dull o ddosbarthu cyfleoedd swyddi drwy'r sefydliadau hyn (ee rhestr ddosbarthu drwy e-bost). Hefyd, bydd Horizon yn dosbarthu cyfleoedd am swyddi i asiantaethau sy'n ymwneud ag olrhain pobl ifanc (ee Gyrfa Cymru, awdurdodau lleol, Prifysgolion) i hyrwyddo cyfleoedd am swyddi ymhlith y rheini a allai fod wedi symud o brif ardal yr astudiaeth.*

**6.9.5.5 Ymateb CSYM i Fesur 5 y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant**

6.9.5.6 Mae CSYM yn croesawu ymrwymiadau Horizon i recriwtio siaradwyr Cymraeg i'w weithlu. Mae CSYM yn nodi nad yw Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant Horizon yn cynnwys unrhyw dargedau penodol i gyflogi cyfran o siaradwyr Cymraeg y cytunwyd arni ar draws gwahanol arbenigeddau ei weithlu. Mae Horizon yn cyfrifo bod disgwyl bod 'o leiaf 2,000 o weithwyr yn byw ym mhrif ardal yr astudiaeth yn barod'. Nid yw'n glir sut cafwyd y ffigur hwn, ac nid yw Horizon yn rhoi unrhyw syniad ynghylch nifer na chyfran y gweithwyr lleol y disgwylir iddynt fod yn siaradwyr Cymraeg. Roedd sefyllfa wreiddiol Horizon, fel sy'n cael ei adlewyrchu yn Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant, Mawrth 2017, yn cynnwys nifer o ymrwymiadau ynghylch targedau ieithyddol ac arferion gwaith dwyieithog, nad oeddent wedi'u cynnwys yn fersiwn mis Awst 2017 y Strategaeth. Dyma oedd wedi cael ei hepgor[40]:

a) ymrwymiad i gynnwys targed ieithyddol ar gyfer pob swydd berthnasol;
b) ymrwymiad i gynnwys cwrteisi ieithyddol ar gyfer holl staff adeiladu a gweithredu Wylfa Newydd;
c) ymrwymiad i fod yn rhagweithiol wrth annog staff i ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg drwy gyrsiau hyfforddi, ac
d) ymrwymiad i ddefnyddio arfarniadau gweithwyr i sefydlu'r sgiliau sy'n ofynnol ar gyfer rolau penodol.

6.9.5.6 Mae Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant bresennol Horizon wedi adfer tri o'r rhain. Nid yw'r ymrwymiad cychwynnol i gynnwys targed ieithyddol ar gyfer swyddi perthnasol wedi'i gynnwys. Mae disgwyliad ymhlyg y bydd 'Ystyried Sgiliau Iaith Gymraeg pob swydd ar y prosiect' (Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant, Mesur 2) yn nodi lefel yr angen am siaradwyr Cymraeg. Fodd bynnag, mae CSYM yn credu bod angen pennu targedau ar gyfer swyddi perthnasol, a bydd yn cryfhau'r strategaeth ar gyfer recriwtio siaradwyr Cymraeg i rai swyddi penodol; canolbwyntio ar adolygu a diwygio'r strategaeth ar gyfer recriwtio siaradwyr Cymraeg, fel bo angen.

**6.9.5.7 Mae'n realistig disgwyl y bydd cyfran uchel o weithwyr Cymraeg yn cael eu cyflogi fel aelodau o weithlu Horizon. Yn wir, mae CSYM yn credu y gall Horizon helpu CSYM i gynyddu nifer a chyfran y siaradwyr Cymraeg**

[40] Gweler Atodiad 9D Llythyr CSYM at Horizon 30 Tachwedd 2017 Ynghylch Adolygu Dogfennau'r DCO Drafft (Adran 6 – Y Gymraeg a'i Diwylliant)

**ar Ynys Môn, a chyfrannu at darged Llywodraeth Cymru o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 os:**

a) **bydd yn rhoi cynlluniau cadarn ar waith i recriwtio gweithwyr sy'n siarad Cymraeg, ac**
b) **yn datblygu sgiliau iaith Gymraeg ei holl weithlu, er mwyn i'r rhan fwyaf o staff safle Wylfa Newydd allu siarad Cymraeg yn y gweithle erbyn y cam gweithredu.**

6.9.5.8 Mae'n bwysig pwysleisio nad yw CSYM yn ystyried bod pob 'siaradwr Cymraeg' yn siarad Cymraeg rhugl, iaith gyntaf, brodorol. Mae 'siaradwyr Cymraeg' yn cynnwys pobl y mae Cymraeg yn iaith ychwanegol iddynt, a hwythau wedi dysgu'r iaith, drwy gyfrwng addysg statudol, neu fel oedolion, ac maent yn rhan o'r boblogaeth gynyddol o 'siaradwyr Cymraeg newydd' yng Nghymru a thramor. Bydd sgiliau llythrennedd a llafar a rhuglder siaradwyr Cymraeg yn amrywio. Dros amser, gyda Pholisi Iaith Gymraeg, Strategaeth Iaith Gymraeg a Chynllun Gweithredu ar gyfer rhoi'r polisi ar waith, ynghyd â Strategaeth Sgiliau Iaith Gymraeg sydd wedi'i diffinio'n dda a'i rhoi ar waith, bydd yn bosibl datblygu sgiliau iaith Gymraeg yr holl staff yn y gweithle.

6.9.5.9 Yn ogystal â'r mesurau lliniaru sydd wedi'u hamlinellu yn y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant, a pharagraff 6.4.466 y Datganiad Cynllunio, safbwynt CSYM yw bod y canlynol yn angenrheidiol er mwyn sicrhau y gwneir y defnydd gorau o staff sy'n siarad Cymraeg yng ngweithlu Horizon:

**a) Cysylltiad a gwerthusiad annibynnol o'r fframwaith cymhwysedd arfaethedig a'r broses ar gyfer cyfweld a phrofi sgiliau iaith Gymraeg.** Mae CSYM yn credu bod hyn yn bwysig ar gyfer swyddi penodol, ond hefyd yn berthnasol i swyddi eraill. Mae hyn oherwydd, ar y cyfan, mae darpar gyflogwyr sy'n chwilio am sgiliau dwyieithog, boed hynny yng nghyd-destun y Gymraeg neu gyd-destun tebyg ar lefel ryngwladol, fel Llywodraeth Ffederal Canada, wedi derbyn unigolion heb sgiliau digonol ar yr amod eu bod yn ymrwymo i gwrs astudiaethau iaith, tan yn ddiweddar. Ond, yn llawer rhy aml, nid yw addewidion o'r fath yn cael eu cadw, ac o ganlyniad nid yw'r set sgiliau angenrheidiol yn cael ei rhoi ar waith, gan wanhau proffil ieithyddol y sefydliadau a'u gallu i ddarparu. Y wireb gyffredinol yw ei bod hi'n well recriwtio staff cymwys a phriodol o'r cychwyn cyntaf yn hytrach na dibynnu ar systemau mewnol i helpu rhai aelodau o staff i ddal i fyny dros amser. Fodd bynnag, mae CSYM hefyd o'r farn, pan nad yw'n bosibl recriwtio gweithwyr sydd â sgiliau iaith Gymraeg addas, bod polisïau cadarn ar waith i ddatblygu'r sgiliau hynny ar ôl recriwtio.

**Dylai'r unigolion sy'n cael eu recriwtio i rolau Uwch Reolwyr a Rheolwyr Canol, yn ogystal ag ar draws y sbectrwm gweithredu, fod yn siaradwyr Cymraeg neu gael eu hyfforddi dros amser i ddysgu sgiliau iaith Gymraeg y gallant eu defnyddio yn y gweithle.** Mae hyn oherwydd, er mwyn i'r polisi a'r mesurau lliniaru fod yn effeithiol, mae angen eu hyrwyddo ar y lefel uchaf yn y sefydliad. Mae astudiaethau wedi dangos bod angen hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg mewn 'peuoedd uchel

eu bri' er mwyn cael tyniant, awdurdod a chyfreithlondeb mewn sefydliadau mawr.[41] a) Mae unigolion sydd wedi cael eu penodi i swyddi proffil uchel, ee Prif Arolygydd Heddlu Gogledd Cymru, wedi dod yn siaradwyr Cymraeg rhugl ar ôl cael eu penodi. Byddai'n arwydd cadarnhaol petai uwch reolwyr a rheolwyr canol Horizon yn gwneud yr un fath.

6.9.5.10 Fel y disgrifiwyd yng nghyswllt Mesur 2, uchod:

a) **Bod Horizon yn rhoi Strategaeth Sgiliau Iaith Gymraeg ar waith yn unol ag arferion gorau sefydliadau sydd â Strategaethau Iaith Gymraeg.**
b) **Dylai Horizon gynnal archwiliad rheolaidd o'r Sgiliau Iaith sy'n ofynnol fel rhan o'i Strategaeth Sgiliau Iaith Gymraeg.**

### 6.9.6 Dulliau cyfathrebu mewnol dwyieithog

#### 6.9.6.1 Mesur gwella arfaethedig Horizon yn y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant:

a) **Mesur 6** (Cyfeirnod y Cais: 8.14): ***Diweddaru polisi iaith Gymraeg Horizon yn flynyddol i gynnwys manylion ynghylch pa fath o gyfathrebu mewnol fydd ar gael yn ddwyieithog (yn arwain: Horizon***)

6.9.6.2 *Mae polisi iaith Gymraeg cyfredol Horizon [RD2] yn nodi y bydd y cwmni yn 'cefnogi ac yn hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle lle bynnag y bo'n bosibl, tra'n cydnabod mai Saesneg yw iaith weithredol y diwydiant niwclear yn y DU ac iaith ein rheoleiddwyr.' Mae hefyd yn nodi y bydd Horizon 'ymdrechu i ddefnyddio mwy o Gymraeg yn ein cyhoeddiadau mewnol lle bynnag y bo'n rhesymol gwneud hynny.' Mae'r mesur hwn yn cynnig diweddaru Polisi Iaith Gymraeg Horizon i gynnwys mwy o fanylion ynghylch y math o gyfathrebu mewnol fydd ar gael yn ddwyieithog.*

#### 6.9.6.3 Ymateb CSYM i Fesur 6 y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant

6.9.6.4 Mae CSYM yn croesawu'r ymrwymiad hwn ac yn ystyried bod adolygu a diweddaru Polisi Iaith Gymraeg Horizon yn flynyddol yn agwedd allweddol o'r adroddiad monitro blynyddol, sy'n cael ei gyflwyno'n wirfoddol i Gomisiynydd y Gymraeg. Mae CSYM yn awgrymu ehangu'r mesur hwn i gynnwys datganiad i'r perwyl hwn... "gyda'r bwriad o gynyddu'r rhain o un flwyddyn i'r llall." Bydd cefnogi ac ehangu defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle yn ystyriaeth allweddol yn y broses hon, yn unol â Safonau'r Gymraeg sy'n ymwneud â defnyddio'r Gymraeg yn fewnol a hyrwyddo'r Gymraeg.

### 6.9.7 Arwyddion parhaol a rhai dros dro

[41] Mae astudiaethau perthnasol yn cynnwys: *Defnydd Mewnol o'r Gymraeg mewn Gweithleoedd*, IAITH Cyf/Bwrdd yr Iaith Gymraeg (2010) - Atodiad 9E; Eaves, S., Jones, K. Ioan, G. et al, *Adroddiad Terfynol y Prosiect i hyrwyddo Gweithleoedd Dwyieithog* IAITH Cyf/Bwrdd yr Iaith Gymraeg (2007) - Atodiad 9F; Jones, K. & Eaves, S., *Dewis Iaith yn y Sector Cyfiawnder Troseddol yng Ngogledd Cymru* IAITH Cyf (2008) – Atodiad 9G

**6.9.7.1 Mesur gwella arfaethedig Horizon yn y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant:**

a) **Mesur 7** (Cyfeirnod y Cais: 8.14): ***Bydd yr holl arwyddion cyhoeddus parhaol a dros dro sy'n gysylltiedig â'r Prosiect yn ddwyieithog (yn arwain: Horizon)***

6.9.7.2 *Mae Polisi Iaith Gymraeg Horizon [RD2] hefyd yn nodi y bydd Horizon '…yn annog pob trydydd parti sy'n gweithredu ar ein rhan i osod arwyddion dros dro dwyieithog mewn ardaloedd sy'n agored i'r cyhoedd lle bynnag y bo'n bosibl.' Horizon fydd yn gyfrifol am yr holl arwyddion cyhoeddus yn safle'r Prosiect. ... Dylai Horizon adolygu gwahanol gategorïau o arwyddion ar y safle er mwyn ystyried a yw'n briodol i arwyddion sy'n hollbwysig o ran diogelwch fod yn ddwyieithog, gan gydnabod mai Saesneg yw iaith weithredol y rheoleiddwyr a'r diwydiant niwclear yn y DU. Dylai'r adolygiad ystyried a yw'n briodol defnyddio ieithoedd eraill hefyd pan fo'n briodol (ee pan na fydd nifer sylweddol o weithwyr yn siaradwyr Cymraeg na Saesneg).*

**6.9.7.2 Ymateb CSYM i Fesur 7 y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant**

6.9.7.3 Mae CSYM yn cytuno y dylai arwyddion parhaol a rhai dros dro fod yn ddwyieithog, gyda'r posibilrwydd o gael rhai arwyddion mewn ieithoedd eraill hefyd, yn unol â'r arferion gorau o ran rhoi polisi Iaith Gymraeg ar waith ar gyfer y gweithle.

**6.9.8 Fframwaith cymhwysedd ac adnodd asesu sgiliau iaith Gymraeg**

**6.9.8.1 Mesur gwella arfaethedig Horizon yn y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant:**

a) **Mesur 8** (Cyfeirnod y Cais: 8.14): ***Bydd Horizon yn datblygu ac yn mabwysiadu fframwaith cymhwysedd sgiliau iaith Gymraeg ac adnodd asesu sgiliau iaith Gymraeg ar gyfer prosesau recriwtio. Bydd Horizon yn darparu hyfforddiant i reolwyr recriwtio perthnasol i ddefnyddio adnoddau er mwyn pennu gofynion iaith y swyddi adeiladu a gweithredu (yn arwain: Horizon).***

6.9.8.2 *Mae polisi iaith Gymraeg Horizon [RD2] yn nodi y bydd y cwmni 'yn asesu'n ffurfiol pa lefel o sgiliau iaith Gymraeg sy'n ofynnol i gyflawni pob rôl yn ein sefydliad.' Mae hefyd yn nodi 'Rydym yn cadw cofnod anffurfiol o sgiliau iaith Gymraeg rhai cyflogeion drwy ein system mewnrwyd, fel y gallwn gyfeirio ymholiadau yn y Gymraeg at y person priodol. Bydd sgiliau iaith Gymraeg hefyd yn cael eu nodi ar gofnodion hyfforddi cyflogeion.' Bydd Horizon yn datblygu fframwaith cymhwysedd sgiliau iaith Gymraeg ac yn ei roi ar waith fel rhan o'r Strategaeth hon. Defnyddir model cydnabyddedig fel Cymdeithas Profwyr Iaith yn Ewrop (ALTE) lefelau 0-5 ar gyfer hyn. Bydd y fframwaith hwn yn defnyddio arferion da o sefydliadau eraill (ee Heddlu Gogledd Cymru, Cyngor Ceredigion) ac yn galluogi Horizon i gofnodi lefel y sgiliau iaith*

*Gymraeg sydd ei hangen yn ffurfiol ar gyfer swyddi perthnasol yn Wylfa Newydd. Bydd Horizon yn gofyn am gyngor y Ganolfan Genedlaethol Dysgu Cymraeg wrth ddatblygu'r fframwaith hwn. Mae fframwaith ALTE yn darparu dull o asesu cymhwysedd unigolion o ran sgiliau iaith Gymraeg a gellid ei ddefnyddio i nodi pa lefel o sgiliau (0-5) fyddai'n ofynnol ar gyfer swyddi adeiladu a gweithredu perthnasol yn Wylfa Newydd. Byddai hyn yn cynnwys asesiad o'r sgiliau llafar ac ysgrifenedig fyddai'n ofynnol ar gyfer swyddi. Roedd rhanddeiliaid y Gymraeg yn credu bod defnyddio fframwaith cydnabyddedig fel ALTE yn well na labelu gofynion sgiliau iaith Gymraeg swyddi yn 'hanfodol' neu'n 'ddymunol'. Bydd Horizon yn gofyn am gyngor y Ganolfan Genedlaethol Dysgu Cymraeg i ddatblygu'r adnodd hwn, ac yn defnyddio arferion da o adnoddau asesu y mae sefydliadau eraill yn eu defnyddio (ee Grŵp Llandrillo Menai, Cyngor Sir Gaerfyrddin). Mae modd defnyddio adnodd asesu sgiliau iaith Gymraeg ar y cyd â fframwaith cymhwysedd iaith Gymraeg i helpu i gynllunio pa lefel o sgiliau iaith Gymraeg sydd ei hangen ar gyfer swydd... Un o dasgau Cydlynydd yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant Horizon fydd datblygu'r fframwaith a'r adnodd asesu mewn partneriaeth â'r tîm Adnoddau Dynol (Gweler mesur 1) (Cyfeirnod y Cais: 8.14).*

**6.9.8.3 Ymateb CSYM i Fesur 8 y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant**

6.9.8.4 Mae CSYM yn cytuno â'r ymrwymiad hwn fel rhan o roi'r Strategaeth Sgiliau Iaith Gymraeg ar waith, fel y disgrifir yng nghyswllt Mesur 2 uchod. Awgrymir diwygio geiriad y mesur lliniaru hwn hefyd er mwyn cyfeirio yma (ac ym Mesur 9 isod) at fwriad i geisio cydymffurfio ag egwyddorion Safonau'r Gymraeg o ran Recriwtio (Adran 5 Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015. Mae datblygu adnodd asesu a fframwaith cymhwysedd sgiliau iaith Gymraeg yn dasg dra arbenigol, ac mae'n bosibl y bydd gofyn i asiantaethau allanol profiadol ymgymryd â'r gwaith ar y cyd â Chydlynydd yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant neu ar ran y Cydlynydd.

**6.9.9 Dosbarthu gwybodaeth am y Gymraeg a'i diwylliant i gontractwyr a phersonél**

**6.9.9.1 Mesur lliniaru arfaethedig Horizon yn y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant:**

a) **Mesur 9** (Cyfeirnod y Cais: 8.14): ***Bydd Horizon yn dosbarthu gwybodaeth am y Gymraeg a'i diwylliant i'r contractwyr ac i'r holl bersonél, fel rhan o'r deunyddiau recriwtio. Bydd hyn yn cynnwys datganiad cyffredinol am y gwerth y mae Horizon yn ei roi ar sgiliau iaith Gymraeg, lefel y sgiliau Cymraeg sy'n ofynnol ar gyfer swydd, yn ogystal â gwybodaeth gefndir am y Gymraeg.***

6.9.9.2 *Bydd Horizon yn datblygu datganiad cyffredinol ar werth sgiliau iaith Gymraeg a fydd yn cael ei gynnwys ym mhob hysbyseb/manyleb swydd/manyleb person ar gyfer swyddi adeiladu a gweithredu pan fydd gofyn perthnasol ynghlwm â'r swydd... Bydd Horizon yn sicrhau bod contractwyr y Prosiect ar*

*bob haen yn gorfod cynnwys datganiad tebyg ar eu deunydd recriwtio hefyd. ...Byddai sicrhau bod contractwyr yn defnyddio'r datganiad hwn yn cefnogi'r ymrwymiad o 'wneud yn siŵr bod y Gymraeg a diwylliant Cymru yn cael ystyriaeth a pharch priodol yn ein gweithgareddau cadwyn gyflenwi' sydd yn Siarter Cadwyn Gyflenwi Horizon. Bydd Horizon hefyd yn nodi lefel y sgiliau ieithyddol sy'n ofynnol ar ddeunyddiau recriwtio ar gyfer swyddi lle mae angen sgiliau iaith Gymraeg. Fel y nodwyd ym mesur 8, bydd Horizon yn mabwysiadu fframwaith cymhwysedd ac adnodd asesu iaith Gymraeg ar gyfer penderfynu ar ofynion iaith Gymraeg swyddi ar lefelau 0-5. Bydd lefel y sgiliau Cymraeg llafar ac ysgrifenedig a fydd yn ofynnol (yn seiliedig ar y fframwaith a'r adnodd asesu) yn cael eu nodi yn y deunyddiau recriwtio, a byddant yn fwyaf tebygol o ddefnyddio disgrifiadau yn ogystal â'r lefelau... Bydd Horizon hefyd yn cadw cofnod ffurfiol o sgiliau iaith Gymraeg staff a bydd yn monitro cynnydd staff sydd mewn swyddi lle mae gofyn cael sgiliau iaith Gymraeg a mynd ar hyfforddiant... Bydd Horizon yn cynnwys gwybodaeth gefndir am y Gymraeg ar Ynys Môn ac yng ngogledd orllewin Cymru mewn pecynnau recriwtio ar gyfer swyddi. Bydd yr wybodaeth a gaiff ei dosbarthu yn cynnwys gwybodaeth sylfaenol am y Gymraeg a'i diwylliant ar Ynys Môn ac yng ngogledd orllewin Cymru, gwybodaeth am y system addysg leol, manteision bod yn ddwyieithog a chyfleoedd i ddysgu'r iaith. Gallai hyn fod yn grynodeb o'r pecynnau croeso arfaethedig ar gyfer staff newydd a'u teuluoedd (gweler mesur 17) (Cyfeirnod y Cais: 8.14) i sicrhau cysondeb ac osgoi dyblygu.*

### 6.9.9.3 Ymateb CSYM i Fesur 9 y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant

6.9.9.4 Mae CSYM yn cytuno â'r mesur lliniaru hwn ac mae'n awgrymu y dylid ychwanegu'r bwriad i geisio cydymffurfio ag egwyddorion Safonau'r Gymraeg o ran Recriwtio (Adran 5 Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 (yn ogystal ag ym Mesur 8, uchod). Disgwylir y bydd y Grŵp Rhanddeiliad Allanol yn cael cyfle i adolygu a chytuno ar y cyfeiriadau at y Gymraeg yn y dogfennau recriwtio hefyd.

### 6.9.10 Gwybodaeth am y Gymraeg sy'n ofynnol ar gyfer Contractwyr

#### 6.9.10.1 Mesur lliniaru arfaethedig Horizon yn y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant:

a) **Mesur 10** (Cyfeirnod y Cais: 8.14): ***Bydd Horizon yn cynnwys gofynion gwybodaeth am y Gymraeg fel eitem ar yr agenda ar gyfer pob cyfarfod â chontractwyr. Bydd Horizon yn darparu gwybodaeth am ei gapasiti iaith Gymraeg, Polisi Iaith Gymraeg Horizon a'i rwymedigaethau, a sut bydd contractwyr yn dilyn polisi iaith Gymraeg Horizon (hynny yw, drwy'r prosesau recriwtio a'r cyfathrebu mewnol ac allanol) (yn arwain: Horizon).***

6.9.10.2 *Mae polisi iaith Gymraeg Horizon [RD2] yn nodi y bydd y cwmni 'yn annog contractwyr neu drydydd partïon sy'n cyflawni gweithgareddau ar ein rhan i gydymffurfio â'r polisi hwn'. Bydd Horizon yn diwygio ei weithdrefn paratoi manylebau er mwyn ei gwneud yn ofynnol i staff sy'n eu datblygu ystyried a*

*oes gofyn i'r gwaith sy'n cael ei gomisiynu gan gontractwyr gynnig gwasanaeth dwyieithog (ee ymholiadau dros y ffôn neu staff derbynfa mewn swyddfeydd). Yn yr achosion hynny lle mae angen bod yn ddwyieithog, bydd y staff sy'n paratoi'r manylebau'n cynnwys y gofyn hwn fel rhan o'r fanyleb ac yn ei ystyried wrth asesu unrhyw gynigion. Hefyd, bydd Horizon yn cynnwys gofynion gwybodaeth am y Gymraeg fel eitem ar yr agenda ar gyfer cyfarfodydd cychwynnol â chontractwyr pan fydd y gwaith yn cael ei wneud yng ngogledd Cymru yn bennaf. Y cam cyntaf fydd cytuno ar hyn â Menter Newydd, sef y contractwr Haen 1 a fydd yn gyfrifol am adeiladu Wylfa Newydd. Bydd trydydd partïon sy'n darparu gwasanaethau i Horizon yn rhwym wrth ddyletswydd i lynu wrth unrhyw ofynion ieithyddol sy'n cael eu hamlinellu yn y dogfennau tendro a'r manylebau.*

**6.9.10.3 Ymateb CSYM i Fesur 10 y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant**

6.9.10.4 Mae CSYM yn cytuno â'r mesur hwn ac yn awgrymu y dylid diwygio'r geiriau i gyfeirio at fwriad/nod i gydymffurfio ag arferion gorau a chyngor Comisiynydd y Gymraeg ynghylch Contractau a Chaffael.

**6.9.11 Defnyddio cyflenwyr lleol**

**6.9.11.1 Mesur gwella arfaethedig Horizon yn y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant:**

a) **Mesur 11** (Cyfeirnod y Cais: 8.14): ***Bydd Horizon yn sicrhau bod Menter Newydd a chontractwyr ar bob haen yn cael gwybodaeth am gyflenwyr lleol, ac yn cael eu hannog i'w defnyddio. Bydd cyflenwyr Horizon yn cael y gronfa ddata fusnes sy'n cael ei datblygu gan Gyngor Sir Ynys Môn, awdurdodau lleol eraill, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a Llywodraeth Cymru (yn arwain: Horizon).***

6.9.11.2 *Mae Siarter y Gadwyn Gyflenwi Horizon yn ymrwymo i 'wneud yn siŵr bod y gymuned leol a'r gadwyn gyflenwi yn cael gwybod am gyfleoedd newydd ac yn cael cyfle teg i gystadlu'*. *Mae Horizon wedi sefydlu porth cyflenwyr ac mae wedi bod yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru, Cyngor Sir Ynys Môn a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i hyrwyddo cyfleoedd i gontractwyr lleol. Er mwyn sicrhau bod busnesau lleol (sy'n fwy tebygol o gyflogi siaradwyr Cymraeg) yn gallu manteisio ar gyfleoedd tendro yn Wylfa Newydd,... bydd Horizon yn sicrhau bod Menter Newydd a chontractwyr yn Haenau 2 ac is yn cael y gronfa ddata fusnes a gaiff ei datblygu gan Gyngor Sir Ynys Môn, awdurdodau lleol eraill, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a Llywodraeth Cymru. Hefyd, dylai Horizon a Menter Newydd fonitro gwerth contractau sy'n cael eu dyfarnu i gwmnïau o ogledd Cymru fel rhan o'r cyfnod adeiladu. Bydd hyn hefyd yn helpu i ddangos effaith economaidd uniongyrchol y prosiect dros amser.*

**6.9.11.3 Ymateb CSYM i Fesur 11 y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant**

6.9.11.4 Mae CSYM yn cytuno â'r dull gweithredu hwn.

**6.9.12 Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o'r Iaith a'i Diwylliant**

**6.9.12.1 Mesur gwella arfaethedig Horizon yn y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant:**

a) **Mesur 12** (Cyfeirnod y Cais: 8.14): ***Bydd Horizon yn darparu hyfforddiant ar ymwybyddiaeth iaith a diwylliant i'r holl staff adeiladu a gweithredu ac yn gofyn i'r staff ddangos cwrteisi ieithyddol ac ymwybyddiaeth o bolisi iaith Gymraeg corfforaethol Horizon. Bydd Horizon hefyd yn datblygu rhaglen o hyfforddiant iaith Gymraeg ar wahanol lefelau ar gyfer staff adeiladu a gweithredu'r Prosiect pan fydd hyn yn ofyniad perthnasol ar gyfer swydd. Bydd Horizon yn sefydlu cynllun mentora iaith Gymraeg ar gyfer dysgwyr. Bydd Horizon yn cadw'r cynllun bathodyn ar gyfer siaradwyr Cymraeg yn ogystal â sicrhau bod Menter Newydd a chontractwyr ar bob haen yn rhoi cynllun o'r fath ar waith. Bydd Horizon yn casglu data am sgiliau iaith Gymraeg ei weithlu ac yn diweddaru hyn bob blwyddyn. Bydd Horizon yn annog staff i fanteisio ar gyfleoedd am hyfforddiant iaith Gymraeg (yn arwain: Horizon).***

6.9.12.2 *Bydd Horizon yn ei gwneud yn ofynnol i holl staff Wylfa Newydd Horizon allu dangos cwrteisi ieithyddol a bod yn ymwybodol o bolisi iaith Gymraeg corfforaethol Horizon. Bydd y mesur hwn yn cryfhau ymrwymiad presennol Horizon drwy gynnwys codi ymwybyddiaeth o iaith fel rhan o raglen gynefino gorfforaethol i staff yn Wylfa Newydd, a hynny ar gyfer staff adeiladu a gweithredu.*

6.9.12.3 *Bydd Horizon hefyd yn gofyn am gyngor y Ganolfan Genedlaethol Dysgu Cymraeg wrth ddatblygu'r cwrs hwn. Gallai datblygu a chefnogi'r gwaith o godi ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg fod yn rhan o rôl Cydlynydd yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant (gweler mesur 1). Ar gyfer staff sydd â sgiliau iaith Gymraeg yn barod, gellid teilwra hyfforddiant i'w helpu i annog a chefnogi eu cydweithwyr i ddatblygu eu sgiliau (ee modelu arfer da o ran annog pobl sy'n dysgu Cymraeg, sut i fod yn fentoriaid/hyrwyddwyr iaith yn y gweithle).*

6.9.12.4 *Bydd Horizon yn sicrhau bod y modiwl e-ddysgu ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg ar gael i staff adeiladu a chyflenwyr ac yn sicrhau bod contractwyr yn defnyddio'r modiwl... Fel rhan o'r broses o godi ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru, bydd Horizon yn gosod deunyddiau cyhoeddusrwydd priodol (ee posteri neu fideos) mewn mannau lle bydd gweithwyr yn debygol o'u gweld. Bydd hyn yn cynnwys y cyfleuster Parcio a Theithio a'r bysiau gwennol y bydd y gweithwyr yn eu defnyddio. O ran hyfforddiant iaith Gymraeg i'r gweithlu yn ehangach,*

6.9.12.5 *Bydd Horizon yn sicrhau bod amrywiaeth o hyfforddiant ar gael sy'n mapio'r fframwaith sgiliau iaith Gymraeg a gaiff ei ddatblygu. Roedd rhanddeiliaid y*

*Gymraeg yn credu bod sicrhau bod staff adeiladu a gweithredu perthnasol y Prosiect yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg fel rhan o gontinwwm yn flaenoriaeth. Mae Polisi Iaith Gymraeg Horizon [RD2] yn nodi 'Ar hyn o bryd nid ydym yn cynnig darpariaeth benodol i gynorthwyo staff i wella'u sgiliau iaith Gymraeg. Fodd bynnag, rydym yn anelu at gynnwys sgiliau iaith Gymraeg yn ein prosesau rheoli a hyfforddi staff yn y dyfodol.'*

6.9.12.6 *Bydd Horizon yn gofyn am gyngor y Ganolfan Genedlaethol Dysgu Cymraeg wrth ddatblygu ei raglen ar gyfer hyfforddi'r gweithlu. Bydd Horizon yn monitro cynnydd staff sydd mewn swyddi lle mae gofyn cael sgiliau iaith Gymraeg a mynd ar hyfforddiant. Gall hyn gynnwys defnyddio'r adnodd hunanasesu sydd wrthi'n cael ei ddatblygu gan y Ganolfan Genedlaethol Dysgu Cymraeg.*

6.9.12.7 *Yn ogystal â threfnu rhaglen hyfforddiant, bydd Horizon yn annog staff gweithredu i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg drwy fynd ar gyrsiau hyfforddi. Bydd annog staff i fanteisio ar gyfleoedd i ddysgu Cymraeg yn un o gyfrifoldebau Cydlynydd yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant.*

6.9.12.8 *Ar gyfer staff adeiladu, bydd Horizon yn annog Menter Newydd a chontractwyr i ddarparu gwybodaeth i weithwyr am y cyfleoedd i ddysgu Cymraeg. Fel rhan o'r strategaeth hon, bydd trefniadau ffurfiol Horizon ar gyfer arfarnu gweithwyr yn golygu casglu gwybodaeth am y galw am hyfforddiant iaith Gymraeg ymhlith gweithwyr y mae eu swyddi'n gofyn am rywfaint o sgiliau iaith Gymraeg (ALTE lefelau 1-5).*

6.9.12.9 *Bydd Horizon yn annog Menter Newydd a chontractwyr i ddarparu gwybodaeth i weithwyr adeiladu am y cyfleoedd i ddysgu Cymraeg. Bydd Horizon yn cadw'r cynllun 'bathodyn oren' ar gyfer siaradwyr Cymraeg ac yn sicrhau bod Menter Newydd a chontractwyr Haen 2 ac is yn rhoi cynllun o'r fath ar waith hefyd. Ar hyn o bryd, mae Horizon yn annog staff sy'n gallu siarad Cymraeg i wisgo bathodyn 'Cymraeg' pan fyddant yn y gwaith ac mae'n rhoi bathodynnau i weithwyr newydd sy'n siarad Cymraeg sy'n dechrau gweithio i'r cwmni (mae'r bathodynnau ar gael drwy gynllun 'Iaith Gwaith' Comisiynydd y Gymraeg).*

6.9.12.10 *Bydd Horizon yn cadw ei gynllun bathodynnau siaradwyr Cymraeg ac yn ystyried a ellid gwnïo bathodynnau ar ddillad gwaith staff sy'n siarad Cymraeg. Bydd Horizon hefyd yn sicrhau bod Menter Newydd a chontractwyr yn Haen 2 ac is yn mabwysiadu cynllun o'r fath. Bydd hyn yn cael ei drafod yn y cyfarfodydd cychwynnol â'r contractwyr ynghylch contractau.*

#### 6.9.12.11 Ymateb CSYM i Fesur 12 y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant

6.9.12.12 Mae CSYM yn cytuno â'r camau gweithredu a ddisgrifir yn y mesur hwn, ac yn nodi y dylid monitro'r elfen hon o'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant a'i datblygu ymhellach drwy gydol holl gamau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r Prosiect. Bydd hyn yn

sicrhau bod y Strategaeth yn esblygu mewn ymateb i unrhyw newid yn lefel yr effaith ac effaith y strategaethau lliniaru a gwella yn ystod cylch oes prosiect Wylfa Newydd.

### 6.9.13 Casglu data am bartneriaid a phlant

**6.9.13.1 Mesur gwella arfaethedig Horizon yn y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant:**

a) **Mesur 13** (*Cyfeirnod y Cais: 8.14)*: ***Bydd Horizon yn casglu data wedi'i grynhoi a dienw am bartneriaid a phlant sy'n symud i brif ardal yr astudiaeth gyda'r gweithwyr adeiladu a gweithredu ac yn rhannu'r data hwn ag awdurdodau lleol. Bydd hyn yn cynnwys ystyriaethau diogelu data, ond pan fo hynny'n bosibl, bydd yn cynnwys nifer y plant, eu hoed a lefelau eu sgiliau iaith Gymraeg er mwyn cael gwybodaeth ar gyfer cynllunwyr addysg a'r blynyddoedd cynnar. Mae'n bosibl cysylltu'r broses hon â'r Gwasanaeth Rheoli Llety Gweithwyr sy'n cael ei ddatblygu (yn arwain: Horizon).***

6.9.13.2 *Bydd Horizon yn datblygu adnodd y gellir ei ddefnyddio ar ôl recriwtio er mwyn casglu data ynghylch a yw teuluoedd gweithwyr adeiladu a gweithredu newydd o'r tu allan i brif ardal yr astudiaeth yn symud i'r ardal. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth wedi'i chrynhoi a dienw am nifer y plant sy'n symud i'r ardal, y gymuned maent yn debygol o symud iddi, am ba mor hir maent yn debygol o aros a lefelau eu sgiliau iaith Gymraeg.*

6.9.13.3 *Bydd Horizon yn cysylltu ag adrannau addysg Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd i asesu pa wybodaeth sydd ei hangen arnynt ar gyfer cynllunio gwasanaethau iaith Gymraeg (yn arbennig gwasanaethau blynyddoedd cynnar, addysg a throchi) yn gynnar yn y broses. Bydd hyn yn cynnwys faint o fanylion sydd eu hangen, pa mor aml y bydd gwybodaeth yn cael ei rhannu ac ystyriaethau diogelu data. Bydd Horizon yn gweithio gyda'r awdurdodau lleol i ddatblygu dull sy'n seiliedig ar ganiatâd o rannu gwybodaeth am nifer y recriwtiaid adeiladu a gweithredu newydd a'u teuluoedd o'r tu allan i brif ardal yr astudiaeth sy'n symud i gymunedau gwahanol. Bydd hyn yn cynnwys ystyriaethau diogelu data, ond pan fo hynny'n bosibl, bydd yn cynnwys nifer y plant, eu hoedran a lefelau eu sgiliau iaith Gymraeg er mwyn cael gwybodaeth ar gyfer cynllunwyr addysg a'r blynyddoedd cynnar.*

6.9.13.4 *I sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhoi i ddarparwyr addysg cyn gynted â phosibl, bydd Adnoddau Dynol Horizon ac Adrannau Addysg Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd yn trafod pa wybodaeth y gellid ei chasglu gan recriwtiaid newydd i'r Prosiect a sut gellid rhannu'r wybodaeth hon yn ddiogel (gyda chaniatâd yr unigolion) ar ôl iddynt dderbyn cais am swydd. Bydd gofyn ystyried dyletswyddau diogelu data a chrynhoi a thynnu enwau oddi ar ddata. Mae Horizon wrthi'n cynllunio Gwasanaeth Rheoli Llety Gweithwyr mewn partneriaeth â Chyngor Sir Ynys Môn a Llywodraeth Cymru. Gallai'r gwasanaeth hwn gefnogi'r gwaith o gasglu'r math hwn o ddata am deuluoedd gweithwyr o bosibl.*

**6.9.13.5 Ymateb CSYM i Fesur 13 y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant**

6.9.13.6 Mae CSYM yn croesawu'r ymrwymiad hwn yn unol â phenderfyniad CSYM bod rhannu data yn gynnar, fel y disgrifir uchod, yn hanfodol er mwyn rhoi'r cynlluniau lliniaru angenrheidiol ar waith. Heb ddata, bydd mesurau lliniaru'n gorfod cael eu datblygu a'u hariannu ar sail y sefyllfa waethaf.

**6.9.14 Plant, pobl ifanc a theuluoedd**

**6.9.14.1 Cymorth addysg gynradd, uwchradd ac i fyfyrwyr addysg bellach**

**6.9.14.2 Mesur gwella arfaethedig Horizon yn y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant:**

a) **Mesur 14** (*Cyfeirnod y Cais: 8.14): **Bydd Horizon yn parhau i ddatblygu a darparu cymorth addysgol dwyieithog i ddisgyblion cynradd ac uwchradd yn ogystal ag i fyfyrwyr Addysg Bellach (yn arwain: Horizon).***

6.9.14.3 *Cwblhawyd elfen gyntaf y gwaith o ddatblygu deunyddiau ystafell ddosbarth addysgol dwyieithog cynradd ar gyfer disgyblion Cyfnod Allweddol 2 yn ystod hydref 2016. Mae chwe uned sy'n mapio â chwricwlwm ysgolion wedi cael eu datblygu mewn partneriaeth ag athrawon cynradd ar Ynys Môn. Mae Horizon yn ystyried datblygu deunyddiau wedi'u hanelu at ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen. Byddai'r rhain yn cefnogi'r deunyddiau presennol yng Nghyfnod Allweddol 2 (Camau STEM). Mae'r deunyddiau hyn yn canolbwyntio ar hyrwyddo gyrfaoedd STEM ymhlith disgyblion cynradd a herio safbwyntiau ystrydebol ar rywedd mewn gyrfaoedd STEM. Bydd Horizon yn monitro'r defnydd a wneir ar y deunyddiau ac yn gwerthuso adborth athrawon a disgyblion ynghylch yr adnoddau fel rhan o'r broses fonitro ar gyfer y Strategaeth.*

6.9.14.4 *Mae Horizon wedi datblygu deunyddiau ystafell ddosbarth sy'n ymwneud â gwyddoniaeth ar gyfer ysgolion uwchradd gan gynnwys yr adnoddau addysgol 'Batris Llysiau' ar gyfer athrawon a disgyblion. Mae dwy ysgol uwchradd ar Ynys Môn wedi cael y deunyddiau hyn yn barod a bydd y tair arall yn eu cael yn nes ymlaen yn 2018. Mae Horizon hefyd wedi gweithio gyda dwy ysgol uwchradd i ddatblygu cynlluniau gwersi Ffiseg Cyfnod Allweddol 4. Bydd Horizon yn cyflenwi deunyddiau addysgol i alluogi ysgolion i gynnal rhagor o sesiynau Ffiseg ymarferol sy'n ategu adnoddau y mae GwE (consortiwm addysg rhanbarthol gogledd Cymru) wedi'u datblygu'n barod.*

6.9.14.5 *Bydd Cydlynydd Rhaglen Addysg Horizon yn gweithio gydag un o ysgolion uwchradd Ynys Môn hefyd i ddatblygu deunyddiau ar gyfer cymhwyster Bagloriaeth Cymru mewn lleoliadau Cyfnod Allweddol 4 ac ar ôl 16. Bydd y rhain yn ddwyieithog ac ar gael ar wefan Horizon. Bydd hefyd mewn partneriaeth â CBAC a GwE, consortiwm addysg rhanbarthol gogledd Cymru. Y gobaith yw y bydd CBAC yn achredu'r adnoddau hyn unwaith y*

*bydd y fersiynau terfynol yn barod. Mae Horizon wedi cynnal trafodaethau cychwynnol â Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru hefyd, i ddatblygu clipiau fideo dwyieithog a fydd yn cefnogi pobl ifanc gyda sgiliau cyfweld ac i baratoi CVs. Bydd y rhain yn cael eu datblygu ymhellach yn ystod 2018. Bydd Horizon yn monitro'r defnydd a wneir ar y deunyddiau ystafell ddosbarth ac yn gwerthuso adborth athrawon a disgyblion ynghylch yr adnoddau fel rhan o'r broses fonitro ar gyfer y Strategaeth.*

**6.9.14.6 Ymateb CSYM i Fesur 14 y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant**

6.9.14.7 Mae CSYM yn cytuno â chwmpas y mesur hwn.

**6.9.15 Cynllun prentisiaeth y prosiect**

**6.9.15.1 Mesur gwella arfaethedig Horizon yn y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant:**

a) **Mesur 15** (Cyfeirnod y Cais: 8.14): ***Bydd Horizon yn cynnal cynllun prentisiaethau'r Prosiect ac yn parhau i ddarparu'r 'Wythnos Cipolwg ar Waith' neu gynllun cyfatebol, i bobl ifanc (yn arwain: Horizon)***

6.9.15.2 *Dechreuodd carfan gyntaf prentisiaid Wylfa Newydd ym mis Medi 2016. Mae wyth o brentisiaid (mae chwech ohonynt yn siarad Cymraeg ac mae'r ddau arall o Ynys Môn). Y bwriad yw ehangu'r cynllun prentisiaethau dros y blynyddoedd i ddod. Bydd Horizon yn cynnal y cynllun prentisiaethau wrth i'r Prosiect ddatblygu, gan ystyried cynyddu nifer y cyfleoedd sydd ar gael yn y dyfodol. Bydd nifer y cyfleoedd sy'n cael eu cynnig a'u derbyn, y cyfraddau cwblhau a'r cyfraddau dilyniant i gyflogaeth yn cael eu monitro bob blwyddyn, a bydd Rhanddeiliaid y Gymraeg yn dal i gael yr wybodaeth hon.*

6.9.15.3 *Bydd Horizon yn parhau i ddarparu 'Wythnos Cipolwg ar Waith' i bobl ifanc hefyd. Mae Horizon wedi treialu wythnos 'Cipolwg ar Waith' ar gyfer 12 o fyfyrwyr ysgolion uwchradd Ynys Môn a myfyrwyr Addysg Bellach Grŵp Llandrillo Menai. Cafodd yr Wythnos Cipolwg ar Waith ei hymestyn i bara pythefnos ym mis Gorffennaf 2017, ac roedd yn targedu myfyrwyr Blynyddoedd 11-13.*

**6.9.15.4 Ymateb CSYM i Fesur 15 y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant**

6.9.15.5 Mae buddsoddiad Horizon mewn cyfleusterau STEM ysgolion Ynys Môn a safle Coleg Llandrillo Menai yn Llangefni yn helpu i sicrhau bod pobl ifanc Ynys Môn yn cael eu hyfforddi i'r safonau gorau posibl, er mwyn iddynt allu manteisio ar y cyfleoedd gwaith sy'n gysylltiedig â'r prosiect arfaethedig. Yn ogystal â chefnogi'r buddsoddiad hwn, mae'n bwysig bod y buddsoddiad hefyd **yn cynnwys pwyslais ar werth dilyn gyrfa mewn pynciau STEM, naill ai'n gyfan gwbl, neu'n rhannol drwy gyfrwng y Gymraeg.**

**6.9.15.6 Mae CSYM yn nodi nad yw'r angen hwn yn cael sylw yn yr Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg nac yn y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant**. Bydd cynnwys pwyslais o'r fath mewn unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd a dogfennau cysylltiedig yn caniatáu cynnydd sy'n fwy ystyrlon wrth symud o ysgolion i addysg bellach ac uwch (lle mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn chwarae rhan bwysig yn hyrwyddo astudio pynciau STEM drwy gyfrwng y Gymraeg) ac ymlaen at gyflogaeth â Horizon (lle, unwaith eto, rhoddir pwyslais ar werth fod yn weithiwr dwyieithog).

**6.9.16 Cefnogi addysg drochi**

**6.9.16.1 Mesur lliniaru arfaethedig Horizon yn y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant:**

a) **Mesur 16** (*Cyfeirnod y Cais: 8.14): **Bydd Horizon yn ariannu gwasanaeth athrawon peripatetig (pro-rata fel y gwelir isod) a fyddai'n cefnogi'r capasiti addysg drochi bresennol ar Ynys Môn (a Gwynedd o bosibl os oes angen) ar draws ysgolion cynradd ac uwchradd. Bydd arian ar gael er mwyn i ddau athro trochi iaith fod ar gael i weithio gyda disgyblion pan fydd y gwaith adeiladu'n dechrau. Bydd lefel y gwasanaeth hwn yn gymesur â nifer y gweithwyr a fydd yn dod â'u teuluoedd gyda nhw a bydd yn cynyddu neu'n gostwng yn ôl y galw. Bydd nifer y gweithwyr sy'n dod â'u teuluoedd gyda nhw yn cael ei fonitro drwy gasglu data (yn arwain: Cyngor Sir Ynys Môn).***

6.9.16.2 *Mae adroddiad yr AEIG yn nodi y bydd tua 251 o blant yn dod i'r ardal yn ystod y gwaith adeiladu a gweithredu (hynny yw, 220 o blant oed ysgol yn ystod y cam adeiladu a hyd at 31 yn ystod y cam gweithredu). Mae'r data'n seiliedig ar asesiad economaidd-gymdeithasol Horizon ar gyfer y Prosiect. Mae'r asesiad economaidd-gymdeithasol yn amcangyfrif y bydd 220 o blant oed ysgol i staff adeiladu yn cyrraedd rhwng dechrau'r cam adeiladu a chyfnod prysuraf y cam adeiladu. Tybir y bydd 31 plentyn ychwanegol yn cyrraedd yn ystod y cam gweithredu. Nid yw'r asesiad economaidd-gymdeithasol yn dadansoddi'r data fesul blwyddyn. Ar hyn o bryd, mae canolfannau trochi iaith Gymraeg awdurdodau lleol ym mhrif ardal yr astudiaeth yn darparu cyrsiau Cymraeg dwys i bobl sy'n newydd i'r ardal i'w galluogi i gymryd rhan lawn mewn addysg ddwyieithog. Mae'r gwasanaeth trochi iaith yn gweithio gyda thua 70 o ddisgyblion bob blwyddyn, ac mae ganddo bum aelod o staff llawn amser. Mae'r ddarpariaeth yn cynnwys cwrs dwys, llawn amser am ddeg wythnos i ddisgyblion mewn un o ddau leoliad ar Ynys Môn, gyda gwaith un-i-un i ddilyn hynny. Mae pob athro trochi iaith yn gweithio gyda thua 15 o ddisgyblion yn ystod tymhorau'r hydref a'r gwanwyn (yn cyflwyno cwrs deg wythnos yn un o'r canolfannau) ac yn gwneud gwaith dilynol wedi'i dargedu gyda'r disgyblion yn ystod tymor yr haf. Mae pum aelod o staff llawn amser yn darparu cyrsiau trochi iaith Gymraeg i ddisgyblion mewn dwy ganolfan ar Ynys Môn ar hyn o bryd. Tynnodd cynrychiolwyr Cyngor Sir Ynys Môn sylw at y ffaith fod yr addysg yn y canolfannau'n tueddu i ganolbwyntio ar ddisgyblion cynradd, gyda disgyblion*

*uwchradd yn tueddu i ofyn am addysg beripatetig ar safle'r ysgol. Mae addysg beripatetig yn tueddu i fod yn fwy trwm ar adnoddau. Mae'r AEIG yn tynnu sylw at y ffaith y byddai'r mewnlif o blant oed ysgol a fyddai'n symud i brif ardal yr astudiaeth yn ystod y cam adeiladu yn cynyddu'r galw am leoedd y tu hwnt i gapasiti yn y canolfannau trochi. Pwysleisiodd rhanddeiliaid y Gymraeg y byddai angen tîm estynedig a fyddai'n gallu gweithio ar draws llawer o ysgolion a chanolfannau yn ogystal â gyda grwpiau oed gwahanol. Byddai union natur darpariaeth ychwanegol yn dibynnu ar y canlynol:*

*a) nifer y plant oed ysgol sy'n symud i brif ardal yr astudiaeth (amcangyfrif o 251 yn ystod y cam gweithredu);*
*b) oed y plant sy'n cyrraedd: byddai'r ddarpariaeth drochi ar gyfer disgyblion uwchradd yn debygol o fod angen rhagor o adnoddau na'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion cynradd;*
*c) pa bryd mae'r plant yn symud i'r ardal.*

6.9.16.3 *Byddai'r gwasanaeth athrawon peripatetig sy'n cael ei gynnig gan Gyngor Sir Ynys Môn yn gallu gweithio mewn ysgolion cynradd ac uwchradd ar draws yr awdurdodau lleol yn ogystal ag yn y canolfannau trochi pe bai angen. Roedd rhanddeiliaid y Gymraeg yn credu y dylai'r gwasanaeth athrawon peripatetig fod yn ddigon hyblyg i weithio yng Ngwynedd pe bai mwy o alw ar y gwasanaethau trochi yn y sir honno. Nododd rhanddeiliaid y Gymraeg hefyd fod angen capasiti i gefnogi disgyblion a theuluoedd â dim sgiliau Saesneg neu fawr ddim sgiliau o'r fath sy'n dymuno cael gafael ar y math hwn o gymorth. Bydd gofyn ystyried hyn fel rhan o'r mesurau lliniaru ehangach ar gyfer Wylfa Newydd. Fel rhan o'r broses o fonitro'r Strategaeth hon, dylai Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd fonitro'r mewnlif o ddisgyblion newydd i ysgolion a faint sy'n manteisio ar y ddarpariaeth drochi a chymharu hynny â'r data rhagamcanol o asesiadau economaidd-gymdeithasol Horizon (gweler mesur 13).*

**6.9.16.4 Ymateb CSYM i Fesur 16 y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant**

6.9.16.5 Mae pob un o ysgolion cynradd Ynys Môn yn ysgolion dwyieithog sy'n cynnal asesiadau ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a CA2 drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r Gymraeg yn faes blaenoriaeth yn y ddwy ysgol gynradd lle ceir eithriad. Bydd angen cymorth trochi ar yr holl blant oed ysgol gynradd sy'n symud i Ynys Môn, ni waeth pa ysgol y byddant yn dewis ei mynychu. Bydd angen cymorth yn y ddwy iaith ar blant lle mae'r Saesneg a'r Gymraeg yn newydd iddynt.

b) 6.9.16.6 Mae CSYM yn derbyn bod Horizon yn cydnabod y bydd 'cynnydd yn nifer y plant di-Gymraeg oed ysgol mewn ardaloedd lle mae addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei darparu yn gallu cynyddu'r pwysau ar ganolfannau trochi iaith yn arbennig'.[42] **Mae sicrhau bod darpariaeth ddigonol ar gyfer trochi plant sy'n symud i'r ardal yn yr iaith Gymraeg yn gam lliniaru hanfodol. Mae'r cymorth Saesneg fel Iaith**

[42] Cyfeirnod Llyfrgell Archwiliadau APP-[432], para B.4.382.

**Ychwanegol ar gyfer plant sy'n newydd i'r Saesneg yn hanfodol hefyd. Oherwydd y diffyg sicrwydd o ran nifer, oed, cefndir iaith (a ydynt yn siarad ieithoedd eraill heblaw am Gymraeg neu Saesneg), anghenion dysgu ychwanegol, lleoliad preswylio a chofrestru mewn ysgolion, mae CSYM yn gofyn i Horizon ddarparu cyllid i baratoi ar gyfer y sefyllfa waethaf cyn y cam adeiladu;**

6.9.16.7 Mae CSYM yn cydnabod bod Horizon wedi cytuno i dalu am ragor o athrawon trochi, yn unol â'r galw am y gwasanaeth. Nid yw'n debygol y bydd cynnig Horizon i dalu am ddau athro trochi iaith yn ddigonol. Gan na ddylai'r gymhareb athrawon a disgyblion yn y ddarpariaeth drochi fod yn fwy na 8:1 ac y dylid dysgu disgyblion mewn carfanau o'r un oed, bydd angen mwy na dau athro ychwanegol. Dylid cydnabod hyn yn glir ym Mesur 16 y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant

6.9.16.8 Ar sail y capasiti presennol a'r twf a ragwelir yn yr angen am gymorth ychwanegol (gweler Atodiad 1 am ragor o fanylion), mae'r Awdurdod wedi nodi'r **angen i Horizon dalu am gyflogi:**

a) **pump o athrawon trochi Cymraeg ychwanegol er mwyn bodloni'r anghenion a ragwelir gan ddisgyblion ysgolion cynradd (yn cyfateb i 2.5 ym mhob un o'r ddwy ganolfan iaith ychwanegol)**
b) **pump o athrawon trochi Cymraeg arbenigol a phump o gymorthyddion dosbarth (Lefel 3) trochi (hynny yw, un athro ac un cymhorthydd dosbarth ym mhob un o bum ysgol uwchradd Ynys Môn) er mwyn bodloni anghenion a ragwelir gan ddisgyblion CA3.**
c) **dau athro Saesneg fel Iaith Ychwanegol i gefnogi plant 7 oed a hŷn sy'n dod i ysgolion Ynys Môn ac y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt.**

**6.9.16.9 Bydd angen ariannu a sefydlu'r ddarpariaeth hon mewn da bryd cyn i blant gweithwyr Horizon gyrraedd** er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth ar gael ac wedi'i sefydlu'n gadarn ar gyfer pan fydd y disgyblion cyntaf yn cyrraedd. Rhagwelir y bydd yn cymryd **o leiaf dwy flynedd** i sefydlu'r camau a fydd yn angenrheidiol i baratoi ar gyfer y plant cyntaf a fydd yn symud i'r ardal, a bydd yn cynnwys yr isod, ymhlith camau eraill:

a) Recriwtio a hyfforddi athrawon trochi arbenigol.
b) Recriwtio a hyfforddi staff am anghenion diwylliannol ac iaith ychwanegol disgyblion y mae Saesneg/Cymraeg yn iaith ychwanegol iddynt.
c) Defnyddio'r staff arbenigol i hyfforddi athrawon y sector cynradd ym mhob un o ysgolion Ynys Môn, ac yn arbennig, y rhai hynny sydd fwyaf tebygol o dderbyn disgyblion newydd o ganlyniad i Wylfa Newydd.
d) Datblygu a sefydlu strategaethau sgrinio fel WELLCOMM yn y Cyfnod Sylfaen a galluogi athrawon prif ffrwd CA2 a CA3 yn well i ddefnyddio sgiliau trochi yn yr ystafell ddosbarth.

e) Datblygu deunyddiau a hyfforddiant yn yr ieithoedd ychwanegol heblaw Saesneg (ee Japaneg ac ieithoedd ychwanegol eraill disgwyliedig / hysbys).[43]

**6.9.16.10 Bydd angen darpariaeth sy'n ymwneud â bodloni anghenion ychwanegol dibynyddion cyn ysgol, ysgolion cynradd ac ysgolion yn ystod camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu** y Prosiect. Bydd faint o blant gweithlu Horizon fydd angen cymorth yn dibynnu ar anghenion cymorth ychwanegol pob plentyn, a bydd angen adolygu hynny bob blwyddyn yn ystod cyfnod y prosiect. Os nad yw'r ffigurau'n hysbys, bydd gofyn i Horizon ddarparu cyllid rhesymol ar gyfer y sefyllfa waethaf. **Dylid cydnabod hyn yn glir ym Mesur 16 y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant.**

**6.9.17 Pecynnau croeso**

**6.9.17.1 Mesur gwella arfaethedig Horizon yn y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant:**

a) **Mesur 17** (Cyfeirnod y Cais: 8.14): ***Horizon i ddatblygu a dosbarthu pecynnau croeso i deuluoedd gweithwyr y Prosiect sy'n symud i brif ardal yr astudiaeth. Bydd y rhain yn ategu'r wybodaeth a geir ym Mhecynnau Croeso arfaethedig Llywodraeth Cymru a byddant yn darparu gwybodaeth am wasanaethau lleol a'r gymuned. (yn arwain: Horizon, Llywodraeth Cymru, Cyngor Sir Ynys Môn).***

*Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n datblygu pecynnau croeso i deuluoedd sy'n symud i Gymru ac mae'n ystyried eu treialu ar Ynys Môn. Pe bai Horizon yn datblygu pecynnau croeso tebyg yn annibynnol, mae posibilrwydd y byddai achosion o ddyblygu (er y gallai pecynnau croeso i staff Horizon gynnwys gwybodaeth atodol sy'n benodol i'r cwmni). Fodd bynnag, ymddengys nad oes unrhyw ddull o sicrhau bod pecynnau croeso yn cael eu dosbarthu a'u hesbonio i bobl sy'n symud i'r ardal. Dylai Cydlynydd yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant Horizon, a chynrychiolwyr o Gyngor Sir Ynys Môn a Llywodraeth Cymru gynnal deialog barhaus i drafod cynnwys arfaethedig y pecynnau croeso hyn ar yr iaith ac er mwyn cytuno ar sut gall Horizon ddefnyddio templed Llywodraeth Cymru ar gyfer y pecynnau hyn. Yn dilyn hyn, dylai Horizon ystyried pa wybodaeth ychwanegol sy'n ofynnol ar gyfer teuluoedd gweithlu'r Prosiect.*

**6.9.17.2 Ymateb CSYM i Fesur 17 y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant**

6.9.17.3 Mae CSYM yn cytuno bod y mesur lliniaru hwn yn briodol. Fodd bynnag, mae angen rhagor o fanylion i nodi sut bydd Horizon yn addasu cynnwys pecynnau croeso Llywodraeth Cymru. Er enghraifft, rhagwelir y bydd disgwyl

[43] Mae rhai canolfannau trochi wedi datblygu deunyddiau mewn ieithoedd fel Pwyleg yn barod er mwyn helpu plant a rhieni/gofalwyr nad ydynt yn deall Saesneg i gyfathrebu'n well â staff addysgu a staff cymorth. Rhagwelir y bydd angen deunydd mewn ieithoedd eraill er mwyn bodloni anghenion dibynyddion y gweithlu rhyngwladol a gyflogir gan brosiect Wylfa Newydd Horizon.

i weithwyr o’r tu allan i’r DU gael eu recriwtio ar gyfer y gweithlu, ac y byddant yn dod â’u dibynyddion gyda nhw. Ni fydd gwŷr/gwragedd/partneriaid o reidrwydd yn gallu siarad/darllen Saesneg. **Bydd gofyn i'r gyllideb ar gyfer y gwaith hwn ddarparu ar gyfer cyfieithu’r testun dwyieithog Cymraeg / Saesneg a’i addasu’n ddiwylliannol i Japaneg ac ieithoedd eraill a ragwelir, yn dibynnu ar o ble daw y gweithwyr a fydd yn cael eu recriwtio**.

6.9.17.4 Mae angen diffinio ‘dosbarthu’. Mae angen sicrhau bod y pecynnau hyn ar gael yn electronig ar-lein neu’n cael eu dosbarthu i bob gweithiwr. Ond nid yw hyn yn ddigon ar ei ben ei hun. **Mae CSYM yn disgwyl i Horizon ymrwymo i dalu am ‘sesiynau croesawu’ yn arbennig ar gyfer partneriaid/gwŷr/gwragedd y gweithwyr.** Byddai’r sesiynau croesawu hyn yn gyfle i drafod cynnwys y Pecynnau Croeso. Byddent yn gyfle i gwrdd â Swyddog Cynnwys y Gymuned sy’n gyfrifol am integreiddio yn y gymuned, darparwyr Cymraeg i Oedolion a darparwyr gwasanaethau perthnasol eraill (ee darparwyr gofal plant a chyn ysgol).

6.9.17.5 Hefyd, mae yna angen cyffredinol i addysgu’r teuluoedd sy’n symud i Ynys Môn am fanteision addysg cyfrwng Cymraeg. Mae CSYM yn cytuno ei bod yn briodol datblygu a dosbarthu Pecynnau Croeso i deuluoedd gweithwyr y prosiect. Fodd bynnag, **mae hefyd yn hollbwysig bod camau i godi ymwybyddiaeth rhieni am sensitifrwydd ieithyddol Ynys Môn, system addysg ddwyieithog yr ynys, manteision dwyieithrwydd a’r cymorth trochi ychwanegol sydd ar gael i blant sy’n symud i’r ardal, yn cael eu rhannu’n effeithiol fel rhan o’r broses recriwtio**. Oherwydd pwysigrwydd polisi addysg ddwyieithog CSYM, mae’n hanfodol bod rhieni a gofalwyr darpar ddisgyblion a fydd yn cael eu derbyn yn system addysg CSYM yn gwbl ymwybodol o fanteision addysg cyfrwng Cymraeg ac yn cefnogi eu plant i ddysgu’r iaith.

### 6.9.18 Cadw cymeriad ieithyddol ysgolion

#### 6.9.18.1 Mesur gwella arfaethedig Horizon yn y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a’i Diwylliant:

6.9.18.2 I lawer o blant sy'n siarad Cymraeg sy’n cael eu magu mewn cartrefi â rhieni/gofalwyr di-Gymraeg, maent yn cael y prif gyfle i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg yn yr ysgol. Mae’n bosibl i unrhyw newid i gyfansoddiad ieithyddol ysgolion o ganlyniad i Brosiect Wylfa Newydd, yn arbennig yng ngogledd yr ynys,[44] effeithio ar rôl ganolog ysgolion fel rhywle lle mae plant a phobl ifanc Ynys Môn yn dysgu ac yn defnyddio’r Gymraeg.

6.9.18.3 Heb fesurau lliniaru a gwella addas, gallai’r Prosiect gael effaith niweidiol ar y defnydd a wneir o’r Gymraeg ymhlith plant oed ysgol. Mae hefyd yn hanfodol bod y mesurau lliniaru a gwella sy’n cael eu mabwysiadu yn gydnaws â gwaith CSYM er mwyn cyflawni ei weledigaeth “*Bod holl blant a phobl ifanc Môn yn hyfedr ddwyieithog ac yn meddu ar y gallu i ddefnyddio’r*

[44] Cyfeirnod Llyfrgell Archwiliadau APP-[432], para B.4.378 a B.4.383.

*ddwy iaith yn gyfartal ar ddiwedd eu gyrfa addysgol gan sicrhau nad oes yr un disgybl yn cael ei amddifadu o'r gallu na'r haeddiant hwnnw*".[45] Yn yr un modd, mae'r mesurau hyn yn hanfodol er mwyn cyrraedd nod strategol Llywodraeth Cymru i "*gynyddu'n sylweddol nifer y dysgwyr yn y sector addysg statudol sy'n datblygu sgiliau Cymraeg, a sicrhau bod pob dysgwr yn datblygu sgiliau yn y Gymraeg i safon a fydd yn eu galluogi i ddefnyddio'r iaith yn eu bywydau bob dydd*."[46]

6.9.18.4 Mae mapiau 11, 18 ac 19 Proffil Cymraeg (Atodiad 1) yn defnyddio data CYBLD Ionawr 2018 i gael proffil o allu iaith Gymraeg disgyblion ysgolion cynradd ac uwchradd Ynys Môn. Mae modd defnyddio data CYBLD hefyd i gael proffil o ba gyfran o ddisgyblion ysgol sy'n siarad Cymraeg gartref neu beidio. Bydd effaith prosiect Horizon ar ysgolion unigol yn dibynnu, yn anochel, ar faint a phroffil iaith presennol pob ysgol a nifer y disgyblion ychwanegol a ddaw yn sgil Prosiect Horizon.

**6.9.18.5 Mae CSYM gofyn i Horizon, gyda chymorth CSYM (o ran darparu data dienw CYBLD) yn modelu'r effaith bosibl y gallai disgyblion di-Gymraeg ychwanegol ei chael, yn arbennig ar yr ysgolion cynradd a'r ysgolion uwchradd hynny yng ngogledd yr ynys**.

6.9.18.6 Bydd yr ymarfer hwn yn helpu CSYM a'r ysgolion unigol i fynd ati i gynllunio'n rhagweithiol ar gyfer unrhyw gynnydd yn nifer y disgyblion di-Gymraeg, sy'n gysylltiedig â'r camau adeiladu a gweithredu, ac yn y man, y cam datgomisiynu. Mae'n hanfodol cynllunio'n gynnar ac yn rhagweithiol er mwyn osgoi amharu ar addysg dibynyddion y teuluoedd/aelwydydd sy'n symud i'r ardal a'r ysgolion a fydd yn eu derbyn.

**6.9.19 Gwasanaethau cymunedol a lleol**

**6.9.19.1 Ariannu'r gwasanaethau iaith cymunedol a fydd yn cael eu darparu**

**6.9.19.2 Mesur lliniaru arfaethedig Horizon yn y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant:**

a) **Mesur 18** (Cyfeirnod y Cais: 8.14): ***Bydd Horizon yn ariannu'r gwaith o ddarparu gwasanaethau iaith cymunedol (gan gynnwys datblygu deunyddiau hyfforddi priodol) i gefnogi pobl sy'n symud i'r ardal i ddod yn rhan o'r gymuned a meithrin capasiti yn y gymuned leol. Byddai hyn yn gysylltiedig â rôl Swyddogion Cynnwys y Gymuned (yn arwain: Cyngor Sir Ynys Môn).***

6.9.19.3 *Bwriad y mesur hwn yw lliniaru effaith y mewnlif hwn o weithwyr yn ystod y cyfnod adeiladu. ...Y prif bartner (Cyngor Sir Ynys Môn) fyddai'n pennu'r union ddull o weithio, mewn partneriaeth â Chyngor Gwynedd a sefydliadau cymunedol presennol a gynrychiolir ar Fforwm Iaith Strategol Ynys Môn (fel Menter Môn, Urdd Gobaith Cymru a Chlybiau Ffermwyr Ifanc)... Dylai Cyngor Sir Ynys Môn fonitro a gwerthuso pa mor effeithiol yw'r gwasanaethau iaith*

[45] Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Ynys Môn 2017-2020, tudalen 1. (Dolen)
[46] Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr, tudalen 37. (Dolen)

*cymunedol hyn ac adrodd yn ôl ar hyn i'r grŵp rhanddeiliaid allanol sy'n goruchwylio'r Strategaeth hon (gweler mesur 22) bob blwyddyn. .....*

6.9.19.4 *Fel rhan o'r mesur hwn, byddai Horizon yn ariannu'r gwaith o ddatblygu deunyddiau hyfforddi priodol i gefnogi'r broses o helpu pobl sy'n symud i'r ardal i ddod yn rhan o'r gymuned ac er mwyn meithrin capasiti yn y gymuned leol. Gallai'r math hwn o hyfforddiant ganolbwyntio ar faterion fel:*

*a) sut mae cyflwyno'r Gymraeg a'i diwylliant i bobl sy'n symud i'r ardal;*
*b) datblygu sgiliau arwain cymunedol mewn cyd-destun dwyieithog;*
*c) sut mae cynnal digwyddiad dwyieithog yn llwyddiannus;*
*d) cadeirio cyfarfod yn ddwyieithog;*
*e) cynllunio gweithgareddau cymunedol dwyieithog ee grwpiau, gweithgareddau celf, clybiau chwaraeon.*

6.9.19.5 *Y cam cyntaf o ran rhoi'r mesur hwn ar waith ddylai fod i'r sefydliad sy'n arwain (Cyngor Sir Ynys Môn) adolygu'r arfer presennol, fel datblygiad yr 'Academi Arweinyddiaeth Gymunedol' yng Ngheredigion o dan arweiniad Cered, Menter Iaith Ceredigion a Theatr Felinfach. Dylid gofyn am gyngor y Ganolfan Genedlaethol Dysgu Cymraeg wrth ddatblygu'r modiwl hwn hefyd. Byddai gofyn chwilio am ragor o wybodaeth am gostau posibl datblygu modiwl o'r fath. Unwaith y caiff ei ddatblygu, dylid monitro faint o bobl sy'n dechrau ar y cwrs ac yn ei ddarparu a dylid gwerthuso adborth y cyfranogion.*

**6.9.19.6 Ymateb CSYM i Fesur 18 y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant**

6.9.19.7 Mae CSYM yn cytuno â'r dull gweithredu sydd wedi'i amlinellu ym Mesur 18 ac mae'n ystyried bod y mesur hwn yn bodloni'r pedair elfen sy'n ymwneud ag integreiddio gweithwyr Horizon a'u dibynyddion mewn cymunedau ar Ynys Môn:

a) darparu hyfforddiant i unigolion lleol i ddatblygu eu sgiliau arwain cymunedol a meithrin capasiti'r gymuned i barhau i ddefnyddio'r Gymraeg a chefnogi pobl sy'n symud i'r ardal i integreiddio yn y gymuned leol;
b) rhoi technegau cynllunio iaith ar lefel ficro ar waith i ehangu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned;
c) darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth o iaith a diwylliant a chyfleoedd dysgu Cymraeg i bobl sy'n symud i'r ardal; a
d) datblygu prosiectau penodol sy'n ymwneud â llesiant ac integreiddio i'r gymuned.

6.9.19.8 Mae Horizon wedi dweud y byddai ariannu prosiectau cymunedol yn rhan o'r pecyn buddion i'r gymuned, felly nid yw wedi'i gynnwys yn y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant. Mae CSYM yn credu bod angen i brosiectau cymunedol fod yn gysylltiedig â gwahanol flaenoriaethau lliniaru'r Strategaeth.

**Hyfforddiant arwain y gymuned**

6.9.19.9 Mae CSYM wedi cynnal adolygiad cychwynnol o’r arfer presennol, fel datblygu Academi Arweinyddiaeth Gymunedol yng Ngheredigion dan arweinyddiaeth Cered, Menter Iaith Ceredigion a Theatr Felinfach. Mae’r prosiect (sy’n dwyn yr enw ‘Burum Bro’ bellach) wedi’i strwythuro i ddarparu hyfforddiant i ddatblygu sgiliau arwain y gymuned ar gyfer unigolion sy’n gallu ymgymryd â rolau arwain strategol yn eu cymunedau a gwella cydnerthedd cymunedol. Mae CSYM yn cefnogi addasu prosiect o’r fath ar gyfer anghenion y cymunedau y bydd Wylfa Newydd yn effeithio arnynt yn Ynys Môn ac ym mhrif ardal yr astudiaeth yn ehangach. Byddai gofyn cael Swyddog Prosiect ar gyfer prosiect o’r fath, i fod yn gyfrifol am gydlynu a gweinyddu’r prosiect a chanfod unigolion i'w recriwtio ar gyfer yr hyfforddiant. Hefyd byddai angen Cyfarwyddwr y Rhaglen a thîm o hyfforddwyr profiadol i ddarparu’r hyfforddiant. Rhagwelir y byddai angen cyllideb o £50,000 - £100,000 ar gyfer sefydlu’r prosiect, a byddai’r costau rhedeg blynyddol parhaus tua £50,000. Rhagwelir y byddai'r pum Swyddog Cynnwys y Gymuned ymhlith y garfan gyntaf o unigolion i gymryd rhan yn yr hyfforddiant hwn.

**Cynlluniau iaith cymunedol ar lefel ficro**

6.9.19.10 Agwedd arall ar ddatblygu cydnerthedd cymunedol ac integreiddio pobl sy’n symud i’r ardal fyddai rhoi pecyn adnoddau cynllunio iaith ar lefel ficro Llywodraeth Cymru, ‘Gweithredu’n Lleol’ [47] ar waith. Nod y pecyn adnoddau hwn yw helpu grwpiau lleol i ganfod anghenion datblygu a gweithredu o blaid y Gymraeg o fewn eu cymdogaeth leol. Drwy weithredu’r pecyn a’i brosesau gobeithir ysgogi gweithgaredd cydlynus o fewn cymdogaethau Cymraeg er mwyn ceisio gosod yr amodau cymdeithasol gorau posibl er ffyniant y Gymraeg yn lleol. Mae CSYM yn rhagweld y gallai Swyddogion Cynnwys y Gymuned arwain ar y gwaith cynllunio iaith hwn ar lefel ficro mewn cymunedau yn eu dalgylchoedd.

**Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o’r Iaith a’i Diwylliant a chyfleoedd i ddysgu Cymraeg**

6.9.19.11 Byddai gofyn am gyngor gan y Ganolfan Genedlaethol Dysgu Cymraeg yn gam cadarnhaol wrth ddatblygu cyfleoedd addas i weithwyr Horizon a’u dibynyddion i ddysgu Cymraeg. Byddai cyngor, arweiniad a chymorth ymarferol gan y Ganolfan sy’n dysgu Cymraeg i Oedolion ym Mhrifysgol Bangor yn adnodd ychwanegol o safon uchel hefyd.

6.9.19.12 Mae CSYM yn cefnogi bwriad Horizon i baratoi deunyddiau hyfforddi i helpu i integreiddio gweithwyr sy’n symud i’r ardal a’u dibynyddion ac y dylai cynnwys y deunydd hyfforddi a amlinellir yn y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a’i Diwylliant 4.4.8 helpu aelodau'r gymuned i barhau i ddefnyddio’r Gymraeg a hynny wrth gefnogi pobl sy’n symud i’r ardal i integreiddio. Dylid rhoi gwybodaeth hefyd i bob aelwyd yn Ynys Môn a Gwynedd sy’n darparu cyngor ac arweiniad ynghylch pwysigrwydd

[47] Pecyn adnoddau Gweithredu'n Lleol (Dolen)

parhau i siarad Cymraeg â phobl sy'n symud i'r ardal a siarad Cymraeg pan fyddant yn eu cwmni. Bydd angen cefnogaeth y Gwasanaeth Cyfieithu Cymunedol (Mesur 20) i sicrhau bod digwyddiadau cymunedol yn cynnwys pawb ac er mwyn hwyluso cydlyniant cymunedol a pharhau i ddefnyddio'r Gymraeg.

6.9.19.13 Bydd angen monitro a gwerthuso'r broses o ddosbarthu deunyddiau gwybodaeth a'u heffaith yn ofalus, oherwydd mae'n bosibl mai ychydig iawn o effaith y gallai darparu gwybodaeth ei chael ar ymddygiad a gweithredoedd pobl. Fel rhan o'r datblygiad hwn, dylid ystyried mynd ati i hyrwyddo manteision siarad Cymraeg a bod yn ddwyieithog ymhellach. Dylai prosiectau yn y cyd-destun hwn fod yn rhagweithiol o ran hybu dwyieithrwydd yn hytrach na bod yn ymatebol oherwydd y nifer fawr o weithwyr di-Gymraeg yn symud i'r ardal. Dylai'r datblygiad hwn ymwneud â sicrhau bod y cymunedau lleol yn ddigon cadarn yn ieithyddol i oroesi'r newid hwn o ran dynamig ieithyddol eu cymunedau lleol, yn ogystal â delio â sut gall y bobl sy'n symud integreiddio yn y cymunedau hynny.

**6.9.19.14 Mae angen cytundeb pellach ar CSYM ynghylch creu hybiau iaith cymunedol sy'n darparu gwersi Cymraeg, hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith a gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer dysgwyr Cymraeg.**

**Datblygu prosiectau penodol sy'n ymwneud â llesiant ac integreiddio i'r gymuned**

**6.9.19.15 Mae CSYM yn credu bod angen ystyried yn fanwl effaith y nifer fawr o bobl ddi-Gymraeg yn mewnfudo i Ynys Môn ar amrywiaeth o grwpiau gwirfoddol / gweithgaredd / ieuenctid lleol, gyda nifer ohonynt yn gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog ar hyn o bryd.** A fydd yr iaith a ddefnyddir mewn sesiwn hyfforddi pêl-droed neu mewn cyfarfod o'r Sgowtiaid yn newid o ganlyniad i gynnwys pobl newydd, di-Gymraeg yn y grwpiau hyn, er enghraifft? Sut gellid lliniaru'r effeithiau hyn? Mae'r effeithiau hyn yn debygol o fod yn fwy amlwg yng ngogledd yr ynys, oherwydd bod y prosiect wedi'i ddwysáu yng ngogledd Ynys Môn. Mae Horizon yn amau a oes angen pump o Swyddogion Cynnwys y Gymuned, a fyddai'n gweithio ym mhob un o ysgolion uwchradd y dalgylch, er mwyn delio â'r mater hwn. Mae map 21, Atodiad 1 yn dangos pob un o'r pum ardal ddaearyddol. Fodd bynnag, mae CSYM o'r farn bod y rolau hyn yn hanfodol os bydd cymeriad cyfrwng Cymraeg nifer o'r grwpiau gwirfoddol / gweithgaredd / ieuenctid ar Ynys Môn am gael ei gynnal a'i wella.

**Pum Swyddog Cynnwys y Gymuned**

6.9.19.16 Mae Mesur 18 yn gysylltiedig â rôl 'Swyddogion Cynnwys y Gymuned'. Mae'n hanfodol bod CSYM yn rhan o'r broses o benderfynu ar gylch gwaith Swyddogion Cynnwys y Gymuned. Mae CSYM yn ystyried y bydd rôl Swyddogion Cynnwys y Gymuned yn cynnwys y canlynol:

a) datblygu gwybodaeth fanwl am rwydweithiau cymunedol, grwpiau gwirfoddol, gwasanaethau cymunedol ym mhob un o'r pum dalgylch
b) monitro llesiant cymunedol, cydlyniant cymunedol a rhoi gwybod am unrhyw faterion o ran tensiwn i grŵp monitro lefel uwch
c) casglu data - casglu data proffil iaith ychwanegol i adeiladu ar broffil iaith cychwynnol CSYM a'i ategu, fel y cyflwynir yn Atodiad 1. Mae angen ychwanegu at broffil iaith cymunedol cychwynnol CSYM er mwyn sefydlu data gwaelodlin cadarn cyn dechrau ar y gwaith adeiladu, a pharhau i gasglu data fel rhan o weithgareddau monitro a lliniaru parhaus.
d) canfod bylchau o ran darpariaethau cymunedol drwy gyfrwng y Gymraeg / dwyieithog
e) darparu Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith a chynnal gweithgareddau dwyieithog ar gyfer grwpiau lleol
f) arwain ar y broses o roi cynlluniau iaith ar lefel ficro, Gweithredu'n Lleol, ar waith o fewn cymunedau yn eu dalgylchoedd.

6.9.19.17 **Er mwyn bod yn effeithiol, bydd angen blaenoriaethu ariannu'r pum Swyddog Cynnwys y Gymuned er mwyn eu recriwtio, eu hyfforddi ac er mwyn cwblhau data proffil gwaelodlin cymunedol CSYM cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau. Hefyd, bydd angen arian ar gyfer caffael yr arbenigedd ar gyfer datblygu gwaelodlin o'r fath a monitro'r fethodoleg.**

6.9.19.18 Oherwydd diffyg modelu y tu hwnt i'r Model Disgyrchiant, nid oes manylion yn cael eu darparu ynghylch pa gymunedau'n benodol allai ddioddef effeithiau niweidiol. Fodd bynnag, oherwydd y bydd effaith y gweithwyr na fyddent yn byw gartref a fydd yn symud i'r ardal o bosibl yn weddol sylweddol, yn arbennig yng ngogledd a gorllewin yr ynys, **mae CSYM yn creu ei bod yn hanfodol cyflogi Swyddogion Cynnwys y Gymuned i ddechrau ar y gwaith o gryfhau'r gymuned iaith mewn da bryd cyn i bobl ddechrau symud i'r ardal. Mae angen arian gan Horizon i alluogi CSYM i ymgymryd â'r broses hon yn y dyfodol agos, oherwydd byddai gofyn i'r gwasanaethau hyn fod wedi'u sefydlu'n dda cyn i unrhyw waith adeiladu ddechrau, er mwyn goresgyn anawsterau yn y cyfnod cynnar.**

**6.9.19.19 Mae CSYM yn credu bod angen pum Swyddog Cynnwys y Gymuned a chreu hybiau cymunedol a bydd yn chwarae rhan bwysig yn casglu data ac yn datblygu'r mesurau hyn yn rhagweithiol i sicrhau bod nodweddion cyfrwng Cymraeg y sefydliadau cymunedol a'r gweithgareddau hyn yn parhau.**

**6.9.19.20 Hefyd, mae angen i CSYM a rhanddeiliaid eraill gyfrannu at y disgrifiadau swyddi hyn er mwyn sicrhau eu bod yn cyfateb â gwaith sefydliadau eraill ac er mwyn sicrhau bod adnoddau mor effeithiol â phosibl.**

**Integreiddio gwŷr/gwragedd/partneriaid gweithwyr Horizon**

6.9.19.21 Fel rhan o'r gweithgareddau sy'n cael eu crybwyll yn gyffredinol yng nghyswllt Mesur 18 ym mharagraffau 4.4.3 - 4.4.4 y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant, mae CSYM yn disgwyl i Horizon ddarparu **cyllid i bob gŵr/gwraig/partner ddysgu Cymraeg (o lefel 'mynediad' i lefel 'meistroli') am ddim** ar y cyd â Dysgu Cymraeg Cymru Gogledd Orllewin. Mae CSYM yn disgwyl y bydd y cyllid hwn ar gael drwy gydol y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu.

6.9.19.22 Mae CSYM hefyd yn disgwyl i Horizon nodi'n glir y bydd yn cyllido prosiectau integreiddio i'r gymuned ar gyfer partneriaid/gwŷr/gwragedd fel rhan o'i thema *Gwasanaethau cymunedol a lleol*. Dylid datblygu'r prosiectau hyn mewn partneriaeth â Dysgu Cymraeg Cymru Gogledd Orllewin, Menter Môn a grwpiau cymunedol eraill.

**Plant oed cyn ysgol**

**6.9.19.23 Mesur gwella arfaethedig Horizon yn y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant:**

a) **Mesur 19** *(Cyfeirnod y Cais: 8.14):* ***Bydd Horizon yn ymgysylltu â Chyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Gwynedd, Mudiad Meithrin (corff sy'n cynrychioli'r blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg) a Menter Iaith Môn ac yn hwyluso trafodaeth barhaus â nhw er mwyn trafod y mewnlif o blant oed cyn ysgol a'r effaith ar y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a mesurau i liniaru'r effaith hon. Fel rhan o'r drafodaeth hon, bydd Horizon yn monitro nifer y gweithwyr sy'n dod â'u teuluoedd gyda nhw, gan gynnwys plant oed cyn ysgol, a hynny'n barhaus. Bydd y data hyn yn cael eu defnyddio i ganfod pa fesurau lliniaru priodol sydd eu hangen i liniaru'r effaith ar y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.***

6.9.19.24 *Nid yw effaith y Prosiect ar nifer y plant oed cyn ysgol (0-4) wedi'i rhagweld fel rhan o'r asesiad economaidd-gymdeithasol yn gyffredinol. O ganlyniad, bydd gofyn cytuno ar fesurau i liniaru unrhyw effaith bosibl ar y sector blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg ar ôl y cais. Bydd gofyn i Horizon gael trafodaeth barhaus â Chyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Gwynedd, Mudiad Meithrin (corff sy'n cynrychioli'r blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg) a Menter Iaith Môn i drafod y mewnlif o blant oed cyn ysgol a lliniaru'r effaith ar y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Gallai Mesur 13, sy'n ymwneud â Horizon yn rhannu gwybodaeth am nifer y plant sy'n symud i brif ardal yr astudiaeth â gweithwyr y Prosiect, roi gwybodaeth i Gyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd er mwyn iddynt gynllunio'r gwasanaethau blynyddoedd cynnar (ee nifer y plant oed cyn ysgol sy'n symud i wahanol ardaloedd ac yn defnyddio'r ddarpariaeth) ar y cyd â darparwyr blynyddoedd cynnar allweddol fel Mudiad Meithrin a Menter Iaith Môn. Bydd rhoi'r mesurau hyn ar waith yn golygu y gellir asesu effaith y Prosiect ar y ddarpariaeth blynyddoedd cynnar a datblygu mesurau lliniaru fwy manwl. Mae addewid y Gymraeg Horizon [RD3] yn nodi y bydd y cwmni'n cefnogi cyfleoedd i rieni a phlant ddysgu a siarad Cymraeg â'i gilydd, gan ddefnyddio arfer da o ran dysgu iaith a throsglwyddo iaith. Roedd*

*rhanddeiliaid y Gymraeg yn cytuno y bydd y mewnlif o deuluoedd i'r ardal yn rhoi mwy o bwysau ar y ddarpariaeth blynyddoedd cynnar ym mhrif ardal yr astudiaeth, gan gynnwys mewn lleoliadau addysg feithrin a gofal plant a gynhelir a nas cynhelir. Cyhoeddwyd Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant ar gyfer Ynys Môn ym mis Mawrth 2017...a bydd problemau capasiti o ran darpariaeth y blynyddoedd cynnar a gofal plant, yn enwedig gofal plant cyfrwng Cymraeg a Ti a Fi (sef grwpiau i rieni a'u plant sy'n cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg) yn cael eu hystyried fel rhan o'r ddeialog barhaus rhwng Horizon, CSYM a Chyngor Gwynedd.*

**6.9.19.25 Ymateb CSYM i Fesur 19 y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant**

6.9.19.26 Mae datganiad Horizon ynghylch ei fwriad i 'ymgysylltu â Chyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Gwynedd, Mudiad Meithrin a Menter Iaith Môn a hwyluso trafodaeth barhaus â nhw' i'w groesawu, ond nid yw'n ddigonol fel mesur lliniaru. Hefyd, nid yw'n ddigon dweud y bydd Horizon yn 'trafod y mewnlif o blant oed cyn ysgol a'r effaith ar y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg'. Erbyn pan fydd hyn yn digwydd, efallai y bydd hi'n rhy hwyr i nifer o ddarparwyr cyn ysgol i gael strategaethau lliniaru a gwella ar waith.

**6.9.19.27 Mae angen i'r sefydliadau sydd wedi'u nodi gynllunio llawer ymlaen llaw, er mwyn rhagweld newidiadau a sicrhau bod rhagor o gymorth ariannol ar gael gan Horizon mewn da bryd cyn i unrhyw bobl fewnfudo yng nghyswllt prosiect Wylfa Newydd.**

6.9.19.28 Mae CSYM hefyd yn gadarn o'r farn fod cynnig Horizon 'Byddai lefel y lliniaru y cytunir arno yn gymesur â nifer y gweithwyr a fydd yn dod â'u teuluoedd gyda nhw' **yn anaddas**. Ni roddir amcangyfrifon ar gyfer nifer y dibynyddion sy'n blant oed cyn ysgol. **Nid yw'r cynnydd yn nifer y plant oed cyn ysgol (0-4 oed) a ddisgwylir ar Ynys Môn o ganlyniad i Brosiect Wylfa Newydd Horizon wedi'i gyfyngu'n unig i nifer y gweithwyr sydd â dibynyddion oed cyn ysgol sy'n symud i'r ynys i ymuno â'u rhieni / gofalwyr. Mae'n bosibl y bydd rhai o'r gweithwyr hyn a'u gwŷr/gwragedd/partneriaid yn cael rhagor o blant ar ôl symud i'r ardal. Bydd rhai gweithwyr hefyd yn dewis byw ar Ynys Môn a chael plant gyda phartneriaid lleol neu rai nad ydynt yn lleol rywbryd yn y dyfodol. Mae gofyn i Horizon fod yn gysylltiedig â chyllido'r ddarpariaeth cyn ysgol a gofal plant cyfrwng Cymraeg ychwanegol a chyfrannu at hynny, ar hyd a lled yr ynys.** Mae Ffurflen Asesu Digonolrwydd Gofal Plant CSYM (CSAF) (2017) yn nodi:

a) mae prinder gofalwyr plant sy'n siarad Cymraeg ar draws y sir (CSAF, t.46)
b) mae rhai dosbarthiadau meithrin mewn ysgolion yn llawn, a phe byddai cynnydd yn y galw a'r cymhwysedd, mae hwn yn faes y byddai angen ei ddatblygu (CSAF, t.39)
c) mae bylchau yn y ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg a dwyieithog mewn rhannau o'r Ynys (CSAF, t. 39)

d) Mae Mudiad Meithrin yn nodi bod bylchau yn y ddarpariaeth Ti a Fi a Chylchoedd Meithrin mewn rhai wardiau ar Ynys Môn (mae Map 10, Atodiad 1 yn dangos lleoliad darpariaeth Cylchoedd Meithrin Mudiad Meithrin ar hyn o bryd).

e) Ers mis Medi 2017, mae CSYM wedi ymrwymo i ddarparu 30 awr yr wythnos o ofal plant ac addysg blynyddoedd cynnar a ariennir gan y llywodraeth i rieni sy'n gweithio, a chanddynt blant tair i bedair oed, am hyd at 48 wythnos y flwyddyn, yn unol â'r polisi *Symud Cymru Ymlaen*. Mae Uned Cefnogi Teuluoedd CSYM yn adrodd bod cyflawni'r polisi hwn yn golygu nad yw'r lleoedd ychwanegol a nodwyd yn CSAF 2017 ar gael bellach o ganlyniad i roi'r polisi darpariaeth 30 awr ar waith. Nid oes lle ychwanegol ar gael ar gyfer rhagor o alw.

6.9.19.28 **Safbwynt CSYM yw bod angen cyllid gan Horizon i greu capasiti addysg a gofal plant cyn ysgol cyfrwng Cymraeg ar draws yr ynys, ar sail cynllunio'n rhesymol ar gyfer y sefyllfa waethaf.**

**Gwasanaeth Cyfieithu Cymunedol**

**6.9.19.29 Mesur lliniaru arfaethedig Horizon yn y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant:**

a) **Mesur 20** (Cyfeirnod y Cais: 8.14): ***Horizon i helpu i ariannu gwasanaeth cyfieithu cymunedol (pan fo hynny'n berthnasol i Wylfa Newydd Horizon) i alluogi sefydliadau lleol i ddarparu cyfleusterau cyfieithu ar y pryd ar gyfer grwpiau cymunedol. Bydd hyn yn helpu grwpiau cymunedol lleol i ymgysylltu'n effeithiol a thrafod materion sy'n ymwneud â Phrosiect Wylfa Newydd. Bydd y manylion yn cael eu cadarnhau cyn y cam adeiladu.***

6.9.19.30 *Mae angen trafod hyn ymhellach gyda Menter Môn i bennu cwmpas gofynion ariannu. Gallai Menter Môn fonitro'r mesur hwn, gan adrodd ar faint sy'n defnyddio'r gwasanaeth i'r grŵp rhanddeiliad allanol sy'n goruchwylio'r Strategaeth hon (gweler mesur 22) bob blwyddyn.*

**6.9.19.31 Ymateb CSYM i Fesur 20 y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant**

6.9.19.32 Mae CSYM yn croesawu ymrwymiad Horizon i gyllido Gwasanaeth Cyfieithu Cymunedol, ond mae'n credu bod Horizon yn diffinio cwmpas y gwasanaeth hwn yn rhy gyfyngedig.

6.9.19.33 Mae cwmpas presennol y mesur y mae Horizon yn ei gynnig yn cyfyngu'r gwasanaeth cyfieithu cymunedol i ddigwyddiadau Prosiect Wylfa Newydd, ac nid digwyddiadau eraill yn y gymuned ehangach. Mae perygl y bydd dilyn yr egwyddor hon yn cyfyngu gormod ar gwmpas y gwasanaeth hwn. Oherwydd y bydd gweithwyr prosiect Wylfa Newydd a'u dibynyddion, yn anochel, yn cymryd rhan mewn gweithgareddau yn y gymuned, **mae'n hanfodol bod cyllid yn cael ei ddarparu gan Horizon er mwyn ehangu cwmpas y Gwasanaeth Cyfieithu Cymunedol**. Gall cyllido gwasanaeth

cyfieithu cymunedol helpu gyda hyn mewn rhai ffyrdd, ond dim ond yng nghyd-destun digwyddiadau cyhoeddus a chyfarfodydd ffurfiol y bydd hyn yn ddefnyddiol (ee sioeau lleol, cyfarfodydd rhieni ac athrawon, cyfarfodydd cynghorau tref a chymuned, cwisiau tafarn, cyfarfodydd cymdeithasau diwylliannol / hanes lleol, ac ati). Bydd dilyn dull gweithredu sy'n fwy cynhwysol yng nghyswllt y gwasanaeth cyfieithu cymunedol hwn yn helpu gyda rhai o'r heriau sylfaenol y bydd nifer o grwpiau cymunedol gwirfoddol yn eu hwynebu yn ystod camau adeiladu a gweithredu'r prosiect arfaethedig. Mae'r arwydd a roddir gan Horizon y bydd yn darparu cymorth ariannol ar gyfer y gwasanaeth hwn i'w groesawu, ac mae'n rhoi cymorth ymarferol i fudiadau sy'n dymuno darparu cyd-destun dwyieithog i gyfarfodydd a gynhelir yn y ddwy iaith. Mae'r data a gesglir gan CSYM fel rhan o'i astudiaeth proffil iaith (Atodiad 1) yn rhoi proffil o allu iaith Gymraeg a'r defnydd a wneir ohoni mewn rhai sefydliadau cymunedol. Er enghraifft, mae data gan gynghorau tref a chymuned yn nodi'r defnydd a wneir o gyfleusterau cyfieithu yn y cyfarfodydd cyhoeddus hyn (Map 27, Atodiad 1). Mae angen casglu data gan amrywiaeth eang o sefydliadau cymunedol er mwyn nodi'r angen llawn am wasanaeth o'r fath. Dylai'r pum Swyddog Cynnwys y Gymuned wneud hyn ar y cyd â Menter Môn a Medrwn Môn. **Mae angen i Horizon gynnal ymarfer cwmpasu i werthuso costau ac ymarferoldeb buddsoddiad o'r fath o ran y cyllid a'r cyfieithwyr cymwysedig sydd ar gael. Dylai'r gwasanaeth hwn fod ar gael mewn da bryd cyn i'r gweithwyr sy'n symud i'r ardal gyrraedd a gallai'r gwasanaeth hefyd gefnogi Horizon wrth iddo gynnal cyfarfodydd ymgynghori cyhoeddus cyn datblygu Prosiect Wylfa Newydd**.

**Atebolrwydd**

6.9.19.33 **Goruchwylio'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant a'r Polisi Iaith Gymraeg yn Horizon a bod yn atebol amdanynt**

**6.9.19.34 Mesur lliniaru arfaethedig Horizon yn y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant:**

a) **Mesur 21** (Cyfeirnod y Cais: 8.14**): *Bydd Horizon yn sefydlu grŵp rheoli i oruchwylio a bod yn gyfrifol am gyflawni'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant hon, yn ogystal â Pholisi Iaith Gymraeg Corfforaethol Horizon (yn arwain: Horizon).***

6.9.19.34 *Bydd Horizon yn sefydlu grŵp rheoli a fydd yn cynnwys uwch arweinwyr o Horizon yn ogystal â Chydlynydd yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant (gweler mesur 1) a rheolwyr allweddol o'r timau Adnoddau Dynol, Hyfforddiant/Dysgu, Addysg a Datblygu a Masnachol/Cadwyn Gyflenwi. Byddai angen pennu cylch gorchwyl y grŵp, ond yn fras, byddai'n cynnwys adolygu cynnydd o gymharu â phob un o'r mesurau yn y Strategaeth a rhoi'r mesurau angenrheidiol ar waith i oresgyn unrhyw anawsterau.*

**6.9.19.35 Ymateb CSYM i Fesur 21 y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant**

6.9.19.36 Bydd Prosiect Wylfa Newydd yn digwydd ar adeg dyngedfennol pan fydd y Gymraeg yn sefydlogi ac yn cael ei hadfer fel iaith gymunedol. Felly mae'n hanfodol bod mesurau monitro a gwerthuso cadarn yn cael eu cynnwys a'u rhoi ar waith fel rhan o Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant, er mwyn ceisio lliniaru effeithiau negyddol y prosiect ar hyfywedd yr iaith.

6.9.19.Yn ogystal â hynny, mae gan CSYM a Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ynys Môn ddyletswydd statudol i hybu'r nodau llesiant sydd wedi'u nodi yn *Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015)*. Hybu "Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu" yw un o'r rhain, ac mae gofyn monitro cynnydd hyn. Bydd effeithiau uniongyrchol a chronnus Prosiect Wylfa Newydd a phrosiectau eraill sydd ar y gorwel yn trawsnewid proffil economaidd-gymdeithasol yr ardal. Mae'n bosibl y bydd rhai effeithiau niweidiol sylweddol nad oes modd eu rhagweld ar hyfywedd y Gymraeg mewn rhai o gymunedau Ynys Môn, os nad ym mhob un ohonynt, oni bai y bydd yr effeithiau hyn yn cael eu monitro a'u lliniaru'n ddigonol a/neu y gwneir iawn amdanynt.

6.9.19.38 Mae CSYM yn cytuno y dylai Horizon sefydlu uwch grŵp rheoli i oruchwylio a bod yn gyfrifol am gyflawni'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant hon, yn ogystal â Pholisi Iaith Gymraeg Corfforaethol Horizon. Fodd bynnag, er mwyn i'r polisi a'r mesurau lliniaru fod yn effeithiol, mae gofyn i'r sefydliad cyfan gymryd perchnogaeth dros y Gymraeg mewn datblygiad mor fawr â Wylfa Newydd.

**6.9.19.39 Mae CSYM yn disgwyl i reolwyr ac arweinwyr canolog Horizon ymrwymo i hyn. Hefyd, byddai disgwyl i'r Uwch Grŵp Rheoli sy'n atebol am gyflawni Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant a Pholisi Iaith Gymraeg Corfforaethol Horizon dynnu cynrychiolwyr at ei gilydd o wahanol ardaloedd gweithredu Prosiect Wylfa Newydd a bod yn gyfrifol am roi'r mesurau amrywiol ar waith a'u monitro, gan rannu arferion da, casglu data a monitro cynnydd er mwyn adrodd ar gynnydd i Gomisiynydd y Gymraeg a'r grŵp rhanddeiliad allanol ar ddiwedd pob blwyddyn.**

6.9.19.40 Mae pob cyflogwr mawr yn y sector cyhoeddus yng Nghymru yn gweithredu fel hyn - gan gynnwys Awdurdodau Lleol, Awdurdodau'r Heddlu, Ymddiriedolaethau Iechyd, Gwasanaethau Tân ac Achub, Prifysgolion, Cymdeithasau Tai, ac ati. Gallai mabwysiadu'r dull penodol hwn o wneud hyn fod yn ysgogiad i Horizon symud ymlaen â'r ymrwymiadau sy'n ymwneud â'r Gymraeg fel Edau Aur yn ei holl ymdrechion.

**Grŵp Rhanddeiliad Allanol**

**6.9.19.41 Mesur lliniaru arfaethedig Horizon yn y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant:**

a) **Mesur 22** (Cyfeirnod y Cais: 8.14): ***Bydd Horizon yn sefydlu ac yn cadeirio grŵp rhanddeiliaid allanol (Cydlynydd y Gymraeg a'i Diwylliant) i fonitro'r broses o roi'r Strategaeth ar waith a rhoi cyngor ynghylch ei chyflawni (yn arwain: Horizon)***

6.9.19.42 *Mae monitro a goruchwylio'n allanol yn bwysig i sicrhau bod y Strategaeth yn cael ei harchwilio a bod arbenigedd Rhanddeiliaid lleol y Gymraeg yn cael ei ddefnyddio wrth roi'r mesurau ar waith. Bydd sefydlu grŵp rhanddeiliaid allanol, o bosibl drwy ddefnyddio aelodau presennol grŵp llywio'r AEIG a Fforwm Strategol Iaith Ynys Môn, yn ffordd annibynnol o fonitro ac yn sicrhau y bydd y Strategaeth yn gyson â gweithgareddau sefydliadau partner. Rôl y grŵp yn fras fydd adolygu cynnydd o gymharu â phob un o'r mesurau yn y Strategaeth a rhoi cyngor ynghylch y mesurau sydd eu hangen i oresgyn unrhyw anawsterau. Tasg bwysig i'r grŵp fydd datblygu fframwaith atebolrwydd i fonitro'r Strategaeth.*

**6.9.19.43 Ymateb CSYM i Fesur 22 y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant**

6.9.19.44 Mae CSYM yn cytuno y dylid sefydlu grŵp rhanddeiliaid allanol i 'fonitro sut caiff y Strategaeth ei rhoi ar waith a rhoi cyngor ynghylch ei chyflawni'.

**6.9.19.45 Fodd bynnag, nid yw CSYM yn cytuno y dylai Horizon sefydlu a chadeirio'r grŵp hwn. Dylai CSYM gynnull y grŵp a dylai gael cadeirydd annibynnol.**

6.9.19.46 Oherwydd graddfa'r prosiect; statws y Gymraeg a'i diwylliant fel edau aur sy'n berthnasol i holl agweddau allweddol y cynnig; a'r risg posibl i weithredu nifer o strategaethau a pholisïau lleol (CSYM) a chenedlaethol (Llywodraeth Cymru) os na fydd yn cael ei fonitro'n ddigonol, mae'n rhaid i CSYM gynnull y grŵp rhanddeiliad allanol ac mae'n rhaid i'r grŵp gael cadeirydd annibynnol.

6.9.19.47 Dylai aelodau'r grŵp ddod o'r grŵp llywio AEIG presennol a fforwm Strategol Iaith Ynys Môn.

6.9.19.48 Bydd y meini prawf ar gyfer dewis rhanddeiliaid a'u cylch gorchwyl yn cael eu diffinio'n gadarn ac yn cael eu cyflwyno'n glir yn unol ag arferion gorau ym maes rheoli risg ac effaith. **Dylai Horizon fod yn gyfrifol am y costau sy'n gysylltiedig â rhedeg y grŵp rhanddeiliaid allanol.**

**Gwerthuso effaith**

**6.9.19.49 Mesur lliniaru arfaethedig Horizon yn y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant:**

a) **Mesur 23** (Cyfeirnod y Cais: 8.14): ***Bydd Horizon yn gwerthuso effaith y Prosiect ar y Gymraeg ym mhrif ardal yr astudiaeth,***

***gyda'r grŵp rhanddeiliad allanol yn goruchwylio hynny (yn arwain: Horizon)***

6.9.19.50 *Bydd Horizon a'r grŵp rhanddeiliad allanol yn cytuno ar yr union gylch gorchwyl, yr amseru a'r fethodoleg ar gyfer y gwaith gwerthuso hwn. Fodd bynnag, gallai'r gwerthusiad gynnwys cam dros dro (ee hanner ffordd drwy'r cam adeiladu) a cham terfynol (ee ar ddiwedd y cam adeiladu). Byddai'r gwerthusiad yn gallu edrych yn fanwl ar sut mae union effeithiau'r Prosiect yn cymharu â'r effeithiau disgwyliedig. Bydd dau ddiben i hyn:*

*a) Yn ystod y cam dros dro, galluogi Horizon a'r grŵp rhanddeiliad allanol i ystyried a oes angen gwneud unrhyw newidiadau i'r broses o roi'r mesurau lliniaru ar waith;*
*b) Yn y cam terfynol, darparu data fel sail ar gyfer gwaith cynllunio iaith ar gyfer datblygiadau mawr yn y dyfodol.*

**6.9.19.51 Ymateb CSYM i Fesur 23 y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant**

**6.9.19.52 Mae CSYM yn credu bod y trefniadau ar gyfer gwerthuso yn gwbl annigonol**.

6.9.19.53 Oherwydd nifer estynedig y blynyddoedd rhwng y ddau werthusiad interim ac oherwydd bod angen rhagweld a lliniaru unrhyw effaith negyddol yn gynnar yn y broses ac yn barhaus, yn achos y Gymraeg, mae angen monitro ac adolygu bob blwyddyn.

**6.9.19.54 Mae angen adroddiad monitro blynyddol ar CSYM (yn unol ag adroddiadau blynyddol statudol eraill**)[48] .

6.9.19.55 Mae'n briodol i Horizon fod yn gyfrifol am gasglu tystiolaeth yn barhaus ynghylch rhoi'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant ar waith a'i gwerthuso. Fodd bynnag, **bydd CSYM yn cynnal gwerthusiad annibynnol o effaith cynnydd y Strategaeth hon o ran lliniaru a gwella effaith y prosiect ar y Gymraeg a'i diwylliant, bob blwyddyn, a bydd Horizon yn digolledu'n briodol am gostau darparu / caffael gwasanaeth monitro a gwerthuso cadarn.**

**Gweithredu a Monitro'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant**

**6.9.19.56 Mesur lliniaru arfaethedig Horizon yn y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant:**

a) **Mesur 24** (Cyfeirnod y Cais: 8.14): ***Bydd Horizon yn rhoi Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant ar waith cyn cyfnod adeiladu'r Prosiect a thrwy gydol y cyfnod hwnnw. Bydd Horizon yn monitro ac yn adrodd ar gydymffurfiad***

[48] ee adroddiadau Strategaeth Iaith Gymraeg blynyddol Llywodraeth Cymru, cyrff yn cyflwyno adroddiadau ar roi Safonau'r Gymraeg ar waith i Gomisiynydd y Gymraeg (naill ai cyrff y mae hynny'n statudol iddynt neu sy'n gwirfoddoli i wneud hynny).

***â'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant i'r grŵp rheoli bob chwe mis (a nodir ym mesur 21) (Cyfeirnod y Cais: 8.14) a bydd y Strategaeth yn cael ei hadolygu bob blwyddyn (yn arwain: Horizon)***

6.9.19.57 *Bydd y broses o roi'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant ar waith yn cael ei monitro'n barhaus drwy gydol y cam adeiladu. Bydd Horizon yn adrodd i'r grŵp rheoli (a nodir ym mesur 21) (Cyfeirnod y Cais: 8.14) ar sut mae'n cydymffurfio â'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant. Ar ben hynny, bydd y Strategaeth yn cael ei hadolygu bob blwyddyn er mwyn monitro'r broses o'i rhoi ar waith.*

**6.9.19.58 Ymateb CSYM i Fesur 24 y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant**

**6.9.19.59 Mae Horizon wedi datblygu ei Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant ar gyfer y cyfnod sy'n arwain at y Prosiect ac ar gyfer y cam adeiladu yn unig. Mae CSYM yn gofyn i Horizon gytuno i'r canlynol:**

**a) rhoi Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant ar waith a'r cynlluniau gweithredu blynyddol bob blwyddyn, drwy gydol y cyfnodau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu; a**

**b) sefydlu gweithdrefnau i fonitro a gwerthuso bob blwyddyn yn ystod pob un o dri cham y prosiect.**

6.9.19.60 Er bod CSYM yn cydnabod y bydd cynnwys y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant yn wahanol yn ystod y camau gweithredu a datgomisiynu, mae gofyn cydnabod yn glir yn ystod y cam hwn y bydd Strategaeth ddiwygiedig gyda chynlluniau gweithredu blynyddol, yn cael eu paratoi ar gyfer camau 2 a 3 Prosiect Wylfa Newydd. Yn yr un modd, bydd gofyn parhau gyda'r mesurau a sefydlwyd i fonitro a gwerthuso'r strategaethau gwella / lliniaru effeithiau yn ystod camau 2 a 3.

**Mesurau lliniaru a gwella ehangach Horizon**

**6.9.19.61 Mesur gwella arfaethedig Horizon yn y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant:**

6.9.19.62 *Mae mesurau lliniaru a gwella ychwanegol sy'n berthnasol i'r Gymraeg a'i diwylliant wedi'u cynnwys yn y dogfennau eraill sydd wedi'u cyflwyno gyda'r DCO. Mae'r mesurau hyn yn ymwneud â rheoli ble mae gweithwyr y Prosiect yn byw, ystyried unrhyw effeithiau ar y ddarpariaeth gofal iechyd lleol, sicrhau'r manteision mwyaf posibl i fusnesau lleol ac ailddefnyddio enwau lleoedd Cymraeg coll.*

6.9.19.63 *Caiff mesurau yn y meysydd pwnc hyn sy'n berthnasol i'r Gymraeg eu cynnwys yn y Strategaeth Llety Gweithwyr (Cyfeirnod y Cais: 8.4):*

a) *Adroddiad Cynhwysfawr yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (Cyfeirnod y Cais: 8.19);*
b) *Strategaeth Swyddi a Sgiliau (Cyfeirnod y Cais: 8.3) ac yng Nghyfrol D y Datganiad Amgylcheddol - Prif Safle'r Orsaf Bŵer D11 -*
c) *Treftadaeth ddiwylliannol (Cyfeirnod y Cais: 6.4.11).*

**Ymateb CSYM i fesurau lliniaru a gwella ehangach Horizon**

6.9.19.64 Er mwyn i CSYM fodloni ei dargedau polisi i feithrin nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg ar yr ynys, mae'n hanfodol bod mesurau cadarn ar waith er mwyn cyflawni'r nod. Felly, mae CSYM yn dymuno gweld mesurau a fydd yn gwarchod ac yn gwella'r Gymraeg ac yn dymuno osgoi pryderon ynghylch diwylliannau'n gwrthdaro, colli ymdeimlad o hunaniaeth, cholli'r iaith Gymraeg, diffyg dealltwriaeth a gwybodaeth am ddiwylliant y Gymraeg a diffyg parodrwydd i ddysgu'r Gymraeg. Mae gan Siarter y Gymraeg rôl hanfodol yn cynorthwyo ysgolion i amddiffyn yr amgylchedd a'r diwylliant hyn o siarad Cymraeg, a bydd angen adnoddau ychwanegol i leddfu pryderon CSYM.

6.9.19.65 Mae gofyn bod yn benderfynol iawn i ddysgu iaith newydd a chymhathu i ddiwylliant newydd, yn arbennig yng nghyd-destun ieithoedd lleiafrifol. Dim ond canran fechan o'r unigolion sy'n cofrestru ar gyrsiau hyfforddiant iaith sy'n llwyddo i wneud hyn.[49] Felly, mae CSYM yn gofyn am gyllid ar gyfer y cymorth trochi iaith ar gyfer dibynyddion oed ysgol gweithlu Horizon yn ogystal â mesurau lliniaru ychwanegol wedi'u hanelu at hwyluso gweithwyr Horizon i ddysgu'r Gymraeg yn effeithiol a'i defnyddio, a bod effaith y rhain yn cael eu gwerthuso.

6.9.19.66 Er bod CSYM wedi paratoi proffil cychwynnol o ddefnydd iaith cymunedol, mae angen paratoi proffil ieithyddol cadarn o holl gymunedau Ynys Môn, yn ogystal â phrif ardal yr astudiaeth, sy'n nodi'n fanwl yr amrywiaeth a natur y mentrau cymunedol sy'n gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog er mwyn cael darlun clir o'r sefyllfa fel y mae ar hyn o bryd. Byddai hyn yn helpu i lunio dadansoddiad manwl iawn o'r data gwaelodlin presennol a chynorthwyo gyda'r dasg o asesu pa newidiadau ieithyddol fydd yn digwydd neu a allai ddigwydd dros amser, ac a fydd angen cymryd rhagor o gamau adfer i liniaru a gwella defnyddio'r Gymraeg ar lefel gymunedol.

## 7.0 Crynodeb o'r prif gamau i osgoi, lleihau, lliniaru neu wneud iawn am effeithiau

7.1 Mae'r ddogfen Naws am Le yn egluro pam mae Ynys Môn yn cael ei ystyried yn lle arbennig ac unigryw iawn, ac mae'r Gymraeg a'i diwylliant yn rhan annatod o hunaniaeth yr ynys. Caiff hyn ei adlewyrchu yn y Polisïau Cynllunio ac yn Amcanion CSYM. Mae'r Gymraeg a'i diwylliant yn 'edau aur' sy'n plethu hanes a threftadaeth gyda theimlad cryf o berthyn, cymuned, cydlyniant cymunedol a llesiant cyffredinol yn unol â dyletswyddau CSYM o dan Ddeddf Llesiant

[49] Yn 2010, er enghraifft, safodd 56 o bobl Arholiad Uwch CBAC, sy'n cyfateb i lefel B2/C1 ALTE/y Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd o leiaf ac yn fras i arholiad safon Uwch. Gweler Hywel M Jones (2012) *Darlun Ystadegol o Sefyllfa'r Gymraeg*, cyhoeddiad Bwrdd yr Iaith Gymraeg. (Dolen)

Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

7.2 Yng Nghymru, mae gan Ynys Môn rôl hanfodol o ran cynnal hyfywedd y Gymraeg, ac mae'n cael ei hystyried yn un o gadarnleoedd y Gymraeg[50]. Er hynny, mae hyfywedd y Gymraeg ar Ynys Môn yn fregus, yn arbennig mewn rhai wardiau penodol. Mae cyfanswm nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg wedi bod yn disgyn yn y tymor hir.

7.3 Mae atal a gwrthdroi'r gostyngiad hwn yn un o nodau strategol CSYM a'i bartneriaid, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, sydd â gweledigaeth i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 (dolen i ddatganiad Prif Weinidog Cymru). Mae CSYM yn awyddus i gyfrannu at y targed uchelgeisiol hwn, ac mae'n gweld y posibilrwydd i brosiect Wylfa Newydd chwarae rôl fawr yn hyn.

7.4 Y cyfraniad pwysicaf y gall prosiect Wylfa Newydd ei wneud i hyfywedd y Gymraeg yw drwy greu amrywiaeth o swyddi ar gyfer pobl leol, yn arbennig y bobl ifanc. Bydd hyn yn helpu i wrthdroi'r duedd o allfudo, lle mae pobl yn symud i ffwrdd i ganfod gwaith sy'n cyd-fynd â'u setiau sgiliau a'u cymwysterau, am nad oedd gwaith o'r fath ar gael ar Ynys Môn. Bydd hyn, yn ogystal â denu pobl sydd wedi symud i ffwrdd a'u teuluoedd yn ôl i'r ardal, gyda'r swyddi sy'n cael eu cynnig gan Wylfa Newydd a phrosiectau eraill sydd ar y gorwel (gweler y Bennod ar Effeithiau Cronnus), yn arwain at gynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg. Bydd yn newid y proffil demograffig, sy'n bwysig ar gyfer y tymor hwy.

7.5 Fodd bynnag, wrth ystyried rôl prosiect Wylfa Newydd, rhaid gwahaniaethu rhwng y camau adeiladu a gweithredu. O ran y cam adeiladu, mae'n bosibl y bydd effeithiau niweidiol sylweddol ar y Gymraeg pe byddai'r mewnlif o weithwyr dros dro yn llethu'r cymunedau lleol lle maent yn byw ac yn ymweld â nhw, a byddent yn cael effeithiau niweidiol ar ddefnyddio'r Gymraeg fel iaith gyntaf, cydlyniant cymunedol, y galw am wasanaethau a chyfleusterau, ysgolion, traffig a thrafnidiaeth, ac ati. O ganlyniad, mae angen y gyfres o fesurau atal a lliniaru a amlinellir yn y ddogfen hon ac mewn Penodau eraill yn yr Adroddiad ar yr Effaith Leol, sy'n dangos natur 'edau aur' y Gymraeg, y cyfeirir ato ym mharagraff 7.1 uchod.

7.6 O ran y cam gweithredu, mae posibilrwydd mawr y ceir effeithiau cadarnhaol ar y Gymraeg a'i diwylliant o ganlyniad i'r cynigion. Fodd bynnag, mae CSYM o'r farn y gellid atgyfnerthu'r camau gweithredu hyn ac y gallai'r mesurau sy'n cael eu crynhoi isod eu hategu.

7.7 Drwy sicrhau bod unrhyw ddatblygiad newydd perthnasol yn ystyried pob effaith bosibl ar allu'r boblogaeth leol i ddefnyddio'r Gymraeg, mae gan y system cynllunio defnydd tir gyfraniad cydnabyddedig i'w wneud i lesiant y Gymraeg a'i diwylliant ar yr Ynys.

7.8 Mae asesiad CSYM o'r effeithiau lleol posibl yn dynodi y gallai'r Prosiect arwain at amrywiaeth o effeithiau (niweidiol a chadarnhaol) ar gymunedau ac arwain at alw ychwanegol ar gyfleusterau cymunedol presennol, sy'n feysydd pwysig er

---

[50] Fforwm Strategol Iaith Ynys Môn: Strategaeth Iaith Gymraeg 2016-2021, tudalen 9. (Dolen)

mwyn cynnal a gwella'r Gymraeg a'i diwylliant ar yr Ynys. Mae'r rhain yn wahanol i'r rhai y mae Horizon wedi'u nodi. Heb strategaethau lliniaru a monitro cadarn, mae CSYM yn parhau i bryderu na fydd y meini prawf a'r profion polisi perthnasol a nodir ym Mholisi PS9 y CDLlC a fabwysiadwyd a GP14 CCA Wylfa Newydd yn cael eu bodloni, o safbwynt y Gymraeg a'i diwylliant.

7.9 Mae CSYM yn cydnabod ymrwymiad ac ymgysylltiad Horizon yn cefnogi'r Gymraeg fel 'Edau Aur' drwy holl agweddau'r prosiect.

7.7 Fodd bynnag, nid yw'r 'camau gweithredu' sy'n treiddio drwy ddogfennau'r DCO, yn arbennig yng nghyswllt y cam adeiladu, yn adlewyrchu'r ymrwymiad hwn ddigon, nac yn mynd i ddigon o fanylder i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried a'i gwarchod drwy holl agweddau'r prosiect. Yn benodol, dylid ystyried yr isod ymhellach:

a) **Rheoli Llety Gweithwyr a'r Strategaeth Rheoli Gweithwyr** - Bydd CSYM yn gofyn am waith monitro ac adrodd cadarn ynghylch dosbarthiad gofodol y gweithwyr. Mae angen rheoli'r gweithlu er mwyn lleihau effeithiau posibl nifer fawr o weithwyr dros dro ar y cymunedau lleol hyn. Rhaid rheoli hyn mewn 'amser real' drwy'r Gwasanaeth Rheoli Llety Gweithwyr Adeiladu. **(Yn berthnasol i'r camau adeiladu a gweithredu)**

b) **Cymeriad Ieithyddol Ysgolion –** Nid yw Horizon wedi ystyried effaith y datblygiad yn ddigonol ar gymeriad ieithyddol ysgolion. Mae Horizon yn rhagweld y bydd 220 o ddibynyddion oed ysgol yn ystod y cam adeiladu, ond mae'r ffigur hwn yn rhy geidwadol. Mae CSYM yn amcangyfrif y bydd 500-510 o blant ychwanegol yn ystod y cyfnod hwn. Bydd ffigurau o'r fath yn newid y cydbwysedd o siaradwyr Cymraeg a disgyblion di-Gymraeg mewn ysgolion ym mhrif ardal yr astudiaeth, er gwaeth. Heb fesurau lliniaru a gwella, gallai hyn gael effaith niweidiol ar y defnydd a wneir o'r Gymraeg ymhlith plant oed ysgol. At hynny, mae angen buddsoddiad gan Horizon i sicrhau bod dibynyddion oed ysgol gynradd ac uwchradd yn cael eu trochi yn y Gymraeg ac yn cael y cymorth Saesneg fel Iaith Ychwanegol, fel sydd ei angen arnynt. **(Yn berthnasol i'r camau adeiladu a gweithredu)**

c) **Traddodiadau a Diwylliant y Gymraeg -** Ar sail y dystiolaeth ymchwil, bydd cyfnod adeiladu'r prosiect yn cael effaith niweidiol drwy wanhau'r Gymraeg, ei Diwylliant a'i Thraddodiadau ym mhrif ardal yr astudiaeth. Mae CSYM yn gofyn am fesurau a fydd yn diogelu ac yn gwella'r Gymraeg er mwyn bodloni ei dargedau polisi i gynyddu nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg ar yr Ynys. **(Yn berthnasol i'r camau adeiladu a gweithredu)**

d) **Addysg a Chyflogaeth sy'n gysylltiedig â'r Iaith Gymraeg** - Mae angen cynllun llawer gwell ar CSYM i annog a hwyluso'r gwaith o wella sgiliau preswylwyr lleol er mwyn lleihau nifer y bobl ifanc sy'n allfudo, yn arbennig yn y tymor byr i ganolig. Dylid blaenoriaethu denu pobl leol a'u teuluoedd yn ôl i'r Ynys drwy gynnig cyfleoedd gwaith da yn Wylfa Newydd hefyd. **(Yn berthnasol i'r camau adeiladu a gweithredu)**

e) **Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd –** mae pryderon ynghylch effaith gweithwyr sy'n symud i'r ardal gyda'u dibynyddion ar y defnydd a wneir o'r Gymraeg mewn gweithgareddau a grwpiau cymunedol a gynhelir ar gyfer pobl ifanc a'u teuluoedd. Mae angen monitro a lliniaru effaith y nifer helaeth o siaradwyr di-Gymraeg a fydd yn mewnfudo i Ynys Môn ar amrywiaeth o

sefydliadau ieuenctid, a gweithgareddau ieuenctid ac i deuluoedd yn y gymuned, ledled Ynys Môn, ac yn arbennig yng ngogledd yr ynys. **(Yn berthnasol i'r camau adeiladu a gweithredu)**

f) **Grwpiau cymunedol a Gwasanaethau Lleol -** Byddai mesurau lliniaru i oresgyn yr effaith ar ddarparu gwasanaethau lleol yn cynnwys ariannu Gwasanaethau Iaith Cymunedol cadarn (i'w datblygu gyda rhanddeiliaid), paratoi deunyddiau hyfforddi i helpu i integreiddio gweithwyr sy'n mewnfudo, ehangu cwmpas y Gwasanaeth Cyfieithu Cymunedol, a chefnogi'r gwasanaethau blynyddoedd cynnar (cyn ysgol) sy'n cael eu darparu. **(Yn berthnasol i'r camau adeiladu a gweithredu)**

7.8 Mae CSYM yn gofyn yn benodol am y mesurau lliniaru canlynol i sicrhau bod ymrwymiad Horizon i gefnogi'r Gymraeg fel **'edau aur' drwy holl agweddau'r prosiect** yn cael ei wireddu'n llawn:

**Y gweithle**

7.9 Felly, mae CSYM yn disgwyl mai dyma ddylai prif nod a man cychwyn y polisi a'r mesurau lliniaru fod yng nghyswllt Prosiect Wylfa Newydd, fel cyflogwr a gweithle: Sicrhau

a) bod y datblygiad yn cael effaith gadarnhaol, yn hytrach nag effaith niweidiol ar "gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg" yn lleol; ac
b) nad yw'r iaith Gymraeg yn cael ei "thrin yn ddim llai ffafriol na'r Saesneg" o fewn y sefydliad a'i weithrediadau.

7.10 O ganlyniad i'r effaith y rhagwelir y bydd prosiect Wylfa Newydd yn ei chael ar hyfywedd y Gymraeg yn lleol, mae CSYM o'r farn gref y dylai Horizon ddilyn arferion gorau sydd wedi'u sefydlu wrth ddatblygu gweithle dwyieithog. Ychydig iawn o gyfeiriadau at fesurau monitro ac adrodd cadarn sydd ar gael yn y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant ar hyn o bryd. Byddai cytundeb gwirfoddol gyda Chomisiynydd y Gymraeg i fabwysiadu trefniadau monitro ac adrodd blynyddol yn briodol. Byddai gofyn am sylwadau Comisiynydd y Gymraeg ynghylch mesurau Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant a Pholisi Iaith Gymraeg Horizon a gofyn i'r Comisiynydd eu cymeradwyo yn gam cyntaf cadarnhaol.

7.11 Mae CSYM gofyn am i'r Strategaeth Rheoli'r Gweithlu gynnwys manylion cynhwysfawr am yr egwyddorion y bydd Horizon a'i bartneriaid yn eu dilyn i reoli'r gweithlu, gan leihau effeithiau posibl gweithlu dros dro sylweddol ar y cymunedau lleol hyn.

7.12 Mae'n bwysig pennu statws a chylch gwaith ar gyfer y swydd arfaethedig, Cydlynydd yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant. Mae CSYM yn pwysleisio pa mor bwysig yw sicrhau bod gan Gydlynydd yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant y dylanwad i allu rhoi arferion iaith Gymraeg cadarn ar waith yn Horizon.

7.13 Dylai Horizon roi Strategaeth Sgiliau Iaith Gymraeg ar waith yn unol ag arferion gorau sefydliadau sydd â Strategaethau Iaith Gymraeg.

7.14 Dylai Horizon gynnal archwiliad blynyddol o'r Sgiliau Iaith sy'n ofynnol fel rhan o'i Strategaeth Sgiliau Iaith Gymraeg. Dylai'r broses flynyddol hon o werthuso sgiliau Iaith Gymraeg gweithwyr gael ei chynnwys mewn prosesau arfarnu perfformiad blynyddol staff, yn unol ag arferion gorau.

7.15 Mae CSYM yn gofyn am gael cynllun Swyddi a Sgiliau llawer gwell i annog a hwyluso preswylwyr lleol i wella eu sgiliau'n briodol a lleihau nifer y bobl ifanc sy'n allfudo, yn arbennig yn y tymor byr i ganolig.

7.16 Mae CSYM yn gofyn i Horizon dalu am Raglen Noddi Myfyrwyr a'i rhoi ar waith ar gyfer myfyrwyr isradd a gradd mewn meysydd astudio arbenigol sy'n ymwneud â'r diwydiant niwclear.

7.17 Mae'n realistig disgwyl y bydd cyfran uchel o weithwyr sy'n siarad Cymraeg yn cael eu cyflogi fel aelodau o weithlu Horizon. Yn wir, mae CSYM yn credu y gall Horizon helpu CSYM i gynyddu nifer a chyfran y siaradwyr Cymraeg ar Ynys Môn, a chyfrannu at darged Llywodraeth Cymru o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 os:

a) bydd yn rhoi cynlluniau cadarn ar waith i recriwtio gweithwyr sy'n siarad Cymraeg, ac
b) yn datblygu sgiliau iaith Gymraeg ei holl weithlu, er mwyn i'r rhan fwyaf o staff safle Wylfa Newydd allu siarad Cymraeg yn y gweithle erbyn y cam gweithredu.

7.18 Mae angen cynnwys rhywun annibynnol a chynnal gwerthusiad o'r fframwaith cymhwysedd arfaethedig a'r broses ar gyfer cyfweld a phrofi sgiliau iaith Gymraeg.

7.19 Dylai'r unigolion sy'n cael eu recriwtio i rolau Uwch Reolwyr a Rheolwyr Canol, yn ogystal ag ar draws y sbectrwm gweithredu, fod yn siaradwyr Cymraeg neu gael eu hyfforddi dros amser i ddysgu sgiliau iaith Gymraeg y gallant eu defnyddio yn y gweithle.

**Plant, pobl ifanc a theuluoedd**

7.20 Mae sicrhau bod darpariaeth ddigonol ar gyfer trochi plant mewnfudwyr yn yr iaith Gymraeg yn gam lliniaru hanfodol. Mae'r cymorth Saesneg fel Iaith Ychwanegol ar gyfer plant sy'n newydd i'r Saesneg yn hanfodol hefyd. Oherwydd y diffyg sicrwydd o ran nifer, oed, cefndir iaith (a ydynt yn siarad ieithoedd eraill heblaw am Gymraeg neu Saesneg), anghenion dysgu ychwanegol, lleoliad preswylio a chofrestru mewn ysgolion, mae CSYM yn gofyn i Horizon ddarparu cyllid i baratoi ar gyfer y sefyllfa waethaf cyn y cam adeiladu.

7.21 Ar sail y capasiti presennol a'r twf a ragwelir yn yr angen am gymorth ychwanegol, mae'r Awdurdod wedi nodi'r angen i Horizon dalu am gyflogi:

a) pump o athrawon trochi Cymraeg ychwanegol er mwyn bodloni'r anghenion a ragwelir gan ddisgyblion ysgolion cynradd (yn cyfateb i 2.5 ym mhob un o'r ddwy ganolfan iaith ychwanegol)

b) pump o athrawon trochi Cymraeg arbenigol a phump o gymorthyddion dosbarth (Lefel 3) trochi (hynny yw, un athro ac un cymhorthydd dosbarth ym mhob un o bum ysgol uwchradd Ynys Môn) er mwyn bodloni anghenion a ragwelir gan ddisgyblion CA3.
c) dau athro Saesneg fel Iaith Ychwanegol i gefnogi plant 7 oed a hŷn y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt pan fyddant yn cyrraedd ysgolion Ynys Môn.

7.22 Bydd angen ariannu a sefydlu'r ddarpariaeth hon mewn da bryd cyn i blant gweithwyr Horizon gyrraedd er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth ar gael ac wedi'i sefydlu'n gadarn ar gyfer pan fydd y disgyblion cyntaf yn cyrraedd.

7.23 Bydd angen darpariaeth i fodloni anghenion ychwanegol dibynyddion oed cyn ysgol, cynradd ac ysgol Horizon Wylfa Newydd yn ystod camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r Prosiect. Bydd faint o blant gweithlu Horizon fydd angen cymorth yn dibynnu ar anghenion cymorth ychwanegol pob plentyn, a bydd angen adolygu hynny bob blwyddyn yn ystod cyfnod y prosiect. Os nad yw'r ffigurau'n hysbys, bydd gofyn i Horizon ddarparu cyllid rhesymol ar gyfer y sefyllfa waethaf. Dylid cydnabod hyn yn glir ym Mesur 16 y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant.

7.24 Mae hefyd yn hanfodol bod camau i godi ymwybyddiaeth rhieni am sensitifrwydd ieithyddol Ynys Môn, system addysg ddwyieithog yr ynys, manteision dwyieithrwydd a'r cymorth trochi ychwanegol sydd ar gael i blant sy'n symud i'r ardal, yn cael eu rhannu'n effeithiol fel rhan o'r broses recriwtio.

7.25 Mae CSYM yn ei gwneud yn ofynnol bod Horizon, gyda chymorth CSYM (o ran darparu data dienw CYBLD) yn modelu'r effaith bosibl y gallai disgyblion di-Gymraeg ychwanegol ei chael, yn arbennig ar yr ysgolion cynradd a'r ysgolion uwchradd hynny yng ngogledd yr ynys.

**Gwasanaethau cymunedol a lleol**

7.26 Mae CSYM yn credu bod angen pum Swyddog Cynnwys y Gymuned a chreu hybiau cymunedol, a bydd yn chwarae rhan bwysig o ran casglu data a mynd ati i ddatblygu mesurau i sicrhau bod nodweddion iaith Gymraeg y gweithgareddau a'r sefydliadau cymunedol hyn yn parhau.

7.27 Mae Mesur 18 yn gysylltiedig â rôl 'Swyddogion Cynnwys y Gymuned'. Mae'n hanfodol bod CSYM yn rhan o'r broses o benderfynu ar gylch gwaith Swyddogion Cynnwys y Gymuned. Mae CSYM yn ystyried y bydd rôl Swyddogion Cynnwys y Gymuned yn cynnwys y canlynol:

a) datblygu gwybodaeth fanwl am rwydweithiau cymunedol, grwpiau gwirfoddol, gwasanaethau cymunedol ym mhob un o'r pum dalgylch
b) monitro llesiant cymunedol, cydlyniant cymunedol a rhoi gwybod am unrhyw faterion o ran tensiwn i grŵp monitro lefel uwch
c) casglu data - casglu data proffil iaith ychwanegol i adeiladu ar broffil iaith cychwynnol CSYM a'i ategu, fel y cyflwynir yn Atodiad 1. Mae angen ychwanegu at broffil iaith cymunedol cychwynnol CSYM er mwyn sefydlu

data gwaelodlin cadarn cyn dechrau ar y gwaith adeiladu, a pharhau i gasglu data fel rhan o weithgareddau monitro a lliniaru parhaus.

d) canfod bylchau o ran darpariaethau cymunedol drwy gyfrwng y Gymraeg / dwyieithog
e) darparu Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith a chynnal gweithgareddau dwyieithog ar gyfer grwpiau lleol
f) arwain ar y broses o roi cynlluniau iaith ar lefel ficro, Gweithredu'n Lleol, ar waith o fewn cymunedau yn eu dalgylchoedd.

7.28 Er mwyn bod yn effeithiol, bydd angen blaenoriaethu ariannu'r pum Swyddog Cynnwys y Gymuned er mwyn eu recriwtio, eu hyfforddi ac er mwyn cwblhau data proffil gwaelodlin cymunedol CSYM cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau. Hefyd, bydd angen arian ar gyfer caffael yr arbenigedd ar gyfer datblygu gwaelodlin o'r fath a monitro'r fethodoleg.

7.29 Hefyd, mae angen i CSYM a rhanddeiliaid eraill gyfrannu at y disgrifiadau swyddi hyn er mwyn sicrhau eu bod yn cyfateb â gwaith sefydliadau eraill ac er mwyn sicrhau bod adnoddau mor effeithiol â phosibl.

7.30 Er mwyn bodloni anghenion addysg a gofal plant cyn ysgol dibynyddion gweithlu Wylfa Newydd, bydd angen cyllid gan Horizon i greu capasiti ychwanegol ar gyfer addysg a gofal plant cyn ysgol cyfrwng Cymraeg ar draws yr ynys, ar sail cynllunio'n rhesymol ar gyfer y sefyllfa waethaf.

7.31 Mae'n hanfodol bod Horizon yn darparu cyllid i ehangu cwmpas y Gwasanaeth Cyfieithu Cymunedol. Dylai'r gwasanaeth hwn fod ar gael mewn da bryd cyn i'r gweithwyr sy'n symud i'r ardal gyrraedd a gallai'r gwasanaeth hefyd gefnogi Horizon wrth iddo gynnal cyfarfodydd ymgynghori cyhoeddus cyn datblygu Prosiect Wylfa Newydd.

**Atebolrwydd**

7.32 Mae CSYM yn disgwyl i reolwyr ac arweinwyr canolog Horizon ymrwymo i hyn. Hefyd, byddai disgwyl i'r Uwch Grŵp Rheoli sy'n atebol am gyflawni Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant a Pholisi Iaith Gymraeg Corfforaethol Horizon dynnu cynrychiolwyr at ei gilydd o wahanol ardaloedd gweithredu Prosiect Wylfa Newydd a bod yn gyfrifol am roi'r mesurau amrywiol ar waith a'u monitro, gan rannu arferion da, casglu data a monitro cynnydd er mwyn adrodd ar gynnydd i Gomisiynydd y Gymraeg a'r grŵp rhanddeiliad allanol ar ddiwedd pob blwyddyn.

7.33 Dylai CSYM gynnull y grŵp rhanddeiliaid allanol a sefydlir i 'fonitro sut caiff y Strategaeth ei rhoi ar waith a rhoi cyngor ynghylch ei chyflawni' a dylai'r grŵp gael cadeirydd annibynnol. Dylai Horizon fod yn gyfrifol am gostau rhedeg y grŵp.

7.34 Mae angen adroddiad monitro blynyddol ar CSYM, yn unol ag adroddiadau blynyddol statudol eraill.

7.35 Mae'n briodol i Horizon fod yn gyfrifol am gasglu tystiolaeth yn barhaus ynghylch rhoi'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant ar waith a'i gwerthuso. Fodd bynnag, bydd CSYM yn gwerthuso effaith cynnydd y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant yn annibynnol bob blwyddyn, a bydd Horizon yn digolledu'n briodol am gostau darparu / caffael gwasanaeth monitro a gwerthuso cadarn.

7.36 Dim ond ar gyfer y cyfnod sy'n arwain at y cam adeiladu ac ar gyfer cam adeiladu'r Prosiect y mae Horizon wedi datblygu ei Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant. Mae CSYM gofyn i Horizon gytuno â'r canlynol:

a) rhoi Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant ar waith a'r cynlluniau gweithredu blynyddol, drwy gydol y cyfnodau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu; a
b) sefydlu gweithdrefnau i fonitro a gwerthuso tri cham y prosiect bob blwyddyn.

ADRODDIAD AR YR EFFAITH LEOL

# THEMA PENNOD 9: YR IAITH GYMRAEG A'I DIWYLLIANT

## ATODIAD 1: Adroddiad Proffilio Iaith Ynys Môn

**Tachwedd 26 2018**

**SWYDDOGOL SENSITIF**

## 1 Cyflwyniad

**1.1** Cafodd y broses hon o gasglu tystiolaeth ar gyfer *Adroddiad Proffilio Iaith Ynys Môn* ei chynnal yn ystod Gorffennaf – Hydref 2018 fel rhan o ymateb Cyngor Sir Ynys Môn (CSYM) i broses Pŵer Niwclear Horizon (HNP) o wneud cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu (DCO).

**1.2** Mae dau ddiben i'r ddogfen hon:

- mae'n darparu rhywfaint o ddata ychwanegol ynghylch proffilio iaith mewn cymunedau er mwyn rhoi sail i benderfyniadau ynghylch polisi sy'n ymwneud â diogelu a chryfhau hyfywedd cymunedau a rhwydweithiau cymdeithasol Cymraeg ar Ynys Môn;
- gan ystyried cyfyngiadau'r data sydd ar gael ar hyn o bryd, mae'n amlinellu ffyrdd o gryfhau'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer asesu effaith Prosiect DCO Wylfa Newydd HNP a'r broses barhaus o fonitro effaith y strategaethau lliniaru a pha mor effeithiol ydynt yn ystod oes y prosiect.

*Y galw am ddata proffilio iaith ychwanegol*

***1.3*** Yn yr Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg gan HNP, mae effeithiau prosiect Wylfa Newydd yn cael eu hasesu mewn perthynas â'r Ardal Astudiaeth Allweddol. Nid yw effaith y prosiect ar y Gymraeg, ar lefel cymunedau a wardiau, yn cael eu mesur yn ddigon manwl i allu monitro effaith y strategaethau lliniaru a pha mor effeithiol ydynt. Ar ôl i CSYM gwblhau ei Asesiadau cychwynnol o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant, roedd yn amlwg bod bwlch yn yr wybodaeth ynghylch proffil iaith Ynys Môn ac, felly, bod angen sylfaen dystiolaeth ychwanegol er mwyn sicrhau mesurau lliniaru priodol. Bwriedir i'r data yma ategu'r data ynghylch proffil iaith a gyflwynir yn *Strategaeth y Gymraeg 2016 – 2021*[1] ac yn y *Darlun o sefyllfa'r Gymraeg ar Ynys Môn* (2014).[2]

**1.4** Diben casglu tystiolaeth ychwanegol o broffil iaith wardiau ledled Ynys Môn yw:

- dechrau nodi sylfaen yr iaith Gymraeg ar lefel fwy lleol (o dan yr Ardal Astudiaeth Allweddol); wedyn byddai modd asesu hynny yn erbyn setiau data eraill fel y Dadansoddiad o Stoc Gwelyau, y Stoc Tai ac ati. Byddai hyn yn fuddiol er mwyn deall pa ardaloedd sy'n fwy sensitif nag eraill i ddewis y gweithwyr mudol o ran ble maent yn byw.
- asesu pa ardaloedd sy'n agos i'r trothwyon lle mae 50% a 70% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg;
- nodi lefelau capasiti ysgolion a grwpiau cymunedol;
- sefydlu dull o broffilio iaith a allai fod yn weithredol dros amser (rhan o'r monitro parhaus);

[1] Cyhoeddwyd gan Fforwm Strategol Iaith Gymraeg Ynys Môn ym mis Medi 2016.
[2] Cyhoeddwyd gan Wasanaeth Ymchwil a Dadansoddeg Cyngor Gwynedd fel *Papur Cefndir 10B: Proffil Ieithyddol Ynys Môn* ar gyfer *Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd a Môn* (2015).

- casglu tystiolaeth ychwanegol i gyfiawnhau’r mesurau lliniaru y mae CSYM yn gofyn amdanynt fel rhan o Brosiect Wylfa Newydd, yn benodol: gwell gwasanaethau trochi i ddisgyblion cynradd ac uwchradd; gwasanaethau cyfieithu cymunedol a chreu ac ariannu swyddi ar gyfer 5 Swyddog Cynnwys y Gymuned.

*Cwmpas y data proffilio iaith*

**1.5** Casglwyd data proffilio iaith ledled Ynys Môn am y rhesymau canlynol:

- Nid yw’r model disgyrchiant a ddefnyddiwyd gan HNP yn rhoi ffordd o nodi’n derfynol ac yn benodol ble mae’r gweithwyr (sydd â gwahanol statws economaidd-gymdeithasol a theuluoedd) yn debygol o ddewis byw a rhyngweithio â'r boblogaeth leol;
- byddai canolbwyntio ar ogledd yr ynys yn unig yn anwybyddu ardaloedd eraill y gallai'r gweithwyr fyw ynddynt;
- gwyddwn o brofiad yng nghyswllt Wylfa A fod rheolwyr, er enghraifft, wedi dewis byw mewn ardaloedd fel Moelfre, Biwmares, Porth Llechog a Benllech;
- dydy Ynys Môn ddim yn ynys fawr a disgwylir y bydd y gweithwyr a’u dibynyddion yn rhyngweithio â’r boblogaeth leol y tu hwnt i’w lleoliadau preswyl a’u gwaith uniongyrchol.

*Ffiniau Daearyddol*

**1.6** Mae’r astudiaeth hon wedi defnyddio'r hen ffiniau etholiadol (cyn 2012). Mae hyn yn gyson â Chyfrifiad 2011 a’r rhain yw’r ffiniau y mae HNP wedi’u defnyddio i bennu Prif Ardaloedd Astudiaeth Gogledd Ynys Môn, Gorllewin Ynys Môn a De Ynys Môn yn ei ddogfennau. Penderfynwyd y gallai cynnal yr asesiad o fewn ffiniau etholiadol newydd 2012 beri problemau ac y byddai’n rhoi lle i ddadlau, ac ni fyddai hyn o gymorth mewn trafodaethau tir cyffredin. Yn yr astudiaeth hon, mae wardiau etholiadol wedi cael eu defnyddio yn hytrach nag Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is. Gwneir hyn i gyd-fynd â *Strategaeth y Gymraeg Ynys Môn* a *Phroffil Iaith Ynys Môn* a ddefnyddiwyd yng *Nghynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd* (2017).

*Y dystiolaeth a gasglwyd*

**1.7** Yn ystod yr amserlen, ac yn unol â’r adnoddau a oedd ar gael, roedd y broses o gasglu tystiolaeth yn canolbwyntio ar y canlynol:

- datblygu proffil iaith cychwynnol o’r ddarpariaeth bresennol o ran gweithgareddau/grwpiau cymunedol ledled Ynys Môn sy’n gwasanaethu plant, oedolion ifanc, oedolion, teuluoedd, pobl hŷn;
- mudiadau Cymraeg traddodiadol ar yr ynys sy'n cefnogi rhwydweithiau creadigol a diwylliannol;
- rhwydweithiau eraill sydd â pharch mawr at y Gymraeg (er enghraifft: Cynghorau Tref/Cymuned, Clybiau Chwaraeon, Dosbarthiadau Nos);
- iaith ysgolion, a grwpiau gofal plant ac addysg gynnar

**1.8** Gofynnwyd i gynrychiolwyr o'r mudiadau canlynol am ddata a allai gyfrannu at y broses hon o gasglu tystiolaeth. Fe lwyddodd y rhan fwyaf i ddarparu rhywfaint o'r data y gofynnwyd amdanynt.

- Gwasanaethau Addysg CSYM
- Gwasanaethau Cymunedol CSYM
- Gwasanaethau i Oedolion CSYM
- Gwasanaethau Hamdden CSYM
- Cymraeg i Oedolion, Prifysgol Bangor
- Urdd Gobaith Cymru
- Clybiau Ffermwyr Ifanc
- Mudiad Meithrin
- Un Llais Cymru
- Medrwn Môn
- Menter Môn
- Merched y Wawr
- Grŵp Llandrillo Menai

**1.9** Roedd y dystiolaeth ar gyfer yr ymarfer proffilio iaith yn cynnwys:

- cynnal cyfweliadau ansoddol wedi’u strwythuro’n rhannol ag aelodau o adrannau CSYM a chynrychiolwyr o fudiadau cymunedol
- casglu setiau data sy’n bodoli eisoes gan adrannau CSYM, darparwyr gwasanaethau a mudiadau cymunedol, lle y bo hynny’n bosibl
- cynnal ymchwil bwrdd gwaith eilaidd, ategol.

**1.10** Lle y bo hynny’n bosibl, cafodd data ynghylch gallu ieithyddol arweinwyr grwpiau / darparwyr gwasanaethau a chyfranogwyr grwpiau / defnyddwyr gwasanaethau eu casglu gan ddefnyddio'r categorïau canlynol:

- Pob un yn siarad Cymraeg (100%)
- Mwyafrif yn siarad Cymraeg (55%+)
- Hanner yn siarad Cymraeg, hanner ddim (45% - 55%)
- Lleiafrif yn siarad Cymraeg (< 45%)
- Neb yn siarad Cymraeg (0%)

**1.11** Cafodd data ynghylch iaith gweithgareddau grwpiau neu fudiadau eu casglu hefyd lle y bo hynny'n bosibl, gan ddefnyddio'r categorïau canlynol:

- Cymraeg yn unig (95% - 100%)
- Cymraeg yn bennaf (55%+)
- Hanner Cymraeg, hanner Saesneg (45% - 55%)
- Saesneg yn bennaf (< 45%)
- Saesneg yn unig (0% / 100% yn Saesneg)

**1.12** Cafodd data ynghylch codau post eu casglu hefyd er mwyn mapio lleoliad mudiadau a grwpiau cymunedol mewn modd gofodol gan ddefnyddio rhaglen QGIS CSYM.


**1.13** Yn bennaf, mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar drafod y data sydd ar gael ynghylch gallu ieithyddol a defnydd iaith, yn ogystal â data y mae modd eu mapio yn unol â wardiau drwy ddefnyddio data cod post. Caiff rhestr o'r mapiau sydd wedi'u creu ar gyfer yr adroddiad hwn ei darparu yn Atodiad 1. Nid yw'r holl fapiau wedi'u hatgynhyrchu yn y ddogfen hon.

## 2 Trafod canfyddiadau allweddol a dulliau yng nghyswllt proffilio iaith

### 2.1 Nodi'r trothwyon lle mae 50% a 70% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg ar lefel wardiau

2.1.1 Gweledigaeth CSYM "*ar gyfer Cyfrifiad 2021 yw gweld cynnydd yn y nifer sy'n siarad y Gymraeg a bod y ganran yn codi i o leiaf 60.1% fel ag yr oedd yn 2001.*"[3] Yn benodol, y canlyniad a ddymunir ar gyfer Ynys Môn yn Strategaeth Iaith Gymraeg 2016

– 2021 yw "*cynnal y wardiau lle mae 70% o'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg a chynyddu canrannau gweddill y wardiau eraill.*".[4] Dyma ddau o ddangosyddion y strategaeth: "*cynnydd yn y wardiau lle mae dros 70% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg*" a "*chynnydd yn y wardiau lle mae dros 50% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg*"[5]. Mae Map 1 yn dangos y wardiau lle roedd dros 70%, dros 50% a llai na 50% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg yn 2011.




Map 1: Trothwyon 70% a 50% ar gyfer yr holl siaradwyr Cymraeg 3 oed neu hŷn yn Wardiau Ynys Môn, Cyfrifiad 2011

2.1.2 Yn unol â pholisi'r cyngor, dyma'r wyth ward sydd angen cynnal eu statws fel ardaloedd lle mae dros 70% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg: Bodffordd, Braint, Bryngwran, Cefni, Cyngar, Gwyngyll, Llanfihangel Ysgeifiog a Thudur.

[3] Fforwm Strategol Iaith Ynys Môn: Strategaeth Iaith Gymraeg 2016-2021, tudalen 5. [4]

Fforwm Strategol Iaith Ynys Môn: Strategaeth Iaith Gymraeg 2016-2021, tudalen 28. [5]
Fforwm Strategol Iaith Ynys Môn: Strategaeth Iaith Gymraeg 2016-2021, tudalen 28.

2.1.3 Roedd 19 o wardiau lle roedd rhwng 50% a 69% o'r boblogaeth 3 oed a hŷn yn siarad Cymraeg yn 2011. Mae'n debygol mai drwy ganolbwyntio ar y ddwy ward agosaf at y trothwy, sef Bodorgan (68.3%) a Llannerch- y-medd (69.9%), y byddai modd cynyddu nifer y wardiau lle mae dros 70% o'r boblogaeth 3 oed a hŷn yn gallu siarad Cymraeg.

2.1.4 Y wardiau mwyaf tebygol o ddisgyn o dan 50% yw Amlwch Wledig (54.3%), Llanbadrig (52.4%), Llanfair-yn-Neubwll (50.5%), Moelfre (52.3%), Parc a'r Mynydd (50.4%), Pentraeth (54.8%), a'r Fali (54.7%). Mae Tabl 1 yn dangos y newid yn nifer, canran a phwyntiau canran siaradwyr Cymraeg (3 oed a hŷn) yn wardiau Ynys Môn rhwng cyfrifiadau 2001 a 2011.

**Tabl 1[6]: Canran y bobl (3 oed a hŷn) sy'n gallu siarad Cymraeg yn ôl ward, 2001 a 2011**

| Ward | 2001 | | 2011 | | Change 2001-2011 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Number | % | Number | % | In number | In number (%) | In % Point |
| Aberffraw | 878 | 69.4% | 810 | 60.4% | -68 | -7.7% | -9.0% |
| Amlwch Port# | 906 | 67.3% | 1,559 | 64.5% | # | # | # |
| Rural Amlwch | 686 | 57.0% | 675 | 54.3% | -11 | -1.6% | -2.7% |
| Beaumaris | 791 | 39.7% | 748 | 39.5% | -43 | -5.4% | -0.2% |
| Bodffordd | 1,162 | 77.9% | 1,098 | 73.3% | -64 | -5.5% | -4.6% |
| Bodorgan | 1,092 | 72.7% | 1,130 | 68.3% | 38 | 3.5% | -4.4% |
| Braint | 1,113 | 77.1% | 1,078 | 73.2% | -35 | -3.1% | -3.9% |
| Bryngwran | 1,234 | 76.1% | 1,311 | 71.2% | 77 | 6.2% | -4.9% |
| Brynteg | 904 | 51.0% | 890 | 48.7% | -14 | -1.5% | -2.3% |
| Cadnant | 539 | 51.8% | 571 | 47.4% | 32 | 5.9% | -4.4% |
| Cefni | 1,151 | 83.1% | 1,160 | 80.5% | 9 | 0.8% | -2.6% |
| Cwm Cadnant | 1,225 | 56.2% | 1,261 | 57.5% | 36 | 2.9% | 1.3% |
| Cyngar | 1,425 | 84.7% | 1,576 | 80.8% | 151 | 10.6% | -3.9% |
| Gwyngyll | 1,118 | 73.9% | 1,093 | 70.5% | -25 | -2.2% | -3.4% |
| Holyhead Town | 451 | 43.2% | 447 | 39.1% | -4 | -0.9% | -4.1% |
| Kingsland | 660 | 48.0% | 627 | 42.9% | -33 | -5.0% | -5.1% |
| Llanbadrig | 736 | 54.4% | 690 | 52.4% | -46 | -6.3% | -2.0% |
| Llanbedrgoch | 710 | 45.5% | 654 | 43.9% | -56 | -7.9% | -1.6% |
| Llanddyfnan | 881 | 69.9% | 829 | 64.7% | -52 | -5.9% | -5.2% |
| Llaneilian | 1,337 | 61.5% | 1,295 | 58.9% | -42 | -3.1% | -2.6% |
| Llanfaethlu | 1,021 | 67.1% | 1,025 | 64.4% | 4 | 0.4% | -2.7% |
| Llanfair-yn-Neubwll | 1,341 | 51.5% | 1,396 | 50.5% | 55 | 4.1% | -1.0% |
| Llanfihangel Ysgeifiog | 1,528 | 78.3% | 1,479 | 75.8% | -49 | -3.2% | -2.5% |
| Llangoed | 676 | 54.6% | 585 | 48.4% | -91 | -13.5% | -6.2% |
| Llanidan | 1,111 | 68.7% | 1,162 | 65.1% | 51 | 4.6% | -3.6% |
| Llannerch-y-medd | 1,252 | 72.3% | 1,294 | 69.9% | 42 | 3.4% | -2.4% |
| London Road | 742 | 51.8% | 645 | 45.3% | -97 | -13.1% | -6.5% |
| Maeshyfryd | 932 | 43.7% | 885 | 40.6% | -47 | -5.0% | -3.1% |
| Mechell | 949 | 64.0% | 918 | 61.1% | -31 | -3.3% | -2.9% |
| Moelfre | 564 | 51.4% | 544 | 52.3% | -20 | -3.5% | 0.9% |
| Morawelon | 676 | 45.3% | 584 | 40.4% | -92 | -13.6% | -4.9% |
| Parc a'r Mynydd | 596 | 53.8% | 563 | 50.4% | -33 | -5.5% | -3.4% |
| Pentraeth | 1,006 | 58.2% | 987 | 54.8% | -19 | -1.9% | -3.4% |
| Porthyfelin | 1,019 | 45.7% | 863 | 39.7% | -156 | -15.3% | -6.0% |
| Rhosneigr | 406 | 42.6% | 351 | 36.0% | -55 | -13.5% | -6.6% |
| Rhosyr | 1,339 | 63.7% | 1,272 | 59.3% | -67 | -5.0% | -4.4% |
| Trearddur | 979 | 42.6% | 835 | 38.1% | -144 | -14.7% | -4.5% |
| Tudur | 1,189 | 83.6% | 1,206 | 80.7% | 17 | 1.4% | -2.9% |
| Tysilio | 1,285 | 64.4% | 1,219 | 59.2% | -66 | -5.1% | -5.2% |
| Valley | 1,283 | 55.0% | 1,253 | 54.7% | -30 | -2.3% | -0.3% |
| Isle of Anglesey | 38,893 | 60.1% | 38,568 | 57.2% | -325 | -0.8% | -2.9% |
| Wales | 582,368 | 20.8% | 562,016 | 19.0% | -20,352 | -3.5% | -1.7% |

*Source: 2001 Census - Table UV84; 2011 Census - Table KS207WA*


*#Note: In 2001, 450 Census forms were not processed by the Office for National Statistics which lead to an undercount of 1,035 in the population of the ward. This means that 2001 and 2011 figures cannot be compared*

---


6 Mae'r tabl hwn wedi cael ei atgynhyrchu o Dabl 7: Canran y bobl (3 oed a hŷn) sy'n gallu siarad Cymraeg yn ôl ward, 2001 a 2011 yn y ddogfen *Darlun o sefyllfa'r Gymraeg ar Ynys Môn* (2014) t. 12.

## 2.2 Effaith gweithlu DCO Wylfa HNP ar ganran y siaradwyr Cymraeg oedran gweithio ar Ynys Môn

2.2.1 Nid yw proffil oedran a rhyw gweithwyr HNP yn hysbys. Disgwylir y bydd effaith gweithlu DCO Wylfa HNP yn cael effaith ar ganran y siaradwyr Cymraeg ymhlith y grwpiau gweithio 20-24 oed a 25-59 oed ar Ynys Môn. Mae Map 6 yn dangos cyfran y siaradwyr Cymraeg rhwng 20 a 24 oed yn wardiau Ynys Môn yn 2011. Yn y grŵp oedran hwn, roedd 18 o wardiau lle roedd 70% neu fwy o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg yn 2011, gan gynnwys wardiau Llanfaethlu (80.3%), Mechell (77.0%), Llanbadrig (70.1%), Amlwch Wledig (76.8%), Porth Amlwch (73.6%), Llanelian (72.3%) a Llannerch-y-medd (77.3%). I'r gwrthwyneb, mae Map 7 yn dangos bod cyfran lawer is o'r boblogaeth rhwng 25 a 59 oed yn gallu siarad Cymraeg yn 2011, yn enwedig ym Mechell (59.6%), Llanbadrig (49.5%) ac Amlwch Wledig (52.8%).




Map 6: Canran y siaradwyr Cymraeg rhwng 20 a 24 oed yn wardiau Ynys Môn yn 2011




Map 7: Canran y siaradwyr Cymraeg rhwng 25 a 59 oed yn wardiau Ynys Môn yn 2011

2.2.2 Ar y cyfan, y grwpiau oedran 20-24 a 25-59 yw'r boblogaeth sy’n magu plant. Mae *Strategaeth Iaith Gymraeg 2016-2021* yn cydnabod bod trosglwyddo iaith yn y teulu yn hollbwysig er mwyn creu siaradwyr Cymraeg. O ganlyniad i Wylfa Newydd, byddai lleihau canran y preswylwyr yn y grŵp oedran hwn sy’n byw ar Ynys Môn ac yn siarad Cymraeg yn lleihau canran yr oedolion ar Ynys Môn sy’n trosglwyddo’r Gymraeg i’w plant. Caiff data ynghylch trosglwyddo’r iaith Gymraeg eu trafod ymhellach ym mharagraffau 2.3.2 – 2.3.4.


2.2.3 Effaith arall y gallai Prosiect DCO Wylfa Newydd HNP ei chael ar y boblogaeth sy’n gweithio ar Ynys Môn yw’r posibilrwydd y bydd siaradwyr Cymraeg yn cael eu disodli mewn darparwyr gwasanaeth a chyflogwyr sy’n bodoli eisoes. Mae cyfweliadau ansoddol â swyddogion CSYM a sefydliadau eraill wedi codi pryderon y gellid colli staff Cymraeg o wasanaethau ledled y sector cyhoeddus yn sgil Wylfa Newydd, gan gynnwys y rheini sy'n effeithio ar bobl agored i niwed y mae mwy o angen gwasanaethau Cymraeg arnynt.

### 2.3 Effaith dibynyddion gweithwyr HNP ar gyfran y siaradwyr Cymraeg mewn grwpiau oedran eraill yn wardiau Ynys Môn

2.3.1 Nid yw niferoedd, oedran, rhyw a dosbarthiad dibynyddion gweithwyr HNP yn hysbys. Disgwylir y bydd aelodau o'u teulu estynedig yn symud yma gyda rhai gweithwyr. Gallai'r rhain fod yn berthnasau hŷn, yn ogystal â gwŷr/gwragedd/partneriaid a phlant oedran cyn-ysgol, addysg statudol neu addysg bellach. Ar hyn o bryd, mae HNP yn amcangyfrif y bydd 220 o blant oedran ysgol yn symud i Ynys Môn yn ystod cam adeiladu Prosiect DCO Wylfa Newydd. Mae Mapiau 3, 4, 5, 8 a 9 yn rhoi proffil sylfaenol o ganran y siaradwyr Cymraeg yn wardiau Ynys Môn yn 2011 yn ôl categorïau grŵp oedran y cyfrifiad: 3-4 oed (Map 3); 5-15 oed (Map 4); 16-19 oed (Map 5); 60-74 oed (Map 8) a 75 oed a hŷn (Map 9).

*Trosglwyddo'r Iaith Gymraeg yn y Cartref*

2.3.2 Defnyddir data'r cyfrifiad i ddangos proffil trosglwyddo'r iaith Gymraeg yn y cartref drwy ddiffinio cyfradd y trosglwyddo ar ffurf cyfran y plant 3-4 oed mewn cartref teulu unigol sy'n gallu siarad Cymraeg. Mae Map 3 yn rhoi cynrychiolaeth ar lefel ward o ganran y plant rhwng 3 a 4 oed a oedd yn siarad Cymraeg ar Ynys Môn yn 2011.




Map 3: Canran y plant rhwng 3 a 4 oed a oedd yn siarad Cymraeg yn wardiau Ynys Môn yn 2011.

2.3.3 Mae Tabl 2[7] yn dangos yr ystadegau sydd ar gael o ddata Cyfrifiadau 2001 a 2011 ynghylch y gyfradd trosglwyddo mewn cartrefi teuluoedd unigol ar Ynys Môn. Rhwng 2001 a 2011, bu cynnydd o ran trosglwyddo'r iaith mewn cartrefi lle roedd y ddau oedolyn yn gallu siarad Cymraeg. Fodd bynnag, fe wnaeth cyfraddau trosglwyddo leihau rhywfaint mewn aelwydydd â dau oedolyn neu rieni sengl lle mai dim ond un oedolyn a oedd yn siarad Cymraeg yn ystod yr un cyfnod. Fel y mae Map 3 yn dangos, mae amrywiadau sylweddol yn nifer y plant 3-4 oed sy'n siarad Cymraeg ar lefel ward, o 92% yn Llanfaethlu i 15.8% ym Morawelon.

Tabl 2: Lefelau trosglwyddo'r iaith Gymraeg 2001 a 2011

| Single family households with children aged 3-4 years old | Isle of Anglesey | | Wales | |
|---|---|---|---|---|
| | 2001 | 2011 | 2001 | 2011 |
| Couple - Two adults can speak Welsh | 79.0% | 80.1% | 82.0% | 82.2% |
| Couple - One adult can speak Welsh | 49.1% | 47.5% | 39.9% | 45.4% |
| Couple - No adults can speak Welsh | 15.5% | 20.6% | 8.6% | 13.2% |
| Lone parent - Adult can speak Welsh | 69.8% | 60.8% | 55.3% | 53.3% |
| Lone parent - Adult cannot speak Welsh | 25.2% | 25.4% | 9.8% | 14.4% |

*Source: 2001 Census – Table C0156; 2011 Census - Table DC2601WA*


2.3.4 Mae data'r Cyfrifiad yn annibynadwy o ran dangos lefelau trosglwyddo'r Gymraeg yn y cartref oherwydd bydd rhai o'r plant hyn wedi dysgu Cymraeg drwy addysg cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg yn hytrach nag yn y cartref. Mae'r data sy'n cael eu casglu bob blwyddyn gan y Mudiad Meithrin ynghylch plant 2-4 oed â mamau sy'n siarad Cymraeg (Map 10a), tadau/partneriaid sy'n siarad Cymraeg (Map 10b) a'r rheini sy'n siarad Cymraeg fel iaith y cartref, yn fwy dibynadwy at ddibenion monitro a lliniaru. Mae'r Mudiad Meithrin hefyd yn casglu data ynghylch nifer a chanran y plant sy'n symud o gylch cyfrwng Cymraeg i ysgol gynradd Gymraeg. Y data mwyaf dibynadwy ynghylch trosglwyddo'r Gymraeg o fewn teuluoedd yw lle mae'n hysbys mai'r Gymraeg yw iaith y cartref. Mae ymchwil yn dangos, er bod gan lawer o gartrefi 'bolisi un rhiant, un iaith' mewn perthynas â'r plentyn, gall rhai rhieni/gofalwyr di-Gymraeg ddysgu Cymraeg yn ddigon da i ddefnyddio'r Gymraeg fel prif iaith i gyfathrebu â'u plant neu fel prif iaith y cartref.[8] Mae Map 10 yn dangos mai dim ond dau Gylch Meithrin, sef y rhai yn wardiau Llannerch-y-medd a Llanelian, sydd â dros 80% o blant y Cylch yn byw mewn cartrefi Cymraeg.

2.3.5 Mae'n bryder bosibl mai dim ond 40% – 60% o blant Cylchoedd Meithrin Bryngwran, Gwalchmai, Stryd y Bont, Gaerwen a Llanfairpwll sy'n byw mewn aelwydydd lle mai Cymraeg yw iaith y cartref – ac mae'r rhain i gyd mewn wardiau lle roedd dros 70% a dros 80% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg yn 2011. Canran isel o blant sy'n dod o gartrefi Cymraeg yn y cylchoedd meithrin yn wardiau Llanbadrig, Porth Amlwch, Mechell, Llanfaethlu a Moelfre yng ngogledd yr ynys, a'r Parc a'r Mynydd, Tref Caergybi, Maeshyfryd a'r Fali yn y gorllewin

[7] Mae'r tabl hwn wedi cael ei atgynhyrchu o Dabl 11: Cyfraddau Trosglwyddo Iaith 2001 a 2011 yn y ddogfen *Darlun o sefyllfa'r Gymraeg ar Ynys Môn* (2014) t. 32.

[8] E.e. Jones & Morris (2005), Evas et al. (2016)

. Gallai prosiect Wylfa Newydd HNP waethygu’r ffigurau hyn. Yn ddibynnol ar nifer y dibynyddion HNP sydd â babanod a phlant cyn-ysgol, byddai prosiectau Cymraeg i Blant, Clwb Cwtch a Menter Iaith Môn – sy’n ceisio hybu dwyieithrwydd ymhlith teuluoedd a helpu rhieni i ddysgu rhywfaint o Gymraeg – yn gallu cefnogi rhieni ychwanegol mewn rhai lleoliadau, ond efallai ddim. Bydd angen rhoi tystiolaeth o hyn ac o’r galw am unrhyw gapasiti ychwanegol a mesurau lliniaru eraill a fydd yn angenrheidiol.




Map 10: Plant 2-4 oed sy’n byw mewn aelwydydd lle mai’r Gymraeg yw iaith y cartref (Ffynhonnell: Mudiad Meithrin, Hydref 2018. Mae’r map yn nodi ffiniau wardiau cyfrifiad 2011)

2.3.6 Nid y Mudiad Meithrin yw’r unig ddarparwr gofal plant ac addysg i blant hyd at 4 oed, ond hwn yw’r prif ddarparwr cyfrwng Cymraeg yn y sector yma. Mae gan Uned Cymorth i Deuluoedd CSYM ddata ynghylch yr holl ddarparwyr ar Ynys Môn.[9] O’r grwpiau chwarae, gwarchodwyr plant, meithrinfeydd drwy’r dydd, clybiau ar ôl ysgol a chlybiau gwyliau, cofnodir bod y rhan fwyaf yn cynnig darpariaeth ddwyieithog. Yn gyffredinol, nid oes data ynglŷn ag iaith cartref y plant ar gael. Yn ôl y data ynghylch ardaloedd Dechrau'n Deg Niwbwrch, Gwalchmai, Caergybi, a rhan o ward Tudur yn Llangefni, y Gymraeg oedd iaith gyntaf 98 o’r 626 o blant a ddyrannwyd i Ymwelwyr Iechyd Dechrau’n Deg

[9] CSYM, (2017). *Ffurflen Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant*. Mae modd gweld y ddogfen hon yma: http://www.ynysmon.gov.uk/Journals/r/u/j/Terfynol---Cymraeg---Ffurflen-Asesiad-o-Ddigonolrwydd-Gofal-Plant.pdf. Cyrchwyd 11 Tachwedd 2018.

yn 2017 - 2018. Roedd 24 o'r 162 o blant a oedd yn gymwys ar gyfer gofal plant Dechrau'n Deg yn dod o deuluoedd Cymraeg iaith gyntaf yn 2017/18.

2.3.7 Nid yw'r cynnydd posibl yn nifer y plant oed cyn ysgol (0-4 oed) a ddisgwylir ar Ynys Môn o ganlyniad i Brosiect Wylfa Newydd HNP wedi'i gyfyngu i nifer y gweithwyr â dibynyddion oed cyn ysgol sy'n symud i'r ynys i ymuno â'u rhieni / gofalwyr. Mae'n bosibl y bydd rhai o'r gweithwyr hyn a'u gwŷr/gwragedd/partneriaid yn cael rhagor o blant ar ôl symud i'r ardal. Bydd rhai gweithwyr hefyd yn dewis byw ar Ynys Môn a chael plant gyda phartneriaid lleol, neu rai nad ydynt yn lleol, rywbryd yn y dyfodol. Mae Ffurflen Asesu Digonolrwydd Gofal Plant CSYM (CSAF) (2017) yn nodi:

- mae prinder gofalwyr plant sy'n siarad Cymraeg ledled y sir (CSAF, t.46)
- mae rhai dosbarthiadau meithrin mewn ysgolion yn llawn, a phe bai cynnydd yn y galw a'r cymhwysedd, byddai hwn yn faes y byddai angen ei ddatblygu (CSAF, t.39)
- mae bylchau yn y ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg a dwyieithog mewn rhannau o'r Ynys (CSAF, t. 39)
- Mae'r Mudiad Meithrin yn nodi bod bwlch mewn darpariaeth Ti a Fi a Chylchoedd Meithrin mewn rhai wardiau ar Ynys Môn (Map 10).
- Ers mis Medi 2017, mae CSYM wedi ymrwymo i ddarparu 30 awr yr wythnos o ofal plant ac addysg blynyddoedd cynnar, a ariennir gan y llywodraeth, i rieni sy'n gweithio a chanddynt blant tair i bedair oed, am hyd at 48 wythnos y flwyddyn, yn unol â'r polisi Symud Cymru Ymlaen. Mae Uned Cefnogi Teuluoedd CSYM yn nodi bod cyflawni'r polisi hwn yn golygu nad yw'r lleoedd ychwanegol a nodwyd yn CSAF 2017 ar gael bellach o ganlyniad i roi'r polisi darpariaeth 30 awr ar waith. Does dim capasiti ychwanegol ar gael i ddelio â'r cynnydd yn y galw am addysg gynnar a gofal plant.


## 2.4 Mapio proffil iaith plant a phobl ifanc oedran ysgol

2.4.1 Mae data'r cyfrifiad ynglŷn â'r niferoedd sy'n siarad Cymraeg ymhlith plant a phobl ifanc rhwng 5 a 15 oed (Map 4) a rhwng 15 a 19 oed (Map 5) yn dangos pa mor hanfodol yw polisi addysg ddwyieithog CSYM er mwyn datblygu sgiliau Cymraeg yr holl blant a phobl ifanc oedran ysgol, gan gynnwys y rheini o gartrefi di-Gymraeg.


2.4.2 Ceir canrannau uchel o blant a phobl ifanc rhwng 5 a 15 oed sy'n siarad Cymraeg yn gyson ledled wardiau'r ynys, oni bai am wardiau Porthyfelin, Tref Caergybi, Morawelon, Maeshyfryd, Kingsland a Ffordd Llundain yng ngorllewin y sir (Map 4).

2.4.3 Yn 2011, roedd canran gyffredinol y bobl ifanc rhwng 16 a 19 oed a oedd yn siarad Cymraeg (Map 5) yn is na nifer y siaradwyr Cymraeg rhwng 5 a 15 oed (Map 4). Mae wardiau yng ngorllewin Ynys Môn yn dal yn is na rhannau eraill o'r ynys.

2.4.4 Mae HNP yn amcangyfrif y bydd 220 o blant a phobl ifanc oedran ysgol yn ddibynyddion i weithwyr. Nid yw eu hoedran yn hysbys. Nid yw’n hysbys i ba raddau y byddant yn effeithio ar broffil iaith y grŵp oedran hwn yng nghyfrifiad 2021.




Map 4: Canran y plant rhwng 5 a 15 oed a oedd yn siarad Cymraeg yn wardiau Ynys Môn yn 2011.




Map 5: Canran y plant rhwng 3 a 19 oed a oedd yn siarad Cymraeg yn wardiau Ynys Môn yn 2011.

2.4.5 Mae data'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) yn ddull mwy manwl o olrhain proffil iaith y grŵp oedran hwn na data'r Cyfrifiad. Caiff data CYBLD ei gasglu bob mis Ionawr ac mae'n ffordd o lunio ac olrhain y newid yn y proffil iaith bob blwyddyn.

## 2.5 Mapio proffil rhuglder Cymraeg plant a phobl ifanc oedran ysgol


2.5.1 Mae rhuglder Cymraeg yn ddangosydd allweddol ar gyfer hyfywedd yr iaith Gymraeg. Mae mapiau
11 ac 18 yn cyflwyno data CYBLD ar gyfer mis Ionawr 2018 o ran gallu ieithyddol disgyblion ysgolion cynradd ac uwchradd. Mae 70% neu fwy o'r disgyblion yn siarad Cymraeg yn rhugl mewn 9 ysgol gynradd, sef Rhosybol, Rhyd y Llan a Llanerch-y-medd yn y Gogledd, a Llanbedrgoch, Corn Hir, Henblas, Y Ffridd, Bodffordd a Phencarnisiog yn ne Ynys Môn.

2.5.2 Mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion cynradd lle mae cyfrannau uwch o ddisgyblion sy'n methu siarad Cymraeg wedi'u lleoli yng ngorllewin Ynys Môn. Y Fali, Rhoscolyn a Morswyn yw'r tair ysgol gynradd yng ngorllewin Ynys Môn sydd â'r gyfran uchaf o ddisgyblion Cymraeg rhugl.


2.5.3 Drwy gymharu Map 11 a Map 18, gwelir bod cyfrannau uwch o ddisgyblion oedran ysgol uwchradd nag oedran ysgol gynradd ym mhedair o'r

pum ysgol uwchradd sydd ar Ynys Môn. Mae hyn yn dangos bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl erbyn dechrau CA3.

2.5.4 Mae cyfran y disgyblion sy'n 'siaradwyr Cymraeg newydd', er nad ydynt yn siarad yr iaith yn y cartref, yn dangos pa mor allweddol yw rôl ysgolion o ran cynhyrchu siaradwyr Cymraeg rhugl. Fodd bynnag, mae hefyd yn arwyddocaol nad yw ysgolion, ar hyn o bryd, yn cynhyrchu niferoedd o 'siaradwyr newydd' rhugl sy'n cyd-fynd â chyfran y disgyblion rhugl sy'n byw mewn cartrefi Cymraeg. Bydd cynnal a chadw cyfran y siaradwyr Cymraeg rhugl, a chynyddu'r gyfran honno, yn hollbwysig er mwyn cynnal a gwella hyfywedd yr iaith ymysg plant a phobl ifanc oedran ysgol.




Map 11: Gallu Cymraeg disgyblion 5 – 11 oed yn ysgolion cynradd Ynys Môn (Ffynhonnell CYBLD Ionawr 2018)




Map 18: Gallu Cymraeg disgyblion 11 – 18 oed yn ysgolion uwchradd Ynys Môn (Ffynhonnell CYBLD Ionawr 2018)

## 2.6 Effaith dibynyddion gweithwyr HNP ar natur ieithyddol ysgolion cynradd ac uwchradd Ynys Môn

2.6.1 Mae cynnal cyfran y disgyblion sy’n siarad Cymraeg yn rhugl, a chynyddu’r gyfran honno, yn bwysig o ran y patrymau defnyddio’r Gymraeg sy’n llunio natur ieithyddol ysgolion. Heb wybod niferoedd ac oedran plant gweithwyr HNP, a ble y byddant yn byw ac yn mynd i'r ysgol, mae’n amhosibl rhagweld eu heffaith ar natur ieithyddol ysgolion cynradd ac uwchradd unigol ar Ynys Môn. Pa bynnag ysgolion y byddant yn mynd iddyn nhw, byddant yn cynyddu cyfran y plant nad ydynt yn siarad Cymraeg. Bydd hyn yn esgor ar oblygiadau o ran yr adnoddau angenrheidiol ar gyfer cymorth trochi yn y Gymraeg ac, o bosibl, cymorth Saesneg fel Iaith Ychwanegol (EAL) ar ben hynny. Oni bai eu bod yn dod yn ‘siaradwyr Cymraeg newydd’ rhugl, neu nes y bydd hynny’n digwydd, byddant yn cynyddu cyfran y plant a’r bobl ifanc sy’n siarad yr iaith ond heb fod yn rhugl.

2.6.2 Oni bai am Amlwch, mae’r rhan fwyaf o'r ysgolion cynradd sydd â chyfran uchel o blant nad ydynt yn gallu siarad Cymraeg wedi’u lleoli yn wardiau gorllewinol Ynys Môn (Map 11). Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd hyn yn adlewyrchu nifer y plant o gartrefi di-Gymraeg sy’n ymuno â'r ysgol. Byddai unrhyw blant i weithwyr HNP yn ychwanegu at y ffigurau hyn ac yn cynyddu'r galw am gymorth trochi.

2.6.3 Mewn ysgolion uwchradd, mae cyfran y disgyblion 11 - 18 oed nad ydynt yn siarad Cymraeg yn fach (Map 18). Bydd hyd yn oed niferoedd bach o blant i weithwyr HNP a fydd yn mynychu'r ysgolion hyn yn effeithio ar y cyfrannau ac yn golygu bod angen staff ychwanegol i gynnal y ddarpariaeth trochi yn y Gymraeg, ac efallai'r cymorth Saesneg fel Iaith Ychwanegol, y bydd eu hangen ar y disgyblion hyn ym mhob ysgol.

## 2.7 Darpariaeth trochi i ddisgyblion cynradd ac uwchradd

2.7.1 Mae pob un o ysgolion cynradd Ynys Môn yn ysgolion dwyieithog sy'n cynnal asesiadau ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a CA2 drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn y ddwy ysgol gynradd sy'n eithriad i hynny, mae'r Gymraeg yn faes blaenoriaeth. Bydd angen cymorth trochi ar yr holl blant oed ysgol gynradd sy'n symud i Ynys Môn, pa bynnag ysgol y byddant yn dewis ei mynychu.

2.7.2 Ar hyn o bryd, mae cymorth trochi i ddisgyblion cynradd CA2 ar Ynys Môn yn cael ei ddarparu mewn dwy ganolfan ddynodedig, sef Ysgol Moelfre ac Ysgol Llanfawr. Mae'r ddwy ganolfan yn chwarae rhan bwysig o ran galluogi plant a phobl ifanc o deuluoedd sy'n symud i Ynys Môn i fod yn "yn hyfedr ddwyieithog ac yn meddu ar y gallu i ddefnyddio'r ddwy iaith yn gyfartal ar ddiwedd eu gyrfa addysgol."[10]

*Nod y Ganolfan Iaith yw darparu cyrsiau Cymraeg dwys i fewnfudwyr er mwyn eu galluogi nhw i ymgartrefu yn y gymdeithas ddwyieithog a chymryd rhan lawn mewn profiadau addysg ddwyieithog. Mae'r ddarpariaeth hon yn rhan ganolog o helpu ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd i weithredu'r Polisi Iaith cyfredol [ar Ynys Môn]. Mae yna un Ganolfan Iaith yn Ysgol Moelfre ac is-uned yn Ysgol Llanfawr, a bwriedir i'r ddarpariaeth bresennol gael ei hymestyn a'i chefnogi ymhellach drwy gynnal proses liniaru ofalus gyda Horizon, o ganlyniad i'r effaith debygol ar iaith a chymunedau lleol ledled yr ynys yn sgil adeiladu gorsaf newydd Wylfa Newydd.* [11]

2.7.3 Mae Tabl 3 isod yn nodi niferoedd presennol y disgyblion sy'n mynd i ganolfannau trochi yn y sector cynradd. Roedd nifer y disgyblion a oedd yn mynd i'r ganolfan yn is yn 2017 – 2018 nag oedd yn 2016 – 2017. Y rheswm am hyn yw bod y Grant Datblygu'r Gweithlu wedi cael ei ddefnyddio i ariannu amser staff y Ganolfan Drochi yn y flwyddyn flaenorol, er mwyn darparu hyfforddiant ynghylch technegau trochi i staff y Cyfnod Sylfaen mewn ysgolion yn ardal Caergybi. Mae ffigurau'r disgyblion a gafodd ddarpariaeth trochi y llynedd yn edrych yn is oherwydd bod y staff addysgu wedi cael eu tynnu o'r canolfannau i ddatblygu technegau trochi yng nghyswllt addysgu yn y Cyfnod Sylfaen a chefnogi staff mewn ysgolion yng Nghaergybi. Bu hyn yn llwyddiannus oherwydd fe gafodd 123 yn fwy o ddisgyblion eu hasesu mewn Cymraeg iaith gyntaf yn y Cyfnod Sylfaen. O ganlyniad i'r hyfforddiant hwn,

mae'r ysgolion hyn yng Nghaergybi yn gallu meithrin y Gymraeg yn gynnar

[10] Cyngor Sir Ynys Môn, (2017). *Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Ynys Môn 2017 – 2020,* tudalen 1. Mae'r ddogfen hon ar gael yn: http://www.ynysmon.gov.uk/Journals/z/w/a/CSGA-Mon-2017-2020-GWIRIWYD.pdf Cyrchwyd 11 Tachwedd 2018.

[11] Cyngor Sir Ynys Môn, (2017). *Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Ynys Môn 2017 – 2020,* tudalen 4.

gyda disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen sydd heb gefndir blaenorol o siarad y Gymraeg cyn dod i'r ysgol.

2.7.4 Mae'r galw am lefydd yn y ddwy ganolfan drochi yn uwch na'r capasiti sydd ar gael ar hyn o bryd. Mae 45 o ddisgyblion ar y rhestr aros i gael lle yn y ganolfan yn ystod tymor y Gwanwyn 2019 (gweler Tabl 4). Ar hyn o bryd, mae 4 athro amser llawn ac un athro CPA rhan-amser yn y ddwy ganolfan iaith.

**Tabl 3: Cymorth mewn Canolfannau Trochi i ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2 yn y sector cynradd ers 2016-17.**

| Blwyddyn Ysgol | Canolfan Drochi | Bl 3 | Bl 4 | Bl 5 | Bl 6 | Nifer | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2016 / 2017 | Moelfre | 10 | 17 | 5 | 9 | 41 | 73 |
| | Llanfawr | 5 | 7 | 13 | 7 | 32 | |
| 2017 – 2018 | Moelfre | 15 | 9 | 7 | 3 | 34 | 65 |
| | Llanfawr | 3 | 2 | 11 | 15 | 31 | |
| 2018 – 2019* | Moelfre | 5 | 4 | 2 | 4 | 15 | 31 |
| | Llanfawr | 4 | 5 | 2 | 5 | 16 | |
| | CYFANSWM | 42 | 44 | 40 | 43 | 169 | 169 |

*Ffigurau cyfredol hyd at ddiwedd mis Hydref 2018

**Tabl 4: Rhestr aros o ddisgyblion CA2 ar gyfer Canolfannau Trochi yn Nhymor y Gwanwyn 2019**

| | | | |
|---|---|---|---|
| *Rhestr Aros*<br>*(diwedd mis Hydref 2018)* | *Moelfre* | *17 newydd-ddyfodiad + 1 gloywi* | *Cyfanswm*<br>*25 newydd-ddyfodiad* |
| | *Llanfawr* | *8 newydd-ddyfodiad + 19 (Gloywi)* | *20 Gloywi*<br>*45 Disgybl CA2* |

2.7.5 Un dull y mae'r Awdurdod wedi'i ddefnyddio i fynd i'r afael â'r capasiti yw lleihau nifer y disgyblion a aned yn lleol y mae angen cymorth ychwanegol arnynt i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg. Mae hyn wedi cael ei ddatrys drwy ddyrannu amser ac arbenigedd staff y Ganolfan Drochi i hyfforddi athrawon a staff cefnogi mewn ysgolion yng Nghaergybi ynghylch strategaethau effeithiol o ddatblygu plant di-Gymraeg i ddysgu'r iaith yn effeithiol.

2.7.6 Mae'r Awdurdod hefyd wedi cydweithio â'r Mudiad Meithrin (darparwr addysg cyn-ysgol a'r Cyfnod Sylfaen drwy gyfrwng y Gymraeg) ac wedi buddsoddi yn y cynllun Croesi'r Bont, sef cynllun iaith â chynnwys tebyg i gwricwlwm iaith y ganolfan drochi ar gyfer disgyblion cynradd, ac i helpu i sicrhau bod plant 2-4 oed o gartrefi di-Gymraeg yn dysgu'r Gymraeg y mae ei hangen arnynt ar gyfer eu haddysg yn y Cyfnod Sylfaen.

2.7.7 Byddai'r ddarpariaeth drochi yn estyniad o gymorth trochi presennol yr Awdurdod yn y Gymraeg. Mae darpariaeth drochi'r Awdurdod yn cael ei darparu gan 5 o athrawon trochi arbenigol amser llawn, gyda dau athro trochi amser llawn ac 1 athro cyflogedig CPA (.5) yn y canolfannau ym Moelfre ac yn Llanfawr. Yn ogystal â'r ddwy ganolfan sydd eisoes ar waith, rhagwelir y bydd angen adnoddau ychwanegol i ddiwallu'r twf yn y galw am gymorth trochi gan yr awdurdod yn sgil Wylfa Newydd HNP. Byddai hyn yn golygu cael o leiaf dwy ganolfan drochi ychwanegol mewn ysgolion cynradd eraill, gyda dau athro trochi amser llawn ac un athro CPA .5 yn y ddwy ganolfan. I grynhoi, byddai angen dyblu nifer y staff ac adnoddau'r ystafell ddosbarth o leiaf.

## 2.8 Disgyblion y mae'r Gymraeg a'r Saesneg yn ieithoedd ychwanegol iddynt

2.8.1 Ar hyn o bryd, mae data CYBLD CSYM yn nodi'r plant y mae'r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt o dan y categori 'Saesneg fel Iaith Ychwanegol'. Caiff Grant Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig Llywodraeth Cymru ei rhannu yn unol â nifer y disgyblion sy'n dod o dan y categori 'Saesneg fel Iaith Ychwanegol'. Mae ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ariannu'r Saesneg fel Iaith Ychwanegol wedi lleihau yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac nid yw'r cyllid ychwanegol hwn yn sicr. Hyd yma, mae cyllid wedi bod ar gael i dalu costau 1 athro 'Saesneg fel Iaith Ychwanegol' cynorthwyol i ddarparu cymorth ychwanegol drwy gyfrwng y Saesneg i'r holl ddisgyblion 'Saesneg fel Iaith Ychwanegol' ar lefel gynradd ac uwchradd ledled y sir.

2.8.2 Polisi CSYM yng nghyswllt cymorth trochi i blant oedran cynradd yw darparu cymorth yn y Gymraeg yn unig hyd at ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, pan fo disgyblion yn nhymor olaf Blwyddyn 2. Dyma pryd caiff dysgu Saesneg ei gyflwyno fel rhan o'r cwricwlwm ar gyfer yr holl ddisgyblion. Caiff cymorth ychwanegol ei ddarparu yn y Saesneg i'r holl ddisgyblion 'Saesneg fel Iaith Ychwanegol' fesul dipyn, nes cyrraedd 50%/50% erbyn diwedd Blwyddyn 6 a diwedd CA2.

2.8.3 Yn ôl data CYBLD CSYM ar gyfer ysgolion cynradd ym mis Ionawr 2018, mae 34 o ddisgyblion 'Saesneg fel Iaith Ychwanegol' yn y sector cynradd:

- Mae'r 'Saesneg yn iaith newydd' i 21 ohonynt (Tywyn 1; Y Borth 8; Cybi 5; Santes Fair 5 a Chaergeiliog 2)
- Mae 7 ohonynt yn ddisgyblion 'dysgu cynnar' (y Borth 1; Cybi 4 a Chaergeiliog 2)

- Mae 1 yn ‘datblygu cymhwysedd’ mewn Saesneg (Caergeiliog 1)
- Mae 2 yn siarad Saesneg ar lefel ‘gymwys’ (Kingsland 2)

- Mae 3 yn siarad Saesneg yn 'rhugl' (Kingsland 2; Cybi 1)

Nid yw cefndir ieithyddol y disgyblion hyn wedi'i gofnodi yn y data yma.

2.8.4 Yn ôl data CYBLD CSYM ar gyfer ysgolion uwchradd ym mis Ionawr 2018, mae 49 o ddisgyblion 'Saesneg fel Iaith Ychwanegol' yn y sector uwchradd ar Ynys Môn: Mae eu dosbarthiad ar draws ysgolion uwchradd yr ynys fel a ganlyn:

- **Ysgol Syr Thomas Jones - 0**
- **Ysgol Uwchradd Bodedern – 12** (Portiwgaleg 2; Lithwaneg 1; Aros am Ddosbarthiad 1; Iaith Arall 8)
- **Ysgol David Hughes – 25** (Bengali 4; Tsieineeg 3; Almaeneg 1; Hindi 1; Japaneg 1; Panjabi 2; Pwyleg 3; Portiwgaleg 1; Portiwgaleg Brasil 3; Rwmaneg 1; Thai 1; Aros am Ddosbarthiad 2; Ieithoedd Eraill 2)
- **Ysgol Gyfun Llangefni – 8** (Pwyleg 1; Portiwgaleg 3; Slofaceg 2; Twrceg 2)
- **Ysgol Uwchradd Cybi – 4** (Bengali 1; Tsieineeg 1; Pwyleg 1; Ieithoedd Eraill 1)

2.8.5 Mae'r data CYBLD ar gyfer ysgolion uwchradd yn dangos ystod eang o gefndiroedd ieithyddol y disgyblion. Disgwylir y bydd gweithlu HNP yn cynnwys dibynyddion ychwanegol o gefndiroedd ieithyddol amrywiol y mae naill ai'r Gymraeg yn unig neu'r Gymraeg a'r Saesneg yn ieithoedd ychwanegol iddynt. Nid oes digon o gyllid i roi cymorth digonol i ddisgyblion Saesneg fel Iaith Ychwanegol fel y mae, felly mae CSYM yn gofyn am gyllid llawn gan HNP i sicrhau bod cymorth rhagorol yn gallu cael ei ddarparu yn y Gymraeg a'r Saesneg yn unol ag anghenion pob plentyn yn unigol. Gan ystyried y diffyg data ynghylch nifer, oedran a chefndir ieithyddol y plant sy'n ddibynyddion i weithlu HNP ac unrhyw anghenion addysgol ychwanegol eraill sydd ganddynt, bydd rhaid i CSYM gynllunio ar sail y sefyllfa waethaf bosibl. Mae CSYM yn disgwyl i HNP ariannu hyn yn llwyr.

2.8.6 Bydd angen ariannu a sefydlu'r ddarpariaeth hon mewn da bryd cyn i blant gweithwyr HNP gyrraedd er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth ar gael ac wedi'i sefydlu'n gadarn erbyn i'r disgyblion cyntaf gyrraedd. Rhagwelir y bydd yn cymryd o leiaf dwy flynedd i sefydlu'r camau angenrheidiol i baratoi ar gyfer y plant cyntaf a fydd yn symud i'r ardal. Bydd y rhain yn cynnwys yr isod, ymhlith camau eraill:

- Recriwtio a hyfforddi athrawon trochi arbenigol.
- Recriwtio a hyfforddi staff ynghylch anghenion diwylliannol ac iaith ychwanegol disgyblion y mae Saesneg/Cymraeg yn iaith ychwanegol iddynt.
- Defnyddio'r staff arbenigol i hyfforddi athrawon y sector cynradd ym mhob un o ysgolion Ynys Môn, yn enwedig y rhai mwyaf tebygol o dderbyn disgyblion newydd sy'n mewnfudo o ganlyniad i Wylfa Newydd
- Datblygu a sefydlu strategaethau sgrinio fel WELLCOMM yn y Cyfnod Sylfaen a galluogi athrawon prif ffrwd CA2 a CA3 i ddefnyddio sgiliau

trochi yn yr ystafell ddosbarth yn well.

- Datblygu deunyddiau a hyfforddiant yn yr ieithoedd ychwanegol heblaw Saesneg (e.e. Japaneg ac ieithoedd ychwanegol eraill disgwyliedig / hysbys).[12]

2.8.7 Bydd angen darpariaeth i fodloni anghenion ychwanegol dibynyddion oed ysgol gynradd HNP Wylfa Newydd yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu. Bydd faint o blant y gweithlu HNP y bydd angen cymorth arnynt yn dibynnu ar anghenion cymorth ychwanegol pob plentyn, a bydd angen adolygu hynny bob blwyddyn yn ystod cyfnod y prosiect.

## 2.9 Darpariaeth Trochi Cymraeg i ddisgyblion CA3

2.9.1 Ar hyn o bryd, does dim darpariaeth trochi parhaol i blant oedran uwchradd o ganlyniad i ddiffyg arian.

2.9.2 Mae’r disgyblion Blwyddyn 7 sy’n cael eu croesawu i Ysgol Uwchradd Bodedern fel arfer yn cynnwys disgyblion nad yw lefel eu Cymraeg yn ddigonol i ddilyn y cwricwlwm Cymraeg. Yn ystod y chwe wythnos cyn diwedd tymor yr haf, mae Ysgol Uwchradd Bodedern yn cynnal dosbarthiadau trochi i ddisgyblion, o ardal Caergybi yn bennaf, sydd am symud i'r ysgol ym Mlwyddyn 7. Yn ôl Gwasanaethau Addysg CSYM, mae’r cwrs trochi dwys hwn, sydd ag 1 athro i bob 8 disgybl ac yn para 6 wythnos, yn gwella Cymraeg y disgyblion i safon sy'n eu galluogi nhw i ddelio’n well â chwricwlwm CA3 drwy gyfrwng y Gymraeg. Rhagwelir y bydd y cwricwlwm newydd yng Nghymru yn ei gwneud yn haws sicrhau bod anghenion disgyblion Bl.6 a Bl.7 yn gydnaws â’r cwricwlwm Cymraeg.

2.9.3 Cafodd cynllun peilot ei gynnal mewn Canolfan Iaith newydd yn Ysgol Uwchradd Bodedern yn 2015. Cafodd cwricwlwm Canolfan Iaith Uwchradd Gwynedd ei ddiweddaru a’i wneud yn ddigidol – drwy ddefnyddio grant iaith Gymraeg, a chyfraniadau gan bum ysgol uwchradd yr ynys – ac fe fu'r arbrawf yn llwyddiant. Mae’r Awdurdod yn awyddus i ddal ati i ddatblygu cynlluniau er mwyn diwallu anghenion disgyblion yng nghyswllt y Gymraeg ac y mae wedi ymrwymo i ddarparu'r gwasanaeth hwn drwy baratoi datblygiadau sylweddol ar yr Ynys yn y dyfodol (e.e. Wylfa B). Er bod ystafell ar gael yn Ysgol Uwchradd Bodedern, does dim cyllid ar gael ar gyfer athrawon ar hyn o bryd, nac ar gyfer y costau cysylltiedig â chludo’r disgyblion o bob cwr o’r ynys i un ganolfan.

2.9.4 Mae’r Gwasanaeth Addysg wedi asesu nad yw’r ddarpariaeth hon yn ddigonol a bod angen sicrhau bod yr holl ddisgyblion newydd ledled yr ynys yn llwyddo yng nghwricwlwm CA3 o leiaf. Er mwyn bodloni'r gofynion presennol a delio â’r disgyblion ychwanegol sy’n symud i'r ynys

[12] Mae rhai canolfannau trochi wedi datblygu deunyddiau mewn ieithoedd fel Pwyleg yn barod er mwyn helpu plant a rhieni/gofalwyr nad ydynt yn deall Saesneg i gyfathrebu’n well â staff addysgu a staff cymorth. Rhagwelir y bydd angen deunydd mewn ieithoedd eraill er mwyn bodloni anghenion dibynyddion y gweithlu rhyngwladol a gyflogir gan brosiect DCO Wylfa Newydd HNP.


o ganlyniad i Wylfa Newydd HNP, byddai angen sefydlu darpariaeth trochi yn y 5 ysgol uwchradd ar yr ynys, a fyddai'n cael ei ddarparu gan un athro trochi arbenigol (lefel Gradd 3) amser llawn ac un cymhorthydd dosbarth sydd wedi cael hyfforddiant trochi.

## 2.10 Dosbarthiad gofodol gallu Cymraeg plant a phobl ifanc oedran ysgol


2.10.1 Gellir hefyd defnyddio data CYBLD i fapio gallu ieithyddol disgyblion oedran ysgol yn ôl dalgylch ysgolion. Er na fydd yr holl ddisgyblion o reidrwydd yn byw yn nalgylch eu hysgolion, mae'r data yn ffordd o gael darlun o ddosbarthiad gofodol plant a phobl ifanc sydd i) yn siarad Cymraeg yn rhugl, ii) yn siarad Cymraeg heb fod yn rhugl a iii) ddim yn siarad Cymraeg. Mae Mapiau 12, 14 a 16 yn dangos y data yma ar gyfer disgyblion ysgolion cynradd, ac mae Mapiau 20, 22 a 24 yn dangos y data ar gyfer disgyblion ysgolion uwchradd (gweler Atodiad 1). Mae Mapiau 13, 15, 17 a Mapiau 21, 23, 25 yn cyflwyno'r un data ond bod ffiniau wardiau 2011 wedi cael eu marcio. Er nad yw ffiniau'r wardiau a dalgylchoedd yr ysgolion yn union yr un fath, gall mapio yn y modd hwn gyfrannu at ddatblygu proffil o siaradwyr Cymraeg ar lefel wardiau, er enghraifft, gall hyn fod yn sail i strategaethau lliniaru er mwyn rhoi mwy o gyfleoedd i blant a phobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg mewn gweithgareddau y tu allan i'r ysgol.

2.10.2 Mae cyfran uchel o ddisgyblion ysgolion cynradd sy'n siarad Cymraeg yn rhugl yn wardiau Rhosyr, Bodorgan, Aberffraw Rhosneigr, Bryngwran, Bodffordd, Llanfihangel Ysgeifiog, Llannerch-y-medd, Llanfaethlu, Mechell a Llanddyfnan (Map 13)


2.10.3 Mae'r cyfrannau uchaf o ddisgyblion ysgolion cynradd sy'n siarad Cymraeg heb fod yn rhugl yn ward Biwmares a'r rhan o ward Aberffraw Rhosneigr sy'n gyfrifol am ffrwd Ysgol Rhosneigr. Mae'r ardaloedd eraill lle dydy dros draean y disgyblion ddim yn rhugl yn cynnwys y wardiau ar arfordiroedd dwyreiniol a gorllewinol Ynys Môn (Map 15).





Map 12: Disgyblion 5-11 oed sy’n siarad Cymraeg yn rhugl yn ôl dalgylch ysgolion cynradd




Map 13: Disgyblion 5-11 oed sy’n siarad Cymraeg yn rhugl yn ôl dalgylch ysgolion cynradd gan ddangos ffiniau wardiau Cyfrifiad 2011




Map 15: Disgyblion 5-11 oed sy’n siarad Cymraeg heb fod yn rhugl yn ôl dalgylch ysgolion cynradd, gan ddangos ffiniau wardiau Cyfrifiad 2011





Map 17: Disgyblion 5-11 oed nad ydynt yn siarad Cymraeg yn ôl dalgylch ysgolion cynradd

gan ddangos ffiniau wardiau Cyfrifiad 2011

2.10.4 Mae cyfran y disgyblion oed cynradd nad ydynt yn siarad Cymraeg ar ei uchaf yn wardiau'r Parc a'r Mynydd, Maeshyfryd, Porth-y-felin, Tref Caergybi, Morawelon, Ffordd Llundain a rhannau o Lanfair-yn-Neubwll a Threarddur yng ngorllewin Ynys Môn; ac Amlwch Wledig, Porth Amlwch a rhannau o Lanelian yng ngogledd yr ynys.


2.10.5 Ymysg disgyblion ysgolion uwchradd, mae ychydig o dan 70% neu ragor o blant 11 – 18 oed yn siarad Cymraeg yn rhugl yn y rhan fwyaf o'r wardiau ar Ynys Môn (Map 21).





Map 21: Canran y disgyblion ysgol uwchradd 11-18 oed ar Ynys Môn sy'n siarad Cymraeg yn rhugl yn ôl dalgylch ysgolion uwchradd, gan ddangos ffiniau'r wardiau yng nghyfrifiad 2011

2.10.6 Yn y wardiau yng ngorllewin Ynys Môn, mae ychydig o dan 90% o'r blant a'r bobl ifanc 11 – 18 oed yn gallu siarad Cymraeg ond heb fod yn rhugl (Map 23) sy'n awgrymu bod angen cynnal ymyriadau er mwyn gwella rhuglder ymysg y garfan hon.

2.10.7 Mae cyfran y plant yn y grŵp oedran nad ydynt yn siarad Cymraeg o gwbl yn isel ledled yr ynys ar hyn o bryd (Map 24). Bydd angen cynnal ymyriadau penodol er mwyn atal y gyfran hon rhag cynyddu yn sgil Prosiect Wylfa Newydd.




Map 23: Canran y disgyblion ysgol uwchradd 11-18 oed ar Ynys Môn sy’n siarad Cymraeg heb fod yn rhugl yn ôl dalgylch ysgolion uwchradd, gan ddangos ffiniau'r wardiau yng nghyfrifiad 2011




Map 25: Canran y disgyblion ysgol uwchradd 11-18 oed ar Ynys Môn nad ydynt yn siarad Cymraeg yn ôl dalgylch ysgolion uwchradd, gan ddangos ffiniau'r wardiau yng nghyfrifiad 2011


### 2.11 Cynnal a hybu defnydd o'r Gymraeg mewn gweithgareddau a digwyddiadau cymunedol

*Mudiadau a sefydliadau cyfrwng Cymraeg traddodiadol sy'n cefnogi rhwydweithiau diwylliannol a chreadigol ar Ynys Môn*

2.11.1 Mae'r gwaith proffilio iaith cychwynnol hwn wedi dechrau mapio lleoliad y mudiadau a'r sefydliadau cyfrwng Cymraeg sy'n cefnogi rhwydweithiau cymdeithasol diwylliannol a chreadigol ar lefel wardiau. Ymhlith y mudiadau a lwyddodd i ddarparu'r data yma oedd Clybiau Ffermwyr Ifanc, yr Urdd a Merched y Wawr. Ar gyfer pob un, mae mapiau wedi cael eu llunio i ddangos:

- gallu ieithyddol yr oedolion sy'n arwain neu'n trefnu gweithgareddau;
- gallu ieithyddol y cyfranogwyr / aelodau, ac
- iaith gweithgareddau'r grŵp / mudiad

2.11.2 Yn achos y tri mudiad cyfrwng Cymraeg yma, nid yw'n syndod gweld bod y mapiau hyn yn cadarnhau bod holl arweinwyr y clybiau neu'r grwpiau yn siarad Cymraeg (Mapiau 33, 36); bod aelodau / cyfranogwyr y grwpiau yn siarad Cymraeg (Mapiau 32, 35, 38) a bod iaith gweithgareddau'r grwpiau yn dod o dan y categori 'Cymraeg yn Unig' (Mapiau 34, 37 39). Mewn cyfweliad gyda chynrychiolydd o'r Clybiau Ffermwyr Ifanc, mae data CFfI yn dangos bod 98% o'r 206 o aelodau CFfI ledled Ynys Môn yn siarad Cymraeg yn rhugl.




Map 35: Gallu Cymraeg Aelodau Clybiau Ffermwyr Ifanc (Ffynhonnell: data aelodaeth CFfI, 2018)


*Mae rhwydweithiau eraill yn y gymuned yn rhoi statws uchel i'r iaith Gymraeg ac yn ei defnyddio.*

2.11.3 Mae'r rhwydweithiau eraill yn y gymuned sy'n rhoi statws uchel i'r iaith Gymraeg ac yn defnyddio'r iaith yn eu gweithgareddau fel arfer yn cynnwys:

- Cymdeithasau Rhieni ac Athrawon
- Cyrff Llywodraethu Ysgolion
- Cynghorau Tref a Chymuned
- Pwyllgorau llesiant cymunedol a neuaddau pentrefi
- Clybiau chwaraeon a hamdden / clybiau diddordebau
- Sioeau amaethyddol a sioeau lleol eraill
- Dosbarthiadau nos

2.11.4 Mae'r gwaith proffilio iaith cychwynnol hwn wedi dechrau mapio iaith cyfarfodydd tref a chymuned ar lefel wardiau (Map 27) a phroffil grwpiau ieuenctid sy'n cael eu cynnal gan wasanaethau ieuenctid CSYM (Mapiau 28, 29, 30, 31).


2.11.5 Mae'r rhan fwyaf o gyfarfodydd y Cynghorau Tref a Chymuned yn cael eu cynnal yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog[13] (Map 27).




Map 27: Iaith Cyfarfodydd Cynghorau Tref a Chymuned (Ffynhonnell: arolwg Un Llais Cymru mis Mai 2017)

13 Nid yw data arolwg Un Llais Cymru yn darparu data ar gyfer pob Cyngor Tref a Chymuned ar Ynys Môn ac efallai bod iaith rhai cyfarfodydd wedi newid ers mis Mai 2017 yn dilyn yr etholiad lleol. Dylid ystyried y data yma at ddibenion enghreifftiol yn unig.

2.11.6 Mae arweinwyr pob clwb ieuenctid sy’n cael ei gynnal gan CSYM yn siarad Cymraeg. Mae’n ymddangos bod y data yma’n awgrymu bod gweithgareddau grwpiau ieuenctid yn cael eu cynnal yn Gymraeg yn unig, neu yn Gymraeg yn bennaf, hyd yn oed pan mai dim ond hanner yr aelodau sy’n gallu siarad yr iaith (Map 31).





Map 31: Clybiau Ieuenctid – Proffil Cymraeg Cyfun (Ffynhonnell CSYM, data Gwasanaethau Ieuenctid, 2018)


2.11.7 Mae Map 40 yn cyfuno iaith clybiau neu grwpiau ar gyfer Clybiau Ffermwyr Ifanc, Merched y Wawr, yr Urdd a chyfarfodydd Cynghorau Tref a Chymuned. Drwy fapio’r rhain yn ofodol a chynnwys ffiniau wardiau etholiadol, mae’n bosibl dechrau adnabod y wardiau a'r llefydd (trefi ac ardaloedd gwledig) sydd â rhwydweithiau yn y gymuned lle caiff y Gymraeg ei defnyddio. Mae’r map hwn yn dangos rhwydweithiau a mudiadau / grwpiau cymunedol sy’n defnyddio'r Gymraeg ledled yr ynys. Mae angen map mwy cynhwysfawr o ddiddordebau, chwaraeon, a grwpiau a gweithgareddau hamdden eraill lleol er mwyn cael darlun o ddwysedd y rhwydweithiau hyn ledled Ynys Môn.

2.11.8 Mae’r gwaith cychwynnol o fapio lleoliadau gwahanol glybiau chwaraeon a grwpiau diddordeb wedi cael ei gynnal (Map 42). Er bod y rhestr o glybiau a grwpiau yn anghyflawn a bod diffyg data ynghylch gallu ieithyddol a defnydd iaith pob clwb nad oedd ar gael, mae’n rhoi syniad i ni o lefel y manylion y mae eu hangen arnom er mwyn nodi’r clybiau a grwpiau lle mae angen ymyrraeth er mwyn helpu i gynnal lefel y Gymraeg sy’n cael ei defnyddio ar hyn o bryd, ac

i hybu dwyieithrwydd.





Map 40: Grwpiau cymunedol yn ôl defnydd iaith wedi'u cyfuno â'r ffiniau a nodir yng nghyfrifiad 2011




Map 41: Clybiau hamdden a chwaraeon ar Ynys Môn – mapio cychwynnol (ffynonellau amrywiol ar-lein)

2.11.9 Mae Menter Môn, Menter Iaith Môn a Medrwn Môn yn hwyluso ac yn cefnogi ystod eang o weithgareddau a rhwydweithiau sy’n cynnwys gwahanol rannau o'r boblogaeth ar Ynys Môn ac yn rhoi statws i ddefnyddio'r Gymraeg. Ar hyn o bryd, does dim data ar gael a fyddai’n ein galluogi ni i fapio dosbarthiad gofodol y gweithgareddau hyn ar lefel wardiau.

2.11.10 Gall defnyddio data aelodaeth clybiau fod yn ffordd o fapio'r ardaloedd lle darperir gwahanol wasanaethau, cyfleusterau a chlybiau / mudiadau. Mae aelodau’r pedair canolfan hamdden sy’n cael eu rhedeg gan CSYM wedi’u dosbarthu ledled yr ynys ac mae hyn yn rhoi darlun o realiti, sef nad yw pobl yn byw eu bywydau yn y wardiau lle maen nhw'n byw yn gyfan gwbl. Ar hyn o bryd, nid oes gwybodaeth yn cael ei chasglu ynghylch gallu ieithyddol aelodau’r canolfannau hamdden na’r iaith sy’n cael ei defnyddio yn nosbarthiadau ffitrwydd canolfannau hamdden.




Map 42: Map o Aelodau Canolfannau Hamdden Ynys Môn (data cofrestru aelodau Gwasanaethau Hamdden CSYM Medi 2018)

## 2.13 Nodi’r angen am wasanaeth cyfieithu cymunedol er mwyn cynnal y defnydd o’r Gymraeg a chynnwys pobl ddi-Gymraeg

2.13.1 Mae casglu data gan fudiadau cymunedol ynghylch gallu ieithyddol eu haelodau / cyfranogwyr ac iaith gweithgareddau eu grŵp yn ddull o adnabod y grwpiau y mae angen gwasanaeth cyfieithu cymunedol arnynt er mwyn cynnal

neu wella defnydd y Gymraeg ar gyfer gweithgareddau grŵp a chynnwys pobl ddi-Gymraeg.

2.13.2 Mae'r ymarfer proffilio iaith cychwynnol wedi nodi bod 9 o'r 32 o gynghorau tref a chymuned a wnaeth ddarparu data ar gyfer arolwg Un Llais Cymru yn defnyddio gwasanaethau cyfieithu ar y pryd. Mae'n bosibl y byddai rhagor o alw am wasanaethau cyfieithu pe bai rhai ar gael.

3.13.3 Mae'n debyg y byddai gwasanaethau o'r fath yn fwy addas ar gyfer cyfarfodydd ffurfiol yn bennaf, a allai gynnwys cyfarfodydd rhieni ac athrawon, cyfarfodydd llywodraethwyr mewn ysgolion, a sgyrsiau grŵp o ddiddordeb lleol neu ddigwyddiadau cyhoeddus, yn ogystal â chyfarfodydd Cynghorau Tref a Chymuned. Byddai angen cynllunio a chofnodi'r galw am wasanaeth cyfieithu cymunedol mewn rhagor o fanylder nag oedd yn bosibl yn yr ymarfer proffilio cymunedol cychwynnol hwn. Byddai hon yn dasg ar gyfer Swyddogion Cynnwys y Gymuned.

3.13.4 Mae llawer o weithgareddau grwpiau cymunedol yn llai ffurfiol ac felly byddai gwasanaethau cyfieithu ar y pryd yn llai addas ar gyfer y rhain. Mewn gweithgareddau o'r fath, mae'n angenrheidiol cael arbenigedd o ran cynnal digwyddiadau yn ddwyieithog, gyda ffyrdd o gynnwys pobl ddi-Gymraeg er mwyn cynnal a gwella sut caiff y Gymraeg ei defnyddio yn y gymuned ar hyn o bryd. Mae Medrwn Môn a Menter Môn yn nodi eu bod yn cynnal digwyddiadau yn y Gymraeg ac yn ddwyieithog, ac mae eu defnydd iaith yn amrywio yn ddibynnol ar y cyfranogwyr dan sylw. Mae Clybiau Ieuenctid Ynys Môn yn nodi eu bod yn defnyddio 'Cymraeg yn bennaf' yn eu gweithgareddau grŵp, hyd yn oed pan nad yw holl aelodau'r clwb yn siarad Cymraeg (Map 31).

3.13.5 Byddai dod i adnabod y grwpiau a'r mudiadau cymunedol ledled Ynys Môn, er mwyn deall y cymorth sydd ei angen arnynt o ran cynnal digwyddiadau a gweithgareddau Cymraeg a dwyieithog, yn gyfrifoldeb arall i Swyddogion Cynnwys y Gymuned ei ysgwyddo. Byddai gweithio ar y lefel fanwl yma yng nghyswllt cynllunio iaith mewn cymunedau yn nalgylch pob ysgol uwchradd yn galluogi Swyddogion Cynnwys y Gymuned i weithio gyda darpariaeth gymunedol i blant a phobl ifanc y tu allan i'r ysgol, yn ogystal ag oedolion yn yr ardaloedd hyn.

### 3.14 Datblygu methodoleg ar gyfer casglu data proffilio iaith

3.14.1 Mae'r ymarfer casglu tystiolaeth hwn wedi sefydlu dull o gasglu data ynghylch proffil iaith gan grwpiau a mudiadau cymunedol. Drwy gyfuno data ynghylch gallu ieithyddol cyfranogwyr/defnyddwyr; arweinwyr/darparwyr ac iaith gweithgareddau'r grŵp/mudiad, mae modd nodi'r grwpiau sy'n defnyddio'r Gymraeg yn fwyaf cadarn, a'r rheini lle mae'n bosibl y byddai angen ymyrryd ar ffurf gwasanaethau cyfieithu cymunedol neu hyfforddiant ynghylch cynnal digwyddiadau yn Gymraeg yn bennaf neu'n ddwyieithog er mwyn cynnwys pobl ddi-Gymraeg.

3.14.2 Bydd mapio'r data yma, yn ogystal â rhagor o ddata, mewn modd gofodol fesul

ward yn darparu proffil iaith sylfaenol ar lefel ward a gellir mesur effaith bosibl HNP yn unol â hynny. Yn ystod tri cham

prosiect Wylfa Newydd, byddai modd defnyddio'r data yma i fonitro effaith mesurau lliniaru'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant a pha mor effeithiol ydynt.

3.14.3 Mae'r ymarfer casglu data hwn wedi canfod bylchau sylweddol yn y data sydd ar gael ar hyn o bryd i lunio proffil iaith manwl o gymunedau a sectorau, fel gwasanaethau a gweithleoedd ar Ynys Môn. Ni chaiff data ynghylch gallu Cymraeg a defnyddio'r iaith Gymraeg eu casglu fel arfer. Bydd yn hanfodol annog grwpiau cymunedol, mudiadau a phartneriaid allweddol i gasglu a rhannu'r data yma er mwyn galluogi'r holl randdeiliaid i nodi tebygolrwydd a graddfa'r risgiau posibl rydym yn eu hwynebu o ran hyfywedd yr iaith Gymraeg a llesiant y gymuned, yn ogystal â rhoi strategaethau lliniaru ar waith fel y bo hynny'n briodol.

3.14.4 Bydd yn bwysig sefydlu sylfaen ddibynadwy a'i rhoi ar waith cyn recriwtio gweithlu Wylfa Newydd. Swyddogion Cynnwys y Gymuned fydd yn y sefyllfa orau i gasglu'r data yma. Rhagwelir y bydd rôl Swyddogion Cynnwys y Gymuned yn cynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny:

- datblygu gwybodaeth fanwl am rwydweithiau cymunedol, grwpiau gwirfoddol, gwasanaethau cymunedol yn nalgylchoedd y 5 ysgol uwchradd;
- monitro llesiant y gymuned a rhoi gwybod am unrhyw densiwn;
- casglu data proffil iaith ychwanegol er mwyn ategu a datblygu proffil iaith cychwynnol CSYM, a gyflwynir yn adroddiad data proffilio iaith Ynys Môn yma;
- canfod bylchau o ran darpariaethau cymunedol drwy gyfrwng y Gymraeg / dwyieithog;
- darparu Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Iaith a hyfforddiant ar gyfer cynnal gweithgareddau/digwyddiadau dwyieithog ymysg grwpiau lleol.

## Atodiad 1: Rhestr o'r mapiau data yn y ffeil 'Mapiau Data Proffilio Iaith Ynys Môn'

| | |
|---|---|
| Map 1 | Trothwyon lle mae 50% a 70% o'r holl boblogaeth 3 oed a hŷn yn siarad Cymraeg yn wardiau Ynys Môn (Cyfrifiad 2011) |
| Map 2 | Canran y siaradwyr Cymraeg 3 oed a hŷn yn wardiau Ynys Môn (Cyfrifiad 2011) |
| Map 3 | Canran y siaradwyr Cymraeg rhwng 3 a 4 oed yn wardiau Ynys Môn (Cyfrifiad 2011) |
| Map 4 | Canran y siaradwyr Cymraeg rhwng 5 a 15 oed yn wardiau Ynys Môn (Cyfrifiad 2011) |
| Map 5 | Canran y siaradwyr Cymraeg rhwng 16 a 19 oed yn wardiau Ynys Môn (Cyfrifiad 2011) |
| Map 6 | Canran y siaradwyr Cymraeg rhwng 20 a 24 oed yn wardiau Ynys Môn (Cyfrifiad 2011) |
| Map 7 | Canran y siaradwyr Cymraeg rhwng 25 a 59 oed yn wardiau Ynys Môn (Cyfrifiad 2011) |
| Map 8 | Canran y siaradwyr Cymraeg rhwng 60 a 74 oed yn wardiau Ynys Môn (Cyfrifiad 2011) |
| Map 9 | Canran y siaradwyr Cymraeg 75 oed a hŷn yn wardiau Ynys Môn (Cyfrifiad 2011) |
| Map 10 | Plant Cylch Meithrin rhwng 2 a 4 oed sy'n siarad Cymraeg fel iaith y cartref (Mudiad Meithrin Hydref 2018) |
| Map 10a | Plant Cylch Meithrin rhwng 2 a 4 oed â mamau sy'n siarad Cymraeg (Mudiad Meithrin Hydref 2018) |
| Map 10b | Plant Cylch Meithrin rhwng 2 a 4 oed â thadau/partneriaid sy'n siarad Cymraeg (Mudiad Meithrin Hydref 2018) |
| Map 11 | Gallu ieithyddol disgyblion 5 – 11 oed yn ysgolion cynradd Ynys Môn (CYBLD Ionawr 2018) |
| Map 11a | Gallu ieithyddol disgyblion 5 – 11 oed yn ysgolion cynradd Ynys Môn (CYBLD Ionawr 2017) |
| Map 12 | Canran y disgyblion ysgol gynradd 5-11 oed ar Ynys Môn sy'n siarad Cymraeg yn rhugl (CYBLD 2018) yn ôl dalgylch ysgolion cynradd |
| Map 13 | Canran y disgyblion ysgol gynradd 5-11 oed ar Ynys Môn sy'n siarad Cymraeg yn rhugl (CYBLD 2018) yn ôl dalgylch ysgolion cynradd, gan ddangos ffiniau'r wardiau yng Nghyfrifiad 2011 |
| Map 14 | Canran y disgyblion ysgol gynradd 5-11 oed ar Ynys Môn sy'n siarad Cymraeg heb fod yn rhugl (CYBLD 2018) yn ôl dalgylch ysgolion cynradd |
| Map 15 | Canran y disgyblion ysgol gynradd 5-11 oed ar Ynys Môn sy'n siarad Cymraeg yn rhugl (CYBLD 2018) yn ôl dalgylch ysgolion cynradd, gan ddangos ffiniau'r wardiau yng Nghyfrifiad 2011 |
| Map 16 | Canran y disgyblion ysgol gynradd 5-11 oed ar Ynys Môn nad ydynt yn siarad Cymraeg (CYBLD 2018) yn ôl dalgylch ysgolion cynradd |
| Map 17 | Canran y disgyblion ysgol gynradd 5-11 oed ar Ynys Môn nad ydynt yn siarad Cymraeg (CYBLD 2018) yn ôl dalgylch ysgolion cynradd, gan ddangos ffiniau'r wardiau yng Nghyfrifiad 2011 |
| Map 18 | Gallu ieithyddol disgyblion 11 – 16 oed yn ysgolion uwchradd Ynys Môn (CYBLD Ionawr 2018) |
| Map 19 | Gallu ieithyddol disgyblion 11 – 18 oed yn ysgolion uwchradd Ynys Môn (CYBLD Ionawr 2018) |
| Map 20 | Canran y disgyblion ysgol uwchradd 11-18 oed ar Ynys Môn sy'n siarad Cymraeg yn rhugl (CYBLD 2018) yn ôl dalgylch ysgolion uwchradd |
| Map 21 | Canran y disgyblion ysgol uwchradd 11-18 oed ar Ynys Môn sy'n siarad Cymraeg yn rhugl (CYBLD 2018) yn ôl dalgylch ysgolion uwchradd, gan ddangos ffiniau'r wardiau yng Nghyfrifiad 2011 |

| | |
|---|---|
| Map 22 | Canran y disgyblion ysgol uwchradd 11-18 oed ar Ynys Môn sy'n siarad Cymraeg heb fod yn rhugl (CYBLD 2018) yn ôl dalgylch ysgolion uwchradd |
| Map 23 | Canran y disgyblion ysgol gynradd 11-18 oed ar Ynys Môn sy'n siarad Cymraeg heb fod yn rhugl (CYBLD 2018) yn ôl dalgylch ysgolion cynradd, gan ddangos ffiniau'r wardiau yng Nghyfrifiad 2011 |
| Map 24 | Canran y disgyblion ysgol uwchradd 11-18 oed ar Ynys Môn nad ydynt yn siarad Cymraeg |

| | |
|---|---|
| | (CYBLD 2018) yn ôl dalgylch ysgolion uwchradd |
| Map 25 | Canran y disgyblion ysgol uwchradd 11-18 oed ar Ynys Môn nad ydynt yn siarad Cymraeg<br>(CYBLD 2018) yn ôl dalgylch ysgolion uwchradd, gan ddangos ffiniau'r wardiau yng Nghyfrifiad 2011 |
| Map 26 | Canran y disgyblion 11 – 16 oed sy'n dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf neu ail iaith mewn ysgolion uwchradd ar Ynys Môn (CYBLD 2018) |
| Map 27 | Cynghorau Tref a Chymuned – iaith cyfarfodydd (Un Llais Cymru, Arolwg mis Mai 2017) |
| Map 28 | Gallu Cymraeg cyfranogwyr Clybiau Ieuenctid CSYM (CSYM, data Gwasanaethau Ieuenctid, 2018) |
| Map 29 | Gallu Cymraeg arweinwyr Clybiau Ieuenctid CSYM (CSYM, data Gwasanaethau Ieuenctid, 2018) |
| Map 30 | Iaith gweithgareddau Clybiau Ieuenctid CSYM (CSYM, data Gwasanaethau Ieuenctid, 2018) |
| Map 31 | Gallu Cymraeg ac iaith y gweithgareddau ar y cyd mewn Clybiau Ieuenctid CSYM (CSYM, data Gwasanaethau Ieuenctid, 2018) |
| Map 32 | Gallu Cymraeg cyfranogwyr yr URDD (URDD, 2018) |
| Map 33 | Gallu Cymraeg arweinwyr yr URDD (URDD, 2018) |
| Map 34 | Iaith gweithgareddau clwb yr URDD (URDD, 2018) |
| Map 35 | Gallu Cymraeg cyfranogwyr Clybiau Ffermwyr Ifanc (CFfI, 2018) |
| Map 36 | Gallu Cymraeg arweinwyr Clybiau Ffermwyr Ifanc (CFfI, 2018) |
| Map 37 | Iaith gweithgareddau Clybiau Ffermwyr Ifanc (CFfI, 2018) |
| Map 38 | Gallu ieithyddol cyfranogwyr Merched y Wawr (MyW, 2018) |
| Map 39 | Iaith gweithgareddau grŵp Merched y Wawr (MyW, 2018) |
| Map 40 | Grwpiau Cymunedol (data MyW, CFfI, URDD, Clybiau Ieuenctid, Cynghorau Tref a Chymuned) yn ôl defnydd iaith o fewn ffiniau'r wardiau yng Nghyfrifiad 2011 |
| Map 41 | Clybiau hamdden a chwaraeon ar Ynys Môn – mapio cychwynnol (ffynonellau amrywiol ar-lein) |
| Map 42 | Map o Aelodau Canolfannau Hamdden Ynys Môn (data cofrestru aelodau Gwasanaethau Hamdden CSYM Medi 2018) |

**DYLAN J. WILLIAMS** BA (Anrh.), MSc, MA, M.R.T.P.I.
Pennaeth Gwasanaeth – Rheoleiddio a Datblygu Economaidd
Head of Service – Regulation and Economic Development

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Canolfan Fusnes Môn • Anglesey Business Centre
Parc Busnes Bryn Cefni • Bryn Cefni Business Park
LLANGEFNI
Ynys Môn • Isle of Anglesey
LL77 7XA

ffôn / tel: (01248) 752499
ffacs / fax: (01248) 752192

Gofynnwch am / Please ask for: Dylan Williams
E-bost / Email: DylanWilliams@ynysmon.gov.uk
Ein Cyf / Our Ref:
Eich Cyf / Your Ref:

Dyddiad / Date: 24 Awst / August 2018

**SWYDDOGOL SENSITIF**

Mr Kieran Somers
Pŵer Niwclear Horizon
/ Horizon Nuclear
Power Sunrise House
1420 Charlton Court
Gloucester Business Park
Gloucester
GL3 4AE

***Anfonwyd drwy E-bost***

Annwyl Kieran,

**Cyfansoddiad Aelwydydd Gweithwyr Na Fyddent yn Byw Gartref (Nifer y Partneriaid a'r Dibynyddion)**

Rwyf yn ysgrifennu atoch i ofyn am eglurhad ar unwaith ynghylch cyfansoddiad aelwydydd y gweithwyr na fyddent yn byw gartref, ac yn benodol, nifer y gweithwyr y rhagdybir y byddent yn dod â phartneriaid a dibynyddion gyda nhw. Wrth baratoi ar gyfer Archwilio'r Gorchymyn Cydsyniad Datblygu (DCO) (a'r cyflwyniadau rhag-archwilio), mae'n bwysig bod gennym gadarnhad cynnar o gywirdeb y waelodlin. Mae CSYM hefyd yn adolygu capasiti ysgolion a'r llefydd sydd ar gael mewn ysgolion er mwyn rhoi sail i'n gwaith cynllunio strategol, ac felly mae'n hollbwysig ein bod yn deall faint o alw fydd am lefydd mewn ysgolion yn y dyfodol (yn enwedig yng Ngogledd Ynys Môn).

Caiff amcangyfrifon o gyfansoddiad aelwydydd y gweithwyr na fyddent yn byw gartref eu darparu yn yr asesiad o'r effaith ar wasanaethau cyhoeddus yn Natganiad Amgylcheddol Cyfrol C Pennod 1. Mae Adran 1.5.48 yn nodi*:*

*"Mae'r asesiad a gyflwynir isod yn seiliedig ar y boblogaeth nad ydynt yn byw gartref a'r boblogaeth ychwanegol y byddai'n rhesymol ystyried iddi ddod yn sgil y gweithwyr. Caiff y dadansoddiad o'r boblogaeth ychwanegol yn ystod y prif waith adeiladu ei ddangos yn nhabl C1-14. Mae hyn wedi'i gyfrifo ar sail yr wybodaeth meincnodi, sef y byddai 25% o weithwyr proffesiynol nad ydynt yn byw gartref, 4% o'r swyddogion gweithredol (er enghraifft, peirianwyr sifil a gweithwyr trydanol a mecanyddol) a 60% o'r gweithwyr gweithredol (a fydd yn cyrraedd yn ystod y cam adeiladu) yn dod â theuluoedd gyda nhw i'r ardal. Cafodd data ynghylch cyfansoddiad cyfartalog teuluoedd y mathau hyn o weithwyr eu defnyddio i bennu nifer cyfartalog y partneriaid a'r dibynyddion (yn seiliedig ar ddata ar gyfer Cymru a Lloegr). Caiff disgrifiad mwy manwl o'r tybiaethau hyn a'r dull eu darparu ym mhennod B2 (Cyfeirnod y Cais: 6.2.2). Mae'r ffigurau hyn yn cynrychioli'r sefyllfa waethaf bosibl ac yn cael eu defnyddio yn yr asesiad o wasanaethau cyhoeddus drwyddo draw."*

Mae tabl C1-14 yn rhoi dadansoddiad o'r gweithwyr nad ydynt yn byw gartref a'u dibynyddion yn ystod cyfnod prysuraf y cam adeiladu. Mae'n dangos:

| ***Poblogaeth ychwanegol*** | ***Nifer y bobl*** |
|---|---|
| *Gweithwyr nad ydynt yn byw gartref* | *7,000* |
| *Amcan o nifer y partneriaid* | *285* |
| *Amcan o nifer y dibynyddion* | *220* |
| *Cyfanswm* | *7,505* |

Fodd bynnag, mae defnyddio bras amcanion Horizon o ganrannau (yn 1.5.48 uchod) ar gyfer niferoedd y gweithlu yn arwain at nifer llawer uwch o deuluoedd a dibynyddion yn sgil y gweithwyr nad ydynt yn byw gartref, fel y dangosir yn y tabl isod:

| **Household composition of workforce: % with families** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Number | of whom, home based | Non home based | % estimated to bring families | Number of family households | Number of dependent children |
| Professional staff | 2,000 | 237 | 1,763 | 25 | 441 | 339 |
| Operatives | 7,000 | 1572 | 5,428 | 4 | 217 | 167 |
| Subtotal | 9,000 | 1,809 | 7,191 | | 658 | 507 |
| Operational staff | 850 | 191 | 659 | 60 | 395 | 304 |
| **Total** | **9,850** | **2,000** | **7,850** | | **1,053** | **811** |

*Sylwer: Daw nifer y staff proffesiynol sy'n byw gartref o dabl Horizon 3-3, Atodiad C1.2, t C1-37; a daw nifer y staff gweithredol sy'n byw gartref o Dabl Horizon 2-8, Atodiad C1.2, t C1-23*

Mae'r anghysondeb amlwg yma yn cael effaith sylweddol iawn ar nifer y cartrefi y bydd eu hangen ar gyfer teuluoedd, ac ar addysg, iechyd a gwasanaethau eraill.

Allech chi egluro hyn fel mater o frys oherwydd mae hyn yn hanfodol er mwyn rhoi sail i safbwynt CSYM yn y cyfnod sy'n arwain at Archwiliad y DCO, ac er mwyn rhoi sail i gynlluniau strategol CSYM dros y 10-15 mlynedd nesaf.

Yn gywir,

[redacted]

**DYLAN J. WILLIAMS**
Pennaeth Gwasanaeth – Rheoleiddio a Datblygu Economaidd
Head of Service - Regulation and Economic Development

Croeso i chi ddelio gyda'r Cyngor yn Gymraeg neu'n Saesneg. Cewch wasanaeth o'r un safon yn y ddwy iaith.
You are welcome to deal with the Council in Welsh or English. You will receive the same standard of service in both languages.

**DYLAN J. WILLIAMS** BA (Anrh.), MSc, MA, M.R.T.P.I.
Pennaeth Gwasanaeth – Rheoleiddio a Datblygu Economaidd
Head of Service – Regulation and Economic Development

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Canolfan Fusnes Môn • Anglesey Business Centre
Parc Busnes Bryn Cefni • Bryn Cefni Business Park
LLANGEFNI
Ynys Môn • Isle of Anglesey
LL77 7XA

ffôn / tel: (01248) 752431/2435
ffacs / fax: (01248) 752192

Gofynnwch am / Please ask for: Dylan Williams
E-bost / Email: DylanWilliams@anglesey.gov.uk
Ein Cyf / Our Ref:
Eich Cyf / Your Ref:

*Anfonwyd drwy E-bost*

Dyddiad / Date: 30.11.17

Annwyl Roger,

**Adolygiad o Ddogfennau'r Gorchymyn Cydsyniad Datblygu (DCO) Drafft a'r Gweithdy Cysylltiedig (Llandudno, 21 a 22 Tachwedd 2017)**

Ysgrifennaf atoch yn dilyn gweithdy llawn gwybodaeth rhwng cynrychiolwyr o Horizon, Cyngor Sir Ynys Môn (CSYM) a Llywodraeth Cymru, lle rhoddwyd sylwadau ac adborth ffurfiol ar ddogfennau'r DCO drafft a ddaeth i law. Rydym yn gwerthfawrogi'r cyfle hwn i ymgysylltu a rhoi sylwadau. Rydym wedi ymrwymo i gydweithio, yn ogystal â darparu gwybodaeth ar gyfer dogfennau'r DCO drafft a dylanwadu arno lle y bo hynny'n bosibl (cyn iddo gael ei gyflwyno'n ffurfiol i'r Arolygiaeth Gynllunio) Rydym yn cadarnhau y byddwn hefyd yn mynd i Weithdy Amgylcheddol ar wahân ar 5 Rhagfyr, lle bydd cynrychiolwyr o sefydliad Cyfoeth Naturiol Cymru yn bresennol.

Sylfaen cyfraniadau CSYM yn ystod y gweithdy oedd y sylwadau a gafwyd gan Arweinwyr Pwnc thematig, ar ôl ystyried ac adolygu dogfennau'r DCO drafft y mae Horizon wedi'u cyhoeddi hyd yma. Gan ystyried y canllawiau a gyhoeddwyd gan Horizon ar ddechrau'r broses, cytunwyd y byddai proses CSYM o adolygu'r DCO yn canolbwyntio ar y canlynol:

a. A yw'r wybodaeth yn rhoi digon o fanylion/eglurder ynghylch cynigion/sefyllfa Horizon?
b. A yw'r manylion a gyflwynwyd yn ddigonol (h.y. er mwyn cynnal asesiad)?
c. A oes unrhyw beth ar goll? Dim ond hepgoriadau sylweddol sy'n canolbwyntio'n benodol ar fesurau lliniaru ddylai'r rhain fod.
d. A oes unrhyw fylchau yn yr wybodaeth sydd wedi'i darparu?
e. A oes unrhyw newidiadau neu anghysondebau ym manylion y prosiect yn dilyn PAC2 a PAC3?

Gellir crynhoi canlyniadau'r broses adolygu, a drafodwyd yn ystod y gweithdy, fel a ganlyn:

a. Nid yw’r dogfennau a gafwyd yn darparu digon o fanylion/eglurder ynghylch cynigion/sefyllfa Horizon ar hyn o bryd. Yn ogystal â diffyg manylder o ran yr elfennau ffisegol a’r amseru ar gyfer cyflawni elfennau allweddol (fel y blociau llety i weithwyr), bydd llawer o’r cynigion yn cael eu rheoli gan gynlluniau neu strategaethau nad ydynt wedi cael eu darparu, ac felly ni ellir eu hasesu. Er enghraifft, mae’r Strategaeth Rheoli Gweithlu, sy’n nodi sut bydd y gweithwyr sy’n byw yn y campws ar y safle yn cael eu rheoli, yn ddogfen allweddol o ran asesu a fydd yr effeithiau y disgwylir i gymunedau cyfagos eu hwynebu yn gadarn. Ar hyn o bryd, nid yw'r Strategaeth Rheoli Gweithlu ddrafft yn rhoi'r manylion angenrheidiol er mwyn gallu ystyried yr effeithiau. Fodd bynnag, os bydd y cynlluniau a’r strategaethau hyn yn cael eu rhannu gan Horizon fel mater o frys, gallai CSYM gynnal asesiad ystyrlon i bennu a yw'r dogfennau yn darparu digon o fanylion ac eglurder; ac, os nad ydynt yn gwneud hynny, i amlygu newidiadau arfaethedig y dylai Horizon eu cynnwys yn y DCO terfynol a fydd yn cael ei gyflwyno.

b. Nid yw lefel y manylion sy’n cael eu darparu yn nogfennau’r DCO drafft ar hyn o bryd yn ddigonol er mwyn cynnal asesiad ystyrlon o’r datblygiad arfaethedig. Mae rhai arolygon gwaelodlin pwysig ar goll, yn ogystal â manylion ynghylch dyluniad y prosiect a’i roi ar waith. Ar ben hynny, mae llawer o’r cynlluniau lliniaru sy'n cael eu defnyddio gan Horizon i roi sail i’w benderfyniadau bod yr effeithiau yn dderbyniol, ar goll neu’n anghyflawn. Hefyd, nid yw'r ystyriaethau bob amser yn ystyried y gallai hyd at 4,000 o bobl fod yn byw dros dro ar y safle. Yn ogystal â hynny, caiff rhai effeithiau eu nodi ond nid ydynt yn cael eu hegluro’n llawn yn y mannau priodol, er enghraifft, nid yw adran addysg yr ystyriaethau economaidd-gymdeithasol yn mynd i’r afael ag effeithiau posibl sŵn a dirgrynu ar ysgolion yng Nghemaes a Llanfechell. Mae’n hollbwysig bod Horizon yn rhannu’r wybodaeth hon â CSYM mewn da bryd, am y rhesymau a nodir uchod.

c. Mae rhywfaint o’r data gwaelodlin a ddefnyddir ar hyn o bryd wedi dyddio neu nid ydynt yn gadarn, a does dim modd dibynnu arnynt fel sylfaen dystiolaeth dderbyniol a chadarn. Er enghraifft, mae Horizon wedi defnyddio ffigurau sydd wedi dyddio yng nghyswllt ysgolion wrth ystyried effaith bosibl mewnfudo ar leoedd mewn ysgolion. Maent hefyd wedi defnyddio ardal teithio i'r gwaith llawer mwy na’r un a fyddai’n cael ei chreu drwy ddefnyddio’r amser teithio i’r gwaith cyfartalog. Hefyd, mae Horizon wedi seilio nifer o gasgliadau ar dybiaethau (ac fe nodir mai dyna ydynt). Nid yw CSYM yn cytuno â'r holl dybiaethau hyn ac mae’r sylfaen dystiolaeth yn cael ei datblygu i fynd i’r afael â’r pwyntiau hyn. Mae CSYM wedi ymrwymo i weithio gyda Horizon i sicrhau bod y data gwaelodlin yn gyfredol ac yn gadarn cyn rhewi dogfennau’r DCO.

d. Mae nifer o ddogfennau sy’n dal heb ddod i law (mae CSYM wedi tynnu sylw Horizon at hyn) a nifer o ddogfennau bras iawn y mae angen eu datblygu ymhellach. Er enghraifft, mae gwybodaeth hollbwysig ar goll yn yr Adroddiad o'r Effaith ar Gymunedau, a ddylai fod yn ddogfen allweddol er mwyn helpu cymunedau lleol i ddeall yr elfennau posibl a allai effeithio arnyn nhw**.** Mae CSYM yn croesawu ymrwymiad Horizon i rannu'r deunyddiau ychwanegol hyn (y mae CSYM yn eu hystyried yn bwysig) yn ystod y gweithdy. Nid yw amserlenni’r DCO, sy’n nodi hyd a lled y pwerau y gwneir cais amdanynt yn y DCO drafft a’u defnydd, wedi dod i law eto. Heb y rhain, ni all y Cyngor ystyried pa mor dderbyniol mewn egwyddor yw’r pwerau y gwneir cais amdanynt ac, yn benodol, ni all gytuno i gynnwys pwerau sy’n cael gwared â'r angen i ofyn am ganiatâd y Cyngor (fel gallu cyflwyno gorchmynion rheoleiddio traffig ar y ffyrdd).

e. Ar hyn o bryd, nid yw'r cysylltiadau rhwng yr effeithiau a’r mesurau lliniaru yn cael eu mapio’n ddigon clir yn y dogfennau. Does dim pennod gyffredinol ar y mesurau lliniaru cronnus yn y Datganiad Amgylcheddol ac nid yw map y llwybr lliniaru, sydd ar y rhestr o ddogfennau a fydd yn cael eu darparu gan Horizon, wedi dod i law eto. Nid yw’n glir pa ddogfennau sy’n cael blaenoriaeth o ran pennu’r cynigion lliniaru. O ganlyniad i hyn, ni all CSYM gadarnhau p’un ai a yw’r mesurau lliniaru arfaethedig yn briodol ac yn addas i'r diben neu beidio. Does dim modd asesu’r pecyn cyffredinol mewn modd cydlynus, a does gan CSYM ddim sicrwydd bod mecanweithiau cyflawni diogel yn cael eu cynnig. Mae’r mater hwn wedi'i gymhlethu o ganlyniad i wanhau’r ymrwymiadau, a drafodwyd eisoes â CSYM a rhanddeiliaid eraill, sy’n cael eu nodi fel ystyriaethau yn unig yn y dogfennau. Mae hyn yn golygu na roddir sicrwydd bod unrhyw fesurau lliniaru yn cael eu darparu. Byddai rhannu strategaethau a chynlluniau (fel y nodir uchod) yn galluogi CSYM i asesu a yw'r hyn sy’n cael ei gynnig gan Horizon yn briodol ac yn addas i'r diben ac, os nad yw’n addas, i amlygu newidiadau arfaethedig i Horizon eu cynnwys yn ei gais DCO terfynol.

Hefyd, fel y cadarnhawyd yn y Gweithdy, mae gan CSYM y pryderon canlynol yng nghyswllt Dogfennau'r DCO drafft.

- Does dim trothwyon addas ar gyfer nifer o'r mesurau lliniaru arfaethedig, neu fe gynigir eu bod wedi cael eu darparu yn rhy hwyr. Mae Horizon o blaid monitro effeithiau wedyn ymateb lle bônt yn mynd y tu hwnt i’r lefel ddisgwyliedig – bydd yn llawer yn rhy hwyr i wneud hyn mewn nifer o achosion. Er enghraifft, er mwyn sicrhau bod y lefel y gyflogaeth leol a ragwelir yn cael ei chyflawni, mae’n rhaid dechrau strategaethau swyddi a sgiliau cyn y prosiect (h.y. yn ystod y gwaith Paratoi a Chlirio’r Safle), er mwyn creu cronfa o bobl leol sydd â’r cymwysterau addas i ymgymryd â swyddi pan fyddant ar gael. Nid yw’n ymarferol ymateb i’r galw gormodol am leoedd mewn ysgolion ar ôl i deuluoedd symud i’r ardal oherwydd mae’r amser paratoi ymlaen llaw sy’n angenrheidiol er mwyn darparu rhagor o leoedd yn golygu na fydd ymateb yn adweithiol yn ddigonol. Byddai effaith y gweithwyr sy’n chwilio am lety ar y farchnad dai eisoes yn uwch na’r lefel dderbyniol, ac yn niweidio'r cymunedau cyn rhoi’r mesurau lliniaru arfaethedig ar waith ar ffurf y llety a’r campws ar y safle yn ystod y cam nesaf. Mae’r enghreifftiau hyn yn dangos pam mae angen i CSYM gael amserlenni a throthwyon priodol yng nghyswllt cyflawni'r prosiect a’r mesurau lliniaru cysylltiedig; ni fydd darpariaeth adweithiol yn amddiffyn rhag effeithiau i’r lefel angenrheidiol.

- Ar sail y dogfennau a ddaeth i law, mae diffyg tystiolaeth o’r cynnydd ar ôl ymgynghoriadau PAC 2 a 3. Mae nifer o'r problemau a godwyd yn PAC 2 a PAC 3 yn dal yn bodoli mewn perthynas â’r canlynol:
    i. Swyddi a Sgiliau
    ii. Yr Economi a'r Gadwyn Gyflenwi
    iii. Tai a Rheoli Llety Gweithwyr
    iv. Priffyrdd a Thrafnidiaeth
    v. Y Gymraeg a'i Diwylliant
    vi. Pynciau amgylcheddol penodol, ac ecoleg y ddaear yn enwedig

Gan ystyried yr uchod, mae CSYM yn dal yn bryderus ynghylch ei allu i barhau i ymgysylltu â Horizon mewn modd ystyrlon ynglŷn â'r Datganiad Tir Cyffredin heb yr wybodaeth fanwl angenrheidiol.

Caiff rhagor o fanylion eu darparu yn yr Atodiad amgaeëdig (a gafodd ei ddefnyddio fel sail i'n cyfraniad yn ystod y gweithdy) er mwyn ategu'r sylwadau uchod.

Er gwaethaf y sefyllfa hon, hoffwn bwysleisio eto bod cynnydd da a chadarnhaol wedi cael ei wneud yn ystod y gweithdy. Roedd yr ymrwymiad i rannu a chydweithio yn amlwg. Fodd bynnag, er mwyn darparu'r eglurder, y ddealltwriaeth, yr hyder a'r tawelwch meddwl angenrheidiol (sef bod Horizon yn deall pryderon a disgwyliadau lleol ac yn gweithio i sefydlu atebion ymarferol), mae angen newid dull, drwy ymgysylltu mwy a rhannu deunydd ysgrifenedig pwysig ac ystyrlon. Mae hyn yn hanfodol oherwydd mae'r cyfnod a'r cwmpas sydd ar gael i newid dogfennau'r DCO yn gyfyngedig (gan ystyried bod y dyddiad cyflwyno wedi'i gadarnhau, sef diwedd mis Mawrth 2018).

Rwyf hefyd yn credu y bydd rhannu gwybodaeth yn ystod y cam cyn ymgeisio yn caniatáu i'r Awdurdod ddechrau gwerthuso effeithiau lleol y cynnig ei hun, fel yr awgrymwyd yn Nodyn Cyngor Un yr Arolygiaeth Gynllunio: Adroddiadau ar yr Effaith Leol.

Gan ystyried yr amserlen hon, a bod angen ymgysylltu ag Aelodau Etholedig a'u briffio ynghylch y cynnydd ers PAC3, dylem ganolbwyntio ar ddau gategori gyda'n gilydd (fel y cytunom yn ystod y Gweithdy), sef:

a. Materion y mae angen cynnwys rhagor o ddealltwriaeth a manylion yn eu cylch yn y cais DCO, a
b. Materion y mae angen eu symud yn eu blaen a'u cyflymu ar yr un pryd, gan gydnabod y bydd angen eu datblygu ymhellach ar ôl cyflwyno'r DCO.

Cyn gynted ag y bydd CSYM wedi cael cyfle i asesu'r dogfennau ychwanegol rydych wedi'u darparu, byddwn yn asesu pa gategorïau o'r rhai a ddisgrifir uchod a fydd yn dod o dan un o'r ddau gategori yma.

Yn ogystal â'r pwyntiau a nodwyd hyd yma, mae pwysigrwydd "Dogfennau Rheoli" Horizon (fel y dangoswyd yn sleid 7 y cyflwyniad PowerPoint yn y gweithdy), a'r deunyddiau cysylltiedig yn cael eu hystyried yn hanfodol. Yn unol â'r hyn y cytunwyd arno, mae CSYM yn edrych ymlaen at gael y dogfennau drafft hyn cyn gynted â phosibl. Rydym yn cydnabod mai dogfennau gweithiol yw'r rhain, a allai gael eu newid a'u datblygu ymhellach.

Mae "Dogfennau Rheoli", fel y Strategaeth Rheoli Gweithwyr yn hollbwysig er mwyn asesu effeithiau'r prosiect ar Ogledd Ynys Môn. Er enghraifft, mae'r Gwasanaeth Rheoli Llety Gweithwyr (WAMS) yn ddogfen allweddol oherwydd ei bod yn ymwneud â'r canlynol:

- Llety dros dro arall i weithwyr
- Parcio ar y safle a chyfleusterau parcio a theithio / parcio a rhannu ar Ynys Môn a'r tir mawr
- Effeithiau ar rwydweithiau'r priffyrdd lleol a strategol
- Galw am wasanaethau a chyfleusterau lleol
- Yr effeithiau ar y Gymraeg a'i diwylliant

Gobeithiwn y bydd rhannu'r “Dogfennau Rheoli” hyn, a mynd i'r afael â'r pwyntiau ychwanegol a nodwyd, yn allweddol er mwyn gwella ein dealltwriaeth o sut bydd y buddiannau posibl yn cael eu sicrhau a’u cyflawni, gan reoli a lliniaru’r effeithiau negyddol a ragwelir yn yr un modd.

Mae blaenoriaethau cysylltiedig eraill, a gafodd eu hamlygu’n gyson yn ystod y gweithdy, yn cynnwys y galw am eglurder ynglŷn â sut bydd yr uchelgeisiau a’r ymrwymiadau o ran swyddi a thwf yn cael eu cyflawni. Gobeithiwn y bydd hyn yn cael ei amlinellu yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer Addysg, Swyddi a Sgiliau, ac yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer y Gadwyn Gyflenwi. Roedd yn braf clywed bod Horizon wedi bod yn symud y materion hyn yn eu blaenau yn fewnol ac y bydd y dogfennau drafft diweddaraf yn cael eu rhannu. Fe wnaethom drafod datblygu’r strwythurau a’r cylch gorchwyl ar gyfer y Gwasanaeth Cyflogaeth a Sgiliau (a fydd yn cael ei dreialu yn fuan), a rhoi rhagor o bwysau ar gyfarfodydd i lunio Cynlluniau Gweithredu manwl ac ategol. Ni fydd yr ymarferion hyn wedi’u cwblhau erbyn dyddiad cyflwyno eich DCO a byddant yn parhau ar ôl hynny. Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, bydd angen tynnu sylw at hyn yn y Dogfennau Rheoli a’r cais am DCO.

Hefyd, fe wnaethom dynnu sylw at bwysigrwydd dulliau ‘anstatudol’ o helpu i gyflawni’r canlyniadau allweddol hyn yn sgil Prosiect Wylfa Newydd. Yn benodol, rwyf yn cyfeirio at y trefniadau masnachol / caffael gan ddefnyddio’r egwyddorion y dylid eu dilyn Siarteri a Thelerau ac Amodau contractau ledled y gadwyn gyflenwi ar bob lefel o'r prosiect. Rwyf eto’n pwysleisio pa mor bwysig yw sicrhau bod yr egwyddorion, yr ymrwymiadau a’r cytundebau sy’n cael eu cyflawni drwy’r broses gynllunio statudol yn cael eu sefydlu a’u cyflawni drwy weithgarwch masnachol y prosiect (sydd eisoes wedi dechrau yn sgil Horizon a Menter Newydd). Gobeithiwn fod hyn yn digwydd ar hyn o bryd, a bod Horizon a Menter Newydd yn creu’r sylfeini ar gyfer llwyddiant lleol drwy ddeialog a phrosesau masnachol parhaus (er mwyn sefydlu’r gadwyn gyflenwi angenrheidiol i gyflawni'r prosiect adeiladu).

Yr hyn rwyf wedi ceisio ei amlinellu uchod yw'r blaenoriaethau allweddol yr ydym yn awyddus i'w datblygu yn ystod y cyfnodau cyn ac ar ôl cyflwyno’r DCO. Bydd materion eraill yn cael eu cofnodi yn y nodiadau a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yn y gweithdy. Byddwn yn ddiolchgar pe bai Horizon yn ystyried y materion a'r ceisiadau a nodir yn yr Atodiad ac yn ymateb yn gadarnhaol iddynt (cyn dyddiad cyflwyno'r DCO).

Edrychaf ymlaen at barhau i ymgysylltu, trafod a chydweithio er mwyn cael rhagor o ddylanwad ar gais y DCO. Gobeithiaf y bydd y canolbwyntio a'r ymdrech yma yn cyfrannu at greu'r sylfeini a’r tawelwch meddwl sy’n angenrheidiol er mwyn galluogi’r prosiect i fynd rhagddo, ac i lwyddo’n fasnachol a sicrhau effaith gadarnhaol ar y gymuned ar Ynys Môn (a thu hwnt).

Yn gywir,

[redacted]

**DYLAN J. WILLIAMS**
**Pennaeth Gwasanaeth – Rheoleiddio a Datblygu Economaidd**
**Head of Service - Regulation and Economic Development**

## ATODIAD A – YMATEB I DDOGFENNAU'R DCO DRAFFT

### 1. Dogfennau Rheoli'r Prosiect

1.1 Mae CSYM yn cadarnhau nad ydym wedi gweld yr wybodaeth ganlynol sy'n rhan o 'Ddogfennau Rheoli' y prosiect. Mae CSYM o'r farn bod y 'Dogfennau Rheoli' yn hollbwysig er mwyn darparu gwybodaeth ar gyfer proses y DCO oherwydd maent yn ffordd o sicrhau'r holl ddulliau lliniaru arfaethedig.

- *Atodlenni'r DCO (ac eithrio'r atodlen amlinellu gofynion)*
- *Strategaeth Rheoli Tirwedd a Chynefinoedd*
- *Cynlluniau Cam wrth Gam*
- *Cynlluniau'r DCO*
- *Is-godau Ymarfer Adeiladu*
- *Datganiad Dylunio a Mynediad: Yr Orsaf Bŵer a chyfleusterau oddi ar y safle*
- *Datganiad Dylunio a Mynediad: Datblygiadau Cysylltiedig*
- *Tablau a Chynlluniau ar gyfer Paramedrau*

1.2 Mae angen i Horizon rannu'r wybodaeth y cyfeirir ati uchod â CSYM a rhanddeiliaid allweddol eraill cyn gynted â phosibl er mwyn caniatáu amser i'w hadolygu a rhoi adborth yn ei chylch.

1.3 Cafwyd drafft o'r atodlen o ofynion y DCO, ond roedd yn anghyflawn i raddau helaeth. Mae'r adrannau sydd wedi cael eu cwblhau yn dal ar ffurf drafft mewn mannau, ac mae atebion amgen sy'n gwrthdaro wedi'u cynnwys. Felly, ni all y Cyngor gyflwyno sylwadau ystyrlon ar y rhain. Gan ystyried pa mor bwysig yw'r gofynion hyn o ran rheoli effeithiau'r datblygiad, ac mai'r Cyngor fydd yr awdurdod a fydd yn gorfodi'r rhain, cynghorir bod cynnydd yn cael ei wneud fel mater o flaenoriaeth a bod fersiwn mwy cyflawn yn cael ei darparu i'r Cyngor er mwyn ei adolygu cyn cyflwyno'r cais DCO.

1.4 Yn gyffredinol, mae diffyg ffigurau dangosol er gwybodaeth wedi'u cynnwys yn y dogfennau er mwyn helpu i egluro materion. Gallai'r rhain helpu i roi dealltwriaeth angenrheidiol o beth fydd yn digwydd, ble y bydd hynny'n digwydd a phryd fydd y gwaith perthnasol yn cael ei gynnal. Byddai CSYM yn disgwyl, er enghraifft, y byddai ffigurau dangosol yn cael eu cyflwyno yn ystod cam y gwaith paratoi allweddol ar y safle, gan adlewyrchu cylch o 3 mis (chwarterol) o newid o ran olion cloddio/stripio a ffurfio mwy a mwy o dwmpathau parhaol/dros dro o bridd/cerrig. Mae'r manylion hyn yn bwysig oherwydd bydd ffactorau a allai aflonyddu ar drigolion lleol – mewn perthynas â symud offer, traffig a lleoliadau ffyrdd cludo, lleoli pridd a cherrig, a sŵn, dirgrynu a llwch posibl – yn dibynnu'n helaeth ar olion twmpathau, ffurfio byndiau dal dŵr ffo yn gynnar, a manylion adfer dros dro fel sefydlu llystyfiant a hadu dros dro.

*Map Llwybr Lliniaru*

1.5 Mae CSYM yn cydnabod bod Horizon wedi cadarnhau yn y gweithdy ei fod yn paratoi Map Llwybr Lliniaru sy'n mapio holl fesurau lliniaru arfaethedig y prosiect. Fel y nodwyd eisoes, byddai CSYM yn gwerthfawrogi cael cyfle i weld y map hwn cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol (hyd yn oed ar ffurf ddrafft os bydd angen) er mwyn deall yn llawn yr holl fesurau lliniaru arfaethedig, a chadarnhau'r trothwyon a fydd yn arwain at y mesurau lliniaru y bydd angen eu rhoi ar waith yn ystod gwahanol gamau'r prosiect.

*Dull Terfynau Gwyro a Pharamedrau*

1.6 Mae CSYM eisoes wedi cadarnhau ei bod yn bwysig ein bod yn deall beth yw hyd a lled y datblygiad yn glir, a bod modd asesu hyn yn erbyn graddfa'r effeithiau a pha mor ddigonol yw'r mesurau lliniaru.

1.7 Mae dogfennau'r DCO yn ceisio rhoi diffiniad drwy ddarparu terfynau gwyro a hyd a lled paramedrau. Heb y cynlluniau ategol sy'n dangos parthau ac ardaloedd y gwaith, nid yw'r paramedrau hyn yn darparu diffiniadau dealladwy. Mae'r DCO yn darparu llawer o waith a phwerau sy'n cael eu diffinio drwy gyfeirio at gynlluniau ac atodlenni nad ydynt wedi'u cynnwys. Heb y manylion hyn, nid yw'n bosibl cael darlun clir o gwmpas y gwaith, y pwerau a'r effeithiau.

1.8 Mae CSYM yn ei gwneud yn ofynnol bod atodlenni'r DCO, a'r cynlluniau sy'n nodi graddfa ddaearyddol y gwaith a sut bydd y pwerau y gwneir cais amdanynt yn cael eu defnyddio, yn cael eu hanfon ymlaen atom er mwyn ein galluogi ni i amgyffred hyd a lled y datblygiad mewn perthynas â derbynyddion fel priffyrdd, hawliau tramwy a chynefinoedd. Ar hyn o bryd, ni allwn roi sylwadau ystyrlon ynghylch y Dull Paramedrau heb y dogfennau hyn. Hefyd, byddai'n fuddiol pe bai modd darparu'r rhain ar ffurf cynrychiolaeth 3D o'r Gwaith. Nes bydd y cynlluniau hyn yn cael eu darparu, nid yw'n glir i CSYM sut mae Horizon yn diffinio'r 'parthau' a'r 'gwaith' yng nghyswllt y cynlluniau hyn na beth yw'r gwahaniaeth rhwng y ddau derm yma.

1.9 Yn yr un modd, nid yw'n bosibl i CSYM roi sylwadau ystyrlon ynghylch y terfynau gwyro llorweddol arfaethedig heb y Cynlluniau Datblygu a'r Cynlluniau Tir.

1.10 Mae terfyn uchaf elfennau Uwchlaw'r Seilnod Ordnans (AOD) wedi'i nodi yn y Datganiad Amgylcheddol ond ddim yng nghynlluniau'r paramedrau. Dylid egluro hyn a chadarnhau ei fod wedi'i fesur ar y cyd â'r terfyn gwyro fertigol digyfyngiad y gwneir cais amdano yn y DCO drafft – gallai hyn beri ansicrwydd yn ogystal â rhoi lle i ystod ehangach o effeithiau eraill ddatblygu.

1.11 Yn yr un modd, byddai'n ddefnyddiol pe gwneid ymdrech i ddarparu crynodeb gweledol o'r prif adrannau y tu allan i baramedrau'r pecyn Gwaith y ceir effaith uniongyrchol arnynt neu sy'n ysgwyddo pwerau eraill (gan gynnwys pwerau gwaith stryd a thraffig ar y ffyrdd). Byddai hyn yn helpu o ran gweld pa mor agos yw'r gweithgareddau i'r derbynyddion.

*Dogfennau heb eu hadolygu ac nad ydynt yn rhan o'r ymateb yma*

1.12 Dylai Horizon nodi bod CSYM wedi cael nifer o’r dogfennau a restrir isod ar wahân i ‘Ddogfennau’r DCO Drafft’ a gyflwynwyd. Oherwydd yr amserlen a gafwyd, nid ydym wedi cael cyfle i adolygu’r dogfennau hyn felly nid ydynt yn rhan o'r ymateb yma. Mae’r dogfennau hyn yn cynnwys y canlynol:

- *Asesiad o’r Effeithiau Cronnus (gan gynnwys yr effeithiau rhwng prosiectau ac o fewn y prosiect)*
- *Cyfleusterau Oddi ar Safle’r Orsaf Bŵer: Esblygiad Amgen y Dyluniad*
- *Dalar Hir: Esblygiad Amgen y Dyluniad*
- *Ffyrdd All-lein yr A5025: Esblygiad Amgen y Dyluniad*
- *Asesiad o Gyfleoedd Pŵer a Gwres Cyfun yng Ngorsaf Bŵer Wylfa Newydd*

1.13 Byddwn yn ymateb i'r dogfennau uchod ar wahân ar ôl i ni gael cyfle i'w hadolygu.

1.14 Rydym hefyd yn cadarnhau nad ydym wedi cael y dogfennau canlynol sydd wedi’u nodi yn rhestr Horizon o Ddogfennau'r DCO;

- Canolfan Logisteg: Dewisiadau Amgen ac Esblygiad y Dyluniad
- Prif Safle’r Orsaf Bŵer: Dewisiadau Amgen ac Esblygiad y Dyluniad
- Adroddiad Ynni a Charbon
- Datganiad Cynaliadwyedd y DCO

1.15 Eto, fe fyddem yn gwerthfawrogi pe bai Horizon yn anfon copïau o'r dogfennau hyn ymlaen at Gyngor Sir Ynys Môn ac unrhyw randdeiliaid allweddol eraill pan fyddant ar gael.

***Cod Ymarfer Adeiladu***

1.16 Oherwydd mai'r Cod Ymarfer Adeiladau a'r Is-godau Ymarfer Adeiladu fydd yn darparu’r prif fesurau lliniaru a’r fframwaith monitro ar gyfer y prosiect, mae CSYM yn disgwyl i'r dogfennau hyn ddarparu manylion llawn y gweithgareddau adeiladu cysylltiedig er mwyn gallu asesu effeithiau amgylcheddol y cynnig a chadarnhau a yw’r mesurau lliniaru arfaethedig yn foddhaol.

1.17 Mae angen rhagor o fanylion ac eglurder i sicrhau bod y cais yn mynd i’r afael â’r gwaith ffisegol cysylltiedig â’r prosiect a bod y dogfennau yn cadarnhau’r mesurau rheoli perthnasol arfaethedig er mwyn osgoi neu leihau’r effeithiau amgylcheddol i’r graddau mwyaf posibl. Lle bo manylion ar gael fel arall yn y Datganiad Amgylcheddol, dylid croesgyfeirio, yn enwedig o ran y manylion sydd wedi'u cynnwys yn y Datganiad Dull Adeiladu.

1.18 Yng nghyswllt nifer o bynciau, mae'r Cod Ymarfer Adeiladu yn gyffredinol ac nid yw’n benodol i’r prosiect. Ni all y Cod Ymarfer Adeiladu fod yn achos o atgynhyrchu arferion gorau, canllawiau proffesiynol a gofynion cydymffurfio safonol y dylid eu defnyddio yng nghyswllt unrhyw ddatblygiad ar raddfa fawr. Mae’n hollbwysig bod Horizon yn cydnabod cyfyngiadau a ffactorau amgylcheddol sensitif sy’n berthnasol ledled parth dylanwad cyfan y prosiect, yn ogystal â’i gymeriad unigryw.

1.19 Dylid darparu'r holl Is-godau Ymarfer Adeiladu cyn gynted â phosibl.

**Datganiad Dull Adeiladu**

1.20 Nid yw’r Datganiad Dull Adeiladu, fel mae’n sefyll, yn rhoi'r lefel o eglurder a manylder sydd ei hangen ar CSYM i ddeall y dulliau, y camau a’r broses ymarferol o roi’r cam adeiladu ar waith ar gyfer y prosiect er mwyn ei alluogi i asesu effeithiau amgylcheddol y cynnig.

1.21 Mae’n ymddangos bod y ddogfen hon wedi cael statws sylweddol o ran rhoi sail i’r manylion angenrheidiol sy’n cael eu cynnwys yn yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ar gyfer asesiadau pwnc penodol. Yn benodol, mae paragraff 1.3.2 yn awgrymu’n gryf bod y Datganiad Dull Adeiladu wedi cael ei ddefnyddio fel sail ar gyfer yr Asesiad o’r Effaith Amgylcheddol. Mae’r paragraff hwn hefyd yn nodi y gellid cael mân newidiadau i’r dulliau adeiladu a gyflwynwyd yn nogfen y Datganiad Dull Adeiladu. Fodd bynnag, mae adolygiad CSYM o’r ddogfen hon yn nodi bod nifer o’r agweddau cysylltiedig â manylion yr adeiladu (e.e. olion a dulliau gweithredu) eto i'w cadarnhau a dim ond ychydig iawn o'r manylion yn y Datganiad Dull Adeiladu presennol y gellir tybio eu bod yn ddiogel mewn perthynas â’r prif faterion sy’n sail i Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol cadarn, e.e. beth fydd yn digwydd a ble, pryd ac am ba hyd.

1.22 O ganlyniad i hyn, mae’n bosibl bod canlyniad yr asesiadau ar gyfer meysydd pwnc penodol yng nghyswllt yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol yn ddiffygiol o ran eu harwyddocâd, ac felly nid yw o werth materol o ran nodi mesurau lliniaru. O ystyried bod yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol yn un o'r prif fecanweithiau ar gyfer pennu gofynion y DCO, mae hyn yn annerbyniol. Mater penodol sy’n peri pryder yw’r ansicrwydd yng nghyswllt cydbwyso deunyddiau yn gyffredinol, a’r galw posibl am fewnforio symiau sylweddol o ddeunyddiau, y diffyg manylion gofodol, a'r ansicrwydd o ran prif elfennau’r gwaith morol. Bydd gofyn i chi unioni hyn os bydd y casgliadau’n cael eu derbyn.

1.23 Caiff manylion y cynllun cam wrth gam eu darparu ar lefel uchel iawn ac nid ydynt yn rhoi'r eglurder y mae ei angen ar CSYM i ddeall graddfa, hyd a chwmpas y gwaith ffisegol a fydd yn cael ei gynnal yn ystod prif gamau’r prosiect. Mae angen rhagor o fanylion yn y cynlluniau cam wrth gam ar gyfer y gwaith daear ac olion twmpathau oherwydd mae’r rhain yn faterion sy’n allweddol er mwyn dod i ddeall yr effeithiau posibl ar dirwedd ac amwynder gweledol, yn ogystal â'r effeithiau cysylltiedig ag ansawdd aer, yn enwedig unrhyw sŵn a dirgrynu y gallai derbynyddion preswyl eu hwynebu. Byddai’n fuddiol gweld y Cynlluniau Cam wrth Gam er mwyn cael dealltwriaeth lawn o amseru’r gwahanol gydrannau sy’n rhan o’r datblygiad arfaethedig.

1.24 Gan gyfeirio at yr uchod, rydym yn nodi o dan baragraff 2.1.1 y bydd manylion y cynllun cam wrth gam yn amodol ar Ofyniad o dan Atodlen 3 y DCO. Mae CSYM yn croesawu'r ymrwymiad hwn ond nid yw'n gallu ymateb i'r gofyniad hwn heb i ragor o fanylion pendant gael eu darparu mewn perthynas â'r rhaglen adeiladu a'r gwaith cysylltiedig (mae gofyniad MS3 yn y DCO drafft yn cyfeirio at y Datganiad Dull Adeiladu ac yn nodi y dylid glynu wrth y cynllun cam wrth gam a nodir yn y ddogfen oni chytunir yn wahanol).

## 2. Cyfleusterau ar y Safle a Llety i'r Gweithwyr Adeiladu

***Sylwadau ar y Strategaeth Llety Gweithwyr (WAS)***

2.1 Diben yn ddogfen hon yw nodi sut bydd Horizon yn cynllunio, yn monitro ac yn rheoli ei ddull o ddarparu llety i weithwyr. Mae CSYM o'r farn nad oes digon o fanylder yn y strategaeth ynghylch sut bydd hyn yn cael ei gyflawni.

2.2 Mewn egwyddor, mae polisi'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd o blaid datblygu rhywfaint o lety i weithwyr allweddol neu hanfodol ar y campws ar y safle os yw wedi'i leoli yn ardal datblygu Wylfa Newydd, gan gymryd bod y datblygiad arfaethedig yn cydymffurfio â Pholisi PS 9, Polisi PS 9A ac ystod o Bolisïau sy'n ystyried yr effaith ar ardaloedd o werth lleol, cenedlaethol a rhyngwladol o ran tirwedd (e.e. golygfeydd y tu mewn a'r tu allan i'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol), bioamrywiaeth (e.e. Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig) (Polisi PS 16) a threftadaeth (Polisi PS 17) yn ogystal ag effeithiau, er enghraifft, ar lif traffig rhydd a diogel, e.e. i ymuno â'r A5025 ac ar ei hyd (Polisi TRA 1). Mae angen cydymffurfio â pholisi EA 10 yn CCA Wylfa Newydd hefyd.

2.3 Mae'r strategaeth yn dibynnu ar lety ychwanegol ac mae'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLlC) yn rhagweld y bydd yn cael ei gyflawni cyn y cyfnod adeiladu prysuraf, a hynny yn y Sector Rhent Preifat a'r farchnad perchen-feddianwyr. Nid yw'r Strategaeth yn sicrhau unrhyw ddarpariaeth er mwyn cyflawni hyn mewn gwirionedd.

2.4 Mae CSYM yn croesawu'r ymrwymiad i ddarparu Cronfa Dai. Fodd bynnag, mae diffyg manylder yn y strategaeth mewn perthynas â rôl, diben a maint y Gronfa Dai er mwyn sicrhau bod y gwelyau y mae'r Strategaeth Llety Gweithwyr yn dibynnu arnynt i roi llety i'r gweithwyr yn cael eu darparu ar amser (yn y lleoliadau cywir). Hefyd, cyfeiriadau cyfyngedig a geir at ddarparu cyllid er mwyn rhoi amser i swyddogion roi sylw penodol i ddelio â'r cynnydd mewn digartrefedd. Fel y cadarnhawyd eisoes, bydd angen i'r Gronfa fod ar waith cyn dechrau'r gwaith adeiladu er mwyn cefnogi'r llety newydd a ddarperir, gan gynnwys cartrefi cymdeithasol a fforddiadwy i'w rhentu, a hynny cyn bod y gweithwyr adeiladu yn cyrraedd yr ynys. Dylid cytuno ar fanylion yr amserlen â CSYM, a ddylai gynnwys cyflwyno llety newydd gam wrth gam cyn a thrwy gydol y cam adeiladu.

2.5 Mae'r Strategaeth Llety Gweithwyr yn cydnabod bod y polisi yn nodi bod angen llety sydd wedi'i adeiladu'n bwrpasol i weithwyr, ond nid yw'n asesu nac yn ystyried opsiynau gwahanol i Lety Gweithwyr Dros Dro ar y safle, er bod mathau eraill o lety parhaol y gellir eu darparu.

2.6 Mae'r Strategaeth Llety Gweithwyr yn anwybyddu'r amcan o ddarparu llety etifeddol ac yn mynd yn syth at ddarparu campws ar y safle er mwyn darparu Llety Gweithwyr Dros Dro. Mae CSYM yn disgwyl i'r strategaeth ddarparu ymrwymiad o ran darparu etifeddiaeth er mwyn rheoli disgwyliadau a rhoi syniad o'r etifeddiaeth bosibl.

2.7 Nid yw'r Strategaeth Llety Gweithwyr yn asesu'r posibilrwydd o ddadleoli pobl newydd o lety presennol, ac mae'n nodi bod y model disgyrchiant yn rhagweld y bydd y gweithlu wedi'i leoli yng ngogledd yr ynys yn bennaf. Mae'n destun pryder y bydd pobl leol yn cael eu dadleoli gan weithwyr, yn enwedig yng ngogledd yr Ynys.

2.8 Mae’r Strategaeth yn cymryd yn ganiataol y bydd 2.9 gwely ar gael ym mhob eiddo yn y Sector Rhentu Preifat ar gyfartaledd. Byddai’n fwy rhesymol i nifer y gwelyau sydd ar gael fod yn seiliedig ar nifer yr ystafelloedd gwely mewn eiddo unigol. Mae gweithwyr yn annhebygol iawn o rannu ystafell yn yr un modd â theulu.

2.9 Nid yw CSYM yn cytuno â'r awgrym bod capasiti ‘dros ben’ sylweddol yn y sector tai presennol. Gallai asesiadau sy’n defnyddio’r data yma fod yn gamarweiniol. Mae’r sector rhent preifat yn enwedig o dan lawer o bwysau. Mae’r ffigurau cyflenwi ar gyfer twristiaeth a charafanau yn gorliwio’n helaeth lefel wirioneddol y cyflenwad sydd ar gael i ddarparu llety i weithwyr adeiladu. Dim ond 40% o’r llety twristiaeth sydd wedi’i gynnwys oherwydd prisiau (mae’r prisiau ym mhen uchaf y farchnad yn uwch na’r lwfans dros nos i weithwyr, sy’n golygu nad yw’r rhain yn ymarferol). Felly, gallai hyn roi pwysau ar ben isaf y farchnad o ran prisiau, ac mae angen cynnal asesiad pellach o hyn.

2.10 Fel y cadarnhawyd yn y Gweithdy, mae arolwg o Stoc Gwelyau Ynys Môn wedi cael ei gomisiynu yn ddiweddar. Rydym yn rhagweld y bydd canlyniadau'r arolwg ar gael ar ôl cyfnod cyflwyno’r DCO a bydd angen ystyried y sefyllfa o ran y capasiti sydd ar gael i ddarparu llety i weithwyr.

2.11 Mae’r Strategaeth yn gwneud rhagdybiaethau o ran defnyddio llety hunan-arlwyo i dwristiaid ond nid yw’n asesu a yw’r llety hwn ar gael, a fyddai modd ei ddefnyddio’n ymarferol yng nghyd-destun yr amodau cynllunio a thrwyddedu presennol, neu a fyddai darparwyr llety yn fodlon rhoi llety i weithwyr Wylfa Newydd.

2.12 Rydym eisoes wedi amlygu yn ein hymateb i PAC3 y bydd llawer o'r safleoedd carafanau presennol wedi’u cyfyngu o ran gallu rhoi llety i bobl nad ydynt yn dwristiaid, neu o ran gweithredu bob mis o'r flwyddyn. Ar ben hynny, mae'r Cyngor wedi nodi pryderon (gan gynnwys pryderon iechyd) bod rhywfaint o lety carafán yn cynnig ansawdd llety nad yw’n addas i fyw ynddo yn ystod y gaeaf.

2.13 Mae’r Strategaeth Llety Gweithwyr yn ceisio nodi asesiad cynhwysfawr o’r sefyllfa sylfaenol, ond nid yw’n ymchwilio i leoliad y llety honedig sydd ar gael na pha mor addas ydyw, yn enwedig yn y sector rhentu preifat a’r sector twristiaeth. Mae angen cynnal dadansoddiad gofodol a chytuno ar derfynau addas ar gyfer pob ardal.

2.14 Mae’r Strategaeth Llety Gweithwyr yn dibynnu’n ormodol ar gyfres o ragdybiaethau sy’n ymwneud ag a oes llety presennol a llety twristiaeth ar gael. Mae’n hollbwysig nodi ei bod yn rhagdybio y bydd stoc newydd yn cael ei gyflenwi ar amser, ar gyfradd llawer uwch na’r gyfradd gyflenwi hanesyddol, heb unrhyw ymyrraeth. Mae angen i’r Strategaeth Llety Gweithwyr ystyried y Model Disgyrchiant pan fydd yn gwneud rhagdybiaethau ynglŷn ag argaeledd llety presennol a llety twristiaeth mewn ardaloedd daearyddol penodol.

2.15 Mae angen i'r Strategaeth fapio'r llety sydd ar gael yn erbyn darpariaeth Llety Gweithwyr Dros Dro wrth i'r gweithlu dyfu er mwyn sicrhau na fydd adeiladu'r Llety Gweithwyr Dros Dro yn arwain at effeithiau heb eu rhagweld ar y farchnad dai a'r sector twristiaeth.

2.16 Mae CSYM hefyd yn gofyn am gadarnhad o ran: a fydd campws y safle yn cael ei ddatblygu fesul cam, beth yw'r meini prawf ar gyfer dechrau camau pellach, a beth yw'r amser paratoi ar gyfer y gwaith adeiladu. Mae'n rhaid cael yr wybodaeth hon er mwyn sicrhau bod mesurau lliniaru addas ar waith ar gyfer pob cam ac ar gyfer y gwaith adfer.

***Gwasanaeth Rheoli Llety Gweithwyr (WAMS)***

2.17 Mae Polisi PS9 y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn mynnu bod gofynion gweithwyr adeiladu o ran llety yn cael eu bodloni mewn ffordd sy'n cael yr effaith leiaf bosibl ar y farchnad dai, ac nad yw hyn yn arwain at effeithiau niweidiol annerbyniol o ran yr economi, y gymdeithas, yr iaith neu'r amgylchedd. Mae llwyddiant ac effeithiolrwydd y Gwasanaeth Rheoli Llety Gweithwyr fel adnodd i reoli effeithiau llety gweithwyr yn dibynnu ar p'un ai a fydd gofyn i weithwyr adeiladu ei ddefnyddio neu beidio. Byddai'n llai gwerthfawr pe bai'n ddewisol yn hytrach na gorfodol.

2.18 Fel y cadarnhawyd eisoes, mae angen sefydlu'r Gwasanaeth ac iddo fod yn weithredol cyn dechrau adeiladu Prosiect Wylfa Newydd.

2.19 Mae CSYM yn croesawu'r ymrwymiad i'r Gwasanaeth yn unol â'r hyn a gadarnhawyd eisoes, ond does dim digon o fanylion o ran sut bydd y Gwasanaeth yn cael ei reoli a sut bydd rôl y Bwrdd Trosolwg yn effeithiol o ran rheoli'r galw a'r mesurau lliniaru. Mae'n rhaid i'r Bwrdd fod â mynediad at ddata ynghylch y gweithlu cyfan, yn ogystal â'r pwerau angenrheidiol i ymyrryd. Nid yw hyn yn cael ei warantu yn y strategaeth ar gyfer y Gwasanaeth Rheoli Llety Gweithwyr.

***Strategaeth Rheoli'r Gweithlu***

2.20 Mae CSYM yn disgwyl i'r Strategaeth gadarnhau sut bydd disgwyl i'r gweithlu ymddwyn, pa fesurau y bydd Horizon yn eu rhoi ar waith i sicrhau ymddygiad a sut bydd yn rhoi'r mesurau hynny ar waith ac yn adrodd arnynt. Bydd hyn yn rhoi tawelwch meddwl i'r gymuned leol o ran yr hyn y dylen nhw ei ddisgwyl yn ystod cam adeiladu a cham gweithredu'r datblygiad.

2.21 Mae angen cadarnhad ar CSYM o ran a fydd y Strategaeth yn berthnasol i'r gweithlu cyfan, neu ddim ond y rheini y mae Horizon yn eu cyflogi'n uniongyrchol. Mae CSYM yn ei gwneud yn ofynnol bod y Strategaeth yn cael ei datblygu ar gyfer y gweithlu cyfan.

2.22 Mae'n ymddangos bod yr egwyddorion yn gasgliad o fwriadau bras yn hytrach na strategaeth ar gyfer sut bydd disgwyl i'r gweithlu ymddwyn, pa fesurau y bydd Horizon yn eu rhoi ar waith, a sut bydd y mesurau hyn yn cael eu rhoi ar waith a sut yr adroddir arnynt. Mae angen i'r Strategaeth roi hyder i bobl ynglŷn ag ymddygiad y gweithwyr a'r safonau y mae Horizon yn eu cynnig i'r cymunedau a allai gynnig lleoliad. Mae angen i'r Strategaeth gynnwys cadarnhad o sut bydd mesurau'n cael eu rhoi ar waith a sut yr adroddir arnynt.

2.23 Mae angen i'r Strategaeth ddisgrifio dull cyfannol sy'n berthnasol i'r gweithlu cyfan a chyfeirio at hybu cydlyniant cymunedol.

2.24 Mae CSYM am i'r cynnig gadarnhau y bydd Egwyddorion y Cod Ymddygiad yn cael eu cynnwys yng nghytundeb atodol y prosiect, a fydd yn benodol i'r prosiect ac yn gwneud pob ymdrech i gydymffurfio â'r cytundeb NAECI.

***Seilwaith a chyfleusterau ar y safle***

2.25 Mae CSYM yn croesawu'r bwriad o ddarparu cyfleusterau ar y safle fel rhan o unrhyw ddarpariaeth llety, ond mae diffyg cadarnhad yn y cynnig o ran hyd a lled a graddfa'r cyfleusterau cyffredin, fel y bwyty, yr ystafelloedd byw, y gampfa a'r caeau chwarae y tu allan a fydd yn cael eu darparu yn ystod y cam cyntaf, ac a fydd y rhain yn cael eu hehangu yn ystod camau pellach campws y safle. Mae angen yr wybodaeth hon ar CSYM er mwyn asesu a fydd y cyfleusterau ar y safle yn diwallu anghenion y gweithlu heb gael effaith niweidiol ar y cyfleusterau lleol presennol, gan gynnwys canolfannau hamdden lleol fel y nodir ym Mholisi PS9 a Pholisi PA 2 y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLlC).

2.26 Mae angen eglurhad ynghylch lleoliad a hyd a lled y gwasanaethau meddygol a fydd yn cael eu darparu ar y safle, a chadarnhad ynghylch a fydd gweithwyr adeiladu/gweithredu ar safleoedd eraill yn gallu cael mynediad at y gwasanaethau hyn.

## 3. Yr Economi a'r Gadwyn Gyflenwi

3.1 Mae CSYM yn ei gwneud yn ofynnol bod cwmnïau lleol yn cael cyfle i gyfrannu'n llawn yn y gadwyn gyflenwi yn ystod cam adeiladu a cham gweithredol y prosiect. Er ein bod yn cydnabod yr ymrwymiad i gyfleoedd Cadwyn Gyflenwi yn y cais a'r cadarnhad y bydd y defnydd gorau posibl yn cael ei wneud o'r cyfleoedd i fusnesau lleol, mae angen rhagor o fanylion yng nghyswllt y cynllun cyflawni manwl sy'n cael ei gyllido a'i fonitro.

3.2 Fe hoffai CSYM weld drafft o Gynllun Gweithredu'r Gadwyn Gyflenwi er mwyn pennu sut gellir gwneud y defnydd gorau o gyfleoedd a chadarnhau a fydd modd sicrhau manteision. Mae angen i'r cynllun fod yn seiliedig ar fasnach ac mae'n hanfodol ei fod yn cael ei ddatblygu ochr yn ochr â'r Cynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth. Rydym yn croesawu'r cyfle i weithio ar y cyd gyda Horizon i ddatblygu'r Cynllun hwn.

3.3 Mae CSYM yn awgrymu bod cynllun o'r fath yn cael ei ddatblygu o Strategaeth y Sector Niwclear a'i fod yn cael ei ranbartholi ar gyfer Gogledd Cymru. Mae CSYM yn annog ymgysylltiad a gweithgarwch contract cynnar Menter Newydd ochr yn ochr â gwaith Hitachi gyda phartneriaid yn y DU.

3.4 Mae angen dealltwriaeth glir ar CSYM o faint o brosiectau cyfalaf a gwariant cadwyn gyflenwi cyffredinol fydd ar gael i gwmnïau lleol gynnig amdanynt. Yng nghyswllt hyn, mae'n aneglur pa fath o gyfleoedd yng nghyswllt gwariant cadwyn gyflenwi a fydd ar gael ar hyn o bryd, yn ogystal â'u graddfa a'u hamseriad.

3.5 Rydym yn deall y bydd Gwasanaeth Cyflogaeth a Sgiliau Wylfa Newydd yn dechrau cael ei dreialu yn fuan yn 2018, gyda'r nod o gofnodi holl swyddi gwag y Prosiect mewn un lle. Rydym yn croesawu hwn fel cam cadarnhaol ymlaen ac fe ddylid ei gysoni â gwaith paratoi'r safle er mwyn darparu cam treialu.

3.6 Mae'r cais yn nodi y gallai'r gweithwyr adeiladu esgor ar gynnydd yng ngwariant defnyddwyr a sylfaen cwsmeriaid o fewn yr Ardal Dylanwad Leol, sef radiws o 5km o ffin ardal y datblygiad. Fodd bynnag, does dim ymdrech wedi'i wneud i fesur graddfa debygol manteision o'r fath. Yn yr un modd, nodir y gallai rhai busnesau cysylltiedig â thwristiaeth golli refeniw traddodiadol sy'n ymwneud â thwristiaeth, ond y gallai gwariant cyffredinol y gweithwyr adeiladu ar lety a gwasanaeth defnyddwyr wrthbwyso hyn. Fodd bynnag, mewn man arall yn y cais fe gadarnheir y bydd darpariaeth gwasanaethau ar y safle yn golygu na fydd angen i'r gweithwyr ddefnyddio'r gwasanaethau lleol oddi ar y safle. Eto, fodd bynnag, does dim mesur o'r effaith debygol. Caiff y cyfle i sicrhau contractau ar gyfer gwasanaethau manwerthu ei grybwyll ond does dim manylion yn cael eu darparu. Mae angen mynd i'r afael â'r hepgoriadau a'r anghysondebau hyn.

3.7 Fel y nodwyd eisoes, dylai'r cais groesgyfeirio at rannau eraill o'r cais lle mae rhagor o wybodaeth berthnasol ar gael, h.y. mae'r bennod economaidd-gymdeithasol yn cyfeirio at ddogfennau eraill fel y Codau Ymarfer Adeiladu lle mae gwybodaeth ynghylch cludo gweithwyr ar gael.

## 4. Twristiaeth

4.1 Mae twristiaeth yn sector economaidd allweddol ar yr Ynys – ar hyn o bryd ac yn y tymor hir. Mae CSYM yn croesawu cydnabyddiaeth Horizon o bwysigrwydd y sector twristiaeth i economi Ynys Môn. Rhaid ystyried twristiaeth yn ofalus ac yn drylwyr.

4.2 Mae'r camau lliniaru arfaethedig, gan gynnwys creu Cronfa Twristiaeth, yn hanfodol er mwyn sicrhau nad yw'r effeithiau amrywiol ar y sector yn cael effaith niweidiol ar yr economi ehangach. Caiff y gronfa twristiaeth sy'n cael ei chynnig ei chroesawu mewn egwyddor. Fodd bynnag, mae'r ffaith mai dim ond am 2 flynedd ar ôl y gwaith adeiladu y byddai'r Gronfa ar gael yn gwbl annigonol, o ystyried pwysigrwydd y sector i'r Ynys. Mae angen cytuno ar gronfa twristiaeth er mwyn canolbwyntio ar frandio a dirnadaeth cyn y gwaith adeiladu, a dylai barhau am o leiaf 5 mlynedd ar ôl dechrau gweithredu'r orsaf bŵer. Mae angen rhagor o eglurder ynghylch hyd a lled gweithgareddau'r Gronfa; rydym eisoes wedi gwneud cais am hyn yn ein hymateb i PAC3.

4.3 Hefyd, bydd angen trefniadau rheoli a gwneud penderfyniadau priodol er mwyn sicrhau bod penderfyniadau yn cael eu gwneud mewn modd gwrthrychol, ac fe fyddem yn awyddus i drafod lefel y manylder hwn cyn cyflwyno'r cais.

4.4 Mae CSYM yn pryderu o hyd bod lefel y galw ychwanegol ar gyfer Wylfa Newydd yn debygol o achosi prinder gweithwyr a dadleoli mewn sectorau a busnesau sy'n bodoli'n barod, gan gynnwys y sector twristiaeth. Mae hwn yn gyfle i Horizon a'i gadwyn gyflenwi fuddsoddi mewn hyfforddiant mewn rhai meysydd penodol er mwyn sicrhau bod digon o weithwyr ar gyfer y galw a ddaw yn sgil Wylfa Newydd. Byddai hyn hefyd yn helpu i liniaru effeithiau dadleoli ac yn cynnig manteision i'r dyfodol ar ôl y prosiect er mwyn cefnogi sectorau pwysig yn yr economi – gan gynnwys twristiaeth.

4.5 Rydym yn nodi bod y cais yn cadarnhau y ei fod yn rhagweld y bydd y Ganolfan i Ymwelwyr a'r Cyfryngau ar agor ar ddechrau'r gweithrediadau ar y safle ac y byddai'n gyfleuster parhaol, heb strategaeth ddatgomisiynu wedi'i chynllunio ar ei gyfer.

4.6 Wedyn, mae'r cais yn cyfeirio at yr hyn y bwriedir i'r Ganolfan i Dderbyn Ymwelwyr a'r Cyfryngau ei darparu, a fyddai'n ychwanegu at apêl gyffredinol yr ardal i dwristiaid yn ystod y cyfnod gweithredu. Rydym yn nodi'r ymrwymiad i ddarparu Canolfan barhaol i Dderbyn Ymwelwyr a'r Cyfryngau ar y safle cyn pen 5 mlynedd i orffen y gwaith adeiladu. Byddai hyn yn cael cydsyniad y tu allan i Brosiect DCO Wylfa Newydd drwy gael caniatâd cynllunio gan gyfundrefn y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref. Rydym yn croesawu'r cadarnhad bod y dyluniad a'r cyfleusterau yn y ganolfan yn amodol ar drafod â rhanddeiliaid allweddol cyn cyflwyno caniatâd cynllunio. Rydym hefyd yn croesawu'r gydnabyddiaeth y bydd cyfle i'r ganolfan hon ddarparu cyfleusterau i dwristiaid ac ymwelwyr lleol er mwyn cael dealltwriaeth well o Brosiect DCO Wylfa Newydd a'r Rhaglen Ynys Ynni, yn ogystal â bod yn adnodd cymunedol a fydd yn cynnwys caffi ac ardal chwarae i blant. Hefyd, byddai modd defnyddio'r ganolfan i arddangos cynnyrch lleol (e.e. bwyd a chrefftau) a rhoi hwb i'r brand cysylltiedig ar gyfer y cynnyrch hwn.

4.7 Hoffai CSYM gael cadarnhad y bydd canolfan ymwelwyr ar gael drwy gydol y camau adeiladu a gweithredu ac y bydd y cyfleuster yn ystod y cam adeiladu yn cael ei ddylunio i fod yn atyniad i dwristiaid sy’n addas ar gyfer tywydd gwlyb, nid llwyfan gwylio yn unig.

## 5. Priffyrdd, Trafnidiaeth a Seilwaith

### *Strategaeth Traffig a Thrafnidiaeth*

5.1 Er bod y Strategaeth Traffig a Thrafnidiaeth yn ddefnyddiol o ran pennu bwriadau cyffredinol, roedd CSYM yn disgwyl bod mewn sefyllfa i roi sylwadau ar Strategaeth Rheoli Teithio gynhwysfawr a fyddai'n rhoi manylion mewn perthynas â symudiadau traffig arfaethedig (ar gyfer pob math perthnasol) a rheoliadau o ran cerbydau, gweithwyr, mewnforio ac allforio prif swmp y deunyddiau adeiladu, deunyddiau cloddio a gwaith cloddio mawr, yn ogystal â deunyddiau lefelu a gofynion o ran cefnogi'r safle ategol. Dylai'r strategaeth ddarparu manylion ynghylch monitro perfformiad yn erbyn targedau, a'r mecanweithiau a fydd yn cael eu rhoi ar waith os na fydd y lefel perfformiad yn cael ei bodloni. Mae angen ystyried symudiadau yn ystod cyfnodau segur hefyd. Mae angen paratoi Cynlluniau Teithio a chytuno arnynt.

5.2 Fel y cynghorwyd eisoes, dylid darparu manylion y cyfleusterau ar y safle a fydd ar gael i'r gweithwyr/contractwyr oherwydd bydd y rhain yn effeithio ar symudiadau traffig.

5.3 Mae CSYM yn cydnabod bod gan Horizon darged rhannu ceir o 2.0 weithiwr i bob car ar gyfer y prosiect. Mae diffyg tystiolaeth i ddangos y byddai sicrhau bod 2.0 o bobl yn
rhannu car ledled y prosiect yn gyraeddadwy neu'n realistig, ac mae angen manylion y mentrau y bydd Horizon yn eu cynnig ei weithwyr i annog rhannu ceir.

5.4 Mae diffyg tystiolaeth i ddangos bod cronfa ddata rhannu ceir, sy'n cofnodi patrymau shifft dyddiol pob gweithiwr a lleoliad ei gartref, ac wedyn yn paru gweithwyr a allai rannu ceir, wedi cael ei ddefnyddio'n llwyddiannus yn y gorffennol, yn enwedig gyda Phrosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol tebyg. Mae angen manylion ynghylch sut bydd Horizon yn gorfodi gweithwyr i gofrestru eu lle ar y gronfa ddata. Dylid cael mesurau lliniaru wrth gefn rhag ofn na fydd y gronfa ddata yn llwyddo i gyrraedd ei thargedau o ran rhannu ceir. Gallai mesurau lliniaru olygu safleoedd parcio a rhannu mewn mannau strategol, a allai olygu bod gweithwyr yn gallu gwneud trefniadau anffurfiol i rannu ceir ar y daith i Ddalar Hir neu i brif safle'r prosiect.

5.5 Mae angen cadarnhau nifer y mannau parcio a fydd yn cael eu darparu ym mhrif safle'r prosiect, a sut bydd Horizon yn llwyddo i ddidoli pwy sy'n defnyddio'r mannau parcio ar y prif safle ac yn Nalar Hir. Mae angen manylion ynghylch nifer y mannau parcio a fydd yn cael eu darparu ac a fyddant yn amrywio dros amser i gyd-fynd â'r newid yn y galw. Os rhoddir y manylion mewn rhannau eraill o'r cais, dylid croesgyfeirio.

5.6 Mae angen rhagor o wybodaeth mewn perthynas â'r ddarpariaeth parcio ceir ar y campws a manylion ynghylch sut bydd y gweithwyr yn teithio i'r safle.

5.7 Mae'r Datganiad Cynllunio yn cadarnhau y bydd cyfanswm o 400 o fannau yn cael eu darparu ar gyfer gweithwyr h.y. un i bob deg gweithiwr. Mae angen rhagor o esboniad arnom ynglŷn ag o ble mae'r nifer hwn wedi deillio, a fydd y parcio yn cael ei gyflwyno gam wrth gam, ac a fydd y mannau parcio yn rhai dros

dro/parhaol.

5.8 Mae angen cytuno ynghylch y posibilrwydd o gael Cerbydau Trwm yn danfon nwyddau y tu allan i oriau gweithio arferol. Mae CSYM yn disgwyl gweld rhagor o wybodaeth yn cael ei darparu ynglŷn â nifer y cerbydau a fydd yn dod i'r safle a sut byddant yn cael eu rheoli, a hynny cyn darparu'r Cyfleuster Dadlwytho Morol, y gwelliannau i'r A5025 a'r cyfleuster Parcio a Theithio.

5.9 Mae angen eglurder ynglŷn ag amlder, amserlen, llwybrau a chapasiti'r ddarpariaeth bysiau.

5.10 Mae Horizon wedi defnyddio gwybodaeth o wefan prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru y National Grid i gael amcan o raddfa traffig adeiladu'r National Grid. Mae hyn yn annerbyniol oherwydd mae cywirdeb y data traffig sydd ar gael ar y wefan yn peri pryder i CSYM. Mae CSYM yn argymell bod Horizon yn cytuno'n ffurfiol bod y data traffig a fydd yn cael eu defnyddio ar gyfer modelu'r traffig gyda'r National Grid, a'r Asesiad sy'n ategu'r cais, yn cael eu diweddaru.

***Amseriad y seilwaith a Strategaeth y Blynyddoedd Cynnar***

5.11 Mae CSYM yn ei gwneud yn ofynnol bod asesiad yn cael ei gynnal o effeithiau tebygol y datblygiad ar y rhwydwaith priffyrdd yn ystod blynyddoedd cynnar y prosiect h.y. cyn gweithredu'r Cyfleuster Dadlwytho Morol a ffordd osgoi'r A5025. Mae CSYM yn gofyn am ragfynegiad o swm y traffig adeiladu ar gyfer pob chwarter, o ddechrau rhaglen adeiladu'r prosiect nes bydd ffyrdd osgoi'r A5025 yn agor a bod y Cyfleuster Dadlwytho Morol ar gael. Bydd hyn yn nodi lle mae'r effeithiau sylweddol i'w gweld yn fwyaf amlwg, a bydd modd asesu hyn fel rhan o Strategaeth y Blynyddoedd Cynnar. Bydd hyn yn nodi'r effeithiau amgylcheddol ac yn helpu i nodi trothwy derbyniol ar gyfer swm y traffig wedi'i lwybro ar hyd yr A5025 cyn agor y ffyrdd osgoi.

5.12 Dylai Horizon ddangos sut mae'n bwriadu sicrhau bod ffordd bresennol yr A5025 yn addas ar gyfer y dyfodol yn ystod camau cynnar y rhaglen adeiladu (yn enwedig y rhan o'r ffordd rhwng Adran 8 y gwelliannau i'r briffordd a ffordd fynediad bresennol Wylfa) i sicrhau bod y rhwydwaith yn gadarn ac i osgoi unrhyw amharu sylweddol ar ei rhaglen adeiladu .

5.13 Mae CSYM yn poeni, gan nad oes manylion Strategaeth Rheoli Teithio gynhwysfawr ar gael i roi sylwadau arnynt, ei bod yn bosibl y bydd yr A5025 ar hyd Pentraeth, Benllech, Amlwch i Gemaes, ac is-lwybrau i osgoi traffig, yn cael eu defnyddio gan y gweithwyr adeiladu. Mae CSYM yn gofyn am gadarnhad y bydd traffig ar is-ffyrdd yn cael eu monitro er mwyn atal llwybrau osgoi traffig.

5.14 Mae CSYM yn bryderus ynghylch a oes sicrwydd y bydd y Cyfleuster Dadlwytho Morol ar gael ac yn weithredol ar amser, ac mae'n gofyn am gadarnhad ynghylch pa mor aml fydd y Cyfleuster yn cael ei ddefnyddio. Mae CSYM yn cytuno mewn egwyddor y dylai'r Cyfleuster Dadlwytho Morol dderbyn 80% o'r deunyddiau, a bod asesiad yn cael ei gynnal i sicrhau nad yw'n derbyn dim llai na 60%. Dylid bodloni hyn drwy gydol y rhaglen adeiladu.

5.15 Mae angen cadarnhad ynghylch sut bydd y deunyddiau yn cael eu defnyddio yn ystod gwaith adeiladu'r Cyfleuster Dadlwytho Morol, a allai olygu darparu Cynllun Trafnidiaeth 'cyn y Cyfleuster Dadlwytho Morol'

(a fyddai’n cynnwys manylion ynghylch rheoli). Dylid darparu Cynllun Trafnidiaeth ‘ar ôl y Cyfleuster Dadlwytho Morol’ hefyd.

5.16 Mae angen eglurhad o beth fyddai'r cynllun wrth gefn pe bai oedi yng nghyswllt adeiladu’r Cyfleuster Dadlwytho Morol, neu’r gwelliannau i'r A5025 neu Ddalar Hir. Hefyd, mae angen manylion y mesurau wrth gefn a fydd yn cael eu rhoi ar waith os bydd Pont Britannia ar gau.

## 6. Y Gymraeg a'i Diwylliant

***Drafft o'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant ar gyfer Wylfa Newydd Awst 2017***

6.1 Yn ystod pob trafodaeth, mae CSYM yn datgan ei fod yn disgwyl bod yr iaith Gymraeg a'i Diwylliant yn cael eu trin fel thema hollgynhwysfawr ac edau aur sy'n sail i ystyriaethau o effeithiau a lliniaru ar gyfer pob agwedd ar brosiect Wylfa Newydd. Hefyd, mae'r iaith Gymraeg a'i diwylliant yn un o'r saith o nodau Llesiant y mae gofyn eu hystyried (yn ogystal ag egwyddorion datblygu cynaliadwy) wrth wneud penderfyniadau ynghylch y prosiect. Mae angen yr wybodaeth angenrheidiol ar y cyrff cyhoeddus, gan gynnwys CSYM, er mwyn iddynt allu cyflawni'r dyletswyddau hyn yng nghyswllt Wylfa Newydd.

6.2 Hoffem atgoffa Horizon ein bod wedi argymell yn flaenorol bod adran yn cael ei chynnwys ym mhob pennod o'r DCO a gyflwynir sy'n rhoi sylw i'r goblygiadau a gaiff y thema benodol honno o'r Datganiad Amgylcheddol ar yr iaith Gymraeg.

6.3 Mae CSYM yn gwerthfawrogi bod Horizon yn derbyn y bydd mewnlifiad o weithwyr adeiladu di-Gymraeg yn lleihau cyfran y Siaradwyr Cymraeg. Fodd bynnag, bydd effaith, ac felly'r camau lliniaru priodol ar gyfer y mewnfudo hwn, yn dibynnu ar nifer y gweithwyr sy'n mewnfudo, eu dibynyddion, eu lleoliad, y lleoedd sydd eu hangen mewn ysgolion, faint o ryngweithio fydd â'r cymunedau lle maent yn byw a hyd eu harhosiad.

6.4 Mae gan CSYM bryderon sylweddol ynglŷn â chynnwys fersiwn diwygiedig y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant oherwydd mae rhai o'r cynigion lliniaru a groesawyd gennym yn fersiwn Mawrth 2017 y Strategaeth wedi cael eu diwygio/gwanhau a rhai wedi cael eu gadael allan heb dystiolaeth i gefnogi'r newidiadau hyn.

6.5 Ers mis Mawrth 2017, mae'r rhaglen wedi dwysáu yng ngogledd yr ynys, ac mae bellach nodi y bydd 4000 o weithwyr yn cael llety yng nghampws y safle. Mae CSYM wedi mynegi pryderon am y gostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal hon yn barod, a gallai'r cynigion hyn ddwysáu'r sefyllfa, a fyddai'n golygu mewnlif o weithwyryn dod i ogledd yr ynys gyda'u teuluoedd. Mae'n hanfodol bod Horizon yn darparu rhagor o wybodaeth am gynigion Rheoli Gweithwyr.

6.6 Mae CSYM hefyd yn bryderus oherwydd bod geiriad y ddogfen hon wedi newid o ymrwymiad i ystyriaeth mewn sawl enghraifft.

6.7 Mae'r enghreifftiau o hepgor ymrwymiadau yn fersiwn mis Mawrth 2017 o'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant yn cynnwys;

a. ymrwymiad i gynnwys targed ieithyddol ar gyfer pob swydd berthnasol;
b. ymrwymiad i gynnwys cwrteisi ieithyddol ar gyfer holl staff adeiladu a gweithredu Wylfa Newydd;
c. ymrwymiad i fod yn rhagweithiol wrth annog staff i ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg drwy gyrsiau hyfforddi, ac

d. ymrwymiad i ddefnyddio gwerthusiadau gweithwyr i sefydlu'r sgiliau sy'n ofynnol ar gyfer rolau penodol.

6.8 Mae'r enghreifftiau o hepgor camau gweithredu yn fersiwn mis Mawrth 2017 o'r Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant yn cynnwys;

a. Sicrhau bod Menter Newydd a chyflenwyr yn Haen 2 ac is yn darparu gwybodaeth am eu capasiti iaith Gymraeg a sut byddant yn dilyn polisi iaith Gymraeg Horizon;
b. Sicrhau bod Menter Newydd a chyflenwyr ym mhob haen yn cael eu hannog i gynnig gwasanaeth dwyieithog mewn rolau cyhoeddus;
c. Modiwl hyfforddiant ar gyfer annog arweinyddiaeth gymunedol a sgiliau integreiddio ieithyddol; ac
d. Ariannu prosiectau cymunedol.

6.9 Mae'r broses wanhau a chrynhoi yn tanseilio tryloywder a chyfreithlondeb y strategaeth ddiwygiedig gan fod hyn wedi'i wneud heb gyfeirio at y Grŵp Llywio a sefydlwyd gan Horizon er mwyn ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol.

6.10 Mae angen manylion ynghylch sut yn union y bydd Grŵp Llywio'r Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg yn datblygu i fonitro ac asesu'r holl gynnydd yn annibynnol.

6.11 Mae'n siom bod rhaid nodi, er bod Horizon wedi ymrwymo i gasglu data am deuluoedd sy'n symud i'r ardal, nad yw wedi gwneud ymrwymiad o'r fath i gasglu data am sgiliau iaith ei weithlu na diweddaru'r data hwn o dro i dro. Mae'r wybodaeth waelodlin hon yn hanfodol er mwyn sefydlu gwaelodlin ar gyfer y Strategaeth Sgiliau Iaith. Byddai'r dull gweithredu hwn yn helpu Horizon i fesur cynnydd ei weithlu o ran sgiliau iaith.

6.12 Mae natur a chymhlethdod y prosiect yn tynnu sylw at yr angen am gronfa benodol ar gyfer amgylchiadau annisgwyl. Mae'n rhaid i'r ymateb lliniaru fod yn ddigon hyblyg i ymateb ar frys pan fydd angen.

6.13 Mae angen ystyried dwysâd y prosiect yng ngogledd Ynys Môn o safbwynt yr iaith Gymraeg er mwyn gweithio'n agos â theuluoedd i hybu integreiddio a lleihau tensiynau yn y gymuned. Mae angen cael rhaglen dreigl i gyllido Swyddog Gweithgareddau Cymunedol Dwyieithog yn nalgylch pob ysgol uwchradd (5 swydd). Dylai'r rhaglen gael ei hymestyn i weddill yr Ynys ar ôl hynny.

6.14 Mae CSYM yn bryderus ynghylch y diffyg ymrwymiad a ffocws i uwchraddio cyfleusterau STEM mewn ysgolion. Mae hyn yn hanfodol o safbwynt iaith Gymraeg i sicrhau bod disgyblion lleol sy'n astudio'r pynciau hyn yn ddwyieithog yn cael cyfleusterau o'r radd flaenaf er mwyn symud ymlaen yn llwyddiannus i addysg bellach ac uwch a bod mewn sefyllfa yn y pen draw i gystadlu am gyfleoedd gwaith yn Wylfa Newydd.

6.15 Mae CSYM yn cefnogi ymrwymiad y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant i benodi Cydlynydd yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant er mwyn helpu i ddatblygu rhaglen weithredu y cytunwyd arni, ei rhoi ar waith a'i monitro. Ond rydym yn siomedig iawn nad yw'r broses recriwtio wedi dechrau eto. Mae CSYM eisoes wedi cadarnhau yn ein hymateb i PAC3 y byddem yn fodlon darparu unrhyw gefnogaeth neu gyfraniad yng nghyswllt y broses recriwtio, a gofynnwyd am gyfle i adolygu a chyflwyno sylwadau ar y disgrifiad swydd cyn hysbysebu'r rôl hon. Cred CSYM bod gofyn i ddeiliad y swydd fod ar lefel uwch er mwyn i'r rôl gael unrhyw ddylanwad.

6.16 Mae angen ymrwymo i ddechrau rhoi rhai mesurau lliniaru ar waith yn gynnar er mwyn caniatáu digon o amser paratoi e.e. y ddarpariaeth beripatetig ar gyfer trochi iaith.

6.17 Mae angen buddsoddiad ac ymyrraeth ar unwaith er mwyn cynllunio'r trefniadau lliniaru'n effeithiol, gan ganolbwyntio'n benodol ar ogledd yr ynys.

## 7. Addysg a Sgiliau

### *Strategaeth Swyddi a Sgiliau*

7.1 Mae CSYM yn cydnabod y gall y prosiect gynnig cyfleoedd sylweddol i'r economi leol. Bydd creu swyddi yn cael effaith gadarnhaol ar unwaith, a gallai buddsoddi mewn sgiliau a hyfforddiant roi hwb i'r economi o ran cyflenwi drwy hybu cronfa lafur fwy gyda lefelau cynhyrchiant uwch. Hefyd, dylai bod gallu cwmnïau ac unigolion i ennill profiad cysylltiedig ag adeiladu niwclear yn darparu cyfleoedd tymor hirach i sicrhau contractau cynnal a chadw ar gyfer Wylfa Newydd pan fydd yn weithredol, yn ogystal â gweithio ar adeiladau niwclear newydd yn y DU a thu hwnt. O ganlyniad i hynny, mae CSYM yn awyddus i bob rhanddeiliad weithio ar y cyd i gael y budd mwyaf posibl i'r gweithlu llafur lleol a busnesau lleol er mwyn helpu i drawsnewid yr economi leol a rhanbarthol.

7.2 Rydym yn croesawu'r Strategaeth Swyddi a Sgiliau ac ymrwymiad Horizon i weithio gyda darparwyr addysg lleol a rhanddeiliaid eraill er mwyn darparu hyfforddiant. Dylai datblygu Gwasanaeth Cyflogaeth a Sgiliau Wylfa Newydd, a'i rôl o ran helpu cwmnïau i ôl-lenwi swyddi, fod yn ddefnyddiol iawn.

7.3 Fodd bynnag, nid yw'r wybodaeth yn y Strategaeth wedi datblygu'n sylweddol ers PAC3 ac felly mae'r materion allweddol a godwyd yn dal yn berthnasol. Felly, mae CSYM yn dal yn bryderus ynglŷn â'r diffyg manylder yn y Strategaeth i egluro'n llawn a rhoi manylion ynghylch dull Horizon o ddelio â'r materion a godwyd. Does dim newidiadau amlwg wedi cael eu gwneud o ran amcanestyniadau PAC3 ac mae'n ymddangos nad yw cyfanswm y swyddi, y mathau o swyddi na chyfran y swyddi sy'n debygol o gael eu llenwi gan lafur lleol wedi newid ar gyfer y gweithluoedd adeiladu a gweithredu.

7.4 Yn benodol, rydym yn bryderus bod y strategaeth hon yn delio'n bennaf â cham adeiladu'r prosiect, nid y cam gweithredu.

7.5 Mae CSYM yn gofyn am gadarnhad o ran pryd fydd dadansoddiad manwl o nifer y swyddi amcangyfrifedig yn ystod y cam adeiladu ar gael. Mae'r cynllun cam wrth gam ar gyfer y galw am weithlu yn hollbwysig er mwyn deall pa sgiliau y bydd galw amdanynt.

7.6 Mae CSYM a Horizon yn cydnabod y bydd ansicrwydd a heriau o ran rhagamcanu, cynllunio a chyflawni cyfleoedd am hyfforddiant yng nghyswllt cyflogaeth a sgiliau a fydd yn cael eu creu gan y prosiect. Fodd bynnag, mae meysydd sy'n cynnwys y cyflenwad a'r galw o ran sgiliau a hyfforddiant wedi'u cyfuno ag asesiad o allu o fewn y system hyfforddi bresennol, a fyddai'n helpu i gryfhau'r mesurau lliniaru gofynnol a dangos ymrwymiad Horizon i fynd ati'n well i sicrhau etifeddiaeth economaidd gadarnhaol.

7.7 O ystyried yr ansicrwydd y cyfeirir ati yn y ddogfen, mae angen darparu mesurau lliniaru digonol ar ffurf cyllid ac adnoddau staff er mwyn sicrhau bod y defnydd gorau'n cael ei wneud o gyfleoedd i uwchsgilio a chynyddu cyfran y llafur sy'n lleol.

7.8 Dylid darparu gwybodaeth ychwanegol mewn perthynas â’r lleoedd hyfforddi a fydd yn cael eu darparu fesul blwyddyn, cwrs a lefel sgiliau. Bydd y manylion ychwanegol ynghylch pa mor fawr fydd y broblem ôl-lenwi swyddi yn cynnwys sut bydd Horizon yn monitro'r gofynion ar gyfer ôl-lenwi, a pha mor aml y bydd y gwaith monitro hwn yn digwydd. Dylid darparu rhagor o fanylion mewn perthynas â’r Canolfannau Gwasanaeth/Bwrdd Rheoli oherwydd fe ystyrir mai’r rhain yw’r fecanwaith ar gyfer monitro. Hefyd, mae angen deall sut bydd y monitro yn rhaeadru i lawr i'r gadwyn gyflenwi. Mae CSYM hefyd yn dymuno cael cadarnhad o ran yr hyn mae Horizon yn ei ddisgwyl fydd rôl y Gwasanaeth Cyflogaeth a Sgiliau.

7.9 Byddai’n fuddiol pe bai CSYM a Gogledd Cymru yn cael golwg ehangach o'r galw a’r cyflenwad o ran sgiliau ar Ynys Môn, sy’n ystyried yr amcanestyniadau ar gyfer twf y sector, y galw am amnewid a’r stoc sgiliau a’i lif. Byddai hyn yn helpu i bennu a oes digon o hyfforddiant yn cael ei gynnig, a yw dadleoli yn debygol ac a ddylai colegau AB ac Addysg Uwch newid eu ffocws. Byddai’r wybodaeth hon hefyd yn ddefnyddiol i blant ysgol wrth ddewis addysg a gyrfaoedd yn y dyfodol.

7.10 Mae angen cydnabod bod dadleoli yn mynd i fod yn broblem yn ystod y cam adeiladu. Er bod CSYM yn cydnabod y gallai dadleoli fod yn gadarnhaol, bydd hyn yn cael ei ystyried yn achos o ddwyn swyddi yn lleol ymhlith rhai meysydd gofodol a grwpiau o sgiliau. Mae CSYM yn gofyn am gadarnhad bod y strategaeth yn gwthio dadleoli / dwyn swyddi mor ddwfn ac mor bell ymlaen yn y cam adeiladu ag y bo modd. Dylai’r Strategaeth roi amcan clir o lefel y dadleoli yn yr economi leol. Mae angen eglurder ynghylch cyfraddau cyflogau er mwyn deall effeithiau posibl y dadleoli. Oherwydd bod cyflogau ar Ynys Môn eisoes yn isel, mae dadleoli yn broblem go iawn, ac mae’n dal yn peri pryder i’r Cyngor ac i fusnesau lleol.

7.11 O safbwynt cadwyn gyflenwi, nid yw’r ddogfen hon wedi cael ei datblygu ddigon ers PAC3 i roi hyder i ni fod unrhyw bryderon wedi cael sylw. Dylid rhannu ‘Cynllun Gweithredu'r Gadwyn Gyflenwi’ Horizon.

7.12 Mae CSYM yn gofyn am ragor o eglurder o ran cyfraniad llafur lleol. Mae’r ddogfen yn nodi y bydd cyfraniad llafur lleol yn ystod y cam adeiladu ar Ynys Môn yn is na’r gyfran ar gyfer Hinkley Point C (34%). Amcangyfrifir y bydd 22% o gyfraniad lleol ar sail y mathau o swyddi sydd ar gael. Nid yw’n glir pam nad yw’r amcan blaenorol o 25% yn ymarferol, yn enwedig gan ystyried y nifer fawr o swyddi sydd ar gael ar gyfer ‘y gwasanaethau ar y safle, diogelwch a staff clerigol’ a’r cyfle i hyfforddi pobl leol ychwanegol drwy'r Strategaeth Swyddi a Sgiliau. Mae gwaith paratoi gan HNP, adolygiadau o dystiolaeth flaenorol o brosiectau seilwaith mawr eraill, a’r gwahaniaethau mewn deinameg marchnadoedd llafur yn awgrymu y dylid defnyddio targed uwch.

7.13 Mae angen rhagor o fanylion ynghylch sut bydd y 1,000 o swyddi ychwanegol, a fydd ar gael yn ystod cyfnodau segur er mwyn ail-lenwi tanwydd a gwneud gwaith chynnal a chadw, yn cael eu llenwi; ac a fydd y rhain ar gael i weithwyr lleol neu’n cael eu llenwi gan gontractau'r gadwyn gyflenwi. Mae angen y manylion hyn oherwydd bydd y mewnlifiadau rheolaidd o 1,000 o weithwyr dros dro yn achosi effeithiau sylweddol ar eu pen eu hunain, ac mae swyddi dros dro i bobl leol yn achosi effeithiau gwahanol, yn enwedig yn y farchnad lafur leol.

7.14 Mae’r asesiad o’r llafur gweithredol lleol wedi’u bennu’n 45% ond, gyda mesurau lliniaru, disgwylir y bydd hyn yn cyrraedd 85%. Dylai’r sylfaen dystiolaeth adlewyrchu lefel yr uchelgais, a dylai’r lefel hon gael ei chynnwys fel ymrwymiad gyda mecanweithiau cyflawni priodol.

***Strategaeth Addysg***

7.15 Hoffai CSYM gael cadarnhad ynghylch pryd fydd Strategaeth Addysg wedi’i diweddaru ar gael.

7.16 Mae Horizon wedi asesu nad yw’r effaith ar ysgolion cynradd yn arwyddocaol. Does dim mesurau lliniaru y tu hwnt i'r Gronfa Effaith Gymunedol, a fyddai'n neilltuo arian pe bai’r monitro’n dangos bod y galw’n fwy na’r capasiti (gan ddadlau y byddai datblygwyr tai yn cynnwys mesurau lliniaru o ganlyniad i ddatblygiadau newydd). Mae CSYM yn nodi eto bod gormod o geisiadau ar gyfer ysgolion cynradd ledled yr Ynys fel y mae. Mae'r cynnydd yn y galw am leoedd mewn ysgolion a ragwelir tan 2025 yn golygu y bydd angen rhoi cynigion ar waith i liniaru’r cynnydd yn y pwysau ar adnoddau’r Awdurdod Addysg a fyddai’n dod yn sgil cyflogaeth y prosiect.

## 8. Iechyd a Lles

8.1 Fel y nodwyd eisoes, mae CSYM o'r farn bod rhaid i wybodaeth fanwl am y prosiect gael ei darparu er mwyn galluogi'r Cyngor a chyrff rhestredig eraill i wneud penderfyniadau gwybodus, gan roi ystyriaeth lawn i'r dyletswyddau llesiant statudol (yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy yn benodol) a'r 7 Nod Llesiant Cenedlaethol. Rhaid i Horizon ddarparu'r wybodaeth angenrheidiol i'r Cyngor, i Lywodraeth Cymru ac i'r Ysgrifennydd Gwladol er mwyn cydymffurfio â'r gofyniad statudol.

8.2 Mae CSYM o'r farn bod gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn berthnasol i'r cais cyfan ac rydym yn parhau i argymell yn gryf bod y datblygiad yn cael ei ystyried o safbwynt fframwaith deddfwriaethol llesiant. Mae hyn yn golygu bod llesiant yn cael ei drin fel thema hollgynhwysfawr sy'n sail i ystyried effeithiau a mesurau lliniaru pob agwedd ar y prosiect.

8.3 Mae CSYM o'r farn bod angen dwy elfen wrth asesu anghenion llesiant, a fyddai'n cynnwys ystyried camau adeiladu a gweithredu'r prosiect.

***Asesiad o'r Effaith ar Iechyd***

8.4 Mae CSYM yn fodlon bod yr Asesiad yn cynnwys yr holl elfennau sy'n angenrheidiol mewn Asesiad Cynhwysfawr o'r Effaith ar Iechyd. Mae'n nodi'n glir y fframweithiau polisi amrywiol, y prosiect ei hun a grwpiau agored i niwed penodol. Caiff effeithiau ar iechyd eu hystyried yng nghyswllt 'Penderfynyddion Iechyd Ehangach' sy'n cynnwys materion yn ymwneud â llesiant. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn ategu'r Adroddiad Interim ar yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd, a oedd yn cynnwys proffil iechyd cyhoeddus yr Ardal ac yn mynd ymlaen i ddarparu disgrifiad o'r effeithiau o ran iechyd a'r mesurau lliniaru arfaethedig.

8.5 Rydym yn croesawu'r maes gwaith penodol hwn a byddwn yn parhau i ddatblygu wrth symud ymlaen, yn bennaf drwy sefydlu Grŵp Monitro Iechyd a Lles a fydd yn ystyried data monitro perthnasol i'r prosiect a phryd y cytunir ar set o ddangosyddion a phynciau allweddol.

8.6 Rydym yn croesawu'r ymrwymiad y bydd Horizon yn hwyluso'r broses bwrpasol o ddadansoddi data iechyd cyhoeddus sy'n berthnasol i'r prosiect ac yn cael ei gasglu'n rheolaidd. Byddai'r wybodaeth hon yn dylanwadu ar drafodaethau'r Grŵp Monitro Iechyd a Lles. Os bydd hynny'n ofynnol, bydd y grŵp yn trafod yr angen am fesurau lliniaru ychwanegol neu ymchwiliad dilynol. Mae hyn yn ychwanegu at waith y Grŵp Llywio, sy'n cael ei gadeirio'n annibynnol gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar hyn o bryd. Mae CSYM o'r farn y dylai cadeirydd y Grŵp gael ei enwebu gan y Grŵp.

8.7 Mae CSYM yn argymell bod Horizon yn defnyddio Asesiadau Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus fel sylfaen wrth symud ymlaen gydag Asesiad o Anghenion y Boblogaeth yng Ngogledd Cymru.

8.8 Mae angen deall yn glir beth fydd y pwysau ar wasanaethau gofal iechyd lleol a chynradd, yn ogystal â deall yn llawn beth fydd y gofynion yng nghyswllt y Gwasanaethau Brys?

8.9 Yn amodol ar gytundeb gyda phartneriaid, mae CSYM yn cytuno mewn egwyddor â'r awgrym y dylai Horizon ei gwneud yn ofynnol bod gweithwyr adeiladu yn cofrestru â gwasanaethau meddygol a gofal iechyd ar y safle, a blaenoriaethu hynny yn hytrach na defnyddio gwasanaethau cymunedol y GIG.

***Adroddiad Cydlyniant Cymunedol***

8.10 Dylai Cydlyniant Cymunedol ddod o dan gylch gwaith y Grŵp Monitro Iechyd a Lles.

8.11 Mae CSYM wedi adolygu'r Adroddiad Cydlyniant Cymunedol. Mae angen cadarnhau a fyddai'r gweithwyr ar gampws y safle yn cael mynediad at eu cerbydau. Os byddan nhw, bydd y gweithwyr yn symudol ac yn fwy tebygol o ryngweithio â'r gymuned leol a'i thrigolion. Mae hyn yn codi materion diogelu na fyddai'r Cod Ymddygiad o reidrwydd yn mynd i'r afael â nhw.

8.12 Mae angen rhagor o ddealltwriaeth o'r mesurau y mae angen eu rhoi ar waith i leihau'r effeithiau i'r graddau mwyaf posibl a'u lliniaru, ac fe fyddai CSYM yn argymell bod rhagor o waith yn cael ei gomisiynu gyda chymorth Prifysgol Bangor.

8.13 Mae CSYM o blaid datblygu Canolfan Gymunedol yng Nghemaes. Dylai'r Ganolfan fod yn ganolbwynt ar gyfer gweithgareddau i breswylwyr yn ystod y dydd, yn enwedig y rheini sydd â nodweddion gwarchodedig. Dylai hefyd fod yn ganolfan i Weithwyr Cysylltu â'r Gymuned sydd wedi'u penodi gan Horizon, ac yn ganolfan dros dro i CSYM a gweithwyr asiantaethau partner eraill.

8.14 Dylid cyflogi Swyddog Cymorth Cymunedol pwrpasol i hwyluso digwyddiadau sydd wedi'u trefnu. Dylid cynnig cludiant i'r rheini sy'n cael trafferth teithio i'r ganolfan.

***Adroddiad ar yr Effaith ar Gymunedau***

8.15 Mae CSYM yn croesawu'r Adroddiad o'r Effaith ar Gymunedau. Fodd bynnag, ar ei ffurf bresennol, mae'n cyfeirio at gynigion ynghylch materion, effeithiau a mesurau lliniaru yn hytrach na'u datgan yn yr asesiadau thematig amrywiol. Drwy eu casglu at ei gilydd mewn un ddogfen, mae modd eu hystyried mewn modd gofodol.

8.16 Yn yr Adroddiad o'r Effaith ar Gymunedau mae Horizon yn cydnabod yn glir bod eu cynigion diweddaraf ar gyfer y prosiect wedi dwysáu'r gwaith datblygu yng Ngogledd Ynys Môn a bod angen cynnal asesiad o'r effeithiau ar y cymunedau hyn a gweddill Ynys Môn.

8.17 Does dim modd gwneud asesiad llawn o'r Adroddiad o'r Effaith ar Gymunedau nes bydd CSYM yn deall yn llawn sut bydd y gweithlu yn cael ei reoli.

8.18 Nodir bod tystiolaeth Waelodlin yn cael ei defnyddio ond does dim dadansoddiad o gyflwr presennol Ynys Môn ac Ardaloedd Astudiaeth unigol wedi cael ei gynnal. Mae hyn yn hanfodol er mwyn deall ‘cyflwr presennol y sefyllfa’ mewn ardaloedd cyn ystyried eu capasiti/gallu i dderbyn/delio ag effeithiau’r prosiect a phrosiectau eraill arfaethedig.

8.19 Nodir bod prosiect Wylfa newydd yn cwmpasu dau faes astudio, ond ni chaiff hyn ei adlewyrchu wrth ystyried yr effeithiau lleol a’u mesurau lliniaru penodol.

## 9. Yr Amgylchedd

### *Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Tre'r Gof*

9.1 Mae anghysondeb sylweddol rhwng yr asesiadau ecoleg a hydroleg a'r casgliadau cyffredinol ar hyn o bryd. Mae'n ymddangos ei bod yn debygol y bydd SoDdGA Tre'r Gof yn cael ei golli neu ei niweidio'n barhaol o ganlyniad i'r datblygiad, ond nid oes ymchwil digonol wedi cael ei wneud i hyn ac nid yw manylion yr iawndal arfaethedig yn cael ei ddarparu. Mae angen darparu manylion ynghylch sut bydd newidiadau i'r safle yn cael eu monitro ac ynghylch amseru'r iawndal a fydd yn creu ac yn gwella cynefinoedd corsiog i wrthbwyso'r effeithiau niweidiol posibl ar SoDdGA Tre'r Gof.

9.2 Yng nghyswllt campws y safle, does dim ystyriaeth sylweddol yn cael ei rhoi i'r effeithiau posibl ar y pwysau mae ymwelwyr yn ei roi ar dderbynyddion ecolegol lleol o ganlyniad i gael 4000+ o weithwyr yn byw yn y cyffiniau, gan gynnwys yr effeithiau posibl ar frain coesgoch sy'n bridio a'u defnydd o'r mannau porthi cydadferol arfaethedig yn Nhrwyn Wylfa.

### *Sŵn*

9.3 Mae'r cais yn cydnabod bod y llety gweithwyr dros dro yn dderbynnydd sensitif i sŵn. Felly, mae'n rhaid i unrhyw fesurau lliniaru arfaethedig ar gyfer campws y safle fod yn gadarn iawn er mwyn sicrhau nad yw iechyd a diogelwch y gweithwyr yn cael eu rhoi yn y fantol o ganlyniad i ddyluniad adeiladu annigonol, a allai arwain at lefelau annerbyniol o sŵn yn fewnol.

9.4 Mae'r cais yn cyfeirio at fesurau lliniaru sŵn ychwanegol a allai fod yn ofynnol yn sgil y canlyniadau monitro sŵn. Mae CSYM yn gofyn am eglurder ynghylch pa mor gyflym fyddai mesurau lliniaru ychwanegol yn dod i rym pe bai'r angen amdanynt yn codi, a sut byddai hyn yn cael ei fonitro.

9.5 Mae angen eglurhad ynghylch sut gall y mesurau lliniaru perthnasol fod o fudd i dderbynyddion pan mae'n bosibl y bydd y sŵn sy'n amharu wedi dod i ben cyn gallu eu rhoi ar waith.

### *Ansawdd yr Aer*

9.6 Mae CSYM yn argymell bod Horizon yn ymgorffori'r newidiadau sylweddol i bolisïau yn sgil Canllawiau Polisi Cymru ar Reoli Ansawdd Aer Lleol (Mehefin 2017). Mae'r rhain yn cynnwys canllaw o werth Sefydliad Iechyd y Byd, sef 10µg/m3. Mae'r polisi newydd yn rhoi pwyslais mawr ar gyflawni amcanion Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

9.7 Mae CSYM yn parhau i alw ar Horizon i ymrwymo i fabwysiadu Amcan Blynyddol Sefydliad Iechyd y Byd ar gyfer PM2.5, yn enwedig o ystyried ymrwymiad Llywodraeth y DU i leihau crynodiadau o'r llygrydd hwn. Ar hyn o bryd, mae lefel y cysylltiad ar Ynys Môn yn llawer is na throthwy Sefydliad Iechyd y Byd a gallai'r cynnydd mewn PM2.5 esgor ar effeithiau iechyd.

9.8 Mae CSYM o'r farn y bydd llety'r gweithwyr yn gysylltiad perthnasol ar gyfer y cyfanswm cyfartalog yn y tymor hir a'r tymor byr. Mae angen cydnabod bod campws y safle yn dderbynnydd perthnasol ac mae angen cyfeirio'n fwy clir at y llwch posibl a'r effeithiau posibl ar iechyd ar gampws y safle.

9.9 Hoffai CSYM gytuno ar drothwy priodol ar gyfer llwch. Bydd angen i hyn fod yn seiliedig ar gynnydd penodol uwch na'r crynodiadau cefndirol presennol.

***Dŵr Ymdrochi Cemaes***

9.10 Drwy gydol ei ymatebion i'r ymgynghoriad, mae CSYM wedi codi'r mater bod angen asesu effeithiau posibl y prosiect ar Ddŵr Ymdrochi Cemaes. Mae angen rhoi mesurau lliniaru ar waith i atal gwaddodi yn y bae er mwyn cynnal ac, os yw'n bosibl, gwella ansawdd dŵr y bae. Mae angen dylunio mesurau o'r fath i ymdopi â glaw trwm.

9.11 Mae'r Asesiad o Ganlyniadau Llifogyddv wedi nodi bod risg gymedrol o lifogydd afonol (o gyrsiau dŵr) mewn eiddo yng Nghemaes, a bod risg uchel o lifogydd plwfial (llifogydd dŵr wyneb) mewn eiddo i fyny'r afon o Gemaes yn ystod y cam adeiladu. Byddai hyn yn ychwanegu at yr effeithiau cyfun sydd eisoes wedi'u nodi yn yr ardal hon.

9.12 Fe wnaeth CSYM ragdybio y byddai'r risg o lifogydd yma a gafodd ei gadarnhau, ynghyd â rhagor o symudiadau llongau, yn arwain at dyrfedd cynyddol yn y Bae yng Nghemaes, ac felly rydyn ni wedi synnu nad yw'r asesiad wedi ystyried yr effeithiau ar Ddŵr Ymdrochi'r UE, a gafodd sgôr Gwael yn 2017. Mae hyn yn peri pryder, yn arbennig o gofio y gellid cael gwaddod ffo uchel ar ôl iddi lawio ar arwynebau moel y ddaear sy'n agored i'r elfennau (llain uwchbridd, gwaith cloddio mawr, twmpathau a storfeydd). Ynghyd â chynnydd o ran pa mor serth yw arwynebau'r ddaear, gallai hyn gynyddu'r dŵr ffo sy'n mynd i mewn i ffrwd Traeth Bach, sy'n llifo i mewn i Fae Cemaes.

9.13 Mae angen i'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd gyfeirio at Ddŵr Ymdrochi'r UE ym Mae Cemaes. Mae CSYM yn gwybod bod Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Arolygiaeth Gynllunio wedi codi'r pryder hwn yn eu hymateb cwmpasu hwythau. Mae'n hollbwysig bod yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn sicrhau nad yw'r datblygiad arfaethedig yn cael effaith negyddol ar Ddŵr Ymdrochi'r UE ym Mae Cemaes (o ganlyniad i ragor o symudiadau llongau a thyrfedd ac ati).

9.14 Does dim mesurau lliniaru wedi cael eu cynnig i fonitro a chynnal a chadw Dŵr Ymdrochi'r UE yng Nghemaes.

## 10. Adroddiad Dethol Safleoedd

***Dalar Hir***

10.1 Mae'r fethodoleg ar gyfer dewis safle yn rhesymegol ar y cyfan ond mae gan CSYM nifer o bryderon ynghylch y broses o ddewis safle. Fel y cadarnhawyd yn ein hymateb i PAC3, mae CSYM yn dal yn gwrthwynebu Dalar Hir oherwydd nid yw’r cyfiawnhad na’r mesurau lliniaru ar gyfer y safle hwn wedi cael eu hasesu i raddau digonol.

10.2 Mae angen i Horizon edrych ar fwy nag un safle Parcio a Theithio, ac yn enwedig safle/safleoedd parcio a theithio i ategu cyfleuster arfaethedig Dalar Hir. Mae CSYM yn dal yn rhagweld y bydd gweithwyr yn gwneud trefniadau anffurfiol i gwrdd â'i gilydd ger coridor yr A55, wrth gyffyrdd 6, 7 ac 8, ac ar y tir mawr fwy na thebyg, er mwyn rhannu car ar gyfer gweddill y siwrne – naill ai i’r prif safle neu i Ddalar Hir. Gallai ail faes parcio a theithio neu barcio a rhannu fod yn safle wrth gefn defnyddiol pe bai ffordd/pont ar gau.

10.3 Gan ystyried Hinkley, rydym yn bryderus bod Horizon yn amcangyfrif yn rhy isel y galw am barcio a’r effeithiau a allai godi yn sgil hynny. Mae Ynys Môn yn ynys unigryw a dylid hefyd ystyried cyfleusterau parcio ychwanegol ar raddfa lai mewn canolfannau poblog neu gerllaw.

***Cynllun Safle Wylfa Newydd***

10.4 Mae’r Adroddiad yn cadarnhau y bydd lleoliad y prif offer yn ceisio osgoi SoDdGA Tre'r Gof, Trwyn Wylfa a thwmpathau tirweddu y Fonesig Sylvia Crowe sydd eisoes yn bodoli. Fodd bynnag, dylid nodi bod y Penodau Ecoleg yn cadarnhau eu bod yn rhagweld y ceir effeithiau niweidiol arwyddocaol ar y nodweddion hyn.

## 11. Tirwedd, Treftadaeth Ddiwylliannol a Gweledol

11.1 Mae CSYM yn gofyn am gopi o'r Strategaeth Rheoli Tirwedd a Chynefinoedd cyn gynted â phosibl er mwyn ein galluogi ni i roi sylwadau ar ddigonolrwydd y cynigion lliniaru. Dylai'r Strategaeth Rheoli Tirwedd a Chynefinoedd fod yn berthnasol i gamau adeiladu a gweithredu'r datblygiad. Dylid hefyd cynnwys yr holl ddatblygiad arfaethedig sy'n rhan o'r DCO yn yr asesiad o effeithiau'r datblygiad ar nodweddion a rhinweddau arbennig yr AHNE, gan gynnwys gwaith ar ffordd yr A5025, campws y safle, ac ati.

11.2 Mae angen y Strategaeth hon er mwyn deall cydlyniad cyffredinol y cynigion lliniaru arfaethedig, yn enwedig mewn perthynas â cholledion ac enillion cyffredinol o ran cynefinoedd a'r amserlenni ar gyfer effeithiau; a yw'r cynigion yn cael eu cefnogi gan y data a ddarparwyd; a lle mae cyfuno'r cynigion lliniaru a data arolygon yn cefnogi casgliadau'r asesiad.

11.3 Dylid cydnabod y pwyslais sylweddol a roddir ar Gynllun Rheoli'r AHNE o ran pennu ceisiadau cynllunio (edrychwch ar Bolisi AMG 1 y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd).

11.4 Dylid cynnwys holl nodweddion yr AHNE yn yr asesiad, yn unol â'r hyn a gadarnhawyd yng Nghynllun Rheoli'r AHNE.

11.5 Mae CSYM yn disgwyl i'r Strategaeth Rheoli Tirwedd a Chynefinoedd gynnwys y cynigion lliniaru ar gyfer gwarchod a gwella tirwedd ddynodedig y Fonesig Sylvia Crowe.

### Asesiad o'r Effaith ar Asedau Treftadaeth

11.6 Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Asedau Treftadaeth yn cael ei ystyried yn ymarfer sgrinio yn hytrach nag asesiad llawn o'r effeithiau posibl. Drwy gynnwys cymaint o asedau heb eu dynodi, yn ogystal ag asedau dynodedig, ystyrir bod yr asedau sy'n peri pryder yn cael eu colli braidd yn y rhestr. Rydyn ni'n fodlon bod yr holl asedau sy'n peri pryder wedi cael eu cynnwys yn yr asesiad.

11.7 Byddai hefyd yn fuddiol gwahanu'r asesiadau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu i dablau ar wahân ar gyfer pob math ased.

11.8 Mae angen cynnwys rhagor o fanylion ynghylch cynigion lliniaru yn nogfen yr asesiad. Dylai cynigion lliniaru gynnwys arolwg ffotograffig ar gyfer y gwanwyn, yr haf, yr hydref a'r gaeaf; arolwg llawn o Erddi Cestyll i adnabod y planhigion sy'n bresennol a'u cyflwr; a chofnod/cofrestr wedi'i fapio o enwau caeau lle byddai gwaith tynnu ffiniau caeau arfaethedig yn cael ei gynnal.

**Llwybr yr Arfordir**

11.9 Mae Llwybr yr Arfordir yn bwysig iawn o ran darpariaeth hamdden, adloniant a thwristiaeth ar Ynys Môn (gan ei fod yn rhan o'r Llwybr Arfordir Cymru ehangach) ac mae'n bwysig bod darpariaeth y Llwybr Arfordirol yn ei gyfanrwydd yn cael ei ddiogelu - os nad ei wella - o ganlyniad i'r prosiect hwn.

11.10 Er bod cynigion sy'n ymwneud â hawliau tramwy cyhoeddus wedi bod yn gyson ar y cyfan rhwng PAC 2, PAC 3 a'r cynnig drafft hwn, mae'n siomedig fod Horizon wedi methu mynd i'r afael ag ymateb ac awgrymiadau'r Cyngor yng nghyswllt PAC2 a PAC3. Mae hefyd yn siomedig nad oes cyfarfod rhwng Pŵer Niwclear Horizon a Chyngor Sir Ynys Môn i drafod Hawliau Tramwy Cyhoeddus a Mynediad wedi cael ei gynnal ers mis Mawrth 2016.

11.11 Ar sawl achlysur, mae CSYM wedi pwysleisio pa mor bwysig yw sicrhau bod Llwybr yr Arfordir, yn ystod y cam gweithredu, mor agos â phosibl at y môr er mwyn cynnig y llwybr gorau posibl ar hyd yr arfordir, gyda gwell golygfeydd o'r môr. Mae CSYM yn awyddus i drafod llwybrau neu ddatrysiadau peirianyddol gwahanol i'r rhai a gynigir.

11.12 Mae CSYM yn gofyn bod Llwybr yr Arfordir yn cael ei adfer ar yr arfordir ar ôl cwblhau'r prif waith adeiladu.

11.13 Mae angen cytuno ar Gynllun Gweithredu Llwybr Troed gyda CSYM cyn cyflwyno'r DCO.

## 12. Effeithiau Cronnus

12.1 Nodir bod Horizon wedi darparu’r Asesiad o Effeithiau Cronnus i CSYM, sy’n cynnwys ystyriaethau yng nghyswllt Effeithiau o Fewn y Prosiect a Rhwng Prosiectau. Daeth yr Asesiad hwn i law tua diwedd ein hadolygiad o ddogfennau drafft y DCO ac felly nid ydym mewn sefyllfa i gyflwyno sylwadau ar yr Asesiad fel rhan o'r cyflwyniad hwn.

12.2 Rydym yn nodi bod cynigion ar gyfer Trydedd Croesfan wedi cael eu cynllunio yn yr Asesiad. Rydym yn deall y bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ynghylch y cynigion mae’n ei ffafrio yn gynnar yn 2018, ac felly fe ystyrir y dylai’r wybodaeth sydd ar gael fel rhan o'r ymgynghoriad gael ei defnyddio yn yr asesiad o effeithiau cronnus y prosiect.

12.3 Rydyn ni hefyd yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru yn cynnig disodli’r cylchfannau yng Nghyffordd 15 (Llanfairfechan) a Chyffordd 16 (Penmaenmawr) yr A55, a chael cyffyrdd wedi’u codi yn eu lle. Dylai'r cynigion hyn fod yn rhan o asesiad cronnus y prosiect oherwydd maent o fewn 90 munud i’r safle mewn cerbyd. Mae'r amserlenni ar wefan Llywodraeth Cymru yn nodi y bydd y broses statudol a’r ymgynghoriad cyhoeddus yn cael eu cynnal rhwng haf 2019 a hydref 2020, ac y bydd y dyluniad manwl a'r gwaith adeiladu yn cael eu cynnal rhwng hydref 2020 a hydref 2022.

12.4 Mae CSYM yn cynghori efallai y bydd angen pennu grŵp yn ystod 2018 i gyfarfod yn rheolaidd er mwyn deall amserlen/cynnydd y prosiectau sy’n cael eu cwmpasu yn yr asesiad. Pan fydd y prosiectau arfaethedig yn digwydd, ystyrir ei bod yn hanfodol cynnal asesiad cronnus digonol er mwyn rhoi sail i'r broses gwneud penderfyniadau.